



Cyfarfod

Y CYNGOR

Dyddiad ac Amser

1.30 y.h., DYDD IAU, 2AIL HYDREF, 2025

*** NODER ***

Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu

https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home

Lleoliad

Hybrid - Siambr Dafydd Orwig, Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon LL55 1SH

Pwynt Cyswllt

Annes Sion

01286 679018490

AnnesSion@gwynedd.llyw.cymru

(DOSBARTHWDYD Dydd Mercher, 24 Medi 2025)

Ian Jones

Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

www.gwynedd.llyw.cymru

DYDD MERCHER, 24 MEDI 2025

Annwyl Gynghorydd,

CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 2 HYDREF 2025

FE'CH GWYSIR TRWY HYN i gyfarfod aml-leoliad o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.30 y.h., DYDD IAU, 2AIL HYDREF, 2025 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, CAERNARFON LL55 1SH / RHITHIOL AR ZOOM**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig

Annibynnol – Siambr Hywel Dda

Grwp Llafur / Rhydfrydol – Ystafell Ogwen

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. COFNODION

5 - 21

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf, 2025 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

5. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

6. CWESTIYNAU

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.18 o'r Cyfansoddiad.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-25 22 - 43

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024-25 44 - 88

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol.

9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU 2024-25 89 - 118

Cyflwyno adroddiad Cadeirydd y Panel Strategol Diogelu.

10. ADRODDIAD BLYNYDDOL CRAFFU 2024-25 119 - 165

Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Craffu.

11. ADOLYGIAD O'R CYNLLUN DIRPRWYO 166 - 171

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

12. AROLYGON CYMUNEDOL O DAN DDEDDF LLYWODRAETH LEOL (DEMOCRATIAETH)(CYMRU) 2013 172 - 195

Cyflwyno adroddiad yr Aelod Cabinet Gwasanaethau Corfforaethol a Chyfreithiol.

13. RHYBUDDION O GYNNIG

(A) RHYBUDD O GYNNIG GAN Y CYNGHORYDD BECA ROBERTS

Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd Beca Roberts yn cynnig fel a ganlyn:-

1. Gan gydnabod fod y Pwyllgor Pensiynau wedi ac am roi sylw i'r materion yma fel rhan o adolygiad o'r Polisi Buddsoddi Cyfrifol fod y Cyngor yn gofyn i'r Pwyllgor a Partneriaeth Pensiwn Cymru i ystyried i pa raddau y gellir symud i gefnogi danfuddsoddi—mewn tanwydd ffosil cyn gynted a phosib fel rhan o'r dyhead i fod yn garbon sero net, mewn modd tryloyw ac atebol ac yn unol a'i dyletswyddau cyfreithiol at y gronfa.
2. Bod Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i sefydlu cynhadledd flynyddol ar fuddsoddi moesegol a chynaliadwy gyda golwg ar hyrwyddo'r defnydd gorau o'r cronfeydd sydd ar gael.

14. YMATEBION / DIWEDDARIADAU I RYBUDDION O GYNNIG BLAENOROL 196

Llythyr gan Lywodraeth Cymru mewn ymateb i Rybudd o Gynnig y Cynghorydd Elwyn Edwards i gyfarfod 3 Hydref, 2024 o'r Cyngor ynglŷn â Dydd Gŵyl Dewi.

CYFARFOD BLYNYDDOL Y CYNGOR 3/7/25

Yn bresennol: Y Cynghorydd Elin Walker Jones (Is-gadeirydd yn cadeirio).

Y Cynghorwyr:- Craig ab Iago, Beca Brown, Stephen Churchman, Glyn Daniels, Anwen Davies, Dafydd Owen Davies, Elwyn Edwards, Elfed Wyn ap Elwyn, Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Dylan Fernley, Delyth Lloyd Griffiths, Jina Gwyrfa, Annwen Hughes, John Brynmor Hughes, Louise Hughes, Medwyn Hughes, Iwan Huws, Elin Hywel, Nia Wyn Jeffreys, Anne Lloyd Jones, Berwyn Parry Jones, Dawn Lynne Jones, Dewi Jones, Elwyn Jones, Gwilym Jones, Gareth Tudor Jones, Huw Wyn Jones, June Jones, Eryl Jones-Williams, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Linda Morgan, Dewi Owen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, Gareth Coj Parry, Geraint Parry, Rheinallt Puw, Arwyn Herald Roberts, Beca Roberts, Elfed P Roberts, Gareth A Roberts, John Pughe Roberts, Meryl Roberts, Huw Llwyd Rowlands, Paul Rowlinson, Angela Russell, Dyfrig Siencyn, Peter Thomas, Menna Trenholme, Rhys Tudur, Hefin Underwood, Einir Wyn Williams, Elfed Williams, Gareth Williams, Gruffydd Williams, Sasha Williams a Sian Williams.

Swyddogion: Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Swyddog Monitro), Carys Fôn Williams (Pennaeth Tai ac Eiddo), Ian Jones (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith) ac Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth).

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Menna Baines, Beth Lawton, Richard Glyn Roberts a Ioan Thomas.

2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2025 fel rhai cywir.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cydymdeimlwyd â theulu'r Cynghorydd Rob Triggs, a fu farw yn ddiweddar, a rhoddwyd teyrnged iddo gan y Cyng. Eryl Jones-Williams.

Cydymdeimlwyd a theulu'r diweddar O P Huws Llanllyfni a fu am flynyddoedd yn Aelod o'r Cyngor hwn. Rhoddwyd teyrnged iddo gan Cyng. Craig ab Iago.

Cydymdeimlwyd a theulu Sharon Warnes, Aelod Lleyg ar y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a fu fawr yn ddiweddar, a rhoddwyd teyrnged iddi gan yr Is-gadeirydd.

Nodwyd y bu farw Annette Bryn Parri yn ddiweddar, a chydymdeimlwyd â'i theulu hithau hefyd.

Nodwyd ymhellach bod y Cyngor yn dymuno cofio am bawb o fewn cymunedau'r sir oedd wedi colli anwyliad yn ddiweddar. Ymdawelodd y Cyngor fel arwydd o barch a choffadwriaeth.

Nodwyd fod sawl aelod o'r Cyngor wedi bod yn anhwylyd yn ddiweddar a dymunwyd iddynt adferiad llwyr a buan.

Cyfeiriwyd at ymddeoliad dau hynod brofiadol o Dîm Rheoli'r Cyngor ar ôl treulio eu gyrfa yng Nghyngor Gwynedd. Diolchwyd i Aled Davies, Pennaeth yr Adran Oedolion a Geraint Owen, Cyfarwyddwr Corfforaethol y Cyngor am eu holl waith mae wedi eu cyflawni dros y deugain mlynedd diwethaf.

Llongyfarchwyd y canlynol:

- Nyth (Fran wen, Bangor) sydd wedi derbyn Canmoliaeth Uchel mewn seremoni [Gwobrau MacEwen RIBA](#), sy'n yn cydnabod adeiladau sy'n gwella bywydau pobl a'r gymuned. Canmolwyd y gwaith o drawsnewid hen eglwys Santes Fair ym Mangor i hwb diwylliannol creadigol newydd.
- Cynghorydd Gwilym Jones ar ddod yn daid eto, i ferch fach o'r enw Nansi.
- Clwb Rygbi (Dynion) Caernarfon ar ennill Cwpan Adran 1 Undeb Rygbi Cymru – y clwb cyntaf o Ogledd Cymru i'w hennill.

Dymunwyd yn dda i Dîm Pêl-droed Merched Cymru yng nghystadleuaeth Ewro 2025.

Croesawyd y Cynghorydd Geraint Wyn Parry i'w gyfarfod cyntaf o'r Cyngor hwn fel yr Aelod dros Teigl, a diolchwyd unwaith eto i'r Cyn-gynghorydd Linda Ann Jones am ei holl waith dros y blynyddoedd.

Nodwyd o ganlyniad i gyhoeddiad diweddar fod Etholiad y Senedd yn cael ei gynnal ar 7 Mai, 2026, nodwyd y byddai Cyfarfod Blynyddol 2026 y Cyngor yn cael ei symud o'r dyddiad hwnnw i'r 14eg o Fai.

Nodwyd mai hwn oedd y cyfarfod olaf o'r Cyngor llawn y byddai Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) yn ei gofnodi gan y byddai'n ymddeol ddiwedd Gorffennaf. Diolchwyd iddi am ei gwasanaeth yn cofnodi cyfarfodydd y Cyngor dros nifer o flynyddoedd, ac yn gweithio yn ei swydd ers dros ddeugain mlynedd.

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi.

6. CWESTIYNAU

(Cyhoeddwyd atebion ysgrifenedig yr Aelodau Cabinet i'r cwestiynau ymlaen llaw.)

(1) Cwestiwn Y Cynghorydd Elin Hywel

Rwyf yn llongyfarch yn ddiffuant swyddogion am greu adnodd mor werthfawr, defnyddiol a chlodwiw â phodlediad Mam, Dad a Magu.

Rwyf yn falch o glywed bod barn defnyddwyr yn cael ei gyrchu yn rheolaidd.

Nodir fod pryder wedi ei godi parthed priodoldeb y teitl 'Mam, Dad a Magu' ar sawl achlysur. Rwyf yn derbyn y rhesymeg fod angen cynyddu ymgysylltiad tadau. Gwyddom fod tadau, fel mamau, yn llwyddiannus wrth gynnal teuluoedd sydd ddim yn dilyn y patrwm traddodiadol, heteronormatif, a gynigir yn y teitl, yn deilwng ein cefnogaeth ac i gael eu dathlu.

Serch hynny, mae'r pryder bod teitl y podlediad yn cyfleu neges heteronormatif yn parhau, ac y gellid ei ddarllen i fod yn waharddol. Canlyniad hyn fyddai methiant i fod yn gynhwysol o'r amrywiaeth o deuluoedd sydd yn ein cymdeithas.

Nodir nad yw methiant y teitl yn adlewyrchu llwyddiant y cynnwys a gwaith caled ein

swyddogion.

Mae ysgolion Gwynedd yn sôn am “y teulu” ers tro. Gwnawn hyn er mwyn sicrhau eu bod yn gynhwysol. A wneith Cyngor Gwynedd ddilyn yr enghraifft yma, sydd wedi ei ddangos i fod yn effeithiol, a newid y teitl a sôn am “Magu teulu”?

Ateb yr Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme.

Diolch am y cwestiwn, Elin, a diolch am gymryd diddordeb yng ngwaith yr Adran Plant ac yng ngwaith penodol y gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar. Rwy'n falch iawn hefyd o'r ganmoliaeth ar y gwaith da sydd yn mynd rhagddo ac mae'n braf gallu datgan bod llawer o sylw cadarnhaol ac ymateb da wedi bod i'r podlediad. Mae gwasanaeth Blynyddoedd Cynnar Gwynedd yn arwain yn genedlaethol ar ddatblygu'r math hwn o bodlediad cyffrous ac mae'n hyfryd ein bod yn cael y cyfle i ddathlu hynny.

Yng nghyd-destun y cwestiwn, mae'n werth cadarnhau ein bod yng Nghyngor Gwynedd yn croesawu ac yn rhoi gwasanaeth i bob math o deuluoedd nid jyst rhai traddodiadol, heteronormatif, ac ein bod yn credu bod amrywiaeth a chymdeithas groesawgar yn rhan hanfodol o'r sir ac o waith y Cyngor Nid oes bwriad o gwbl i hybu syniadau heteronormatif yn y teitl, dim ond bwriad i sicrhau fod tadau yn cael eu cynnwys, yn ogystal â mamau.

Bu cryn drafod gyda grwpiau ffocws o ddefnyddwyr gwasanaeth ar y pynciau trafod, holl syniad y podlediad, a'r enw yn gyffredinol. Drwy hynny daeth pynciau amrywiol i'r fei, fel bronfwydo, cwsg a pharatoi plant ar gyfer yr ysgol. Un pwnc pwysig, yn ôl y grwpiau trafod hyn, oedd cysylltiad tadau gyda magu a materion iechyd meddwl tadau ac yn y blaen. Yn ogystal daethpwyd at yr enw gwreiddiol, sef “Mam a dad a magu”.

Codwyd mater yr enw eisoes, gan godi materion cyffelyb i'r hyn yr wyt ti'n eu codi heddiw. Yn sgil hynny, bu trafod pellach gyda grwpiau defnyddwyr a chytunwyd y byddai newid yr enw yn briodol, drwy dynnu'r “a” a'i newid o “Mam a dad a magu” i “Mam, dad a magu”. Newid bach, ond un oedd galluogi cynhwysiad ehangach. Ers hynny, nid oes neb o'r cyhoedd na'r defnyddwyr wedi tynnu sylw at yr enw, ar wahân i ambell i dad yn croesawu'r ffaith bod tadau yn cael eu cynnwys.

Fel rhan o'n gwaith pellach gyda thadau, sylweddolwyd bod pob un o'n swyddogion cefnogi teuluoedd yn fenywaidd, ac o'r herwydd rydym ar fin cyflogi Swyddog Tadau i gyd fynd gyda'r gwaith o gefnogi grwpiau tadau yn ein Sir.

Mae'r gyfres hon o bodlediadau (chwech ohonynt) ar fin dod i ben ac mae'n rhy hwyr i newid y gyfres hon. Ond rhoddaf y gwarant hwn i'm cyd-gynghorwyr, sef y byddwn yn trafod hyn eto efo'r grwpiau defnyddwyr cyn dechrau ail gyfres a chymryd y cyfle i ystyried enw newydd. Nid oes sicrwydd y bydd ail gyfres, gan fod y costau'n sylweddol, ond os bydd mi wnawn sicrhau adolygiad trylwyr o'r enw.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Elin Hywel

Diolch am yr ateb a pharatoi ateb trylwyr. Dwi'n ymwybodol fod sgysiau wedi mynd ymlaen rhwng etholwyr a chynghorwyr ac felly fod sgysiau yn mynd ymlaen yn ein cymunedau ni, ond yn cydnabod nad ydynt wedi cyrraedd yr adran.

Felly sut y byddwch chi, fel Cyngor Gwynedd, ar adran yn mynd ati i ail adeiladu pontydd sydd wedi cael ei difrodi rhyw fymryn oherwydd yr argraff mae teitl y podlediad yn ei roi?

Ateb yr Aelod Cabinet dros Blant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme.

Diolchwyd a nodwyd efallai fod etholwyr wedi mynd at rai Cynghorwyr ond nad ydynt wedi ehangu'r neges. Y peth olaf oedd yr adran eisiau ei wneud oedd eithrio unrhyw un, a byddant

yn ceisio ffeindio ffyrdd newydd i chwalu tabŵ ynghylch heriau cyffredin mae teuluoedd babis a phlant bach yn ei wynebu. Daeth y syniad am bodlediad wrth weld yr angen o ffordd newydd i siarad am broblemau cyffredin wrth fagu teuluoedd. Trwy gydol yr amser maent wedi bod yn casglu adborth gan y teuluoedd ac ar ddiwedd y gyfres byddant yn gwneud adolygiad trylwyr o'r podlediad gan gynnwys y teitl.

(2) Cwestiwn Y Cynghorydd Beca Roberts

Yn sgil y cynnydd diweddar mewn tensiynau rhyngwladol ac agweddau cynyddol filwrol Llywodraeth y Deyrnas Unedig, ac o ystyried y ffaith fod safleoedd niwclear yn cael eu hystyried yn dargedau blaenllaw mewn unrhyw wrthdaro milwrol – gan gynnwys safleoedd fel Trawsfynydd – pa sicrwydd sydd gan bobl Gwynedd fod y Cyngor yn gweithredu i sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad pellach sy'n gysylltiedig â niwclear ar safle Trawsfynydd, ac y caiff y safle ei ddadgomisiynu ar unwaith er mwyn diogelu'r ardal ar gyfer y dyfodol?

Ateb –Yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Y Cynghorydd Medwyn Hughes

Mae'r gwaith dadgomisiynu yn parhau ar safle Trawsfynydd. Mae'r gwastraff ymbelydrol lefel uchel i gyd wedi cael ei gludo o safle Trawsfynydd er mwyn cael ei drin a'i ail brosesu yn Sellafield yn Cumbria ers dros ugain mlynedd. Mae'r safle wedi bod yn canolbwyntio ar brosesu gwastraff ymbelydrol canolraddol ers hynny ac maent bron a cyrraedd pen y daith drwy brosesu'r gweddillion gwastraff o'r celloedd o fewn adeilad y pyllau a'u cludo i'r storfa bwrpasol ar safle. Bydd y gwastraff hwn yn cael ei storio yn ddiogel ar y safle tan bydd storfa gwastraff ymbelydrol y DU yn cael ei adeiladu dros y degawdau nesaf. Mae ymbelydredd lefel isel yn parhau yn ffabrig strwythur yr adweithyddion, ac mae rhaglen waith mewn lle i drin a gwaredu'r gwastraff yma er mwyn cyrraedd y nod o adael y safle yn ddiogel i'r cyhoedd a'r amgylchedd. Mae gwaith dadgomisiynu wedi cael ei raglennu ar y safle hyd at 2060 yn ôl y cynlluniau diweddaraf gan NRS.

Mae Cyngor Gwynedd yn rhan o Grŵp Rhanddeiliaid Safle (SSG) lle mae NRS, sydd yn rheoli'r safle ar ran Awdurdod Dadgomisiynu Niwclear, yn adrodd ar y gwaith dadgomisiynu; a diogelwch safle ydi'r flaenoriaeth ym mhob trafodaeth. Nodwyd fod datganiad i'w weld yn rhan o'r papurau.

Byddem yn hapus iawn i hwyluso ymweliad safle i Drawsfynydd i unrhyw Gynghorydd sydd yn awyddus i weld y gwaith sydd yn mynd rhagddo ac i gyfarfod y tîm sydd yn gwneud y gwaith.

Mae 190 yn gweithio i NRS ar safle Trawsfynydd ar hyn o bryd. Mae 100 yn ychwanegol yn cael eu comisiynu drwy gytundebau. Disgwylir i oddeutu 120 ychwanegol o weithiwr fod ar y safle dros y tair blynedd nesaf tra bydd uchder adeilad yr adweithydd yn cael ei ostwng. Mae 93% o'r rhai sydd yn gweithio i NRS ar safle Trawsfynydd yn byw yn unai Gwynedd, Môn, neu Sir Conwy. Mae cyfleoedd cyflogaeth amgen i'r gweithwyr hyn yn brin iawn yng Ngwynedd.

Mae'r sgiliau a thechnegau arbenigol sydd wedi cael eu datblygu ar safle Trawsfynydd wedi derbyn cydnabyddiaeth Safle Arwain a Dysgu ar gyfer gwaith Dadgomisiynu Niwclear ar draws Prydain. Er fod y gweithlu wedi arbenigo yn y maes dadgomisiynu niwclear, ystyrir fod modd trosglwyddo llawer o'r sgiliau i wahanol swyddi o fewn y maes peirianeg, technoleg, gwyddoniaeth, adeiladu a rheoli. Oherwydd yr ansicrwydd am ddyfodol y safle a'r swyddi, dwi'n falch o ddweud fod Cyngor Gwynedd yn cydweithio efo partneriaid ar hyn o bryd er mwyn ceisio sefydlu

parc gwyddoniaeth ar safle fyddai'n sicrhau fod gwaith o ansawdd yn parhau yn ardal Meirionnydd am genedlaethau. Datblygu Canolfan Arloesi tu allan i ffin y safle trwyddedig ydi'r bwriad, fyddai'n cynnwys gofod gwaith a dysgu gyda'r bwriad o sbarduno syniadau a chyfleoedd gwaith newydd i'r dyfodol. Er bydd yr achos busnes yn canolbwyntio ar uchafu'r cyfleoedd yn deillio o'r gwaith dadgomisiynu yn y tymor byr, mae diddordeb gan wahanol sectorau, sydd yn awyddus i wneud defnydd o'r sgiliau ac isadeiledd arbennig y safle, eisoes wedi cael ei ddatgan, megis Canolfan AI, Canolfan Ddata a chanolfan sgiliau galwedigaethol i gefnogi buddsoddiadau sylweddol yn y rhanbarth.

Nid Cyngor Gwynedd fyddai'n gwneud penderfyniad os bydd gweithgaredd niwclear newydd yn digwydd ar safle Trawsfynydd yn y dyfodol. Mae cryn ansicrwydd am gyfeiriad polisi, cyllid a blaenoriaethau'r Llywodraeth yn golygu ei bod yn annhebygol iawn y bydd safle Trawsfynydd yn cael ei ystyried gan y Llywodraeth a'r sector breifat ar gyfer datblygiad niwclear newydd yn y dyfodol agos. Dyma pam fod cael cynlluniau am gyfleoedd gwaith amgen, fyddai o fewn ein rheolaeth i'r dyfodol yn allweddol.

Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Beca Roberts

Ydi'r Cyngor felly yn gallu cadarnhau nad oes bwriad i ddatblygu adweithydd modwlar bychan neu adweithydd technoleg niwclear uwch fel rhan o'r cynlluniau ar gyfer y Parc Gwyddoniaeth rydych yn crybwyll yn eich ateb.

Ateb –Yr Aelod Cabinet Economi a Chymuned, Y Cynghorydd Medwyn Hughes

Mae ffiniau'r parc gwyddoniaeth arfaethedig 'Traws Barc' y tu allan i safle niwclear trwyddedig Trawsfynydd, ac felly gallaf gadarnhau nad ydi codi adweithydd modiwlwr bychan ac adweithydd niwclear technoleg uwch yn rhan o'r cynllun. Y bwriad ydi datblygu canolfan arloesi, dysgu a datblygu er mwyn sefydlu parc gwyddoniaeth er mwyn diogelu a chreu swyddi newydd i'r dyfodol yn yr ardal.

(3) Cwestiwn Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Oes posib' cael diweddariad ynglŷn ag unrhyw drafodaethau mae'r Cyngor wedi cael gyda'r Llywodraeth ynglŷn â Ffordd Osgoi Llanbedr?

Ateb – Arweinydd y Cyngor, Y Cynghorydd Nia Jeffreys

Hoffwn ddiolch yn fawr i Gynghorydd Gwynfor Owen am gyflwyno'r cwestiwn. Rydym yn deall ac yn cydnabod yn llawn y diddordeb sylweddol yn y mater hir sefydlog hwn y mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn ceisio ei symud ymlaen yn rhagweithiol dros gyfnod o flynyddoedd.

Mae swyddogion o'r Cyngor yn parhau i arwain a chwarae rhan flaenllaw yn y gweithgor aml-asiantaeth sy'n cynnwys swyddogion o Lywodraeth Cymru i adnabod datrysiad trafnidiaeth i leddfu problemau traffig Llanbedr.

Mae ymateb llawn wedi ei ddarparu yn ysgrifenedig sydd ar gael i'w Cynghorwyr a'r cyhoedd sydd yn ymhelaethu yn Bellach ar broses WeITAG ayyb.

Ond yn fwy diweddar fe wnaeth y Prif Weithredwr a minnau, ynghyd â Mabon ap Gwynfor AS, ar fore Mawrth y 17 o Fehefin gwrdd gyda Ken Skates yr Ysgrifennydd Cabinet dros Ogledd Cymru a Thrafnidiaeth i drafod y cynllun ac yn fwy penodol y sefyllfa gyllidol i'w ariannu. Yn dilyn hyn mae llythyr wedi ei anfon ar y cyd gan y Prif Weithredwr a minnau at yr Ysgrifennydd Cabinet, ac rydym wedi rhannu copi gyda chi.

Mae'r llythyr yn mynegi pryder cyffredinol fod lefel buddsoddiad Llywodraeth Cymru yng nghynlluniau trafnidiaeth mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd yn hollol annigonol ac annheg. Nid yw hyn mewn unrhyw ffordd yn bodloni disgwyliadau na gofynion ein cymunedau lleol nac yn wir yr uchelgaïs a nodir gan Lywodraeth Cymru ei hun mewn dogfennau strategol fel Llwybr Newydd. Yn benodol mae'r cwestiwn wedi ei ofyn, beth yw'r sefyllfa o ran argaeledd y cyllid a'r llwybr i gyflawni cynllun trafnidiaeth Llanbedr.

Fe wnaf sicrhau eich bod yn derbyn diweddariad pan rydym yn derbyn ymateb.

Cwestiwn Atodol Y Cynghorydd Gwynfor Owen

Diolchwyd i'r Arweinydd ac i swyddogion Cyngor Gwynedd am yr holl amser a gwaith maent wedi ei fuddsoddi yn y Ffordd Osgoi. Diolchwyd i'r cyn-arweinydd am ei holl waith a roddodd i'r cynllun. Datganwyd siom o glywed nad oes gwarant gan Lywodraeth Cymru o sicrhau arian ar gyfer y cynllun yma. O gofio yn ddiweddar iawn y dywedodd Llywodraeth y DU fod Llywodraeth Cymru wedi cael yr holl arian yr oeddent wedi gofyn amdano, gyda Llywodraeth Cymru yn nodi eu bod wedi cyflwyno eu holl gynlluniau oedd ar y silff.

Gofynnwyd i'r Arweinydd, fynd yn ôl at Lywodraeth Cymru a'i atgoffa fod Cynllun Lliniaru Llanbedr wedi bod ar y silff ers blynyddoedd, yn wir mi oedd wedi symud o'r silff uchaf i'r gwaelod, ac yna o'r silff gwaelod nes bod bron iawn rawiau yn nwylo'r gweithwyr a'r peiriannau yn barod i gychwyn cyn i'r Llywodraeth dynnu'r plwg a gyrru £7m yn ôl i Ewrop. A wnewch chi fel Arweinydd roi addewid i drigolion Llanbedr y bydd Cyngor Gwynedd yn parhau i wthio am yr arian o ba bynnag ffynhonnell posib er mwyn diogelwch y trigolion, ond hefyd am unrhyw obaith o ddwyfodol economaidd llewyrchus i Arddudwy.

Ateb Yr Arweinydd Y Cynghorydd Nia Jeffreys.

Nodwyd fod y sefyllfa yn scandal, nid yn unig i Lanbedr ond i ardal Meirionydd ac yn scandal cenedlaethol. Meddyliwch tase nhw ddim wedi tynnu'r plwg yn ol yn 2021. Mi fuasai'r ffordd osgoi bron wedi ei gwblhau a pa wahaniaeth fasa hyn yn ei wneud i Lanbedr, a fuasai yn bentre' llewyrchus, Swyddi o safon uchel, plant yn chware ac yn crwydro o gwmpas y pentre', a phobl hyn neu bobl anabl yn medru teithio a theimlo yn saff yn eu pentre'. Yn lle hynny mae gennym ni bobl yn poeni am swyddi, plant ddim yn teimlo yn saff yn chware allan, a phobl hyn a phobl anabl yn methu croesi dros y bont. Mae'n sgandal beth sydd wedi digwydd, a bod y ffordd osgoi ddim yn ei le.

Felly dwi'n cytuno bob gair gyda sylwadau'r Cynghorydd ac yn fwy na bodlon rhoi'r addewid yna er mwyn pobl Llanbedr a chymuned ehangach Meirionydd.

(4) Cwestiwn Y Cynghorydd Dawn Lynne Jones

Mi fuaswn yn gwerthfawrogi ateb gan y ddau aelod cabinet mwyaf perthnasol, sef y Cynghorydd Menna Trenholme a'r Cynghorydd Dewi Jones, i adlewyrchu ysbryd y cwestiwn.

Dwi'n ymwybodol fod Cyngor Caerdydd yn ddinas sy'n blentyn-gyfeillgar. A nifer o gynghorau eraill erbyn hyn wedi cyrraedd y nod hwnnw neu'n gweithio tuag at y nod hwnnw. Yn amlwg mae bod yn oed-gyfeillgar yn bwysig i Wynedd, a finau wedi cymryd bob cyfle ar hyd y blynyddoedd i alw i ni fod yn wirioneddol oed gyfeillgar – hynny yw yn gyfeillgar i bob oed.

Yn ysbryd y cwestiwn, mae angen i bob adran gydweithio a blaenoriaethu hawliau plentyn wrth wneud penderfyniadau, polisïau a strategaeth.

Lle ma' Gwynedd yn sefyll ar y daith honno?

Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones

Diolch yn fawr am y cwestiwn gwerthfawr sy'n codi materion sylfaenol am rôl hawliau plant ym mywyd cyhoeddus Gwynedd.

Fel Aelod Cabinet dros Addysg rwyf yn cydnabod yn llwyr y pwysigrwydd o sicrhau bod hawliau plant yn cael eu gwireddu ym mhob agwedd ar waith y Cyngor. Nid yw hyn yn ymwneud â statws na label yn unig, ond â diwylliant o wrando, cynnwys a pharchu plant fel dinasyddion llawn eu hawliau. Rwy'n credu bod Gwynedd ar daith gadarnhaol tuag at fod yn sir sy'n wirioneddol oed-gyfeillgar, ac yn un sy'n rhoi hawliau plant a phobl ifanc wrth galon popeth mae'n ei wneud.

Rydym eisoes yn gweld enghreifftiau cadarnhaol o'r egwyddorion hyn ar waith. Rydym yn cynnwys plant a phobl ifanc yn y broses o wneud penderfyniadau drwy'r fforymau Llais Pobl Ifanc. Mae'r fforymau yma bellach wedi'u sefydlu ar draws y sir, gan roi llwyfan i bobl ifanc leisio'u barn, rhannu eu profiadau a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'r fforymau'n cynnwys cynrychiolwyr o ysgolion, grwpiau ieuencid a phartneriaid, ac yn cwrdd yn rheolaidd i drafod materion lleol ac allweddol, megis iechyd meddwl, trafnidiaeth, diogelwch cymunedol a'r amgylchedd. Mae'r wybodaeth a gasglwyd drwy'r fforymau hyn eisoes wedi arwain at gamau gweithredu go iawn, gan gynnwys cynllunio gweithgareddau penodol mewn cymunedau, dylanwadu ar gynnwys strategaethau ieuencid, ac ehangu partneriaethau gyda gwasanaethau eraill fel iechyd a'r trydydd sector.

Rydym yn cytuno'n llwyr â'r egwyddor mai cyfrifoldeb pob adran yw sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hystyried wrth lunio polisiau, gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn rhan annatod o'n gweledigaeth ar gyfer Gwynedd sy'n wirioneddol gyfeillgar i blant – ac i bobl o bob oed.

Ateb – Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd, Y Cynghorydd Menna Trenholme

Diolch i'r Cynghorydd Dawn Lynne Jones am ei chwestiwn a'i diddordeb yn y maes pwysig hwn. Gwelais ymateb fy nghyd aelod Cabinet, Dewi Jones ac rwy'n cyd-fynd yn llwyr ag ef. Mae cynllun UNICEF, Child Friendly Cities yn un sydd yn dwyn egwyddorion rhagorol ac yn rhai yr ydym ni yn eu harddel eisoes. Mae rhoi'r egwyddorion ar waith yn gallu bod yn fwy heriol, wrth gwrs, ac mae'n dda gen i allu dweud bod cynlluniau fforwm ieuencid wedi dechrau yma yng Ngwynedd ac ein bod yn rhoi blaenoriaeth i hynny ar hyn o bryd. Tra bod cynllun Unicef yn benodol ar gyfer dinasoedd a bwrdeistrefi, gall Llywodraeth Leol arddel yr un gwerthoedd a gweithredu yn yr un modd ac mae'n ffrainc cael y cyfle adeiladol i wneud hynny. Diolch i'r Cynghorydd am roi'r cyfle i ni gael tynnu sylw at y gwaith hwn.

Cwestiwn Atodol y Cynghorydd Dawn Lynne Jones

Diolch yn fawr iawn i chi am eich ateb. Mi wnes di son am gynlluniau cadarnhaol ar waith, felly tybed oes 'na sgôp yn y Panel Plant a Phobl Ifanc ac addysg i drafod llunio strategaeth gynhwysol a fuasai yn rhoi amcanion cynllun UNICEF ar waith ar draws holl adrannau'r Cyngor.

Ateb yr Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones

Yn syml oes. Mi fedrwn ni wneud yn siŵr fod hwn yn cael ei drafod, a bod pobl ifanc yn arwain y sgwrs ac yn dod i fyny efo strategaeth lle da ni yn gallu bod yn enbedio'r pethau yma i'n holl waith fel Cyngor. Nodwyd fod lle i gynghorwyr i fod yn rhan o'r sgwrs yn ogystal gyda'r bobl ifanc er mwyn eu cefnogi ac i glywed eu lleisiau yn uniongyrchol.

5.) Cwestiwn y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn trafod yn ddiweddar am greu system trafnidiaeth gyhoeddus sy'n cysylltu bysiau a threnau ar hyd Cymru, ond y realiti yw bod yna broblemau a phryderon yn codi hefo hynny. Er enghraifft, mae llawer iawn o drigolion yn fy ward wedi dod ataf dros y misoedd diwethaf yn pryderu am wahanol faterion yn ymwneud gyda bysiau

sy'n dod (neu oedd yn dod i Blaenau). Mae hyn yn cynnwys newid mewn gwasanaeth y T22, lle nad oes bws ym mynd at dafarn y Cwm ac mae hyn yn golygu taith bellach i drigolion (yn enwedig trigolion hŷn) i gyrraedd y safle'r bws ger y stesion. Mae newid mewn trefniant bws oedd yn arfer mynd o Flaenau i Manod o Ysgol y Moelwyn gyda newidiadau'r T22 hefyd wedi codi pryderon rhieni, a hefyd cafwyd ergyd mawr i bobl y dref pan waredwyd gwasanaeth bws y T19 oedd yn cysylltu Blaenau hefo Llandudno nôl yn Chwefror 2023 - er bod gwasanaeth trên yma, tydi o ddim yn cyflawni'r hyn oedd y bws yn gallu ei wneud, ac yn cael ei weld yn anaddas i'r anghenion lleol.

Er yr holl son gan y Llywodraeth am newid chwyldroadol gyda bysiau a thrafnidiaeth, gwaeth ydi pethau i bobl Blaenau.

Oes modd trafod datrysiadau ymhellach gyda'r Aelod Cabinet ar sut fedrwn fynd ati i ddatrys a dod o hyd i atebion i'r pryderon yma os gwelwch yn dda?

Ateb – Aelod Cabinet Amgylchedd, Y Cynghorydd Craig ab Iago

Hoffwn ddiolch yn fawr i'r Cynghorydd ap Elwyn am ei gwestiwn ac am y cyswllt cyson gyda mi a swyddogion yr Adran ar ran ei etholwyr ynglŷn â materion trafndiaeth yn ei ward.

Drwy gydweithio gyda Thrafnidiaeth Cymru, mae rhwydwaith bysiau lleol Gwynedd wedi bod yn destun adolygiad estynedig dros y ddwy flynedd diwethaf. Bwriad ac allbwn yr adolygiad oedd darparu'r lefel orau a mwyaf atyniadol posib o gyfleoedd i deithio ar y bws gan optimeiddio'r adnoddau prin sydd ar gael. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno amserlenni a thocynnau teithio safonol yn seiliedig ar bellter. Mae hyn wedi ei gyflawni yn llwyddiannus ar y mwyafrif o'r rhwydwaith bellach, ac mae'n braf adrodd ei fod wedi arwain at berfformiad cadarnhaol a chalonogol o ran defnydd. Mae hyn mewn cyd-destun lle mae defnydd bysiau yn gyffredinol wedi bod yn gostwng yn barhaus ar draws Cymru ers yr 1980au.

Rydym yn parhau yn ein hymdrechion i ddarparu a chynnal y lefel gorau posib o wasanaethau bws cyhoeddus ar draws Gwynedd o fewn yr adnoddau sydd ar gael i ni. Mewn cyd-destun a natur gwledig ac estynedig y Sir rydym o'r farn fod y cyfleoedd i deithio ar draws Gwynedd yn cymharu'n dda a ffafriol gydag ardaloedd gwledig tebyg arall.

Mae Blaenau yn cael ei wasanaethu gan wasanaeth arloesol bysiau trydan y T22. Mae'r gwasanaeth rhwng Caernarfon-Porthmadog-Blaenau Ffestiniog yn cynnig cyfleoedd teithio atyniadol, dibynadwy o safon gyda bysiau trydan modern. Mae gwasanaeth bws G25 yn darparu cyfleoedd teithio lleol o fewn y dre.

Yn ogystal â'r bysiau lleol, mae Blaenau hefyd wrth gwrs yn cael ei wasanaethu gan reilffordd fyd-enwog Dyffryn Conwy. Mae'r rheilffordd yma yn cael ei gydnabod, yn ogystal â dull o deithio, fel atyniad yn ei hunan i ymwelwyr yn ogystal â thrigolion lleol drwy fod yn un o'r siwrneiau trên fwyaf golygfaol unrhyw le yn y byd.

Yn anffodus, fel sydd wedi ei rannu eisoes, mae'r adnodd o ran gyrwyr a bysiau sydd ar gael wedi ei optimeiddio gyda gwasanaeth y T22. Mae cyfyngiad wrth gwrs ar beth gellir ei ddarparu gyda'r adnodd sydd ar gael ac, wedi edrych ar y galwadau ychwanegol sydd wedi eu gwneud, does dim modd cyfarch y rhain ar hyn o bryd. Rydym wastad yn edrych am gyfleoedd i gwrdd â dymuniadau a dyheadau lleol ond yn anffodus ac anochel ni fydd hyn yn bosib ar bob achlysur.

O ran y ddarpariaeth trafndiaeth ysgolion lleol, yn unol â Pholisi Cludiant Addysg, mae'n ofynnol i gyfeiriad cartref fod yn fwy na 3 milltir o'r ysgol uwchradd i dderbyn cludiant am ddim. Yn anffodus, mae'r pellter o Manod i Ysgol y Moelwyn yn llai na 3 milltir ac o'r herwydd does dim disgwyliad fod yr Awdurdod yn trefnu cludiant ar gyfer y siwrne yma. Mae'n bosib defnyddio bws T22 i'r ysgol yn y boreau, ond nifer fechan iawn sydd yn manteisio ar y gwasanaeth yma ar hyn o hyn. Doedd gan y Cyngor yma ddim dylanwad ar y penderfyniad gan gwmni preifat i ddileu gwasanaeth y T19 rhwng Blaenau Ffestiniog a Llandudno a oedd

yn cael ei weithredu ar sail fasnachol. Ar y pryd, fe wnaeth y cwmni ddatgan mai'r rheswm am ddod a'r gwasanaeth i ben oedd gan nad oedd yn gynaliadwy ar sail defnydd a bod hyn, yn anffodus, wedi bod yn gostwng.

Fel Cyngor, rydym yn gwneud yr achos yn barhaus i Lywodraeth Cymru fod angen i'r buddsoddiad maen nhw'n ei wneud mewn cludiant cyhoeddus, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig fel Gwynedd, fod yn llawer mwy er mwyn dod unrhyw le yn agos i gwrdd â chyfarch eu gweledigaeth ac uchelgais. Yn anffodus, mae strategaethau a chynlluniau fel Llwybr Newydd (2021), y strategaeth trafnidiaeth genedlaethol, yn codi disgwyliadau ond mae'r baich o ymateb, esbonio a chyfiawnhau be gellid ei ddarparu gyda'r arian mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu yn aml iawn yn cwmpo ar awdurdodau lleol.

Mae'r diwydiant bysiau a sut mae gwasanaethau bws yng Nghymru yn cael eu darparu, cynnal a rheoli yn newid gan fod Trafnidiaeth Cymru, ar ran Llywodraeth Cymru, yn edrych i gyflwyno system sydd wedi ei gynnal drwy fodel masnachfaint. Y bwriad yw cael rhwydwaith cydlynol cenedlaethol sydd wedi ei reoli yn ei gyfanrwydd. Mae'n aneglur eto sut effaith neu ddylanwad yn ymarferol fydd hyn yn ei gael. Y gwirionedd yw, gan fod hi'n debygol fod lefel y buddsoddiad gan Lywodraeth Cymru yn debygol o fod yn gymharol gyda graddau cyfredol nad yw'r newid, o safbwynt defnyddwyr a darpar-ddefnyddwyr o leiaf, yn debygol o fod yn drawsnewidiol. Fe fydd y Cyngor yma yn ymgysylltu gydag ymagwedd gadarnhaol a gobeithiol i'r newid ond hefyd a disgwyliadau realistig o ran beth sy'n debygol o gael ei gyflawni.

Mae natur rhwydweithiau bysiau yn golygu ei fod yn ddeinamig ac yn destun newid. Ond, yn dilyn adolygiad cynhwysfawr diweddar, does dim bwriad na sgôp yn y tymor byr i ystyried neu gyflwyno newidiadau sylweddol i'r rhwydwaith mae Cyngor Gwynedd yn gyfrifol amdano. Y gwirionedd anffodus ydi fod yr arian ychwanegol fyddai angen i gyflawni hyn ddim ar gael.

Cynnydd mewn defnydd yw'r sail fwyaf dylanwadol a chadarnhaol i gefnogi achosion busnes i gynnal a gwella darpariaeth. Mae'n anodd iawn neud yr achos os yw lefel y defnydd yn isel neu isel iawn. Dyw gwasanaethau bws yn y senario yma ddim yn amgylcheddol nag ychwaith ariannol gynaliadwy. Er mwyn cynnal y lefel presennol o wasanaeth ac edrych i wella mae'n bwysig uchafu defnydd y gwasanaethau a chyfleoedd teithio sydd yn cael eu darparu. Mae'r dywediad Saesneg use it or lose it yn wir a perthnasol iawn yn y cyd-destun yma.

Mae rhwydweithiau cludiant cyhoeddus yn dibynnu ar lefel critigol o ddefnydd ar sail barhaus. Ble dyw hyn ddim yn bodoli mae'n annhebyg mae cludiant cyhoeddus yw'r datrysiad priodol. Mae hyn yn her amlwg mewn ardaloedd gwledig wrth gwrs pan, yn aml, does dim o'r galw critigol yna o bobl sydd am deithio ar yr un pryd ar yr un trywydd. Gyda hyn, wrth nodi'r ffactorau cadarnhaol o ran y rhwydwaith bysiau lleol yng Ngwynedd rydym yn cydnabod yn llwyr na fydd yn bosib, na debyg priodol, i gwrdd â disgwyliadau, dymuniadau ac anghenion unigol a phawb. Ond hoffwn eich sicrhau a chalonogi byddwn, gan barhau i gyd-weithio gyda'r rhanddeiliaid allweddol eraill sydd yn cynnwys Trafnidiaeth Cymru, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol cyfagos a'r cwmnïau bws ei hunain i ddarparu'r lefel gorau o wasanaeth posib.

Byddwn yn fodlon iawn i barhau'r sgwrs gyda Cyng. Ap Elwyn ond gobeithio fod yr uchod o ddefnydd yn cadarnhau'r sefyllfa gan osod y cyd-destun, heriau a chyfleoedd.

Cwestiwn Atodol, Y Cynghorydd Elfed Wyn ap Elwyn

Gyda'r cynnig i gario'r sgwrs yn ei blaen, a fuasai modd i'r Aelod Cabinet ddod i ateb cwestiynau ym Mlaenau Ffestiniog mewn cyfarfod cyhoeddus?

Yr Ateb, gan yr Aelod Cabinet dros Amgylchedd, y Cynghorydd Craig ab Iago.

Bydd.

6) Cwestiwn y Cynghorydd Rhys Tudur

O ran geiriad polisi iaith newydd addysg, i ba raddau y mae'r Aelod Cabinet yn cytuno y byddai Nodi mai'r ysgol sydd i bennu beth sy'n cael ei ddysgu yn Saesneg yn drawsgwricwlaidd; Cyfeirio at ddiffiniad o ysgolion Cymraeg yn unol â'r bil addysg yn hytrach na'r canllawiau anstatudol;

Mynegi bod y ganran o ddarpariaeth addysg Gymraeg ar gyfer yr holl ddisgyblion; Darparu mwy o fanylder yn yr hyn a ddisgwylir mewn Cynlluniau Cynnydd;

A nodi fod yr holl weithgareddau allgyrsiol drwy'r Gymraeg, yn gwneud y polisi iaith yn fwy cadarn ac eglur?

Ateb – Aelod Cabinet Addysg, Y Cynghorydd Dewi Jones

Rwy'n croesawu'r cyfle i gadarnhau rhai agweddau allweddol ar y Polisi Iaith Addysg drafft, ac i sicrhau eglurder ynghylch rhai materion penodol sydd wedi codi.

Yn gyntaf, o ran cynnwys Saesneg yn drawsgwricwlaidd, mae'r polisi yn nodi'n glir mai'r Gymraeg yw prif gyfrwng addysg yn ysgolion Gwynedd, gyda'r Saesneg yn cael ei gyflwyno'n fwriadus a'i ddefnyddio'n briodol yn unol â datblygiad ieithyddol disgyblion.

Yn ail, rwy'n fodlon nodi bod y polisi'n cyfeirio'n benodol at fwriadau'r Bil Addysg Gymraeg sydd ar y gweill, gan baratoi'r ffordd i'r Awdurdod gydymffurfio'n llawn â'r drefn statudol newydd o gategoreiddio ysgolion pan ddaw i rym.

Yn drydydd, mae'r polisi'n mynegi'n glir ganrannau ar gyfer y ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys y nod o sicrhau o leiaf 80% o weithgareddau ysgol drwy'r Gymraeg yn y cynradd, ac o leiaf 70% yn yr uwchradd. Byddwn yn gweithio tuag at unrhyw ofynion statudol yn unol â chynnwys Bil y Gymraeg all gymryd hyd a 5 mlynedd i ddod i rym.

O ran Cynlluniau Cynnydd, mae'r ddogfen eisoes yn nodi'r disgwyliadau ar ysgolion unigol a'u clystyrau i lunio cynlluniau datblygu clir a chytunedig gyda'r Awdurdod, gan gynnwys cyfnodau trosiannol a mesurau llwyddiant. Mae hyn yn sicrhau tryloywder ac atebolrwydd.

Yn olaf, rwy'n cydnabod bod y polisi'n gosod pwyslais cryf ar sicrhau bod gweithgareddau ysgol, gan gynnwys y rhai allgyrsiol, ar gael drwy'r iaith Gymraeg. Yn unol â'r Siarter Iaith bydd gweithgareddau allgyrsiol yn y Gymraeg.

Byddaf yn parhau i gefnogi'r gwaith o gryfhau'r Polisi Iaith Addysg, gan sicrhau cydbwysedd rhwng uchelgais ieithyddol, hyblygrwydd ymarferol, a chefnogaeth i'n hysgolion wrth iddynt weithredu'r polisi'n llwyddiannus.

Cwestiwn Atodol – Y Cynghorydd Rhys Tudur

Nid yw'r drafft cyfredol o'r polisi iaith yn egluro os yw'r ganran ddigwyledig ar gyfer addysg Gymraeg i fod ar gyfer yr holl blant oni bai am blant efo anghenion dysgu ychwanegol neu wedi ei heithrio. A yw'r polisi felly am ddarparu eglurdeb i'r perwyl yma, a mynegi beth y dylai ddweud sef fod y ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr holl blant. Os nad oes parodrwydd i fynegi hyn yn glir onid yw'n deg dweud nad yw'r polisi drafft yn cynnig amddiffyniad cadarn i ysgolion Gwynedd i fedru rhwystro sefyllfa ymhle fo canran o sylwedd o blant yn ceisio osgoi addysg Gymraeg.

Yr Ateb – Aelod Cabinet dros Addysg Y Cynghorydd Dewi Jones

Na, credaf fod y polisi iaith yn cynnig yr amddiffyniad. Nodwyd beth oedd wedi ei nodi yn Bil Addysg, mai dim ond un canran fydd i bawb, ac o ganlyniad mae'n system lot fwy syml.

7) Cwestiwn y Cynghorydd Jina Gwyrfa

Deallaf fod newidiad nid ansylweddol ar y gweill i'r Ffurflen gofrestru am dŷ cymdeithasol, sy'n golygu na fydd darpar denantiaid yn gallu nodi lle maent yn dymuno byw. Beth yw goblygiadau'r newid? A yw hyn yn golygu troi cefn ar hawl pobl bregus i ddewis trigfan, ac a yw yn troi cefn ar Bolisi 'lleol' Gwynedd?

Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cyngorydd Paul Rowlinson

Nid oes unrhyw fwriad i newid y ffurflen gais mewn ffordd na fydd darpar denantiaid yn gallu nodi lle maent yn dymuno byw. Er bod mân addasiad wedi'i wneud i'r ffurflen gais yn ddiweddar i ofyn i unigolion roi tic yn erbyn lleoliad(au) y dymunent fyw (yn hytrach na'u rhifo), nid oes unrhyw newidiadau pellach ar y gweill. Mae'r ffurflen i'w gweld ar wefan y Cyngor ac fe welwch fod cwestiwn 15 yn gofyn i ddarpar denantiaid nodi lle maent yn dymuno byw. Mae ein polisi gosod tai hefyd i'w weld ar y wefan ac nid yw wedi newid o gwbl.

Cwestiwn Atodol Y Cyngorydd Jina Gwyrfa

Hoffwn ymddiheuro os cam ddeall, falch gweld cyfle i nodi ardaloedd. Ond mater o farn yw man addasiad yw cau'r hawl i nodi ble ma rhywun yn dymuno byw, o roi heibio'r drefn o rifo, sef blaenoriaethu, heb unrhyw ymgyhoriad a'r cyhoedd na chyd-aelodau'r Cyngor, mae data pwysig yn mynd ar goll. Data sy'n rhoi darlun o'r gwir angen am dai cymdeithasol ymhob lle. Mae'n ymddangos fel bod yr Adran Tai yn gweithio'n groes i'r Adran Gynllunio, achos heb ddata sut mae modd adnabod lle sydd angen datblygu a ble nad oes angen am dai. Sut mae modd adnabod yr angen go iawn?

Ateb – Aelod Cabinet Tai ac Eiddo, Y Cyngorydd Paul Rowlinson

Cadarnhau fod ymgeiswyr yn parhau i nodi'r ardaloedd maent yn awyddus i fyw ynddynt, gan fod hyn yn hanfodol i wybod. Eglurwyd nad oes awydd i newid hynny. Roedd y ffurflen gais blaenorol yn gofyn i bobl flaenoriaethu, ond roedd pobl yn aml yn anwybyddu cyfarwyddyd ac yn rhoi tic yn ymyl lleoliadau ble roeddent eisiau byw. Mi fuasai'r wybodaeth yn gallu bod yn fuddiol, ond cynifer yn anwybyddu roedd y wybodaeth ddim yn gadarn ac felly yn methu bod yn sail i bolisi. Doedd y wybodaeth am ddewisiadau dim yn chware rhan yn y broses o osod eiddo, a dyna sy bwysicaf. Os parhau, camarwain pobl, arwain pobl i feddwl mwy tebygol o gael eiddo yn yr ardal ble oeddent wedi ei flaenoriaethu, nad oedd yn wir o gwbl. Ffurflen yn annog pobl i nodi ble maent yn awyddus i roi ynddi, felly gwybodaeth yn rhoi gwybodaeth ystyriol a pendant am ble mae'r angen ac yn cyfoethogi'r cynlluniau am dai yn y dyfodol.

7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2024/25

Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Safonau'r adroddiad, gan ddiolchwyd am y cyfle i'w gyflwyno. Mynegodd fod y flwyddyn wedi bod yn un llwyddiannus iawn i'r pwyllgor. Diolchwyd i'r holl aelodau am gadw safonau, ac yn benodol i'r tri arweinydd gwleidyddol am weithio mor agos gyda'r Swyddog Monitro. Nodwyd diolch yn ogystal i'r cyn-arweinydd am ei waith yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Amlygwyd nad oes un achos wedi mynd o flaen y pwyllgor a gobeithir y bydd hyn yn parhau i'r flwyddyn nesaf. Tynnwyd sylw at nifer o aelodau ddim yn mynychu hyfforddiant hanfodol, a nodwyd yr angen i Aelodau weithio gyda'r arweinyddion grwpiau i gwblhau'r hyfforddiant.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Diolchwyd i'r Cadeirydd am ei waith dros y flwyddyn ddiwethaf.

PENDERFYNWYD

Derbyn yr adroddiad.

8. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PENNAETH DEMOCRATIAETH 2024/25

Diolchwyd am y cyfle i gyflwyno'r adroddiad. Amlygwyd fod yr adroddiad wedi ei rhannu'n ddwy ran. Nodwyd fod y rhan gyntaf yn rhoi diweddariad ar beth sydd wedi digwydd yn y maes dros y flwyddyn, ynghyd ar newidiadau o ran staffio. Pwysleisiwyd fod y pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth wedi rhoi cryn sylw i'r maes hyfforddiant eleni, a bod yr adroddiad yn amlygu beth sydd wedi ei drafod ynghyd ac ychwanegiad pellach i'r hyfforddiant craidd.

Nodwyd fod lefel bodlonrwydd o waith y Tîm Democratiaeth wedi cynyddu ers llynedd, a rhoddwyd cydnabyddiaeth i waith y tîm o gefnogi dros 150 o gyfarfodydd. Eglurwyd fod gwaith helaeth wedi ei wneud er mwyn datblygu'r Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd er mwn sefydlu'r elfen ddemocratiaeth.

Amlygwyd blaenoriaethau am eleni, sef i ddechrau'r gwaith o baratoi ar gyfer Etholiad Mai 2027, o ran adolygu beth wnaethpwyd yn ystod etholiad 2022, ac i gyflwyno gwelliannau o ran y tymor nesaf. Tynnwyd sylw at yr angen i edrych a chreu cynllun moderneiddio'r systemau'r siambrau gan greu cynllun i'w gyflwyno fel cynllun busnes eleni.

Wrth drafod Hyfforddiant Aelodau, mynegwyd fod trafodaethau wedi eu cynnal yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth i gyflwyno wythfed maes craidd sef modiwr Trais yn erbyn Mercher, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Eglurwyd fod y modiwl hwn yn un mandadol i staff ac felly angen ei ehangu i aelodau.

Diolchwyd i staff y maes am eu gwaith caled.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Bu i Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ddiolch i'r Pennaeth ac i'r tîm am y gwaith maen nhw yn ei wneud, a diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am eu gwaith.

Croesawyd yr hyfforddiant Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, gan ofyn am iddo gael ei gynnal mor fuan a bo modd.

Trafodwyd eitem Cwestiynau ar raglen y Cyngor, gyda rhai yn mynegi pryder am ei hyd gyda chynifer o gwestiynau i'w trafod. Penderfynwyd fod y mater hwn yn fater i'w drafod ymhellach yn y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth o ran y safbwynt cyfansoddiadol ac i edrych sut mae Cyngorau eraill yn ymdrin â'r mater.

Holwyd o ran diweddaru'r siambrau a datblygiadau technegol fod angen ymestyn y ddarpariaeth a'r diweddariad tu hwnt i Gaernarfon ac i leoliadau'r Cyngor ar draws y sir.

PENDERFYNWYD

1. Dderbyn yr adroddiad
2. Sefydlu 8fed maes hyfforddiant craidd ar gyfer Aelodau Etholedig, sef "Trais yn Erbyn Menywod. Cam-drin Domestig a thrais rhywiol" yn unol ag argymhellid y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

9. PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU - GWEITHREDU CYNLLUN BUSNES 'ADDAS I'R DYFODOL'.

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Elin Hywel, Cadeirydd y Pwyllgor Pensiynau. Eglurwyd fod yr eitem hon yn un sydd wedi ei thrafod dros y misoedd diwethaf. Diolchwyd am y swyddogion am eu gwaith diddiwedd ar y cynllun hwn. Pwysleisiwyd mai hwn, yng ngolwg y Pwyllgor, yw'r opsiwn gorau sydd yn cyrraedd yr anghenion sydd wedi ei nodi gan Lywodraeth y DU.

Eglurwyd mai Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod gweinyddol ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, a olygai ei fod yn gweinyddu pensiynau ar gyfer dros 50,000 o aelodau, bron i 50 o gyflogwyr a £3.2 biliwn o asedau. Mynegwyd fod y Gronfa Bensiwn wedi bod yn cydweithio ers 2017 gyda'r wyth gronfa Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghrymu, a hynny drwy gytundeb rhyng-awdurdod a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn yn ôl ym Mawrth 2017, sef y pwl a sefydlwyd sef Partneriaeth Pensiwn Cymru.

Nodwyd fod oddeutu £25biliwn o asedau dan reolaeth y Pwl, a cheir manteision drwy arbedion cost, gwella cyfleoedd buddsoddi, gwella perfformiad a chynyddu cyd-weithio a llywodraethu ar draws Cymru. Eglurwyd fod hyn wedi gweithio yn dda i Wynedd, gyda 85% o gronfa Bensiwn Gwynedd wedi ei bwlio, fod y cydweithio wedi bod yn fanteisiol iawn i'r gronfa.

Ers Hydref 2023, nodwyd fod y Llywodraeth wedi bod yn adolygu trefniadau buddsoddi Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol yng Nghrymu a Lloegr. Mynegwyd fod ymgyhoriad cychwynnol wedi ei gynnal, ac yn ddiweddar fod y Bil Pensiynau wedi ei gyhoeddi. Tynnwyd sylw at y model gweithredu sy'n ddisgwyliedig a fydd yn bodloni'r safonau a nodwyd.

Eglurwyd yr angen olaf, sef i sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau, sydd dan sylw heddiw. Nodwyd fod Partneriaeth Pensiwn Cymru yn bwriadu sefydlu cwmni rheoli buddsoddiadau ar wahân ("IM Co") sydd wedi ei rheoleiddio gan yr FCA yn unol â meini prawf y Llywodraeth, mae'r prosiect yma wedi ei alw yn 'Prosiect yr Wyddfa' gan Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

Esboniwyd fod y penderfyniad i adeiladu cwmni rheoli buddsoddiadau ("IM Co") ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru yn cynnig cyfle unigryw i sefydlu canolfan o arbenigedd mewn buddsoddiadau CPLIL yng Nghymru. Paratôdd Partneriaeth Pensiwn Cymru achos busnes cryf i'r Llywodraeth ym mis Chwefror 2025, a derbyniwyd llythyr o gefnogaeth i'r Achos Busnes yn Ebrill 2025.

Bydd angen cyflwyno elfennau newydd yn y strwythur llywodraethu, yn cynnwys Bwrdd Cyfrandalwyr gyda chynrychiolaeth o'r holl awdurdodau gweinyddol. Yn y tymor canolig a hir, nodwyd fod y PPC yn gobeithio darparu buddion ariannol a fydd yn uwch na chostau'r model gweithredol. Nid oes costau trosglwyddo buddsoddiadau ond amcangyfrif bydd cost y model newydd oddeutu £5-£5.5m - costau'r Gronfa ac nid y Cyngor. Nodwyd y penderfyniad.

Rhodddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd o'r ddau gynnig sydd wedi ei nodi gan Lywodraeth y DU, mai hwn yw'r opsiwn gorau. Nodwyd fod hyn yn cadw rheolaeth o fewn Cymru ac felly yn cadw'r rheolaeth o fewn Llywodraethau Lleol Cymru. Ynghyd a sicrhau fod y penderfyniadau yn sicrhau ei fod yn gwarchod buddion Cymru ynghyd a sicrhau fod y Gymraeg yn cael ei defnyddio fel iaith fusnes ac yn ei gadw yn fyw.

Amlygwyd pryder o fynd i mewn i hwn gyda risgiau os Awdurdodau eraill yn mynd i'r wal yn ariannol, yn benodol gan fod Cyngor Gwynedd wedi bod mor dda yn gwneud y gwaith hwn. Eglurwyd fod y rhain yn bwyntiau sydd wedi eu codi fel Pwyllgor. Mynegwyd fod rhai pethau i'w cofio sef fod 85% o fuddsoddiadau wedi pwlio yn barod efo Pwyllgor Pensiynau Cymru ac felly cynnal y gwaith da sydd wedi ei wneud sydd yn digwydd yw yn hytrach na ehangu ymhellach.

Pwysleisiwyd fod y Pwl yng Nghymru yn cael ei weld y Pwl sy'n arwain ar y gwaith ac yn llwyddiant ysgubol ac mi fuasai pwl o Loegr yn awyddus iawn i ymuno. Ond eglurwyd fod ei gadw yng Nghymru yn sicrhau'r elfen Gymreig.

PENDERFYNWYD

1. **Nodi Achos busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru Addas i'r Dyfodol (Atodiad 3, Atodiad 4 ac adran 4 o'r adroddiad)**
2. **Cymeradwyo ffurfio endid corfforaethol sy'n berchnogaeth lwyr i Awdurdodau Gweinyddu PPC a fydd yn cael ei adnabod yn Gwmni Rheoli Buddsoddi PPC (IMCo.) a'r holl gamau eraill sy'n angenrheidiol i gyflwyno cais i'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol (FCA) ar gyfer awdurdodi'r cwmni gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i ddewis a recriwtio Swyddogaethau Uwch Reolwyr (SMF) fel sy'n ofynnol gan yr FCA a pharatoi a chyflwyno'r cais i'r FCA. (Adran 5 o'r adroddiad)**
3. **Cymeradwyo Cynllun Busnes a chyllideb ddiwygiedig PPC 2025/28 sy'n cynnwys costau dylunio/galluogi ar gyfer Prosiect yr Wyddfa (Atodiad 5 ac Adran 6 o'r adroddiad)**
4. **Dirprwyo'r hawl i'r Swyddog Adran 151 mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor Pensiynau i fwrw ymlaen gyda Phrosiect Wyddfa gydag Awdurdodau Gweinyddu PPC yn unol ag amserlen y Llywodraeth o fewn y gyllideb gymeradwy.**
5. **Dirprwyo cymeradwyaeth derfynol y ddogfennaeth ffurfiol derfynol sy'n ofynnol ar gyfer gweithredu'r Cwmni Rheoli Buddsoddi, a ddisgrifir fel 'Mynd yn Fyw' fel yr amlinellir yn Adran 7 o'r adroddiad, i'r Pwyllgor Pensiynau i roi effaith i Achos Busnes PPC Addas i'r Dyfodol.**

10. ARGYMHELLIAD PANEL CYFWELD - PENODI AELODAU LLEYG O'R PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Cyng. Anne Lloyd Jones yn absenoldeb Cadeirydd y panel cyfweld. Mynegwyd fod angen i benodi 3 o Aelodau Lleyg i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac roedd 3 o aelodau ar y panel cyfweld - Cadeirydd y Cyngor, Yr Aelod Cabinet dros Gyllid a Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.

Bu i bedwar unigolyn gael ei gyfweld, ac ar ôl ystyried yn ofalus a thrylwyr nodwyd fod tri wedi cyrraedd y meini prawf. O ganlyniad gofynnwyd i benodi Dr Peter Barnes, Mr Dewi Lewis a Mr Paul Millar-Mills fel aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y 5 mlynedd nesaf.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau.

Mynegwyd anffodlonrwydd o ran balans rhyw o blith yr aelodau lleyg. Nodwyd o 18 aelod yn etholedig ac yn lleyg mai dim ond 4 merch sydd ddim yn rhoi adlewyrchiad deg o gymdeithas. Gofynnwyd a oes modd gneued mwy o ymdrech i ddenu merched. Bu i'r Pennaeth Cyllid nodi nad yw'r pwyllgor, ers newid i fod a 6 aelod lleyg yn ôl yn 2022, erioed wedi cael aelodaeth lleyg lawn. Pwysleisiwyd nad oes modd i'r pwyllgor reoli pwy sy'n ymgeisio i fod yn aelod lleyg, ond pwysleisiwyd fod yr adran dros y blynyddoedd wedi trio pob math o ffyrdd i ddenu aelodau, ond pwysleisiwyd ei fod wedi bod yn broses gywir a bod bob cais wedi cael sylw teg.

Holwyd pa fath o archwiliadau a geirda sydd ei angen wrth ymgeisio a ydi'r aelodau yn cael chwiliadau trylwyr o'i cefndir a beth maent wedi ei gyflawni. Eglurwyd fod y penodiadau yn ddarostyngedig i dderbyn tystlythyrau derbynol a fydd yn cael ei derbyn dros yr wythnosau nesaf.

PENDERFYNWYD Penodi Dr Peter Barnes, Mr Dewi Lewis a Mr Paul Millar-Mills fel Aelodau Lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio am y 5 mlynedd nesaf yn ddarostyngedig i dderbyn geirda derbyniol.

14. RHYBUDDION O GYNNIG

- (A) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cyngorydd Rhys Tudur o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

O ystyried y shifft iaith a welwyd yng Ngwynedd o gyfrifiad i gyfrifiad, mae'r Cyngor hwn yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno ar fyrder, fesurau'n rhoi grymoedd a chyllid i awdurdodau lleol wrthweithio shifft iaith.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Ei fod yn drobwynt i'r iaith fod y Llywodraeth yn awyddus i ddynodi ardaloedd ble mae'r Gymraeg yn iaith o ddydd i ddydd.
- Mynegwyd fod y Comisiwn Cymunedau Cymraeg wedi gwneud nifer o argymhellion, a bod ardaloedd ble mae dros 40% o bobl yn siarad Cymraeg eu bod yn cael ei nodi fel ardaloedd arwyddocaol ieithyddol. Eglurwyd y buasai Gwynedd gyfan yn cael ei nodi o dan y safon hon.
- Pwysleiswyd y buasai ardaloedd nad oeddent yn cyrraedd y lefel canran yn gallu cael ei dynodi yn ogystal â fwasai yn rhoi statws i rai lleoliadau.
- Y buasai'n gosod sail gyfreithio gref i'r iaith ffynnu.
- Ardaloedd yma wedi ei nodi Gwlad y Basg sydd wedi gwneud cynnydd yn nifer yr ardaloedd yma.
- Gwynedd gyda'r nifer uchaf o ardaloedd dynodedig gyda nifer o leoliadau gyda dros 70% yn siarad yr iaith o ddydd i ddydd, dim ond un lleoliad arall drwy Gymru tu hwnt i Wynedd.
- Llywodraeth wedi datgan eu cefnogaeth mewn egwyddor, ond galwyd ar y Llywodraeth i weithredu mewn gweithredoedd cyn yr etholiad.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan nodi'r yr angen i roi pethau ar waith ac i sicrhau fod pawb yn gallu ac yn cael y cyfle i fyw eu bywyd ac i weithio drwy'r Gymraeg.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Mae'r Cyngor hwn yn croesawu ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion y Comisiwn Cymunedau Cymraeg ac yn galw ar y Llywodraeth i gyflwyno ar fyrder, fesurau'n rhoi grymoedd a chyllid i awdurdodau lleol wrthweithio shifft iaith.

- (B) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cyngorydd Gwynfor Owen o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Yn sgil y datguddiad bod gwelliannau i'r rheilffordd rhwng Rhydychen a Caergrawnt wedi cael eu newid o fod yn gynllun ar gyfer Lloegr i fod yn gynllun ar gyfer Lloegr a Chymru, a hefyd yn sgil yr arian pitw a gyhoeddwyd yn adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan o £450m dros 10 mlynedd, mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru yn ei chyfanrwydd yn cael ei datganoli i Gymru ar fyrder. Mae'r Cyngor yma o'r farn bod Gwynedd a Chymru yn colli allan yn sylweddol ar fuddsoddiad wrth fod ynghlwm i Loegr ar y materion yma. Credwn y dylai Cymru gael yr un hawliau ag sydd gan Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w chynnig, gan nodi:-

- Nad oedd yn derbyn fod rheilffyrdd Cymru yn rhan o gyfundrefn rheilffyrdd Lloegr a Chymru, ac o ganlyniad yn talu am gostau diweddarau llinellau rheilffordd yn Lloegr, sy'n costio miliynau tra mae Cymru yn derbyn 0.5m dros gyfnod o 10 mlynedd.

- Mynegwyd fod Lywodraeth San Steffan yn nodi mai hyn ofynnwyd amdano yng Nghymru gyda'r Gweinidog yn nodi y bydd yn gwella cysylltiad Cymru a Lerpwl a Manceinion
- Pwysleiswyd fod rheilffyrdd yng Nghymru wedi cael ei danariannu ers degawdau ac am gael ei dan gyllido am y blynyddoedd i ddod.
- Amlygwyd fod toriadau wedi taro Gwynedd gyda thoriadau i drenau Rheilffordd y Cambrian yn enghraifft amlwg.
- Mynegwyd fod y gyfundrefn yn newid, i reilffyrdd gael ei ddatganoli, i Gymru dderbyn yr arian maent yn ddyletswydd er mwyn sicrhau'r gwelliannau sydd angen ei wneud i wneud y rheilffordd yn deilwng i'r wlad.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Yn sgil y datguddiad bod gwelliannau i'r rheilffordd rhwng Rhydychen a Caergrawnt wedi cael eu newid o fod yn gynllun ar gyfer Lloegr i fod yn gynllun ar gyfer Lloegr a Chymru, a hefyd yn sgil yr arian pitw a gyhoeddwyd yn adolygiad gwariant Llywodraeth San Steffan o £450m dros 10 mlynedd, mae Cyngor Gwynedd yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynnu bod Rhwydwaith Rheilffyrdd Cymru yn ei chyfanrwydd yn cael ei datganoli i Gymru ar fyrder. Mae'r Cyngor yma o'r farn bod Gwynedd a Chymru yn colli allan yn sylweddol ar fuddsoddiad wrth fod ynghlwm i Loegr ar y materion yma. Credwn y dylai Cymru gael yr un hawliau ag sydd gan Yr Alban a Gogledd Iwerddon.

- (C) Cyflwynwyd y rhybudd o gynnig a ganlyn gan y Cynghorydd Jina Gwyrfaï o dan Adran 4.19 y Cyfansoddiad, ac fe'i eiliwyd:-

Wrth ystyried

- a) bod Amaeth yn un o brif ddiwydiannau Cymru, a bod canran uchel o economi Gwynedd yn gysylltiedig â'r byd amaethyddiaeth.
- b) bod sefydlogrwydd y fferm deuluol yn gyfraniad hollbwysig ac amhrisiadwy at gadw'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau Cymraeg
- c) bod y diwydiant amaeth yng Nghymru ar hyn o bryd yn gallu cyfrannu'n o lew at stoc bwyd y 'Deyrnas Unedig' mewn oes o ansicrwydd cynyddol, ond bod y stoc yn isel

Noda'r Cyngor, gyda thristwch mai bygythiad yw'r Ddeddf Treth Etifeddiaeth i'r uned ffermio draddodiadol, i economi'r wlad ac i gefn gwlad Cymru, yn enwedig i'r ardaloedd Cymraeg. (Mae'n hysbys bod o leiaf dau ffermwr wedi cyflawni hunanladdiad ers pasio'r Ddeddf a bod teuluoedd a gweithwyr a busnesau lleol cysylltiedig yn wynebu chwalfa os daw'r Ddeddf i rym yn 2026.)

Galwaf felly ar Gyngor Gwynedd i bwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu trwy:-

- i. bwysu ar Lywodraeth San Steffan i gydnabod bod y diwydiant ffermio yn hollbwysig i strategaeth diogelwch y DU, ac i eithrio ffermydd teuluol sy'n cynhyrchu bwyd o'r dreth newydd pan ddaw i rym.
- ii. erfyn ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwil i asesu effaith y Ddeddf ar economi Cymru a chymunedau Cymraeg; hefyd i weithredu mesurau lliniarol digonol er mwyn diogelu'r diwydiant amaeth sydd mor allweddol i ddyfodol cymunedau cefn gwlad ein gwlad.

Gosododd yr aelod y cyd-destun i'w gynnig, gan nodi:-

- Ateb i gynnig yn ôl ym mis Rhagfyr wedi bod yn anfoddhaol, gyda dim cynlluniau wedi cael arfaeth
- Fod 75% ffermydd am gael eu heffeithio yn andwyol gyda'r dreth yma, ac am greu llanast llwyr.
- Fod Arolwg Amaeth Prifysgol Aberystwyth wedi amlygu incwm gros fferm deuluol oddeutu 0.5% o werth y fferm. Ond gwerth y fferm sydd am gael ei drethu, ac felly mae'r bygythiad yn un anferthol.
- Amlygwyd fod buddsoddiadau wedi lleihau mewn ffermydd ers cyhoeddi'r dreth yma sy'n amlygu dim hyder yn y cynllun.

- Problemau lechyd Meddwl wedi cynyddu yn enwedig mewn fferiwyd hŷn, oherwydd poen meddwl enfawr o feddwl am ddyfodol eu ffermydd.
- Cyswllt a chymunedau Cymreig yn amlwg, gyda 43% o weithwyr fferm yn siaradwyr Cymraeg dros Gymru gyda niferoedd yn uwch yng Ngwynedd. Amlygu fod y dreth yn fygythiad i'r iaith ac i ddiwylliant Cymreig mewn cymunedau.
- Cynhyrchu bwyd yw pwrpas ffermydd a dyna pam mae wedi ei gadw allan o dreth etifeddiaeth yn hanesyddol, ond o'i gymharu â'r 80au mae canran y bwyd sy'n dod o ffermydd wedi lleihau i 54% ac o ganlyniad mae prisiau bwyd wedi cynyddu. Angen ehangu ffermydd sydd ei angen yn economaidd ac yn amgylcheddol.

Mynegwyd cefnogaeth i'r cynnig gan aelodau gan amlygu'r pwyntiau isod:

- Llywodraeth ddim dirnad effaith hyn, a ddim yn gweld bod yr arian yn y tir ac nid yn y banc. Mae ffermydd ynghlwm ar pridd ac nid oed dim un alwedigaeth sydd wedi gwreiddio gymaint mewn cymunedau.
- Eglurwyd fod y Llywodraeth yn cyfyngu'r dreth i dros £3miliwn, sydd yn swnio fel ffigwr uchel ond yn ddim os yn ystyried gwerth tir.
- Posibiliadau y bydd ffermydd yn cael ei gwerthu er mwyn cyfarch y dreth, ac yn golygu cael ei gwerthu i gwmnïau mawr heb ddim cysylltiadau a'r cymunedau a fydd yn arwain ar effaith andwyol ar gymunedau.

PENDERFYNWYD mabwysiadu'r cynnig, sef:-

Wrth ystyried

- a) bod Amaeth yn un o brif ddiwydiannau Cymru, a bod canran uchel o economi Gwynedd yn gysylltiedig â'r byd amaethyddiaeth.
- b) bod sefydlogrwydd y fferm deuluol yn gyfraniad hollbwysig ac amhrisiadwy at gadw'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau Cymraeg
- c) bod y diwydiant amaeth yng Nghymru ar hyn o bryd yn gallu cyfrannu'n o lew at stoc bwyd y 'Deyrnas Unedig' mewn oes o ansicrwydd cynyddol, ond bod y stoc yn isel

Noda'r Cyngor, gyda thristwch mai bygythiad yw'r Ddeddf Treth Etifeddiaeth i'r uned ffermio draddodiadol, i economi'r wlad ac i gefn gwlad Cymru, yn enwedig i'r ardaloedd Cymraeg. (Mae'n hysbys bod o leiaf dau ffermwr wedi cyflawni hunanladdiad ers pasio'r Ddeddf a bod teuluoedd a gweithwyr a busnesau lleol cysylltiedig yn wynebu chwalfa os daw y Ddeddf i rym yn 2026.)

Galwaf felly ar Gyngor Gwynedd i bwysu ar Lywodraeth Cymru i weithredu trwy:-

- i. bwysu ar Lywodraeth San Steffan i gydnabod bod y diwydiant ffermio yn hollbwysig i strategaeth diogelwch y DU, ac i eithrio ffermydd teuluol sy'n cynhyrchu bwyd o'r dreth newydd pan ddaw i rym.
- ii. erfyn ar Lywodraeth Cymru i gomisiynu ymchwil i asesu effaith y Ddeddf ar economi Cymru a chymunedau Cymraeg; hefyd i weithredu mesurau lliniarol digonol er mwyn diogelu'r diwydiant amaeth sydd mor allweddol i ddyfodol cymunedau cefn gwlad ein gwlad.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.30yp a daeth i ben am 4.30yp.

CADEIRYDD

CYFARFOD:	Y CYNGOR LLAWN
DYDDIAD:	2 HYDREF 2025
PWNC:	ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2024-25
AWDUR:	CARYS EDWARDS, CADEIRYDD Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
SWYDDOG CYSWLLT:	DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn bwyllgor statudol. Cyflwynir gerbron y Cyngor llawn yr adroddiad blynyddol sy'n cwmpasu gwaith y Pwyllgor dros y flwyddyn 2024/25, gan amlygu sut mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol, a sut mae'n ychwanegu gwerth i drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd.
- Dyma'r trydydd tro i adroddiad blynyddol o'r fath gael ei baratoi, yn unol ag argymhelliad cryf CIPFA. Ymhellach, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn gosod disgwyliad ar y Pwyllgor adrodd ar ganlyniadau ei waith mewn meysydd penodol (fel amlinellir ym mharagraff 8 o'r adroddiad Blynyddol), ac ystyrir fod yr adroddiad hwn yn cyflawni'r gofyn hynny.
- Mae canllawiau CIPFA yn nodi:

“Dylai'r pwyllgor baratoi adroddiad blynyddol sy'n rhoi sicrwydd i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu ei fod yn cyflawni ei bwrpas ac yn gallu dangos ei effaith”.
- Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi ystyried yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 11 Medi, ac yn cyflwyno'r adroddiad hwn i sylw'r Cyngor. Mae sylwadau aelodau'r Pwyllgor yn y cyfarfod wedi cael eu hymgorffori yn y fersiwn a gyflwynir i'r Cyngor.

Argymhelliad

- Derbyn yr adroddiad.

Atodiad:

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2024-25

Sylwadau Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Rwy'n croesawu yr adroddiad ar waith y Pwyllgor . Mae yn galonogol gweld eu bod yn parhau i gyfarch y gofynion newydd sydd arnynt yn gadarnhaol ac effeithiol.

Prif Swyddog Cyllid

Swyddog Cyfrifol

ADRODDIAD BLYNYDDOL
PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO
CYNGOR GWYNEDD
2024-25

RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD

Pwrpas yr adroddiad yma yw cyflwyno crynodeb o waith y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ystod 2024-25 ac i gyflwyno tystiolaeth posib am effaith gwaith y pwyllgor.

Mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r adroddiad yma yn bodloni gofynion statudol, ond rwyf yn mawr obeithio fod yr adroddiad yn gwneud mwy na "ticio blwch" yn unig a'i fod yn rhoi gwir ymdeimlad i'r darllenydd o'r hyn y mae'r Pwyllgor yn ei wneud, ac yn dangos sut mae Pwyllgor o'r fath yn gwneud gwir wahaniaeth.

Mae Cyngor Gwynedd, fel pob awdurdod lleol a chorff cyhoeddus arall, yn wynebu ystod o risgiau a heriau. Yn ystod 2024/25 gwelwyd nifer o heriau llywodraethu, gan gynnwys newid Arweinydd. Serch hynny, credaf fod y trefniadau llywodraethu sydd yn eu lle, sydd dan adolygiad parhaus y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, wedi dangos ei fod yn wydn dan amgylchiadau anodd iawn ac rwyf yn ddiolchgar i swyddogion ac aelodau am gydweithio i sicrhau fod y Cyngor yn gallu parhau i wneud ei orau ar ran pobl Gwynedd. Rwyf yn sicr fod sylwadau'r Pwyllgor wedi bod yn gymorth a chefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

Wrth gwrs, mae heriau ariannol yn parhau a rwyf yn falch fod y Pwyllgor wedi cymryd rôl flaenllaw yn craffu sefyllfa gyllidebol Cyngor Gwynedd, gan herio fel bo'r angen, er mwyn gwneud yn sicr ar ran y trethdalwr fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r arian mae yn ei dderbyn. Gallwch weld o'r adroddiad yma faint o waith mae'r Pwyllgor wedi ymdrin â fo yn ystod y flwyddyn.

Hoffwn ddiolch i'r holl swyddogion, yr Aelodau Etholedig a'r Aelodau Lleyg am eu cefnogaeth a'u cyfraniad dros y flwyddyn diwethaf. Mae'r cydweithio yma wedi bod yn amhrisiadwy. Roedd 2024/25 yn flwyddyn lle roedd rhai seddi gwag ar y Pwyllgor, o safbwynt Aelodau Etholedig ac Aelodau Lleyg, ond rwyf yn falch o weld cynnydd y cael ei wneud i lenwi'r bylchau hyn ar gyfer 2025/26.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ymwneud â'r cyfnod o Mai 2024 hyd Mai 2025, ac wrth gloi fy rhagair hoffwn gyfeirio at gyd-aelodau o'r Pwyllgor y bu i ni eu colli yn ddiweddar. Ar 4 Mai 2025, yn sydyn ac annisgwyl, bu farw Sharon Warnes, fy rhagflaenydd fel Cadeirydd y Pwyllgor hwn. Roedd Sharon wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor ers 2017, ac roedd yn aelod gwerthfawr iawn o'r Pwyllgor ers hynny. Roedd Sharon yn bresennol ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod 2024/25 ac roedd colli Sharon mor sydyn yn fraw i bawb.

Yna, ddiwedd mis Mai clywsom ein bod wedi colli aelod arall o'r Pwyllgor sef y Cynghorydd Rob Triggs ar ôl cyfnod o salwch. Roedd Rob wedi bod yn aelod o'r Pwyllgor ers 2022, a gwnaeth gyfraniad mawr i waith y Pwyllgor. Bydd colled fawr ar ei ôl.

Mrs Carys Edwards

Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

CYFLWYNIAD

1. Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio rôl barhaus yn y drefn o ddarparu llywodraethu dda. Pwrpas craidd y pwyllgor yw darparu sicrwydd annibynnol ar ddigonolrwydd y fframwaith reoli risg a'r amgylchedd reolaeth gysylltiol, craffu annibynnol o berfformiad ariannol ac anariannol yr awdurdod i'r graddau y mae'n effeithio ar ei amlygiad i risg ac yn gwanhau'r amgylchedd reolaeth, ac i oruchwylio'r broses adrodd ariannol.
2. Wrth gyflawni ei waith, mae'r Pwyllgor yn rhoi sylw i ganllawiau gwahanol gyrff a sefydliadau allanol gan gynnwys CIPFA.
3. Yn ôl Datganiad Sefyllfa CIPFA i Bwyllgorau Archwilio mewn Awdurdodau Lleol a'r Heddlu (2022), diben y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw:

Darparu ffocws annibynnol a lefel uchel ar ddigonolrwydd trefniadau llywodraethu, risg a rheoli. Mae rôl y pwyllgor yn sicrhau bod digon o sicrwydd ynghylch risg a rheolaeth lywodraethu ac felly yn rhoi mwy o hyder i bawb sy'n gyfrifol am lywodraethu bod y trefniadau hynny'n effeithiol.

CYFNOD YR ADRODDIAD

4. Mae'r adroddiad hwn yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor am y cyfnod rhwng cyfarfod blynyddol y Cyngor ar 9 Mai 2024 a'r cyfarfod blynyddol ar 1 Mai 2025. Cynhaliwyd 6 cyfarfod o'r Pwyllgor yn ystod cyfnod dan sylw:

[23 Mai 2024](#)

[5 Medi 2024](#)

[10 Hydref 2024](#)

[28 Tachwedd 2024](#)

[16 Ionawr 2025](#)

[6 Chwefror 2025](#)

AELODAETH Y PWYLLGOR

5. Mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn cynnwys 12 Cynghorydd ar sail cydbwysedd gwleidyddol, ynghyd a chwe 'aelod lleyg', sef person nad yw'n aelod o awdurdod lleol. Serch hynny, roedd nifer o seddi gwag ar y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn.
6. Roedd presenoldeb yr aelodau yn y cyfarfodydd fel a ganlyn:

Cadeirydd (Aelod Lleyg)

	23/05/2024	09/05/2024	10/10/2024	28/11/2024	16/01/2025	06/02/2025
Carys Edwards	✓	✓	✓	x	✓	✓

Is-Gadeirydd (Aelod Lleyg)

	23/05/2024	09/05/2024	10/10/2024	28/11/2024	16/01/2025	06/02/2025
Rhys Parry	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Cynghorwyr

	23/05/2024	09/05/2024	10/10/2024	28/11/2024	16/01/2025	06/02/2025
Cyng. Elfed Wyn ap Elwyn	✓	✓	✓	x	✓	✓
Cyng. Menna Baines	x	x	✓	x	✓	✓
Cyng. Meryl Roberts	✓	✓	✓	✓	✓	x
Cyng. Huw Rowlands	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Elwyn Jones	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Edgar Owen	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Cyng. Arwyn Herald Roberts	x	x	x	✓	✓	✓
Cyng. Richard Glyn Roberts	✓	✓	✓	✓	✓	x
Cyng. Angela Russell	✓	✓	✓	x	✓	x
Cyng. Rob Triggs	x	x	✓	✓	✓	✓
Cyng. Dafydd Meurig ¹					x	✓
Cyng. Ioan Thomas	✓	✓	✓	✓	✓	✓

Aelodau Lleyg

	23/05/2024	09/05/2024	10/10/2024	28/11/2024	16/01/2025	06/02/2025
Clare Hitchcock ²	✓	✓	✓	✓		
Hywel Eifion Jones	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Sharon Warnes	✓	✓	✓	✓	✓	✓

¹ Wedi ymuno â'r Pwyllgor yn Ionawr 2025
² Wedi ymddiswyddo Rhagfyr 2024

SWYDDOGAETHAU'R PWYLLGOR

7. Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 Rhan 6, Pennod 2 rhaid i Cyngor Gwynedd sefydlu pwyllgor llywodraethu ac archwilio gyda rhai swyddogaethau mandadol, ac mae ganddo hefyd yr hawl i gyflawni unrhyw swyddogaethau addas eraill.
8. Mae Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd yn pennu'r canlynol fel swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio:

Swyddogaeth na all fod yn gyfrifoldeb i'r Weithrediaeth

Y ddyletswydd i gymeradwyo datganiad awdurdod o'i gyfrifon, ei incwm, a'i wariant a'i fantolen neu ei gofnod o dderbyniadau a thaliadau (yn ôl fel y digwydd) yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

Swyddogaethau mandadol o dan fesur llywodraeth leol (Cymru) 2011

Mae'r pwyllgor yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau statudol canlynol o dan Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (fel y diwygiwyd) :

- (a) arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt,
- (b) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas â materion ariannol yr awdurdod,
- (c) adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol,
- (ch) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion i'r awdurdod ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau hynny,
- (d) adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol
- (e) llunio adroddiadau a gwneud argymhellion mewn perthynas a gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol.
- (f) arolygu trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod, ac
- (g) adolygu'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod.
- (ng) Gweithredu swyddogaethau Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym Mhennod 1 o Ran 6 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (perfformiad prif gynghorau a'u llywodraethu).

Swyddogaethau Eraill

Bydd y pwyllgor hefyd yn gyfrifol am gyflawni'r swyddogaethau canlynol :-

- (i) hybu rheolaeth fewnol, gan sefydlu amserlen i adolygu rheolaeth, datblygu diwylliant sydd yn milwrio yn erbyn twyll ac adolygu gweithdrefnau cyllidol;
- (ii) canolbwyntio adnoddau archwilio'r Cyngor trwy gytuno ar gynlluniau archwilio a monitro darpariaeth archwilio;
- (iii) monitro perfformiad archwilio trwy sicrhau gwaith swyddogion o fewn amserlenni, sicrhau bod adroddiadau archwilio yn cael eu cyhoeddi yn brydlon ac yr ymatebir iddynt yn yr un modd, monitro cwblhau'r cyfrifon a sicrhau y gweithredir argymhellion archwilio;
- (iv) ystyried sylwadau a phryderon am wasanaethau unigol ar lefel sirol, ar sail adroddiadau gan y swyddogion o'r Cyngor neu Archwilio Cymru a monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion neu ganfyddiadau'r adroddiadau.

Adolygu a chymeradwyo'r datganiadau ariannol a lunnir gan yr awdurdod

9. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2024, cymeradwyodd y Pwyllgor gyfrifon terfynol Harbyrau Gwynedd am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, oedd yn cwmpasu Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw 2023/24 yn ogystal â'r Ffurflen Flynyddol ar gyfer y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024 (yn amodol ar archwiliad gan Archwilio Cymru).
10. Cyflwynwyd Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Gwynedd yn amodol ar archwiliad 2023/24 i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 5 Medi 2024. Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn drafft o'r Datganiad o Gyfrifon. Er hynny, ystyrir bod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn, ac yn gyfle i'r aelodau holi swyddogion ariannol am y cynnwys ac arfogi eu hunain gyda gwybodaeth berthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun. Yn ystod y drafodaeth bu'r Pwyllgor yn herio'r swyddogion Cyllid ar wahanol agweddau o'r cyfrifon, yn enwedig trefniadau'r Cyngor i gynnal ei gronfeydd ariannol.
11. Cyflwynwyd y Cyfrifon Terfynol am y Flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2024, a'r archwiliad perthnasol, i gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Ar ôl ystyried adroddiad Archwilio Cymru ar y cyfrifon (adroddiad "ISA 260"), penderfynodd y Pwyllgor:
 - Derbyn a chymeradwyo Adroddiad 'ISA260' gan Archwilio Cymru ar gyfer Cyngor Gwynedd
 - Derbyn a chymeradwyo Datganiad o'r Cyfrifon 2022/23 (ôl-archwiliad)
 - Is-gadeirydd y Pwyllgor ynghyd a'r Pennaeth Cyllid i ardystio'r Llythyr Cynrychiolaeth yn electroneg
 - Llongyfarch y swyddogion ar eu gwaith o dderbyn datganiad diamod
 - Diolch i Archwilio Cymru am gydweithio da.

Arolygu materion ariannol yr awdurdod, craffu arnynt, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

12. Cyflwynwyd adroddiad gan yr Aelod Cabinet Cyllid ar y Cynllun Ariannol Tymor Canolig i'r Pwyllgor ar 23 Mai 2024, mewn ymateb i'r heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Pwrpas y cynllun yw gosod allan y rhagolygon am sefyllfa'r Cyngor dros y dair blynedd ariannol nesaf gan gynnig rhagdybiaethau yn ogystal a chynigion i fynd i'r afael â'r bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu. Amlygwyd bod y cynllun wedi cael ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 14 Mai 2024.
13. Adroddwyd fod y Cabinet wedi penderfynu comisiynu'r Prif Weithredwr i sefydlu ac arwain ar ystod o fesurau a phecynnau gwaith, i ragbaratoi ar gyfer cyfarch y bwlch sylweddol yn y gyllideb dros y tair blynedd nesaf. Bydd y gwaith hefyd yn ystyried dulliau enwyd o ariannu gwasanaethau, yn rhoi darlun clir o gynaliadwyedd y Cyngor dros y tair blynedd nesaf ac yn gymorth i wneud penderfyniadau mewn cyfnod anodd. Ategwyd bod y Cynllun yn gynllun byw fydd yn cael ei ddiweddarau fel bydd gwybodaeth yn dod i law.
14. Ar ôl herio'r swyddogion a'r Aelod Cabinet am gynnwys y Cynllun, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, nodi'r risgiau perthnasol sy'n deillio o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a chefnogi penderfyniadau'r Cabinet.

Gwariant Refeniw

15. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa ariannol yr awdurdod yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad Aldro Refeniw ar y Cyfrifon Terfynol 2023/24 i gyfarfod 23 Mai 2024 er mwyn i'r Pwyllgor allu derbyn gwybodaeth, ystyried unrhyw risgiau sy'n deillio o'r gwir wariant ac incwm yn erbyn cyllideb 2023/24, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt rheoli cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau. Roedd yr adroddiad yn manylu ar wariant y Cyngor yn 2023/24, sefyllfa alldro tanwariant neu orwariant yr adrannau unigol, a'r rhesymau am hynny. Diolchwyd am yr adroddiad a chydabuwyd bod y cyfnod yn un heriol iawn i wasanaethau. Cafwyd trafodaeth eang lle mynegwyd pryder am sefyllfa gorwariant, toriadau a than-gyllido. Nodwyd gan y Pwyllgor fod derbyn adroddiadau parhaus ar y sefyllfa yn fuddiol, ond bod gorwariant sylweddol gan y Cyngor – a'n bod yn ffodus o fod ag arian wrth gefn. Serch hynny, roedd y Pwyllgor yn bryderus fod risg i'r gorwariant waethgu yn y tymor hwy, yn enwedig wrth i'r boblogaeth heneiddio.
16. Yn ogystal ag ystyried y sefyllfa alldro ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, cynhelir adolygiadau ffurfiol o sefyllfa'r gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn, ar ddiwedd Awst a diwedd Tachwedd. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2024 i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, ac adroddiadau ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 i'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2025. Ar yr achlysuron hyn penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiadau gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt cyllidebau'r Cyngor a'i adrannau, a bu i'r Pwyllgor gytuno gydag argymhellion y Cabinet er mwyn ymdrin â'r sefyllfa o or-wariant oedd yn cael ei ragweld erbyn diwedd y flwyddyn ariannol.

17. Ymysg y materion a godwyd yn ystod y trafodaethau hyn roedd yr angen i'r Cabinet herio beth yw amserlen y gwaith sydd wedi ei gomisiynu gan y Prif Weithredwr i gael gwell dealltwriaeth o orwariant eithriadol gan yr Adran Oedolion Iechyd a Llesiant gan fod angen sicrwydd bod y gwaith yma yn ei le i osod cyllideb i'r Cabinet. Mynychodd Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol a Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gyfarfod Ionawr 2025 i roi cyd-destun ac eglurhad llawnach ar benawdau cyllideb yr Adran gan fanylu ar sefyllfa gyllidol heriol yr Adran.
18. Nodwyd hefyd fod y defnydd o gronfeydd wrth gefn yn achosi pryder. Os defnyddio'r arian yma, rhaid sicrhau bod yr arian yn cael ei ddefnyddio yn y llefydd priodol, sef ymateb i'r angen.

Rhaglen Gyfalaf

19. Ar 23 Mai 2024, cyflwynwyd Adolygiad Diwedd Blwyddyn (sefyllfa 31 Mawrth 2024) Rhaglen Gyfalaf 2023-24. Prif ddiben yr adroddiad oedd cyflwyno'r rhaglen gyfalaf diwygiedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad, gan nodi'r sefyllfa a'r risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor.
20. Cyflwynwyd adroddiadau ar adolygiad diwedd Awst 2024 o'r rhaglen gyfalaf i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, ac ar adolygiad diwedd Tachwedd 2024 i'r cyfarfod ar 16 Ionawr 2025 er mwyn derbyn y wybodaeth, ystyried y risgiau ynglŷn â'r Rhaglen Gyfalaf, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet.

Rhaglen Arbedion

21. Ynghlwm â'r adolygiad o sefyllfa'r gyllideb refeniw, mae'r Pwyllgor hefyd wedi derbyn adroddiadau ar wahân yn ystod y flwyddyn ar allu'r Cyngor i wireddu ei gynlluniau arbedion. Cyflwynwyd adroddiadau cynnydd ar wireddu cynlluniau arbedion i'r Pwyllgor yn ei gyfarfodydd ar 10 Hydref 2024 a 16 Ionawr 2025 fel bod modd i'r Pwyllgor ystyried risgiau cyffredinol sy'n deillio o'r llithriadau, a chraffu penderfyniadau'r Cabinet yng nghyswllt y Trosolwg Arbedion.
22. Awgrymodd y Pwyllgor ffordd amgen o gyflwyno gwybodaeth, gan llunio tabl i'r dyfodol sydd yn gwahaniaethu rhwng y sefyllfa hanesyddol a'r sefyllfa ddiweddaraf fel bod bodd adnabod risgiau i'r sefyllfa gyfredol. Roedd y Pwyllgor yn cydnabod bod yr arbedion 'hawsaf' wedi eu gwireddu – mae'r arbedion sydd angen eu gwireddu yn y dyfodol agos yn anodd ac felly bydd angen sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei roi i osod amserlen briodol ar gyfer gweithredu a rhoi cyfle i adrannau gynllunio'n well i'r tymor hir, ond gan nodi fod hwn waith heriol iawn oedd wedi ei gyflwyno mewn modd dealladwy.

23. Oherwydd y bwlch ariannol mae'r Cyngor yn ei wynebu dros y blynyddoedd nesaf bu'n rhaid iddo ddatblygu cynlluniau arbed newydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ymlaen. Cyflwynwyd adroddiad gan Arweinydd y Cyngor i gyfarfod y Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025, oedd yn cyflwyno cyfres o arbedion pellach ar gyfer 2025/26. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried priodoldeb y broses o adnabod yr arbedion, a chyflwyno sylwadau i'r Cabinet eu hystyried cyn dod i benderfyniad yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror. Roedd y Pwyllgor yn glir nad ei rôl oedd mynegi barn ar beth ddylai maint yr arbedion fod neu rinweddau'r cynigion unigol oedd cael ei hargymell fel arbedion, ond yn hytrach sicrhau fod y Cabinet yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt, fel bod y penderfyniad sydd yn cael ei gymryd yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. Penderfynodd y Pwyllgor:
- Bod camau rhesymol, o dan amgylchiadau heriol, wedi eu cymryd i lunio'r Cynllun Arbedion
 - Bod yr arbedion a gynigwyd yn rhesymol a chyraeddadwy
 - Bod y risgiau a'r goblygiadau'r penderfyniad yn glir
 - Bod yr adroddiad yn ddigonol i alluogi'r Cabinet i wneud penderfyniad ar y Cynllun Arbedion
 - Cyflwyno sylwadau o'r drafodaeth ar yr adroddiad i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod a chymeradwyo'r Cynllun Arbedion 2025/26 yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025.
 - Croesawu gwahoddiad i'r gweithdai rhannu gwybodaeth
24. Yn ogystal â hynny, gofynnwyd i'r Cabinet ystyried adolygu'r ymgynghoriad cyhoeddus i'r dyfodol i geisio barn trigolion am lefel treth, yn ogystal ag annog mwy o ymdrech i resymoli gwasanaethau.

Rheolaeth Trysorlys

25. Yn unol â threfniadau llywodraethu da yn ogystal â gofynion statudol, mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ar weithgareddau Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn. Ar ôl derbyn diweddariad chwarterol ar 23 Mai 2024, cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod 5 Medi 2024 ar wir ganlyniadau rheolaeth trysorlys y Cyngor 2023/24, yn erbyn y strategaeth a gymeradwywyd gan y Cyngor Llawn 2 Mawrth 2023. Yn dilyn hynny, cyflwynwyd diweddariad chwarterol Rheolaeth Trysorlys yng nghyfarfod 10 Hydref 2024, ac adolygiad canol blwyddyn Rheolaeth Trysorlys 2024/25 i gyfarfod 28 Tachwedd 2024. Pwrpas yr adroddiadau hyn oedd diweddarau'r Pwyllgor am wir weithgarwch Rheolaeth Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol.

Gosod Cyllideb

26. Wrth agosáu at ddiwedd y flwyddyn ariannol, bu'r pwyllgor yn ystyried adroddiad ar Gyllideb 2025/26 ar 6 Chwefror 2025 er mwyn craffu'r wybodaeth cyn i'r Cabinet argymhell cyllideb 2025/26 i'r Cyngor llawn. Rôl y Pwyllgor yn y cyd-destun hwn oedd craffu'r wybodaeth gan sicrhau bod y Cabinet a'r Cyngor yn glir o'r ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno iddynt fel bod y penderfyniad yn seiliedig ar wybodaeth gadarn. I gynorthwyo'r gwaith yma, cafodd aelodau etholedig ac aelodau lleig y Pwyllgor gyfle i fynychu Sesiwn Briffio ar y Sefyllfa Ariannol gan y Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid ar 28 Ionawr.
27. Ar ôl ystyried yr adroddiad a'i atodiadau, penderfyniad y Pwyllgor oedd derbyn yr adroddiad gan nodi'r cynnwys, a derbyn priodoldeb ariannol y cynigion a'r risgiau perthnasol.
28. Nid oedd unrhyw bwynt penodol roedd y Pwyllgor yn ystyried fod angen dwyn sylw i'r Cabinet eu hystyried wrth drafod Cyllideb 2025/26 yn eu cyfarfod ar 11 Chwefror 2025, nac i'r Cyngor llawn.
29. Hefyd yng nghyfarfod 6 Chwefror 2025 bu'r Pwyllgor yn ystyried Strategaeth Gyfalaf 2025/26 (yn cynnwys Strategaethau Buddsoddi a Benthlyg), a hynny er mwyn ystyried unrhyw risgiau sy'n codi o'r strategaeth cyn cyflwyno i'r Cyngor llawn ei dderbyn. Roedd y cyflwyniad roedd aelodau'r Pwyllgor wedi ei dderbyn ar 4 Chwefror gan Arlingclose, ymgynghorwyr rheolaeth trysorlys y Cyngor, yn hynod ddefnyddiol wrth ymgymryd â'r dasg yma. Derbyniwyd yr adroddiad gan nodi'r wybodaeth a'r risgiau perthnasol, a cefnogwyd bwriad yr Aelod Cabinet Cyllid i gyflwyno'r Strategaeth i'r Cyngor Llawn am gymeradwyaeth ar 6 Mawrth 2025.

Hybu rheolaeth fewnol; Adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau, rheolaeth fewnol, asesu perfformiad a llywodraethu corfforaethol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

Adroddiadau Archwilio Mewnol

- 30. Pwrpas Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor ydi “Rhoi hyder i’r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i’r Pennaeth Cyllid a’r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio”.
- 31. Mae adroddiadau archwilio mewnol yn arf pwysig felly i alluogi’r Pwyllgor i gyflawni ei swyddogaeth o adolygu ac asesu trefniadau'r awdurdod ar gyfer rheoli risgiau a rheolaeth fewnol.
- 32. Mae mwyafrif adroddiad Archwilio Mewnol yn gosod canlyniad y gwaith i un o bedwar categori o lefel sicrwydd, fel a ddangosir yn y tabl isod:

LEFEL SICRWYDD	UCHEL	Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion.
	DIGONOL	Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru’r risgiau ymhellach.
	CYFYNGEDIG	Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â’r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau’r risgiau mae’r gwasanaeth yn agored iddynt.
	DIM SICRWYDD	Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion.

- 33. Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2023/24 i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2024. Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2023/2024, roedd y Rheolwr Archwilio o’r farn bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu’r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- 34. Mae’r Pwyllgor wedi derbyn ddiweddariadau ar waith archwilio mewnol yn ystod y flwyddyn. Cyflwynwyd adroddiad am y cyfnod o 1 Rhagfyr 2023 hyd 31 Mawrth 2024 i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2025. Amlygwyd bod 12 o archwiliadau’r cynllun wedi eu cwblhau. O’r rhain, roedd 1 wedi derbyn barn “sicrwydd uchel”, 8 wedi derbyn “sicrwydd digonol” a 3 “sicrwydd cyfyngedig”.
- 35. Cyflwynwyd adroddiad i’r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024 yn diweddaru’r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Ebrill 2024 hyd 30 Medi 2024. Amlygwyd bod 11 o archwiliadau wedi eu cwblhau, gyda 4 ohonynt yn dangos lefel “sicrwydd uchel”, 3 yn dangos lefel “sicrwydd digonol” a 4 “sicrwydd cyfyngedig”.

36. Cyflwynwyd adroddiad pellach i'r Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025 yn diweddarau'r Pwyllgor ar waith archwilio mewnol am y cyfnod o 1 Hydref 2024 hyd 27 Ionawr 2025. Amlygwyd bod 9 o archwiliadau o Gynllun Gweithredol 2024/25 wedi eu cwblhau gyda phump ohonynt wedi derbyn lefel "sicrwydd digonol" ac phedwar wedi derbyn lefel "sicrwydd cyfyngedig".
37. Rhoddwyd sylw i'r holl gynnyrch yma yn eu tro gan y Pwyllgor. Lle roedd sicrwydd cyfyngedig, gwnaethpwyd cais am wybodaeth ddilynol er mwyn caniatáu i'r Pwyllgor gyflawni ei ddyletswyddau.
38. Yn ychwanegol i'r uchod, cyflwynwyd canlyniad archwiliad arbennig ar y maes Gofal Cartref i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Gosodwyd pedwar cwestiwn gan y comisiynwyr:
- Oes gan yr adran reolaeth gyllidol ddigonol ar y ddarpariaeth gofal cartref preifat?
 - Oes rheolaeth weithredol ddigonol ar gomisiynu gofal cartref preifat?
 - Ydi trefniadau rheoli risgiau ar y ddarpariaeth gofal cartref preifat yn ddigonol?
 - Oes gan yr adran ddata rheolaethol effeithiol ar gyfer rheoli a chomisiynu gofal cartref preifat?
39. Pwysleisiwyd nad oedd yr archwiliad yn cwmpasu adolygiad o'r gofal.
40. Nodwyd er bod model comisiynu gofal cartref yn un uchelgeisiol, fod heriau gweithredu a bellach mae elfen o ail-strwythuro wedi ei roi yn ei lle, gyda Grŵp Prosiect wedi ei sefydlu dan arweiniad y Pennaeth. Yn ogystal, amlygwyd bod rhaglen waith wedi ei llunio i gyfarch y gwendidau a'r blaenoriaethu ac y bydd Archwilio Mewnol yn derbyn gwahoddiad i fynychu'r Grŵp Prosiect.
41. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn cynnwys yr adroddiad a nodi'r wybodaeth gan nodi fod angen diweddariad pellach yn rhoi sicrwydd bod y sefyllfa yn gwella, gyda mewnbwn gan y Prif Weithredwr.

42. Mynychodd y Prif Weithredwr, Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant a Cadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal gyfarfod y Pwyllgor ar 6 Chwefror 2025 er mwyn cyflwyno cynllun ymateb i'r adroddiad Archwilio Mewnol. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:

- Angen cyllideb ddigonol ar gyfer y gwaith - y gorwariant yn bryder.
- Bod gwendidau sylweddol yng ngweinyddiaeth yr Adran - angen sicrhau bod y mater yn cael ei oruchwylio. Oes sicrwydd bod y gwendidau wedi diflannu a /ynteu sicrwydd bod yr arian sydd yn cael ei dalu allan yn gywir?
- Bod data yn cael ei ddefnyddio yn briodol - derbyn bod diffygion gwybodaeth wedi bodoli, ond angen sicrwydd bod y model newydd yn sicrhau gwybodaeth gywir i reoli a monitro y sefyllfa yn well.
- Bod angen sicrhau bod llwyddiant yn cael ei fesur.
- Bod angen diweddariad ar y cynnydd a llwyddiant y rhaglen waith.

43. Penderfynwyd derbyn a nodi'r cynnydd i ganfyddiadau gwaith Archwilio Mewnol ar drefniadau Gofal Cartref y Cyngor, croesawu'r Rhaglen Waith drylwyr sydd mewn lle i wella'r ddarpariaeth ond bod angen diweddariad pellach ymhén 12 mis ar gynnydd a llwyddiant y rhaglen waith.

Adroddiadau Archwilwyr Allanol

44. Ar 23 Mai 2024 cyflwynodd Archwilio Cymru ddwy adroddiad i'r Pwyllgor. Roedd y cyntaf ohonynt, *Datblygu cynaliadwy? - gwneud y defnydd gorau o dir llwyd ac adeiladau gwag* yn adroddiad cenedlaethol. Cyflwynwyd ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymateb.

45. Roedd yr ail adroddiad a gyflwynwyd i'r cyfarfod yma gan Archwilio Cymru yn adroddiad penodol i Cyngor Gwynedd, sef *Gosod Amcanion Llesiant*. Roedd yr archwiliad yn sefydlu sut wnaeth y Cyngor gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy drwy gydol y broses o osod ei amcanion llesiant. Amlygwyd bod Cyngor Gwynedd wedi dechrau'r gwaith o osod amcanion llesiant newydd yn ystod 2022 gan gyhoeddi saith amcan newydd ym Mawrth 2023 fel rhan o Gynllun y Cyngor ar gyfer 2023 - 2028. Gofynnwyd i'r Cyngor ystyried canfyddiadau a phedwar argymhelliad Archwilio Cymru. Cyflwynwyd ymateb y sefydliad i'r argymhellion ac i'r Pwyllgor eu hystyried. Ar gyfer yr adroddiad yma hefyd, cyflwynwyd ymateb y rheolwyr oedd yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud i ymateb i'r argymhellion o fewn yr adroddiad, ac roedd y Pwyllgor yn fodlon gyda chynnwys yr ymateb.

46. Ar 5 Medi 2024 cyflwynwyd adroddiad *Arolygiad o Wasanaethau Troseddau Ieuencid Gwynedd ac Ynys Môn* gan Arolygaeth Prawf EF i'r Pwyllgor. Penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr adroddiad ar ganlyniad ac argymhellion yr arolwg a llongyfarch y Gwasanaeth ar ganlyniadau'r arolygiad. Awgrymodd y Pwyllgor dylid ychwanegu canran y defnyddwyr sy'n derbyn gwasanaeth Gymraeg i'r ystadegau yn y dyfodol.

47. Cyflwynwyd adroddiad Archwilio Cymru *Gofal Brys ac Argyfwng: Llif allan o'r Ysbyty – Rhanbarth Gogledd Cymru* i'r Pwyllgor ar 10 Hydref 2024, yn ogystal ag ymateb sefydliadol ar y cyd i'r argymhellion archwilio. Nodwyd bod gwaith a chanfyddiadau Archwilio Cymru wedi eu croesawu a bod yr ymateb yn un ar y cyd gan sefydliadau ar draws y rhanbarth, gyda Chyngor Gwynedd yn chwarae rhan allweddol yn y broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty. Ategodd bod y rhanbarth yn cydnabod ac yn adnabod y gwelliannau sydd angen eu gweithredu i sicrhau cefnogaeth i gleifion ar ôl dod adref ac y byddai Gwynedd yn gwneud pob ymdrech i gydweithio gyda'r holl bartneriaethau i ymateb i'r heriau hyn. Nododd hefyd bod nifer o'r materion yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Cyngor Gwynedd. Penderfynwyd derbyn cynnwys yr adroddiad, gan ofyn am ddiweddariad ar yr argymhellion ymhen 12 mis.
48. Ar 16 Ionawr 2025 cyflwynwyd dwy adroddiad Archwilio Cymru, sef adroddiad cenedlaethol *Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol* yn ogystal ag adroddiad lleol *Adolygiad o Gynaliadwyedd Ariannol – Cyngor Gwynedd*. Cyflwynwyd Ffurflen Ymateb Rheolwyr i argymhelliad yr adroddiad lleol hefyd. Yn ystod y drafodaeth ddilynol nodwyd y sylwadau canlynol gan aelodau:
- Bod angen ychydig mwy o fanylder yn y cynllun gweithredu, ond nodwyd mai cychwyn y daith oedd y camau a nodwyd ac yn dilyn cefnogaeth a chanllawiau gan CIPFA, bydd gwaith o ddechrau llunio rhaglen waith ar gyfer y strategaeth yn dechrau canol Mawrth 2025, gyda bwriad o gyflwyno rhaglen waith manwl ym Mawrth 2026.
 - I dreialu cyllideb di-sylfaen (*zero-based budget*) i drawsnewid rhai gwasanaethau
 - Bod yr adroddiadau yn ddefnyddiol ac yn edrych ar y darlun mawr
 - Bod rhai Cyngorau mewn sefyllfa well na'i gilydd i ddygymod â'r heriau ariannol
 - Bod angen cywiro cyfieithiadau enwau llefydd ar y mapiau sydd yn yr adroddiad cenedlaethol
 - Derbyn sefyllfa cronfeydd wrth gefn y Cyngor, ond at bwrpas penodol ac nid i wireddu arbedion.
49. Penderfynwyd derbyn yr adroddiad Cenedlaethol a Lleol a derbyn ymateb y Cyngor i'r argymhellion.
50. Cyflwynwyd Crynodeb Archwilio Blynnyddol 2023 i'r Pwyllgor yn ein gyfarfod ar 5 Medi 2024. Roedd y crynodeb hwn yn dangos y gwaith a gwblhawyd gan Archwilio Cymru ers y Crynodeb Archwilio Blynnyddol blaenorol, a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2023. Mae'r crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

51. Un o orchwylion blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ydi adolygu a chymeradwyo'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft. Mae'r datganiad, er nad yn rhan o'r cyfrifon, yn ddogfen statudol ac angen ei chyhoeddi gyda'r cyfrifon. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) a Chod Ymarfer CIPFA mae'n rhaid i bob Awdurdod Lleol sicrhau bod datganiad o reolaeth fewnol yn ei le. Y Prif Weithredwr ac Arweinydd y Cyngor sydd yn arwyddo'r datganiad er bod angen cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ac mae gan y Pwyllgor rôl allweddol yn gwirio a herio ei gynnwys.
52. Cyflwynwyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol Cyngor Gwynedd ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2024. Bu'r Pwyllgor yn herio gynnwys y datganiad, a gwneud arsylwadau ar rai o'r sgoriau risg, yn enwedig yr angen i adolygu sgôr tebygolrwydd Cyfreithlondeb (gwnaethpwyd hyn yn dilyn y cyfarfod a daeth y Grŵp Llywodraethu i'r casgliad ei fod yn briodol). Penderfynwyd cymeradwyo'r datganiad ac argymhell bod Arweinydd y Cyngor a Prif Weithredwr y Cyngor yn ei arwyddo.
53. Wrth symud ymlaen, mae angen ystyried adolygu'r cwestiynau ac addasu'r ddogfen i fod yn eglur i drigolion. Er is fod yn cydymffurfio â chanllawiau CIPFA, awgrym i ystyried cyfuno gyda'r asesiad o drefniadau llywodraethu sydd wedi ei gynnwys yn Hunanasesiad Cyngor Gwynedd i osgoi dyblygu gwaith.

Gweithgor Gwella Rheolaethau

54. Cynhaliwyd un cyfarfod o'r Gweithgor Gwella Rheolaethau yn ystod y flwyddyn, a hynny ar 28 Tachwedd 2024 gyda Chadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, Carys Edwards, Rhys Parry (Is-Gadeirydd) a'r Cynghorwyr Angela Russell a Ioan Thomas, swyddogion Archwilio Mewnol a swyddogion o'r Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant yn bresennol. Roedd hyn yn dilyn penderfyniad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 10 Hydref 2024 i alw'r archwiliadau canlynol gerbron y Gweithgor Gwella Rheolaethau:
 - Plas Pengwaith
 - Llys Cadfan
 - Plas Hafan.
55. Adroddwyd yn ôl i gyfarfod y Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024 bod y cyfarfod wedi bod yn fuddiol gan roi cyfle i swyddogion a rheolwyr y cartrefi ymateb yn onest i'r sefyllfa. Nodwyd gan y Pwyllgor fod pryder am gostau staff asiantaethau gan awgrymu bod angen cynnal adolygiad i geisio cadw staff o dan reolaeth Cyngor Gwynedd gan byddai hyn yn lleihau trosiant. Roedd y Pwyllgor o'r farn bod angen cyfeirio argymhellion yr adroddiad at sylw'r Pwyllgor Craffu Gofal, a gwnaethpwyd awgrym ar wella adroddiadau'r Gweithgor i'r dyfodol trwy gynnwys crynodeb o'r materion sydd angen sylw i'w cynnwys ar ddiwedd yr adroddiad.

Adolygiad y Cyfansoddiad

56. Ar 9 Chwefror 2025 cyflwynwyd adroddiad ar y cyd gan y Swyddog Monitro a'r Rheolwr Caffael yn diweddarau'r Pwyllgor ar newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil y Ddeddf Caffael 2023. Nodwyd mai prif amcan y gwaith yw newid Cyfansoddiad y Cyngor a threfniadau canolog i gyfarch newidiadau'r Ddeddf.
57. Penderfynwyd derbyn y newidiadau i Reolau Gweithdrefn Contractau sydd yn digwydd yn sgil Deddf Caffael 2023, a gyflwynwyd i'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth er mwyn eu mabwysiadu.

Cynllun Rheoli Asedau

58. Ar 23 Mai 2024, gofynnwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ystyried y gwaith ar y Cynllun Rheoli Asedau diwygiedig. Cyflwynwyd adroddiad gan y Prif Weithredwr yn gofyn i'r aelodau graffu'r wybodaeth a chynnig sylwadau bod y ffeithiau sydd yn cael eu cyflwyno yn seiliedig ar wybodaeth gadarn a bod priodoldeb y broses o sefydlu'r blaenoriaethau wedi eu hystyried yn llawn, cyn i'r Cabinet ystyried y Cynllun yn ei gyfarfod 11 Mehefin 2024.
59. Ar ôl holi'r Prif Weithredwr am faterion yn y Cynllun drafft, a'r rhaglen gyfalaf, penderfynwyd derbyn yr adroddiad, cymeradwyo priodoldeb y broses o sefydlu blaenoriaethau'r Cynllun a chefnogi'r argymhelliad i'r Cabinet (11 Mehefin 2024) i gymeradwyo'r Cynllun.

Cyd Bwyllgor Corfforedig y Gogledd – Sefydlu Is Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

60. Ar 10 Hydref 2024 cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth gydag argymhelliad fod y Pwyllgor yn enwebu un cynghorydd i wasanaethu ar Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd ac un cynghorydd i weithredu fel dirprwy ar gyfer yr aelod hwnnw. Gofynnwyd i'r Pwyllgor hefyd benderfynu a yw'n dymuno enwebu Aelod Lleyg i Is-Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd.
61. Penderfyniad y Pwyllgor oedd i enwebu'r Cynghorydd Ioan Thomas i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd, ac enwebu'r Cynghorydd Richard Glyn Roberts i weithredu fel dirprwy, gan enwebu Carys Edwards (Cadeirydd Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Gwynedd) i'w hystyried i wasanaethu ar Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cydbwyllgor Corfforedig y Gogledd fel un o'r aelodau lleyg.

Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio

62. Cyflwynwyd adroddiad ar yr Adolygiad o Ddosbarthiadau a Mannau Pleidleisio i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024. Pwrpas yr adroddiad oedd i roi cyfle i'r Pwyllgor ystyried canlyniadau'r adolygiad o ddosbarthiadau pleidleisio a'r manau pleidleisio yn etholaethau seneddol Dwyfor Meirionnydd a Bangor Aberconwy i'r graddau y maent o fewn Gwynedd, yn dilyn cyfnod ymgynghori, er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn am benderfyniad.
63. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol rannu'u hardal i ddosbarthiadau pleidleisio ar gyfer etholiadau seneddol y DU, ac i ddynodi manau pleidleisio ar gyfer y dosbarthiadau pleidleisio hyn. O dan Ddeddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983 a Rheoliadau Arolwg Dosbarthiadau Pleidleisio a Mannau Pleidleisio (Etholiadau Seneddol) 2006 mae'n ofynnol hefyd i'r Cyngor adolygu pob dosbarth pleidleisio a'r manau pleidleisio bob pum mlynedd. Roedd adolygiad statudol wedi ei gynnal rhwng 23 Medi 2024 a 1 Tachwedd 2024.
64. Ar ôl ystyried yr adroddiad a holi'r swyddogion, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo canlyniadau'r adolygiad i'w gyflwyno i'r Cyngor Llawn ar 5 Rhagfyr 2024.

I adolygu ac asesu gallu'r awdurdod i ymdrin a chwynion mewn modd effeithiol, gan lunio adroddiadau a gwneud argymhellion

65. Cyflwynwyd Adroddiad Blynnyddol Cwynion a Gwella Gwasanaeth 2023/24 i'r Pwyllgor ar 28 Tachwedd 2024, er mwyn diweddarau'r Pwyllgor o gynnwys Llythyr Blynnyddol yr Ombwdsman a threfniadau'r Cyngor o safbwynt ymdrin â chwynion.
66. Atgoffwyd yr Aelodau bod gofyn statudol ar y Pwyllgor i sicrhau bod gan y Cyngor drefniadau effeithiol ar gyfer ymdrin â chwynion. Ategwyd, ni fu unrhyw newid yn y drefn na'r Polisi Pryderon a Chwynion yn ystod 2023/2024 ac felly bod cynnwys llythyr yr Ombwdsman yn seiliedig ar y Polisi a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn 2021.
67. Adroddwyd bod y Llythyr Blynnyddol wedi dod i law 9fed o Fedi 2024. Cyfeiriwyd at rai sylwadau ac argymhellion a wnaethpwyd gan yr Ombwdsmon oedd yn cynnwys, "Byddwn yn annog Cyngor Gwynedd, ac yn benodol, eich Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i ddefnyddio'r data hwn i ddeall eich perfformiad o ran cwynion yn well ac ystyried pa mor dda y mae dulliau ymdrin â chwynion yn dda wedi'i wreiddio ledled yr Awdurdod".
68. Ar ôl trafodaeth ar ei gynnwys, penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad.

Arolygu a monitro trefniadau archwilio mewnol ac allanol yr awdurdod

Rhaglen Waith Archwilio Mewnol

69. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o Siarter Archwilio Mewnol i gyfarfod y Pwyllgor ar 23 Mai 2024. Yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus 2013 (diwygiedig 2017) rhaid llunio Siarter Archwilio Mewnol gyda chynnwys y Siarter yn cyfarch Nodyn Gweithredu Llywodraeth Leol (2019) a gyhoeddwyd gan CIPFA. Cyfrifoldeb y Pwyllgor yw cymeradwyo'r siarter yn flynyddol.
70. Tynnwyd sylw at yr angen yn y flwyddyn nesaf i ddiweddaru'r Siarter Archwilio i adlewyrchu gofynion newydd "Safonau Archwilio Mewnol Byd-eang" (*Global Internal Audit Standards*) fel y cyhoeddwyd gan yr *Institute of Internal Auditors* (IIA). Bydd angen i'r addasiadau fod yn weithredol erbyn 2025. Cyfeiriwyd hefyd at un newid arall ers cymeradwyo siarter 2023/24, sef bod pwrpas y Gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi ei ehangu.
71. Penderfynodd y Pwyllgor dderbyn yr adroddiad a chymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol.
72. Yn yr un cyfarfod, cymeradwyodd y Pwyllgor Strategaeth Archwilio Mewnol a'r Cynllun Archwilio Blynnyddol ar gyfer 2024/25.
73. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar y cynnydd ar waith y cynllun archwilio yn ei gyfarfodydd ar 10 Hydref 2024 a 6 Chwefror 2025. Cyfeiriwyd at statws y gwaith ynghyd â'r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad. Cymeradwywyd addasiadau i'r cynllun er mwyn adlewyrchu'r adnoddau oedd wedi bod ar gael i'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Rhaglen Waith Archwilio Cymru

74. Cyflwynwyd Cynllun Archwilio Manwl 2024 gan Archwilio Cymru i gyfarfod 5 Medi 2024. Roedd y cynllun yn nodi'r gwaith roedd yr archwilydd yn bwriadu ei wneud fel modd o gyflawni eu cyfrifoldebau statudol fel archwilydd allanol y Cyngor ac yn unol â'u rôl o dan Còd Ymarfer Archwilio. Nodwyd byddai'r archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar risgiau'r Cyngor a meysydd pwyslais eraill, a byddai'r archwiliad o berfformiad yn cynnwys asesu Sicrwydd a Risg, a gwaith lleol ar yr ymateb i'r galw presennol am ofal cartref, a strategaeth y Cyngor ar gyfer defnyddio cronfeydd wrth gefn.
75. Mae'r Cynllun Manwl yn cyfeirio at risgiau sylweddol i'r datganiadau ariannol (h.y. Gwrthwneud gan y Rheolwyr) sydd yn berthnasol i bob Awdurdod Lleol, ynghyd â meysydd eraill byddai'r gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt, sef prisio tir ac adeiladau a phrisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn.
76. Yn ystod y flwyddyn cyflwynwyd y diweddariadau chwarterol canlynol i'r Pwyllgor ar waith y cyrff adolygu:
 - Chwarter 4 2023/24 i gyfarfod 23 Mai 2024
 - Chwarter 1 2024/25 i gyfarfod 5 Medi 2024
 - Chwarter 2 2024/25 i gyfarfod 28 Tachwedd 2024.

Swyddogaethau Deddf 2021 – Perfformiad y Cyngor

77. Mae'n ofyn statudol newydd yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 fod y Cyngor yn cynhyrchu "adroddiad hunanasesu" sy'n nodi ei gasgliadau ynglŷn ag i ba raddau y gwnaeth y Cyngor fodloni'r gofynion perfformiad sydd wedi eu gosod allan yn y Ddeddf yn ystod y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae'r un darn o ddeddfwriaeth yn nodi fod rhaid i'r Cyngor sicrhau bod fersiwn ddrafft o'i adroddiad hunanasesu ar gael i'w bwyllgor llywodraethu ac archwilio (Adran 91(6)).
78. Cyflwynwyd adroddiad hunanasesiad drafft ar gyfer 2023/24 i'r Pwyllgor ar 5 Medi 2024 a chafwyd trafodaeth fanwl ar y cynnwys. Ar ôl trafod, penderfyniad y Pwyllgor oedd i dderbyn yr hunanasesiad drafft, ond gwnaethpwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer cryfhau'r adroddiad unai ar gyfer 2024/25 neu mewn blynyddoedd i ddod.
79. Ymysg y sylwadau a wnaethpwyd oedd fod angen cynnwys y Pwyllgor yn gynharach yn y broses a gwnaethpwyd awgrym fod gweithdy'n cael ei gynnal gyda'r Aelodau fel bod y Pwyllgor yn cael mewnbwn a gwell cyfle i gynnig argymhellion.
80. Awgrymwyd hefyd ystyried trefniadau ymgynghori priodol i'r dyfodol i sicrhau mewnbwn trigolion Gwynedd yn y broses, ac wrth gyflwyno data fod angen sicrhau eglurhad llawn. O ran Cynyddu Cyflenwad o Dai i Bobl Leol awgrymodd y Pwyllgor fod angen amlygu'r effaith ac nid y nifer yn unig.

Monitro ymateb a gweithrediad ar argymhellion archwilwyr allanol a rheoleiddwyr

81. Derbyniodd y Pwyllgor ddiweddariad ar Argymhellion a Chynigion Gwella Adroddiadau Archwilio Allanol yn ei gyfarfod ar 6 Chwefror 2025. Yn unol â'i rôl statudol, mae angen i'r Pwyllgor fodloni ei hun bod trefniadau priodol yn eu lle er mwyn sicrhau bod cynigion gwella sy'n codi o adroddiadau archwilio allanol yn cael eu gwireddu.
82. Ar sail yr adroddiadau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor, a'r gwaith herio a gyflawnwyd yn ystod y ddau gyfarfod, roedd y Pwyllgor yn fodlon fod trefniadau'r Cyngor ar gyfer ymateb i argymhellion a chynigion gwella adroddiadau archwilio allanol a rheoleiddwyr yn gadarn.
83. Penderfynwyd derbyn a nodi bod trefniadau a phrosesau ar waith er mwyn sicrhau bod y cynigion gwella yn cael eu gweithredu. Croesawyd y trefniadau newydd i adrodd ar gynnydd adroddiadau archwilio allanol pob 6 mis i'r Pwyllgor a croesawyd hefyd y penderfyniad bod ymatebion i'r adroddiadau yn cael eu cyflwyno i gyfarfodydd Herio a Chefnogi Perfformiad yr Adran berthnasol o hyn ymlaen.

Ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

84. Cyflwynwyd un adroddiad ar ymateb y Cyngor i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn, sef diweddariad gan y Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor i gyfarfod 23 Mai 2024 ar y gwaith o gynnal Asesiad Perfformiad Panel o fewn y Cyngor.
85. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod cyfrifoldeb ar Gynghorau i gynnal Asesiad Perfformiad Panel unwaith o fewn cylch etholiadol. Daeth y ddyletswydd i rym ym mis Mai 2022. Gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried yr adroddiad a gyflwynir gan gynnig unrhyw sylwadau ac argymhellion gan ganolbwyntio yn benodol ar y meysydd posibl i'r Panel edrych arnynt.
86. Yn ychwanegol i'r materion oedd eisoes wedi eu rhestru yn yr adroddiad, cynigiodd y Pwyllgor dylai'r Panel ystyried cynllunio'r gweithlu, cynllunio olyniaeth a dilyniant rheolaethol fel meysydd posib i'r Panel edrych arno.

Effeithiolrwydd y Pwyllgor

87. Derbyniodd y Pwyllgor diweddariad ar y camau sydd wedi eu gwneud i weithredu ei benderfyniadau i bob un o'i gyfarfodydd yn ystod 2024/25. Cred y Pwyllgor fod hyn yn gam arwyddocaol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i weithredu'n effeithiol.
88. Cynhaliwyd gweithdy yn swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, ar 3 Ebrill 2024. Defnyddiwyd hwylusydd allanol i gefnogi'r gweithdy, sy'n brofiadol iawn yn y maes archwilio. Roedd ymdeimlad fod y gweithdy wedi bod yn un gwerthfawr a defnyddiwyd canllawiau CIPFA, a defnyddiwyd y Cwestiynau arfer da sy'n ymddangos yng nghyhoeddiad CIPFA "*Audit Committees: Practical Guidance for Local Authorities*" er mwyn cynnal adolygiad lefel uchel sy'n ymgorffori'r egwyddorion allweddol a nodir yn Natganiad Safbwynt CIPFA.
89. Yn ei gyfarfod ar 23 Mai 2024 cytunodd y Pwyllgor i dderbyn a chymeradwyo cynnwys yr hunan-asesiad o ymarfer da a chymeradwyo a chefnogi'r camau gweithredu. Nodwyd fod angen adnabod cyfleoedd i atgyfnerthu perthynas rheoleiddwyr allanol ac Archwilio Mewnol.
90. Mae'r Pwyllgor wedi derbyn diweddariad ym mhob cyfarfod (os nad oedd hynny'n anymarferol) ar gynnydd yn erbyn penderfyniadau'r Pwyllgor, ac fel rhan o'r cynllun gweithredu i'r hunan-asesiad caiff blaen-raglen dreigl ei gyflwyno i bob cyfarfod.

CYFARFOD	Y Cyngor
DYDDIAD	2 Hydref 2025
TEITL	Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol 2024/25
PWRPAS	Cyflwyno'r adroddiad er sylw Aelodau'r Cyngor
AWDUR	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cefndir

- 1.1. Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol, mae'n ofynnol i'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol baratoi a chyhoeddi adroddiad mewn perthynas â pherfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol o fewn yr awdurdod lleol yn ystod y flwyddyn flaenorol.
- 1.2. Diben yr adroddiad blynyddol yw nodi taith yr awdurdod lleol tuag at wella wrth ddarparu gwasanaethau i drigolion, y rheiny sy'n derbyn gwybodaeth, cyngor a chymorth, a'r unigolion a'r gofalwyr hynny sy'n derbyn gofal a chymorth.
- 1.3. O dan ofynion y Ddeddf Gwasanaeth Cymdeithasol a Llesiant, gofynnir i mi fel Cyfarwyddwr ystyried yr ystod wybodaeth a phrofiadau sy'n effeithio ar allu Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i ddarparu gwasanaethau dibynadwy, cynaliadwy, o'r safon uchaf, gan fynegi fy marn a'i gyflwyno i'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at unrhyw wersi a ddysgwyd, ac yn amlinellu'r blaenoriaethau am y flwyddyn i ddod. Mae hefyd yn egluro sut y gwnaethom asesu anghenion pobl, a'u cynnwys yn ganolog wrth siapio ein gwasanaethau a'n darpariaeth gofal.
- 1.4. Dilyna ffurf yr adroddiad ganllawiau a thempled cenedlaethol ac rydym yn asesu ein perfformiad fesul pedwar prif bennawd: **Pobl**, **Atal**, **Partneriaeth** a **Lles**. Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r Uwch Swyddog Gweithredol, Lois Owens, am ei gwaith dyfal a manwl ar yr adroddiad hwn ac am ei chefnogaeth i'r gwaith.
- 1.5. Nid oedd y flwyddyn ddiwethaf yn un hawdd. Fel y nodir yn rhagair yr adroddiad, bu'n rhaid oedi rhai cynlluniau gwaith er mwyn canolbwyntio ar achosion difrifol o gam-drin plant yma yng Ngwynedd. Diogelu yw craidd ein gwaith, ac wrth i hyn fethu, mae'r effaith yn ddwys ac yn bellgyrhaeddol.
- 1.6. Gwelwyd hefyd cynnydd amlwg yn y galw ar draws gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, gyda natur yr achosion yn dod yn fwy cymhleth a dwys. Mae cynaliadwyedd ariannol, recriwtio a chadw staff ar y rheng flaen, newidiadau demograffeg fel amlygir yn yr adroddiad Llechen Lân, a sicrhau lleoliadau addas a diogel i blant yn ein gofal i gyd yn peri pryder sylweddol. Yn wyneb hyn, rydym

yn cydweithio'n agos â'n partneriaid allweddol i sicrhau bod gwasanaethau addas ar gael yn lleol – ar gyfer plant ac oedolion fel ei gilydd.

- 1.7. Mae'n amlwg o'r perfformiad a adroddir yma bod rheolwyr a staff wedi gwneud ymdrech arwrol i allu dygymod gyda'r gofynion sydd wedi bod arnynt yn ystod y flwyddyn. Pwysig yw cydnabod a dathlu llwyddiannau a gwaith arloesol ein timau. Ceir yn yr adroddiad straeon a dyfyniadau gwirioneddol (gyda'r enwau wedi eu newid), sy'n dangos gwerthfawrogiad dwfn o'n gweithlu. Dengys sut y gall gwaith cymdeithasol da newid bywydau – gan gynorthwyo pobl i fyw'n annibynnol ac yn iachach.
- 1.8. Hoffwn gydnabod y gwaith da a'r llwyddiannau sy'n digwydd ar draws nifer o feysydd. Er enghraifft, mae'r **Gwasanaeth Anabledd Dysgu** wedi llwyddo i ddyblu y nifer yr unigolion sydd ar lwybr gwaith ac sydd bellach yn ennill cyflog. Yn ogystal, mae'r cynllun **Dementia Actif** yn parhau i ddangos ei werth – nid yn unig i'r unigolion sy'n byw gyda dementia, ond hefyd i'w gofalwyr ac i'r gymuned ehangach o ran gwerth cymdeithasol. Yn y maes plant, rydym wedi llwyddo i agor **cartrefi grŵp bychain**, sy'n golygu bod pobl ifanc mewn gofal bellach yn gallu aros yn agos at eu cymunedau a'u cysylltiadau naturiol, yn hytrach na chael eu lleoli'n bell i ffwrdd. Mae hyn yn gam pwysig tuag at ddarparu cefnogaeth leol, sensitif ac addas i'w hanghenion.
- 1.9. Hefyd, mae datblygiad yr **Academi Gofal** yn gam cadarnhaol tuag at gryfhau sgiliau'r gweithlu, denu mwy o bobl i'r maes, a chodi proffil gwaith gofal fel gyrfa werthfawr a phroffesiynol. Mae'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu parhaus sy'n ymateb i anghenion gwirioneddol y gwasanaeth a'r gymuned.
- 1.10. Nid da lle ceir gwell, wrth gwrs, ac amlygir yn yr adroddiad nifer o feysydd sydd angen sylw pellach. Ymhlith y rhain mae **cefnogaeth i ofalwyr di-dâl, lleihau rhestrau aros am ofal cartref** (er bod gostyngiad sylweddol wedi bod yn y maes hwn dros y misoedd diwethaf), a'r angen am **gynlluniau strategol cliriach ar gyfer llety a chymorth**. Mae'r meysydd hyn wedi'u cynnwys ar y rhaglen waith ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda'r nod o sicrhau gwelliannau parhaus.
- 1.11. Yn unol â'r drefn perfformiad mewnol y Cyngor, mi fydd y gwasanaethau perthnasol yn cael eu herio dros y flwyddyn nesaf ac bydd adroddiadau ar y perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgorau Craffu yn rheolaidd. Bydd trosolwg o berfformiad y gwasanaethau am y flwyddyn gyfan hefyd ar gael yn Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd ar gyfer 2024/25.

2. Argymhelliad

- 2.1. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys yr adroddiad sydd wedi ei gyflwyno gan y Cyfarwyddwyr Statudol ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod.

3. Barn y Swyddogion Statudol

Y Swyddog Monitro:

Mae cyflwyno yr adroddiad l'r Cyngor Llawn yn rhoi cyfle i ystyried y gwaith a'r heriau sydd yn wynebu'r "Gwasanaethau Cymdeithasol" o bersbectif y Cyfarwyddwr Statudol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad.

Pennaeth Cyllid:

Credaf fod yr wybodaeth ariannol sydd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol yn adlewyrchiad teg o sefyllfa'r Gwasanaethau Cymdeithasol am 2024/25. Rwyf yn fodlon na fydd cymeradwyo'r adroddiad blynyddol hwn yn golygu unrhyw ymrwymiad ariannol ychwanegol gan y Cyngor.



ADRODDIAD BLYNYDDOL Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2024/25



CYNNWYS

Tudalen

Gair gan y Cyfarwyddwr	3
Trosolwg o'r flwyddyn a fu	4
Cyd-Destun: Arweinyddiaeth, Gweithlu, Arian a Mwy na Geiriau	7

ASESU PERFFORMIAD FESUL THEMA

Pobl: Llais a Rheolaeth	11
Atal	18
Partneriaeth	25
Lles	32

Gwybodaeth bellach	39
--------------------	----

- Os ydych chi angen yr adroddiad yma mewn iaith neu fformat arall, ffoniwch ni ar 01766 771000 neu e-bostiwch Cydraddoldeb@gwynedd.llyw.cymru
- If you require this report in an alternative language or format, please call us on 01766 771000 or e-mail Equality@gwynedd.llyw.cymru
- Якщо вам потрібен цей звіт в іншому форматі або іншою мовою, зателефонуйте нам за номером 01766 771000 або надішліть електронну пошту Equality@gwynedd.llyw.cymru
- Jeśli potrzebujesz tego raportu w innym języku lub formacie, zadzwoń do nas pod numer 01766 771000 lub wyślij e-mail do Equality@gwynedd.llyw.cymru
- 如果您需要该报告用其它语言或格式，请致电 01766 771000 或发送电子邮件给我们：
Equality@gwynedd.llyw.cymru
- إذا أردت هذا التقرير بلغة أو تنسيق (شكل) بديل، فيرجى الاتصال بنا على ٠١٧٦٦ ٧٧١٠٠٠ أو البريد الإلكتروني Equality@gwynedd.llyw.cymru

**** Er mwyn diogelu preifatrwydd unigolion, rydym wedi newid enwau yn y straeon sy'n ymddangos yn yr adroddiad hwn. ****

GAIR GAN Y CYFARWYDDWR

Dros y deuddeg mis diwethaf, rhoddwyd blaenoriaeth lwyr i ymateb i achosion ffaidd o gam-drin plant yng Ngwynedd. Mewn nifer o feysydd, golygodd hyn oedi rhaglenni gwaith eraill. Er mai penderfyniadau anodd oedd y rhain, roeddent yn hanfodol: diogelu plant ac oedolion yw craidd ein gwaith.

Tra bod llawer o'r gwaith diogelu yn digwydd yn dawel, y tu ôl i'r llenni, erys ei effaith yn ddwfn a pharhaol. Nid yw diogelu'n faich ar un tîm neu adran yn unig, ond yn gyfrifoldeb ar bawb, y Cyngor, ein partneriaid, cymunedau Gwynedd, a'r cyhoedd. Mae gan bob unigolyn rôl i'w chwarae.

Yn rhy aml, meddyliwn am "ni" a "nhw" - y gweithwyr proffesiynol ar un ochr, y rhai sy'n derbyn cefnogaeth ar y llall. Ond y gwirionedd yw bod y ffin rhwng darparu cymorth a'i dderbyn yn deneuach nag y tybiwn. Gall unrhyw un ohonom, ar unrhyw adeg, fod angen gofal, cymorth neu ein diogelu. Dyna pam mae'r egwyddorion sy'n sail i'n holl waith diogelu mor bwysig. Nid damcaniaethau yn unig mo'r rhain ond gwerthoedd ymarferol sy'n dylanwadu ar bob penderfyniad, ymateb a chefnogaeth a ddarperir o ddydd i ddydd. Gweler y rhain isod:

1. **Grymuso:** Ein nod yw grymuso pobl i wneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain. Dylid cynnwys unigolion yn y broses bob amser, hynny yw, "dim penderfyniadau amdanaf fi hebddda i". Ein rôl yw cefnogi unigolion i gymryd perchnogaeth o'u sefyllfaoedd lle bo hynny'n bosibl.
2. **Atal:** Gweithiwn i atal niwed cyn iddo ddigwydd, neu cyn iddo waethygu. Mae hyn yn golygu codi ymwybyddiaeth, hyrwyddo urddas a pharch, a sicrhau diogelwch i bawb yng Ngwynedd. Gall gwaith ataliol ymddangos yn ddi-ddiolch neu'n araf weithiau, ond mae'n hanfodol ac yn effeithiol.
3. **Cymesured:** Gweithredwn cymaint ag sydd ei angen i gadw rhywun yn ddiogel - dim mwy, dim llai. Y nod yw peidio â gor-ymateb, ond darparu'r lefel briodol o gefnogaeth.
4. **Diogelu:** O gyrff cyhoeddus i drigolion, mae gan bob un ohonom rôl i'w chwarae wrth gadw ein cymunedau'n ddiogel. Er bod y cynnydd sylweddol a welwyd yn y nifer o gyfeiriadau ar gyfer Plant ag Oedolion yn bryderus, gwelwyd gostyngiad mewn rhai mathau o gamymddwyn cymdeithasol.
5. **Partneriaeth:** Yn ymarferol, mae hyn yn golygu cydweithio ystyrlon gydag asiantaethau fel yr Heddlu, y Bwrdd Iechyd, y trydydd sector ac adrannau eraill y Cyngor. Ond mae hefyd yn golygu gweithio ochr yn ochr ag unigolion, teuluoedd, cynghorwyr, ysgolion, darparwyr, a chymunedau.
6. **Atebolrwydd:** Mae egwyddor atebolrwydd yn golygu bod yn rhaid i bawb sy'n ymwneud â diogelu gymryd cyfrifoldeb llawn am eu gweithredoedd a'u penderfyniadau. Mae hynny'n cynnwys gwrando'n ofalus, dysgu o brofiadau, a gweithredu'n glir, yn onest ac yn bwrpasol.

Tra bod tudalennau sy'n dilyn yn yr adroddiad hwn yn dangos ehangder a dyfnder gwaith gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd eleni, o ymyrraeth gynnar i ofal a chymorth, oherwydd natur a difrifoldeb datgeliadau diweddar, roedd angen canolbwytio nid yn unig ar achosion unigol, ond ar y systemau, yr egwyddorion a'r diwylliant sy'n sail i'r ffordd rydym yn diogelu pobl.

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae Cynllun Ymateb y Cyngor wedi dechrau uno'r dysgu o sawl maes a sefydliad. Dan arweiniad yr Athro Sally Holland, mae'r rhaglen honno'n dechrau ymgorffori'r egwyddorion allweddol mewn newid go iawn, ymarferol a chyd-gysylltiedig. Ar hyn o bryd, pery'r broses Adolygiad Ymarfer Plant. Disgwylir y cyhoeddir yr adroddiad tua mis Medi. Rydym yn ymrwymo i dderbyn a gweithredu ar unrhyw argymhellion a ddeillia ohono, er mwyn sicrhau bod ein dulliau a'n strategaethau diogelu yn briodol, yn gadarn ac yn addas i bwrpas.



Dylan Owen


Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol

TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

4,503 ^{⬆️}15 O GYSYLLTIADAU AR GYFER OEDOLION 	7,785 ^{⬆️}555 O GYFEIRIADAU PLANT 	377 * O GYFEIRIADAU IECHYD MEDDWL  *Gwasanaeth newydd wedi ei sefydlu Mai 2024
NIFER SY'N DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.25) 1,528 ^{⬇️}119 	% SY'N DERBYN GWASANAETH DRWY DALIADAU UNIONGYRCHOL (MAWRTH 2025) 17% ^{⬆️}2% 	280 ^{⬇️}1 O BLANT MEWN GOFAL 
NIFER YR ORIAU GOFAL CARTREF SY'N CAEL EI DDARPARU FESUL WYTHNOS 8,333 ^{⬇️}449 	...OND, MAE 50 *  O UNIGOLION YN AROS DROS 28 DIWRNOD AM OFAL CARTREF *Mesur newydd	NIFER O OEDOLION MEWN CARTREF PRESWYL NEU NYRSIO (31.03.25) 786 ^{⬇️}17 
97% [—]DIM NEWID O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN (5 oed+) 	92% ^{⬇️}2% O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD	NIFER O OFALWYR WEDI EU HASESU 492 ^{⬆️}237 
163 ^{⬆️}3 O OFALWYR IFANC YN DERBYN CEFNOGAETH (Darparwyd gan Gweithredu dros Blant) 	82% ^{⬆️}3% O GYFEIRIADAU DIOGELU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL	 NIFER O OEDOLION SYDD Â CHYNLLUN GOFAL (31.03.25) 2,493 ^{⬆️}147

TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

Bu'r flwyddyn hon yn brysur a braf yw gallu dathlu llwyddiannau a chydabod gwaith caled y gweithlu:



GWYNEDD YN CAEL CYDNABYDDIAETH FEL CYMUNED OED-GYFEILLGAR

Derbyniwyd gadarnhad bod Gwynedd wedi ymuno â Rhwydwaith Cymunedau Oed-Gyfeillgar gan Sefydliad Iechyd y Byd. Cydweithiodd dros 30 o bartneriaid ar y cais – cam cadarnhaol tuag at sir deg i bawb. Darllenwch mwy am y cynllun yma: [Gwynedd Oed Gyfeillgar](#)

CYDWEITHIO ER MWYN DIOGELU CYMUNEDAU

Yn ystod yr haf, cydweithiodd Cyngor Gwynedd a Heddlu Gogledd Cymru gyda chymunedau lleol i gyflwyno Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus yng Nghaernarfon, Pwllheli a Chricieth. Mae'r gorchmynion hyn yn rhoi pwerau ychwanegol i'r heddlu i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan helpu i gadw mannau cyhoeddus yn ddiogel ac yn groesawgar.

CAM NESAF I GARTREF NYRSIO PENRHOS

Sicrhodd Cyngor Gwynedd gyllid gan Lywodraeth Cymru i symud prosiect cartref nyrsio Penrhos ymlaen. Mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a ClwydAlyn, bydd y datblygiad yn cynnig 56 o welyau, gan gynnwys gofal dementia, a chreu swyddi lleol. Bydd hefyd yn cynnwys tai carbon isel ar gyfer pobl ag anghenion gofal. Mae'r cyllid yn galluogi datblygu achos busnes a chynllun manwl ar gyfer y safle.

LANSIO ACADEMI GOFAL GWYNEDD

Lansiwyd Academi Gofal Gwynedd ar ddechrau'r gaeaf. Dyma gynllun arloesol sy'n ymateb yn greadigol i'r her recriwtio yn y sector gofal. Mae'r Academi yn cynnig llwybrau clir i yrfa, cymwysterau cydnabyddedig a chyflog i'r rhai sy'n dymuno gweithio yn y maes. Darllenwch fwy ar [dudalen 9](#).



Argraff arlunydd o ddatblygiad Penrhos (Llun ClwydAlyn)



Pwysig yw sicrhau cymunedau oed-gyfeillgar

TROSOLWG O'R FLWYDDYN A FU ...

RHAGFYR
2024



YMGYRCH HAWLIO CREDYD PENSIWN

Yn wyneb penderfyniad Llywodraeth y DU i atal Taliadau Tanwydd y Gaeaf, gweithiodd Cyngor Gwynedd gyda phartneriaid i annog trigolion cymwys i hawlio Credyd Pensiwn. Rhoddwyd cymorth drwy hybiau cymunedol, llyfrgelloedd a digwyddiadau lleol i helpu pobl i wneud cais mewn pryd.

MAWRTH
2025



BYRDDAU CYFATHREU MEWN PARCIAU CHWARAE

Cydweithiodd y Cyngor â'r Bwrdd lechyd er mwyn gosod byrddau cyfathrebu mewn sawl parc chwarae ar draws y sir. Bydd y rhain yn cefnogi plant a phobl ifanc ag anghenion cyfathrebu, gan gynnwys unigolion ar y sbectrwm awtistig, i fynegi eu dymuniadau. Cafodd y byrddau eu gosod gan y Gwasanaeth Anabledd Dysgu mewn cydweithrediad ag Adran Priffyrdd y Cyngor.



CYDNABOD YR HERIAU

Er bod llawer o waith cadarnhaol yn digwydd, mae'n rhaid cydnabod bod heriau gwirioneddol yn wynebu gwasanaethau cymdeithasol – yn genedlaethol ac yma yng Ngwynedd. Fel y soniwyd eisoes ar **dudalen 3**, bu ymateb i'r achos difrifol o gam-drin plant yn un o'r prif heriau yn ystod y flwyddyn, ond nid yw hwnnw'n sefyll ar ei ben ei hun:

HER ARIANNOL A NEWID DEMOGRAFFEG

Fel pob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, wyneba Cyngor Gwynedd bwysau ariannol cynyddol, gyda chost darparu gofal cymdeithasol yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn. Cynigodd Adroddiad Llechen Lân ddealltwriaeth gliriach o'r heriau a chostau am y degawdau nesaf.

Trwy gydol y flwyddyn hon, adolygwyd ein darpariaeth o wasanaethau i oedolion, ond mae angen gweithredu'n bendant ac yn gyflym er mwyn sicrhau gwasanaethau cynaliadwy sy'n gallu ateb anghenion y dyfodol.

CYNNYDD YN Y GALW AR DRAWS WASANAETHAU

Gwelir cynnydd parhaus nid yn unig yn nifer y cyfeiriadau ond hefyd yn gymhlethdod yr achosion a'r amser sydd ei angen i'w trin yn dilyn y pandemig.

Mae hyn yn wir o wasanaethau i blant, megis Derwen, i feysydd megis lechyd Meddwl.

Cydnabyddir y pwysau sylweddol a gaiff hynny ar dimau ac unigolion. Dechreuwyd gwaith penodol ar ddarpariaeth i blant er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn gadarn ac yn gynaliadwy ar gyfer y blynyddoedd nesaf.

SEFYDLOGRWYDD ARWEINYDDIAETH

Wrth edrych ymlaen, rhagwelir y bydd sefydlogrwydd arweinyddiaeth yn her allweddol yn 2025/26, gan fod y Pennaeth Oedolion wedi cyhoeddi ei fwriad i ymddeol.

Bydd sicrhau trefniadau olyniaeth gadarn yn hanfodol er mwyn cynnal momentwm a galluogi'r gwasanaethau i barhau i ddatblygu'n hyderus. Mae hyn yn cynnwys nid yn unig penodi arweinyddiaeth newydd ar lefel uwch, ond hefyd datblygu arweinwyr y dyfodol ar bob lefel. Bydd hyn yn sicrhau gwydnwch sefydliadol, a'r gallu i ymateb i heriau sy'n dod i'r amlwg.

CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, GWEITHLU, AC ARIAN

Arweinyddiaeth


Yn ystod 2024/25, parhaodd y Cyfarwyddwr i gyfarfod bob deufis â Phenaethiaid yr Adran Oedolion a'r Adran Plant. Bu'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i fynd i'r afael â meysydd fel trosglwyddo system ddata presennol y Gwasanaethau Cymdeithasol, cefnogi pobl ifanc wrth bontio i wasanaethau oedolion, a defnyddio arian grant ar y cyd. Yn ogystal, bu'n cynnal cyfarfodydd unigol efo pob un o Bennaethiaid Cynorthwyol y gwasanaethau cymdeithasol.

Digwyddodd newid strwythurol sylweddol ym mis Mai 2024, pan ddechreuodd yr Uned Fusnes Gwasanaethau Cymdeithasol, gan gynnwys y Tîm Comisiynu, adrodd yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr. Mae'r adborth cynnar yn gadarnhaol, gan wella'r gefnogaeth a roddir ar draws y ddwy adran. Y gobaith yn yr hir dymor yw galluogi i'r gwasanaeth hwn ddatblygu ymhellach er mwyn canolbwyntio ar gomisiynu effeithiol ac economaidd.

Bu newid gwleidyddol hefyd, gyda phenodiad y Cynghorydd Nia Jeffreys yn Arweinydd ar 5 Rhagfyr 2024 a ffurfio Cabinet newydd. Cadwodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan ei rôl fel deilydd Portffolio Oedolion, tra trosglwyddwyd Portffolio Gwasanaethau Plant i'r Cynghorydd Menna Trenholme, sydd hefyd yn Ddirprwy Arweinydd y Cyngor. Diolchwn i'r cyn-ddeilydd y Cynghorydd Elin Walker Jones am ei hymroddiad, ac edrychwn ymlaen at weithio'n agos gyda'r Cynghorydd Trenholme, sydd eisoes wedi dechrau cyfarfod â thimau'r Adran.

Cafwyd gwybod yn ddiweddar bod y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn bwriadu ymddeol yn ystod haf 2025. Lansiwyd proses recriwtio gynnar, gyda'r rôl newydd bellach yn gofyn am gymhwyster mewn Gwaith Cymdeithasol neu Therapi Galwedigaethol, yn unol â'n hymrwymiad parhaus i broffesiynoli. Disgwylir i gyfweiliadau gael eu cynnal ym mis Ebrill 2025.

Parha'r trefniadau rheoli ar draws y Gwasanaethau yn gadarn, gyda chefnogaeth Ddirprwy Benaethiaid deallus a phrofiadol. Cynhaliwyd dwy sesiwn reoli ar y cyd, gan gynnwys un gyda siaradwr gwadd o *Pobl yn Gyntaf Cymru Gyfan*. Cafwyd adborth cadarnhaol a bwriedir parhau â'r fformat hwn i hyrwyddo dysgu ar y cyd.



CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, GWEITHLU, AC ARIAN

Trefniadau llywodraethu, craffu a herio

Adolygir amcanion strategol y Cyngor yn flynyddol gyda mewnbwn gan Wasanaethau Plant ac Oedolion, gan sicrhau bod blaenoriaethau'n berthnasol ac yn seiliedig ar yr angen am wasanaethau. Ceir y rhain yng **Nghynllun Blynyddol y Cyngor**.

Yr Arweinydd a'r Cabinet sy'n gosod cyfeiriad cyffredinol, gyda chynnydd yn cael ei fonitro drwy gyfarfodydd perfformiad rheolaidd gydag Aelodau'r Cabinet, Pennaethiaid a Pennaethiaid Cynorthwyl a chynrychiolaeth o'r Pwyllgor Craffu Gofal.

Mae rôl Pwyllgorau Craffu yn ganolog i sicrhau atebolrwydd. O fis Mai 2025, cyflwynir adroddiadau a dangos-fyrddau perfformiad yn uniongyrchol i'r Pwyllgor Craffu Gofal yn hytrach nag i'r cyfarfodydd Cabinet, i gryfhau tryloywder a galluogi herio adeiladol. Cynllunnir rhaglen y Pwyllgorau Craffu ymlaen llaw i sicrhau trafod amserol ar faterion allweddol.

Y gweithlu

Tua **1,500 o weithlu gofal cymdeithasol sy'n cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd** – gan gynnwys gweithwyr cymdeithasol, staff gofal cartref a chartrefi gofal, rheolwyr tîm, gweithwyr cefnogol a rolau gweinyddol. Yn ogystal, comisiynir nifer o wasanaethau gan ddarparwyr annibynnol a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynyddu **cyfanswm nifer y gweithlu i tua 3,000**.

Mae'r model cymysg hwn o ddarparu'n fewnol a thrwy gomisiynu yn ganolog i'r dull darparu yng Ngwynedd, gan adlewyrchu pwyslais Llywodraeth Cymru a Chynghorwyr Gwynedd ar ofal heb elw a marchnad gytbwys. Gwelir enghreifftiau o gynnydd clir yn y maes hwn yng Ngwynedd – **gyda bron i 60% o ofal cartref bellach yn cael ei ddarparu naill ai'n fewnol neu gan sefydliadau trydydd sector di-elw**.

Bu'r ymroddiad a'r gwydnwch a ddangoswyd gan weithlu gofal cymdeithasol ar draws Gwynedd yn eithriadol eleni. Er gwaethaf amgylchiadau heriol, dangosodd staff ymdeimlad cryf o falchder yn eu gwaith, a chafwyd adborth positif gan unigolion a'u teuluoedd, gan danlinellu gwerth y cyfraniad a wneir. Dyma rhai sylwadau a dderbyniwyd am y gweithlu yn ystod y flwyddyn:

// Mae'r (Gweithiwr Cymdeithasol) wedi bod yn ffynhonnell gefnogaeth gyson a dibynadwy i fy mam yn ystod salwch fy nhad a'i leoliad yn y cartref nyrsio. Galluogodd ei dealltwriaeth, ei thosturi, ei chynghor a'i hymyrraeth i'n mam i reoli'r pwysau emosiynol a chorfforol yr oedd salwch (fy nhad) yn ei roi arni.

//

// Rydym wedi aros i rywun fel (Gweithiwr Cefnogol) ddod i helpu a gallu siarad a gweithio gyda fy merch. Daeth hi i mewn a chliciodd y ddau ar unwaith. Mae hi wedi gallu cyfathrebu â fy merch mewn ffordd y mae hi'n ei deall.

//

// Roedd y ffordd yr oedd y ddwy (ofalydd cartref) efo mam yn anhygoel; roedd y ddwy yn sicrhau fod mam yn cael ei gosod ar y blaen bob amser ac yn ei thrin fel person ac nid tasg ... o ganlyniad fe gafodd Mam y cyfle i aros gartref cyhyd â phosib.

//

CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, GWEITHLU, AC ARIAN

Heriau recriwtio

Er hynny, mae'r sector yn parhau i wynebu pwysau recriwtio, yn enwedig i rolau allweddol fel gweithwyr cymdeithasol plant a gweithwyr gofal cartref. Mae'r heriau yng Ngwynedd, fel cyflogau isel, diffyg cydnabyddiaeth, a chyfleoedd cyfyngedig, yn [adlewyrchu darlun cenedlaethol](#).

Bu ymdrech i fynd i'r afael â rhai o'r heriau hyn yn ystod y flwyddyn. Yn fis Mehefin 2024 cyflwynwyd graddfeydd cyflog newydd i weithwyr cymdeithasol – un ar gyfer glas weithwyr newydd gymhwyso ac un arall ar gyfer swyddi arweiniol. Daw hyn â chynnig Gwynedd yn fwy cyfartal â Bwrdd Iechyd ac awdurdodau lleol eraill, gan anelu at wella cadw staff a chydabyddiaeth broffesiynol.

Academi Gofal, profiad gwaith a datblygu'r gweithlu

Lansiwyd yr Academi Gofal ym mis Tachwedd 2024 i ddenu cenhedlaeth newydd i'r sector. Gwahoddir unigolion 17 oed a hŷn, gan gynnwys rhai heb brofiad. **Derbyniwyd 38 o geisiadau am y cynllun cyntaf; cafodd chwech eu penodi ac mae pob un bellach yn eu lleoliadau hir dymor** ar draws gwasanaethau rheng flaen megis cartrefi gofal, gwasanaethau anableddau dysgu a gwasanaethau plant. Mae'r fenter eisoes wedi derbyn cydnabyddiaeth ar y lefel genedlaethol, gydag aelod o'r tîm, yn derbyn y Wobr Cyfraniad Personol Rhagorol yn nigwyddiad Partneriaid Gwerthfawr Gyrfa Cymru yng Nghaerdydd — tystiolaeth o effaith y rhaglen.



Yn ogystal, yn ystod y flwyddyn academiaidd 2024/25 **trefnwyd cyfnod o brofiad gwaith i 130 o unigolion**. Cyniga'r Cynllun Profiad Gwaith brofiad uniongyrchol a blas o weithio mewn amryw wasanaethau, gan gynnwys cysgodi gweithwyr cymdeithasol a therapyddion galwedigaethol.

Yn yr un modd fe gefnogwyd datblygiad staff presennol: mae pum aelod wedi dechrau ar raglenni datblygu gyrfa, gan gynnwys astudio gradd gwaith cymdeithasol drwy'r Brifysgol Agored, a gradd therapi galwedigaethol rhan-amser drwy Brifysgol Wrecsam. Mae hyn yn galluogi staff i feithrin sgiliau uwch ac ymestyn eu cyfraniad i'r gwasanaethau.

Llesiant y gweithlu

Wrth gefnogi staff yn ehangach, mae'r defnydd o Wasanaeth Cwnsela MEDRA ar draws y Cyngor wedi cynyddu'n sylweddol dros y flwyddyn ddiwethaf – **o 157 o ddefnyddwyr rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024 i 425 eleni. O'r 425, roedd 139 yn aelodau o weithlu'r Gwasanaethau Cymdeithasol**. Wrth i'r Cyngor gryfhau'r ffordd y mae'n casglu data, bydd modd adolygu'r ffigyrau wrth edrych tua'r dyfodol. Dengys ganlyniadau Arolwg Llais Staff fwy o ymwybyddiaeth o'r gefnogaeth sydd ar gael a gwell parodrwydd i drafod iechyd meddwl. Er bod hynny'n gadarnhaol, mae'n tanlinellu'r angen parhaus i gefnogi lles staff. Parha'r Cyngor i gydweithio â rhaglen Canopi, sy'n cynnig cefnogaeth benodol i weithwyr gofal, gan gryfhau'r gefnogaeth emosiynol a phroffesiynol sydd ar gael.

Er bod cyfleoedd ar gyfer ymweliadau tîm gan y Cyfarwyddwr i gael sgwrs agored a phaned wedi bod yn gyfyngedig yn ystod y flwyddyn, bwriedir ymrwymo i ailgydio yn y rhain yn ystod 2025/26. Yn y cyfamser, mae'r broses 'Holi'r Cyfarwyddwr' wedi parhau i gynnig llwyfan anhysbys i staff godi pryderon a chael ymatebion gonest.

CYD-DESTUN: ARWEINYDDIAETH, GWEITHLU, AC ARIAN

Adnoddau ariannol

Cyllideb (NET)

Dengys cyllideb refeniw 2024/25 fod gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd yn gyfrifol am gyllideb gros o **£141M**, gan danlinellu ei rôl fel conglfaen yr economi leol. Fodd bynnag, ni fu'n flwyddyn ariannol hawdd. Tra

Plant a Teuluoedd

£23M

Oedolion

£81M

bod rheoli cyllidebau gwasanaethau oedolion yn heriol oherwydd y niferoedd uwch sydd yn derbyn cefnogaeth a phrisiau gwasanaethau megis gofal nyrsio, gall gynllunio cyllidebau gwasanaethau plant fod yn fwy heriol pan fo darpariaeth i blant unigol yn costio degau o filoedd yr wythnos. Dyma ysgogiad pellach i'r Cyngor ddatblygu ei wasanaethau ei hun lle'n bosibl, boed hynny'n gartrefi bychan i blant o fewn y sir, neu'n gartref nyrsio yn Llŷn.

Aethpwyd ati i ystyried anghenion hir-dymor gwasanaethu cymdeithasol, gan bwysu a mesur yr hyn amlygwyd yn yr adroddiad [Llechen Lân](#), a gwnaethpwyd bidiau am gyllid ychwanegol gan y Cyngor yn gorfforaethol. Manteisiwyd ar gyfleoedd o'r newydd i ddatblygu gwasanaethau drwy grantiau cenedlaethol a rhanbarthol a thra bod hynny'n caniatáu cynlluniau cyffrous, daw â'i heriai hefyd gan fod y cyllid hwnnw'n dymor byr gyda risg o adael prosiectau heb arian ar ddiwedd cyfnod y grantiau.

Cyllidebau dan bwysau: camau i reoli gwariant

Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol roedd yr Adran Oedolion yn gwario **£857k** uwchlaw eu cyllideb a'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd yn gwario **£3.8M** yn ychwanegol. Pwysig yw nodi nad gwario ofer oedd tu ôl i'r 'gorwariant' hwn, ond sefyllfaoedd angenrheidiol o ddiwallu angen a hynny'n aml mewn sefyllfaoedd heriol dros ben i'r unigolion.

Aeth y gwasanaethau cymdeithasol ati i geisio lleihau'r pwysau ariannol hwn ar y Cyngor a hefyd i sicrhau bod pob ceiniog a wariwyd yn addas a phriodol. Cafwyd enghraifft lle nad oedd hynny'n gweithio'n effeithiol a bu cryn sylw i orwariant gofal cartref. Comisiynwyd archwiliad mewnol i'r mater a bu archwiliad gan Swyddfa Archwilio Cymru hefyd, gyda'r ddau yn canfod dulliau mwy addas o sicrhau gwerth am arian. Sefydlwyd grŵp gweithredol i fynd i'r afael â'r sefyllfa gyda gofal cartref ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol gwelwyd gwelliant sylweddol gyda rhagolygon cadarnhaol i'r dyfodol (mwy ar **dudalen 41**).

Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r arian sydd ar gael, ac yn llwyddo i gynllunio'n strategol effeithiol, gwahoddwyd arbenigwyr ar ran Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru a hefyd o Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i wneud adolygiad cyfoedion. Ymwelodd tri arbenigwr a rhoddwyd awgrymiadau defnyddiol i helpu'r gwasanaeth gynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

CareCubed

Gall comisiynu gofal fod yn gostus a bydd tensiwn yn aml rhwng darparwyr â'r Cyngor fel comisiynwyr oherwydd ystyriaethau ariannol. Yn ystod y flwyddyn, Cyngor Gwynedd oedd yr awdurdod cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu system CareCubed i wneud gwaith cytuno ar gostau a ffioedd yn fwy eglur, tecach, a fforddiadwy. Er bod rhai darparwyr yn dal i wrthod trafod yn agored, mae'r defnydd o CareCubed wedi creu awyrgylch trafod iachach gyda chanlyniadau cadarnhaol. Yn dilyn cyflwyniad gan y Cyngor yn rhanbarthol, mabwysiadodd pedair sir ar draws y Gogledd y system.

Tud. 56

POBL LLAIS A RHEOLAETH

- “Mae pobl yn bartneriaid cyfartal sydd â llais, dewis a rheolaeth dros eu bywydau ac yn gallu cyflawni'r hyn sy'n bwysig iddynt.”
- “Mae arweinyddiaeth effeithiol yn amlwg ar bob lefel, gyda gweithlu cymwysedig a hynod fedrus yn cael ei gefnogi i weithio tuag at weledigaeth a rennir.”

CIPLUN MEWN RHIFAU:

46  O UNIGOLION EFO ANABLEDD DYSGU MEWN GWAITH CYFLOGEDIG	97%  O GYNADLEDDAU ACHOS LLE BU CLYWED LLAIS / BARN Y PLENTYN (5 oed +)	NIFER O BLANT YN AGORED I'R TÎM TROBWyNT YN YSTOD Y FLWYDDYN  208	NIFER SYDD YN DERBYN GWASANAETH GOFAL CARTREF (MAWRTH 2025) 831 
% SY'N DERBYN GWASANAETH DRWY DALIADAU UNIONGYRCHOL (MAWRTH 2025) 17% 	NIFER SY'N DERBYN GWASANAETH TELEOFAL (31.03.25) 1,528 	42  NIFER O OEDOLION LLE DARPARWYD EIRIOLWR PROFFESIYNOL ANNIBYNNOL	NIFER SYDD YN AROS DROS 28 DIWRNOD AM OFAL CARTREF (MAWRTH 2025) 50 

Y GWAHANIAETH A WNAED: STORI BEDWYR



Dyma Bedwyr. Mae'n 23 oed, ac yn byw ar ben ei hun mewn fflat gyda ei gi bach.



Roedd gan Bedwyr hanes o broblemau iechyd meddwl a diffyg hyder dwys.



Drwy becyn taliadau uniongyrchol cyflogodd Robin fel cynorthwydd personol.



Gyda'i gilydd aethpwyd ati i ddyluno ac adeiladu cadair olwyn addas i fynd i'r traeth.



Am y tro cyntaf ers blynyddoedd, gallai Bedwyr fynd am dro i lan y môr efo'i gi.



Mae Bedwyr a Robin yn parhau i addasu'r gadair olwyn - bellach gyda lle i ddal ymbarél haul!

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL



Cynnydd yn y defnydd o daliadau uniongyrchol

Bu cynnydd cyson yn y defnydd o daliadau uniongyrchol ar draws y gwasanaethau plant ac oedolion eleni. **Bellach mae 17% o drigolion yn derbyn gwasanaeth drwy daliadau uniongyrchol.** Datblygwyd dulliau hyrwyddo rhagweithiol a chyflwynwyd gardiau 'prepaid' a waled rithiol i hwyluso'r broses a galluogi rheolaeth haws o gyfrifon gan ddefnyddwyr. Serch y cynnydd, derbyniwyd un cwyn am achos lle bu oedi cyn cynnig taliadau uniongyrchol, gan dynnu sylw at yr angen i wella.

Parheir i weithio gyda'r gweithwyr cymdeithasol i egluro'r hyn sydd ar gael a phryd y gellir ei gynnig. Mae cynyddu'r defnydd yn allweddol i gynyddu annibyniaeth, hyblygrwydd, lleihau'r galw am ofal cartref, a gostwng costau i'r Cyngor.

Hyrwyddo'r Cynnig Rhagweithiol

Wrth dderbyn gwasanaethau gofal neu iechyd, nid dewisol yw cyfathrebu yn iaith gyntaf yr unigolyn, mae'n hanfodol. Trwy'r Cynnig Rhagweithiol, darperir gwasanaethau'n Gymraeg heb fod angen gofyn. Bu grŵp *Mwy na Geiriau Gwynedd* yn cyfarfod yn rheolaidd, gyda ffocws eleni ar hyrwyddo'r pwysigrwydd ymhlith y gweithlu. Bwriedir cyhoeddi cyfres o fideos yn 2025/26 i atgyfnerthu'r neges.

Ystyrir Gwynedd yn enghraifft gadarnhaol o weithio'n ddwyieithog ac o hyrwyddo arferion da, mae gwaith pellach i'w wneud i sicrhau bod pob agwedd o'r ddarpariaeth yn cyrraedd safonau dwyieithog uchel ac yn ymateb i anghenion pob unigolyn. Penodwyd y Cyfarwyddwr, sydd yn aelod o *Fwrdd Cyngori Mwy Na Geiriau Llywodraeth Cymru*, yn Gadeirydd *Fforwm Mwy na Geiriau Gogledd Cymru*, gyda'r nod o gryfhau cydweithio ar draws y chwe sir a'r Byrddau Iechyd.

Gwelir cyfleoedd newydd a chyffroes i ddefnyddio'r Gymraeg drwy ddatblygiadau Deallusrwydd Artiffisial (AI) fel Co-pilot.

Llais i bawb

Cyfathrebu yw craidd gofal cymdeithasol, yr arfer o wrando, deall, mynegi a chyfleu'n effeithiol. Yn Ngwynedd golyga hyn ein bod yn gweithredu drwy gyfrwng dwy iaith yn ddyddiol, gyda thrydydd a phedwaredd iaith megis Makaton ac iaith Arwyddion Prydeinig (BSL) yn dod i'r amlwg yn gynyddol.

Yn ogystal â darparu byrddau cyfathrebu mewn parciau chwarae ar draws y sir a y cyd â'r Bwrdd Iechyd (gwelir **tudalen 6**), mae gwybodaeth am nifer o wasanaethau Cyngor Gwynedd (ailgylchu, tai, parcio (bathodynau glas), gweithio i'r Cyngor, a chreu cyfrif ar-lein) bellach ar gael drwy fideos BSL ar wefan y Cyngor. Cydweithiwyd â Chanolfan Sain Golwg Arwyddion (Centre for Sign Sight Sound) i wireddu'r prosiect hwn, gan gymryd cam pendant tuag at sicrhau tegwch i bawb.



BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU OEDOLION

Arloesi drwy dechnoleg

Dangosodd yr **adroddiad Llechen Lân** i ni fod blynyddoedd heriol dros ben ar warthaf gwasanaethau cymdeithasol i oedolion. Gyda'r galw cynyddol am ofal a phrinder gweithlu, mae angen dulliau arloesol i ddarparu gwasanaethau. Rhan allweddol o'r ateb yw'r defnydd o dechnoleg (Technology Enabled Care/TEC). Treialwyd systemau roboteg a teleofal newydd eleni:

- System Lilli - Gwynedd yw'r **Awdurdod Lleol cyntaf yng Nghymru i beilota'r dechnoleg**, sydd yn monitro gweithgaredd rheolaidd unigolyn ac yn rhybuddio os oes newidiadau yn y gweithgaredd hynny. Mae'r canlyniadau cynnar yn gadarnhaol ac yn cynnig tawelwch meddwl i unigolion a'u teuluoedd.
- **Helpu'n Hun ('Ask Sarah')** – sef Therapydd galwedigaethol rhithiol ar wefan y Cyngor sy'n gallu asesu anghenion sylfaenol ac awgrymu camau nesaf. Mae bron **500 o bobl eisoes wedi defnyddio'r adnodd**, gan leihau'r angen am apwyntiadau wyneb yn wyneb.

Edrycha'r Gwasanaeth Fusnes am gyfleoedd parhaus i fod yn arbrofi a threialu, a drwy gydweithio gyda'r gweithlu rheng flaen mae'r Cyngor yn barod i fanteisio ar ddatblygiadau yn y maes technoleg, roboteg a Deallusrwydd Artiffisial (AI) er budd unigolion a'u teuluoedd.

Gwasanaeth Anabledd Dysgu: ehangu cyfleoedd cymunedol a gwaith

Drwy ddefnyddio gweithgareddau cymunedol presennol a gwrando yn gyson ar lais defnyddwyr, cefnogir unigolion i gymryd rhan ym mywyd lleol – gyda llwyddiannau amlwg fel nosweithiau disgo mewn clwb nos ym Mangor a phencampwriaethau boccia.

Gweithreda'r Cydlynnydd Llwybr Gyrfa Anabledd Dysgu ar draws Gwynedd a Môn, gyda thri Swyddog Cefnogol o fewn y Gwasanaeth hefyd yn canolbwyntio ar hyrwyddo cyfleoedd gwaith a chefnogi unigolion tuag at gyflogaeth â thâl.

Bu cynnydd sylweddol yn niferoedd gyda **114 bellach ar y llwybr tuag at waith** (o'i gymharu â 51 yn Medi 2023). Yn yr un cyfnod, **dyblodd y nifer mewn gwaith cyflogedig o 23 i 46**.

Mae'n hanfodol parhau i sicrhau bod unigolion ar y rhaglen yn cael cefnogaeth i ddatblygu tuag at waith cyflogedig â chyflog teg, os mai dyna yw eu dymuniad.



BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU PLANT

Fforwm Ieuenctid Gwynedd



Bu cryn waith ar y cyd gyda'r Adran Addysg i sicrhau bod y Cyngor yn clywed llais plant ac ieuenctid Gwynedd. Datblygwyd fforymau ieuenctid lleol a sirol yn llwyddiannus a gobeithir gweld twf yn y gwaith hwn dros y misoedd. Dylai eu lleisiau a blaenoriaethau fod wrth galon penderfyniadau cyngorau, gan mai nhw yw dyfodol ein cymunedau. Drwy annog cyfranogiad democrataidd o oedran ifanc, gellir sicrhau eu bod yn teimlo eu bod wedi'u grymuso i lunio'r byd o'u cwrpas.

Comisiyna'r Cyngor wasanaeth eirioli annibynnol a galluogir gynnig rhagweithiol i blant gael gwneud defnydd o'r gwasanaeth. Bydd gan rhai o'r asiantaethau eiriolaeth yn ddyletswyddau statudol, tra bod eraill yno i gefnogi a galluogi deall, barn a llais y defnyddwyr mewn meysydd anodd a chymhleth. **Dengys data y clywyd llais 97% o blant (dros 5 oed) mewn cynadleddau achos amddiffyn plant ac mae gan pob un person ifanc ôl-ofal gynghorydd personol.**

Gan dderbyn y daw, o bosib, heriau i'r dulliau gweithredu presennol yn sgil yr Adolygiad Ymarfer Plant cyfredol, mae'n debygol y bydd mwy o alw am wasanaethau eirioli ac y bydd y datblygiadau ar fforymau sirol yn cynyddu mewn pwysigrwydd.

Panel Rhiantu Corfforaethol

Ymrwma'r Cyngor i'r Siarter Rhiantu Corfforaethol Llywodraeth Cymru er mwyn sicrhau mynediad teg i wasanaethau i blant a phobl ifanc sydd wedi profi gofal. Bwriedir gyflwyno'r Siarter yn ffurfiol i'r Cabinet yn ystod mis Ebrill 2025.

Er mwyn cryfhau'r ymrwymiad i roi lle canolog i lais y plentyn a'r rhai sydd wedi profi gofal, ystyrir gwahodd rhiant maeth neu unigolyn â phrofiad uniongyrchol i ymuno â'r Panel Rhiantu Corfforaethol. Credir yn gryf fod profiadau byw yn hanfodol wrth lunio polisiâu a phenderfyniadau strategol a chreu gwasanaethau sy'n wirioneddol ymatebol ac yn sensitif i anghenion y rhai sydd wedi profi gofal.

Podlediad Teulu Gwynedd

Yn ystod y flwyddyn, datblygwyd cyfres o bodlediadau Cymraeg i gefnogi rhieni a gofalwyr gyda heriau plentynod cyffredin. Canolbwyntiodd y bennod gyntaf ar ddysgu defnyddio'r toiled mewn ffordd gyfeillgar, gyda chynlluniau i drafod iechyd meddwl rhieni a datblygiad iaith. [Mae'r podlediad ar gael yn rhad ac am ddim ar blatfformau poblogaidd fel YouTube, Spotify ac Apple.](#)



Mewn ymateb i sylwadau a sgysiau ymgysylltu, cwblhawyd gwaith ar ail-frandio'r Uned Blynnyddoedd Cynnar, sydd bellach yn cael ei hadnabod fel "Teulu Gwynedd". Mae gwaith hyrwyddo ar y gweill i sicrhau bod pobl Gwynedd a rhanddeiliaid yn ymwybodol o'r newid.


Tud. 61

SUT GALLWN WNEUD PETHAU'N WELL?


Dewis Cymru

Yn 2023/24, ffurfiwyd grŵp prosiect i gynyddu'r defnydd o "Dewis Cymru" – cyfeirlyfr o wasanaethau a digwyddiadau lleol sy'n cefnogi hunangymorth. Gwelwyd cynnydd, yn enwedig yn yr ardaloedd peilot (Bangor a Dolgellau), ond bu oedi oherwydd absenoldebau staff allweddol yn ail hanner y flwyddyn.

Rhagwelir y bydd angen adnoddau ychwanegol yn ystod y flwyddyn nesaf er mwyn sicrhau hyrwyddo cyson a chynnal y momentwm, gan alluogi hyrwyddo Dewis ar draws Gwynedd yn effeithiol.



O ganfyddiad i weithredu: gwthio'r newid yn gynt



Canfyddiad creiddiol [Llechen Lân](#) oedd bod angen newid gwasanaethau ar gyfer pobl hŷn a hynny mewn modd **radical a chyflym**.

Edrydd yr adroddiad bod angen:

- Datblygu llety addas
- Gwneud gwell defnydd o daliadau uniongyrchol
- Cefnogi ymwneud cymunedol
- Ehangu'n gorwelion gyda roboteg a thechnoleg
- Hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi a phrentisiaethau ar gyfer ieuenctid Gwynedd.

Er bod cynnydd wedi'i wneud ar rai o'r argymhellion hyn, mae'r newid yn araf, ac mae angen gweithredu llawer cyflymach i ymateb i'r heriau demograffeg.

Dyma hefyd argymhelliad a chasgliad yn dilyn adolygiad cyfoedion gan arbenigwyr ar ran Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru. (Gwelir rhagor o fanylion ar **dudalen 41**)

Ymhlith yr arwyddion cadarnhaol mae gostyngiad sylweddol yn y rhestrau aros am ofal cartref – yn enwedig mewn ardaloedd fel Tywyn a Harlech oedd yn wynebu problemau dybryd yn 2023/24.

Fodd bynnag, mae rhestrau'n parhau mewn mannau eraill. Dylid parhau i wthio'n gadarn i fynd i'r afael â'r oedi wrth ddarparu gofal, gyda'n dulliau comisiynu a datblygiadau'r Academi Gofal yn greiddiol i'r ateb. Pan adnabyddir anghenion unigolion, mae'n hanfodol gallu ymateb yn brydlon ac yn briodol.

PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

Addewidion llynedd	Cynnydd
Edrych ar beth sy'n rhwystro cynyddu defnydd o daliadau uniongyrchol i weithwyr ei gynnig ac i unigolion ei ddefnyddio.	
Gwneud yn siŵr ein bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y maes technoleg a roboteg ac yn gallu cynnig fel ateb i anghenion gofal.	
Datblygu ac yn darparu gwasanaeth offeryn therapi galwedigaethol, ASK Sarah, fel ei fod ar gael ar wefan y Cyngor.	
Datblygu cyfeirlyfr o weithgareddau yn y gymuned ar gyfer pobl o bob oed drwy Dewis Cymru , gan ddechrau gyda dwy ardal beilot, Bangor a Dolgellau.	

ADDEWIDION 2025/26

1. Lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd:

Yn ystod y flwyddyn i ddod, y nod fydd sicrhau nad oes unrhyw berson yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal. Gofynnai hyn am weithio'n agos gyda darparwyr gofal, gwella trefniadau comisiynu, ac adolygu prosesau mewnol er mwyn symleiddio llif y gwaith.

2. Datblygu ein defnydd o dechnoleg i gefnogi gofal ac annibyniaeth:

Bwriedir asesu'r defnydd o blatfform Lili, hyrwyddo'r gwasanaeth Teleofal, ac archwilio potensial roboteg i alluogi pobl i fyw'n annibynnol. Mae arloesi yn allweddol yn y maes hwn.

3. Gwynedd Plentyn Gyfeillgar:

Yn ystod y flwyddyn i ddod edrychir yn fanylach ar gynllun "Dinasoedd Blentyn Gyfeillgar" gan UNICEF, gan feithrin diwylliant o wrando, cynnwys a pharchu plant fel dinasyddion llawn eu hawliau. Bwriedir gryfhau ac yn datblygu'r fforymau ieuentid er mwyn rhoi llwyfan cryfach i leisiau pobl ifanc.

4. Mabwysiadu'r Siarter Rhiantu:

Bwriedir fabwysiadu'r Siarter Rhiantu yn swyddogol gan weithio i gryfhau llais plant mewn gofal. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod eu profiadau a'u safbwyntiau yn cael eu hystyried wrth wneud penderfyniadau, a datblygu dulliau newydd o'u cynnwys yn y broses llunio polisiau a chynllunio gwasanaethau.

5. Dewis Cymru:

Bwriedir ail-edrych ar yr adnodd sydd angen er mwyn sicrhau fod Dewis yn hygyrch, yn cael ei hyrwyddo ar draws y sir ac yn diwallu anghenion trigolion yn effeithiol.

ATAL

- “Mae’r angen am ofal a chymorth yn cael ei leihau ac nid yw anghenion yn cynyddu, gan sicrhau’r canlyniad gorau posibl i bobl.”
- “Mae cydnerthedd yn ein cymunedau yn cael ei hyrwyddo ac mae pobl yn cael eu helpu i gyrraedd eu potensial trwy annog a helpu pobl sydd angen gofal a chymorth, gan gynnwys gofalmwyr, i ddysgu, datblygu a chymryd rhan mewn cymdeithas.”

CIPLUN MEWN RHIFAU:


NIFER O OFALWYR WEDI EU HASESU 492 	294 WEDI DERBYN CEFNOGAETH GAN DEMENTIA ACTIF 	NIFER O BECYNNAU AILALLUOGI A GWBLHAWYD YN YSTOD Y FLWYDDYN 307 	NIFER PECYNNAU BWYD A DDOSBARTHWYD GAN GYNLLUNIAU BWYD CYMUNEDOL 5,575* * (Hyd 24-Maw 25) 
NIFER O OFALWYR IFANC WEDI DERBYN CEFNOGAETH 163 	9,420* YMWELIADAU I'R HYBIAU CEFNOGI POBL *chwarter 4 (Ion-Maw 25) 	149 LLWYTH ACHOS GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID 	£648,443 DYLEDION WEDI EI DDILEU DRWY CYNGOR AR BOPETH 

Y GWAHANIAETH A WNAED: STORI MEIC

Mae Meic yn byw ar ben ei hun yng nghefn gwlad tu allan i Gaernarfon.



Wedi colli ei deulu, profodd flynyddoedd o unigrwydd ac ynysigrwydd cymdeithasol.



Ond newidiodd bywyd Meic er gwell pan ddarganfu'r Hwb Cefnogi Pobl leol.



Dechreuodd fynychu sesiynau Dementia Actif a chiniawau cymunedol wythnosol.



Mae'r hwb wedi ei helpu i wneud ffrindiau a theimlo ei fod yn perthyn.



"Rydw i'n hapusach am bod gen i rywbeth i'm cael allan o'r tŷ yn amlach... mae'r hybiau'n bwysig am eu bod nhw'n cael pobl i siarad â'i gilydd; rydyn ni i gyd angen hynny!"



BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Beth yw “atal”?

Er bod y gair ‘atal’ yn ganolog yn y ddeddfwriaeth, mae’n codi cwestiynau – atal beth yn union yw’r nod? Salwch, unigrwydd, defnydd o wasanaethau? Ystyrir ‘atal’ fel gwaith wedi ei seilio ar wendid gan geisio atal pethau gwael rhag digwydd.

Nod y Cyngor yw galluogi pobl i fyw’r bywyd gorau posib, o fewn eu cymunedau, gan ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus dim ond pan fo angen. Deallir nad oes gan bawb yr un cyfleoedd i gael mwynhau’r bywyd gorau bosib ac, felly, mae’n hanfodol bod gwasanaethau cymdeithasol ac awdurdodau lleol yn darparu cefnogaeth i geisio lliniaru’r gwahaniaethau hyn gymaint ag y bo modd.

Cefnogi pobl drwy uchafu incwm

Gosododd Cabinet y Cyngor flaenoriaeth o helpu pobl a threchgu tlodi a bu cryn ddefnydd o’r hybiau cefnogi pobl ar draws y sir. Cydnabyddir bellach nad argyfwng costau byw sydd yn wynebu’r wlad, ond tlodi tymor hirach sydd yn effeithio ar fywydau pobl Gwynedd a Chymru bob dydd.

Yn wyneb penderfyniad Llywodraeth y DU i atal Taliadau Tanwydd y Gaeaf, gweithiodd y Cyngor gyda phartneriaid i annog trigolion cymwys i hawlio Credyd Pensiwn, budd-dal sy’n gallu cynyddu incwm yn sylweddol ac yn agor y drws i gymorth ychwanegol. Rhoddwyd cymorth ymarferol drwy’r hybiau cymunedol, llyfrgelloedd a digwyddiadau lleol i sicrhau bod pobl yn gallu gwneud cais yn rhwydd.

I gryfhau’r ymateb rhagweithiol, buddsoddwyd yn y system *Low Income Family Tracker* (LIFT). Bydd hyn yn galluogi y Cyngor i ddadansoddi a defnyddio data’n fwy effeithiol yn 2025/26 – gan adnabod ardaloedd sy’n agored i effeithiau tlodi, nodi aelwydydd sydd ar drothwy budd-daliadau, a chysylltu’n uniongyrchol â’r rhai hynny i’w hannog i hawlio’r hyn sy’n ddyledus iddynt. Mae awdurdodau yn ne Cymru eisoes wedi gweld canlyniadau cadarnhaol o ddefnyddio’r system, a gellir fesur ei heffaith yng Ngwynedd yn y flwyddyn sydd i ddod.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, bydd *Gweithgor Cefnogi Pobl* y Cyngor yn tynnu swyddogion o bob adran at ei gilydd i ddatblygu ffrydiau gwaith newydd – megis cynnig nofio am ddim i blant – fel rhan o ymrwymiad ehangach i gefnogi trigolion, gwella eu sefyllfa ariannol, a lliniaru effaith tlodi ar fywydau pobl Gwynedd.



Sesiwn “Galw i Mewn” Cymorth Costau Byw, Canolfan Byw’n Iach Porthmadog

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU OEDOLION

Therapi Galwedigaethol: cefnogi annibyniaeth ac atal gofal hirdymor

Sicrhau'r gefnogaeth gywir yn gynnar yw'r allwedd i gynnal annibyniaeth, osgoi derbyniadau diangen i'r ysbyty, a lleihau'r angen am ofal hirdymor. Mae therapi galwedigaethol yn ganolog i atal – gan asesu anghenion unigolion, argymhell offer neu addasiadau, a chefnogi adferiad. Gweler fod yr ymyrraeth gynnar nid yn unig yn gwella ansawdd bywyd, ond hefyd yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau ysbyty a gofal preswyl. Galluogir i bobl i aros yn rhan o'u cymunedau am fwy o amser, gan roi'r gefnogaeth hanfodol i ofalwyr hefyd.

Bu gostyngiad sylweddol yn y rhestr aros am asesiad therapi galwedigaethol dros y flwyddyn, **o 129 ym mis Mehefin 2024 i 36 ym mis Mawrth 2025**. Cyfrannodd cyllid o'r grant Llywodraeth Cymru 'Her 50 diwrnod' at dalu Therapyddion Galwedigaethol preifat a wnaeth roi sylw i'r rhestrau aros, gan flaenoriaethu ardaloedd

// (Mae) cael cadair Careflex MultiAdjust wedi gwneud llwyth o wahaniaeth... Mae o yn gallu eistedd allan am rhan fwyaf o'r diwrnod ac yn lot mwy hapus ei fyd! Teulu yn gweld gwahaniaeth hefyd a bod o ddim yn cysgu gymaint yn y dydd. //

Yn gynharach eleni, defnyddiodd y Gwasanaeth gyllid cenedlaethol hefyd i brynu cadeiriau arbenigol ar gyfer unigolion â gofynion penodol, gan alluogi nifer i barhau'n annibynnol yn eu cartrefi a chymunedau.

Dementia Actif Gwynedd

Drwy wasanaethau rhagweithiol fel Dementia Actif, gall y Cyngor gefnogi pobl i gadw'n heini, cymdeithasu a chadw annibyniaeth. Gweithia'r gwasanaeth gyda phartneriaid fel Age Cymru Gwynedd a Môn a chanolfannau Byw'n lach i gynnal digwyddiadau ar draws y sir.

Mae'r effaith wedi bod yn sylweddol: **ym Mawrth 2025, cymrodd 294 o unigolion ran mewn gweithgaredd – 64 yn byw gyda dementia, 49 yn ofalwyr di-dâl, a 181 arall yn elwa'n gymdeithasol**. Dengys hyn werth gwasanaethau ataliol wrth gynorthwyo unigolion i fyw'n annibynnol, i atal unigedd a chefnogi gofalwyr.

Yn ogystal, cynhaliwyd sesiynau Ffrindiau Dementia mewn naw ysgol i godi ymwybyddiaeth, chwalu mythau, ac i baratoi disgyblion ar gyfer twrnament Boccia Pontio'r Cenedlaethau ym mis Ebrill 2025.



Rhai o weithgareddau Dementia Actif Gwynedd



Tud. 67

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU PLANT

Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid

Gwelwyd cynnydd sylweddol yn niferoedd llwyth achosion, gyda'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn **rheoli 149 o achosion, sydd yn gynnydd pellach o 17.3% ers Medi 2024**. Bu gostyngiad bychan yn nifer y merched a gyfeiriwyd at y gwasanaeth. Parha'r Bwrdd Rheoli fonitro amrywiaeth a nodweddion gwarchodedig, gyda phryder yn codi am blant nad ydynt mewn addysg amser llawn ac sydd ag anawsterau iechyd emosiynol a meddyliol.

Fel rhan o waith y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid, mae rhaglen adfer (*reparation*) yn rhoi cyfle i bobl ifanc sydd wedi troseddu roi yn ôl i'r gymuned a dysgu sgiliau bywyd. Os dymuna'r dioddefwyr, maent yn cael eu cynnwys yn y broses. Cydweithir ag sefydliadau lleol fel Lloches Asynnod Eryri yn Nhregarth i adeiladu cysylltiadau cadarnhaol, gyda swyddogion yn gwneud gwaith un i un dwys gyda'r person ifanc er mwyn deall pam y digwyddodd y trosedd ac i atal ail-drosedd.

Yn yr adroddiad llynedd, nodwyd fod 1 unigolyn ifanc mewn llety diogel. Eleni, (rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025) ni chafodd unrhyw blant o Wynedd eu dedfrydu na'u cadw yn y ddalfa o'r newydd.

O fewn y Gwasanaeth, mae Tîm Emrallt yn cynnig gwasanaeth cynghori ar ymddygiad rhywiol niweidiol. Parha i fod yr unig dîm o'i fath yng Nghymru ac yn ddiweddar cynhaliwyd cynhadledd flynyddol ryngwladol [NOTA](#) ym Melfast, lle cyflwynodd y tîm weithdy 90 munud ar fframio newydd ar gywilydd, gan ddenu dros 300 o fynychwyr. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn, gyda gweithwyr proffesiynol o'r DU a thramor yn gwerthfawrogi'r wybodaeth, yr ysgogiad a'r cyfle i rannu profiadau.



Ruth (Perchenog Asynnod Eryri) a Cari o'r Gwasanaeth yn trafod y gwaith adfer

Gwasanaeth RAP (Repatriation and Prevention)

Cyniga Gwasanaeth RAP ymyrraeth ddwys i gefnogi rhieni a gofalcwyr maeth i reoli ymddygiad heriol, gan sicrhau lleoliadau sefydlog a lleihau'r angen i symud plentyn bregus ymhell o'i gynefin, ffrindiau a theulu. Heb y gefnogaeth briodol, gall sefyllfaoedd o'r fath waethgu'n gyflym, gan arwain at leoliadau'n chwalu a phroblemau'n mynd yn fwy difrifol ac anodd eu datrys.

Oherwydd profiadau blaenorol – megis trawma a phroblemau cysylltiad – mabwysiadir dull therapiwtig perthynol, yn seiliedig ar ymddiriedaeth ac ymrwymiad gwirfoddol. Mae hyn yn arbennig o bwysig wrth gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal. Sicrhau nad yw'r gefnogaeth yn cael ei "orfodi", fod y person ifanc yn cytuno ac eisiau cymryd rhan, gan fod canlyniadau cadarnhaol yn dibynnu ar gymhelliant yr unigolyn. Mae'r broses yn cael ei harwain gan y person ifanc ei hun.

SUT GALLWN WNEUD PETHAU'N WELL?

Gofalwyr di-dâl: cryfhau'r gwasanaethau craidd

Dengys ymchwil gan Age Cymru fod dros 370,000 o ofalwyr di-dâl yng Nghymru, ac nad yw llawer ohonynt yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael iddynt. Mae'r Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru hefyd wedi tynnu sylw at eu cyfraniad enfawr – gwerth biliynau i'r economi – ond yn aml ar gost sylweddol i'w hiechyd a'u llesiant eu hunain.

Er bod sesiynau gwybodaeth a gweithgareddau cymunedol yn parhau, ac y ceir gwaith cadarnhaol gyda gofalwyr ifanc drwy bartneriaeth gyda *Gweithredu Dros Blant*, cydnabyddir nad yw'r gwasanaethau craidd ar gyfer gofalwyr di-dâl mor gryf ag y dylent fod, ac mae angen gwella sylweddol.



App AIDI yn rhoi cefnogaeth i Ofalwyr Ifanc

Canfu adolygiad diweddar gan Arolygiaeth Gofal Cymru fod heriau'n parhau o ran casglu a chofnodi data ar asesiadau a chymorth i ofalwyr (**gweler tudalen 40**). Nid oedd bob amser yn glir a gafodd pob gofalwr asesiad priodol nac a gofnodwyd gwybodaeth am gymorth yn gyson. Mae gwella'r broses hon yn hanfodol er mwyn bodloni dyletswyddau statudol ac i sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cyfeirio'n effeithiol at gymorth addas – gan gynnwys gwasanaethau'r trydydd sector – i atal eu hanghenion rhag dwysáu. Ers dechrau 2025 gwnaed gwaith pellach ar gofnodi asesiadau yn gywir ac eisoes fe welir wahaniaeth gyda data yn dangos fod dros dwbwl o asesiadau wedi eu cynnal yn 2024/25 o'i gymharu â 2023/24 (**492 o'i gymharu â 255**).

Dros y flwyddyn nesaf, y bwriad yw cydweithio'n rhanbarthol i gytuno ar gynllun gweithredu i gryfhau'r ddarpariaeth. Bydd hyn yn cynnwys datblygu systemau ar y cyd â'r trydydd sector, fel bod gofalwyr di-dâl yn gallu cynllunio ymlaen llaw ar gyfer unrhyw argyfyngau neu gyfnod lle na allant barhau i ofalu.

Gwella mynediad: symleiddio'r drysau ffrynt i wasanaethau cymdeithasol

Mae mynediad at wasanaethau cymdeithasol yn gallu bod yn gymhleth i unigolion a theuluoedd sy'n dod ato am y tro cyntaf. Yn y sefyllfaoedd hyn, symleiddio yw'r gorau, ac mae angen sicrhau bod y "drysau ffrynt" – sef y gwasanaethau sy'n derbyn cyfeiriadau cychwynnol – yn hawdd eu defnyddio ac yn rhoi profiad cyson i drigolion.

Ar hyn o bryd, mae gan yr Adran Oedolion dros ugain o ddrysau ffrynt gwahanol. Gall hyn arwain at gymhlethdod ac anghysondeb, ac felly cydnabyddir yr angen i wella. Bwriedir ailfodelu'r trefniadau hyn, gan gydweithio gyda Galw Gwynedd (Canolfan Cyswllt Cwsmer y Cyngor) a'r Bwrdd Iechyd, er mwyn symleiddio'r system a gwneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau sydd ar gael.

Ymestyn allan: Peilot Gafael Llaw

Fel rhan o'r gwaith atal, mae pethau gellir ei gynnig tu hwnt i wasanaethau traddodiadol yn bwysig fel modd o gynnal llesiant unigolion. Gweithredir y prosiect peilot Gafael Llaw, a ariannir drwy grant. Cyniga'r prosiect ddull personol a rhagweithiol o gefnogi trigolion drwy gynnal sgysiau llesiant gyda thrigolion hŷn, gan eu tywys tuag at gymorth sy'n eu galluogi i fyw bywydau da, cymryd rhan yn y gymuned, a lleihau'r risg o broblemau neu argyfyngau yn y dyfodol.

Dechreuodd y prosiect drwy gynnig yr opsiwn i unigolion sy'n gwneud cais am fathodyn parcio anabl dderbyn galwad ffôn llesiant a gobeithir ymestyn y prosiect yn ystod 2025/26.

PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

Addewidion llynedd	Cynnydd
Cynnal adolygiad llawn o wasanaethau gofal dydd ar draws y sir.	
Gwneud mwy o waith i sicrhau fod systemau taliadau uniongyrchol yn effeithiol, hygyrch ac yn hawdd i'w ddefnyddio i bawb.	
Datblygu'r cymorth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl ymhellach i sicrhau fod gan bob ofalydd y cyfleoedd priodol i weithio, hamddena a hyfforddi.	
Edrych ar sefydlu a datblygu hybiau cymunedol yn yr ardaloedd hynny sy'n parhau heb adnodd.	

ADDEWIDION 2025/26

1. Cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl:

Yn ystod 2025/26, bydd y ffocws ar sicrhau bod gofalwyr di-dâl yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cefnogaeth lawn i'w helpu i barhau yn eu rôl heb beryglu eu lles eu hunain. Bwriedir gweithio ar lefel ranbarthol i ddatblygu cynllun gweithredu fydd yn arwain at wasanaethau cryfach sy'n ymateb yn well i'w hanghenion.

2. Cwblhau'r gwaith ar edrych ar drysau ffrynt:

Bwriedir ai-edrych a symleiddio'r "drysau ffrynt" i greu profiad cyson a syml i drigolion wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol, gan wella effeithlonrwydd a hygyrchedd.

3. Gwneud defnydd o system Low Income Family Tracker (LIFT) i ymateb yn rhagweithiol i heriau costau byw:

Defnyddir y system LIFT i nodi unigolion a theuluoedd mewn angen, eu cefnogi i hawlio'r budd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a chynnig cymorth pellach i leihau effaith tlodi ar fywydau pobl Gwynedd.

4. Cefnogi'r hybiau a model cynaliadwy:

Er bod prif gerrig milltir y prosiect wedi eu cyflawni, bwriad 2025/26 yw adolygu trefniadau presennol, gan greu model mwy cynaliadwy a chydweithredol gyda phartneriaid ar gyfer y dyfodol.

Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: [**Gwynedd Ofalgar**](#)



PARTNERIAETH AC INTEGREIDDIO

- *“Mae partneriaethau effeithiol ar waith i gomisiynu a darparu canlyniadau cynaliadwy a chwbl integredig o safon uchel i bobl.”*
- *“Mae pobl yn cael eu hannog i gyfrannu at gynllunio a darparu eu gofal a’u cymorth fel partneriaid cyfartal.”*

Y GWAHANIAETH A WNAED: STORI LISA A CERYS

Mae Lisa (58 oed) mewn cartref preswyl gan ei bod angen gofal 24 awr. Ei dymuniad yw cael byw yn ei chymuned.



Mae Cerys (58) wedi symud dros dro i gartref preswyl ar ôl treulio misoedd yn yr ysbyty. Mae hi'n fregus i ddylanwad allanol gyda diagnosis o niwed ymennydd oherwydd alcohol.




Nid yw'r cartrefi preswyl yn addas i'w hanghenion ac mae'r ddwy yn anhapus.



Ystyriwyd opsiynau i'r ddwy gyd-fyw mewn Uned Tenantiaeth gyda chefnogaeth 24 awr y dydd.



Mae angen rhywfaint o addasiadau i'r ystafell ymolchi er mwyn iddynt allu symud i mewn yn ddiogel.



Bydd y fflat yn gwella ansawdd bywyd y ddwy, gan roi mwy o ryddid, cwmniaeth ac annibyniaeth iddynt.



BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

System ddata newydd

Nodwyd yn adroddiad y llynedd fod pryder ynghylch system dal data'r gwasanaethau cymdeithasol – WCCIS (CareDirector) – gan fod y gefnogaeth ar ei gyfer yn dod i ben ym mis Ionawr 2026. Pery risg sylweddol gan mai dyma un o'r systemau mwyaf hanfodol i'r gwasanaeth.

Ers hynny, mae'r Gwasanaeth Fusnes, y Tîm Caffael Corfforaethol, y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth a chydweithwyr ledled y Gogledd wedi cydweithio ac wedi llwyddo i gyrraedd cam tendro o fewn amserlen heriol iawn. Disgwylir cadarnhad o gyllid cenedlaethol ar gyfer y rhaglen Cysylltu Gofal yn fuan, ond mae hefyd yn hanfodol sicrhau cyllid pellach ar gyfer 2025/26 er mwyn ymgymryd â'r gwaith trosglwyddo.

Gobeithir y bydd y system newydd yn hwyluso'r tasgau cofnodi i'r gweithlu ac yn cryfhau'r cyfathrebu â thrigolion. Gwynedd fydd y sir gyntaf yng Ngogledd Cymru i wneud y newid, gyda gwaith paratoi a hyfforddiant sylweddol i'r gweithlu i'w gynnal yn ystod y flwyddyn nesaf.

Gostyngiad yn ymddygiad gwrth-gymdeithasol yng Ngwynedd

Fe welwyd **gostyngiad o bron i 9% yn nifer yr achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol** yng Ngwynedd yn 2024/25 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol – **sef dros 150 yn llai o achosion** a adroddwyd i'r Heddlu. Dengys hyn fod y bartneriaeth sefydlog rhwng y Cyngor a'r Heddlu yn gweithio'n dda ac yn cael effaith gadarnhaol ar gymunedau.

Serch hynny, mae rhai ardaloedd yn dal i brofi problemau ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac felly mae monitro parhaus yn digwydd. Gwneir gwaith cydweithredol gyda Chynghorau Tref a Chymuned, yr Adran Briffyrdd a'r Heddlu, er mwyn gosod camerâu teledu cylch cyfyng (CCTV) lle bo'r angen yn codi fwyaf.

Yn ogystal, mae dyletswydd newydd ar waith ledled Cymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau gydweithio i atal a lleihau trais difrifol. Cydweithia'r Cyngor gyda'r Grŵp Llywio Rhanbarthol ac yn ystod 2024/25 fe gafwyd £82,000 o gyllid i gynnal prosiectau ataliol ac ymyrraeth gynnar gyda phlant a phobl ifanc. Mae'r cyllid hwn, ymhlith pethau eraill, wedi cefnogi prosiectau i herio stereoteipiau rhywedd ac ymddygiad niweidiol gwrywaidd ymhlith bechgyn a dynion ifanc, a hefyd i godi ymwybyddiaeth o drais rhywiol a hyrwyddo consensws a pharch mewn perthnasoedd drwy sesiynau mewn ysgolion.



Caernarfon yn un tref sydd wedi gweld mantais system teledu cylch cyfyng (CCTV) newydd

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU OEDOLION

Cysylltu bywydau Gwynedd a Môn

Mae Cynllun Cysylltu Bywydau Gwynedd a Môn yn rhaglen arbennig sy'n cysylltu pobl ag anghenion gofal (megis pobl hŷn, pobl sydd ag anableddau dysgu, neu anghenion iechyd meddwl, corfforol neu synhwyrdd) ag unigolion neu deuluoedd cymwys sydd â lle i'w croesawu. Cyniga'r Cymwynaswyr ("Enablers") lety, cymorth dyddiol, gofal ysbaidd neu ddarpariaeth hirdymor mewn amgylchedd cartrefol ac annibynnol. Trwy'r cynllun, caiff pobl eu cefnogi i fyw bywyd ystyrlon mewn cymuned, gan gryfhau lles a chysylltiadau cymdeithasol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd dwy o Wynedd, Catherine a Liz, eu cydnabod am eu gwaith rhagorol fel "Llysgenhadon Cysylltu Bywydau". Maent wedi gwasanaethu fel aelodau gweithredol o'r Cynllun ers ugain mlynedd, gan hyrwyddo'r buddion yn ehangach ledled y Deyrnas Unedig. Fel y gwelir yn y dyfyniad gan Catherine, mae wedi dangos y gwerth mewn adeiladu perthnasoedd cadarn a chryf – gan adlewyrchu ysbryd cydweithredu gwirioneddol.

//
Dw i'n caru byw gyda Liz. Weithiau da ni'n gwneud pethau gyda'n gilydd, neu weithiau ar ben fy hun – fel garddio, mynd a'r ci am dro, mynd i siopa, i'r traeth – pethau arferol... Dw i'n gallu gwneud y pethau dw i'n eu mwynhau ac yn cael y rhyddid i fyw'r bywyd, heb neb ddweud bod yn rhaid i fi fynd i'r gwely am amser penodol, neu fwyta ar yr un amser bob dydd. Bywyd teuluol yw hwn – ac mae'n berffaith.
//

Cyd-weithio â'r Bwrdd Iechyd

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol (TAC) yn cynnwys staff iechyd, gofal cymdeithasol (gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol ac ymarferwyr) a'r trydydd sector sy'n gweithio'n agos gyda meddygfeydd teulu lleol i ddarparu modelau integredig o wasanaeth er budd pobl Gwynedd.

Dengys ymchwil fod cydleoli timau yn gwella ymarfer, gan arwain at rannu gwybodaeth yn gyflymach, datrys problemau ar unwaith a chynnig ymatebion mwy cyd-gysylltiedig i gyfarch anghenion unigolion. Yn ardal TAC Bangor, Eifionydd a Llŷn, mae gweithwyr oedolion o'r Cyngor bellach yn rhannu'r un adeilad neu swyddfa â gweithlu iechyd, gan gryfhau'r cydweithio ar lefel weithredol. Sefydlwyd trefniadau cydleoli pellach mewn is-ardaloedd yn Ysbyty Tywyn, Plas Pengwaith yn Llanberis, Yr Hen Glinig ym Mhenygroes, a Chanolfan Feddygol Blaenau Ffestiniog.

Gwelwyd gwelliant yn y berthynas waith gyda thimau rhyddhau'r ysbyty drwy drefniant un pwynt cyswllt a chyfarfodydd wythnosol i drafod cleifion penodol. Mae hyn yn hwyluso blaenoriaethu'r rhai sy'n feddygol barod i fynd adref, ac fe ddefnyddir arbenigedd lleol y TAC i ddarparu'r gwasanaeth priodol ac addas. Tra bod cyfyngiadau systemau data cleifion yr ysbyty wedi achosi rhai rhwystrau, mae gwaith datblygu ar y gweill i wella effeithlonrwydd rhannu gwybodaeth.

Er bod Polisi Meddyginiaeth Gofal Cartref Cyngor Gwynedd wedi bod yn gam cadarnhaol a phendant i warchod staff a gofaluwyr cartref, bu rhai anawsterau wrth gyfathrebu gyda thimau iechyd. Amlygwyd yr angen am eglurder pellach yn ystod 2025/26.

Ar lefel strategol, mae'r Bwrdd Rheoli TAC wedi parhau i gyfarfod, gyda phenodiad rheolwr prosiect wedi galluogi rhai ffrydiau gwaith i symud ymlaen. Cydnabyddir fod newidiadau personél sydd ar y gweill yn y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor yn creu risg, ond drwy barhau i gyfarfod yn rheolaidd a chyfathrebu yn agored, mae modd diogelu'r dull integredig sy'n greiddiol i lwyddiant y TAC.

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU PLANT

Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb

Ar ôl digwyddiadau erchyll o gam-drin plant yng Ngwynedd, sefydlwyd Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb i ddysgu gwersi a sicrhau newidiadau pendant a chadarnhaol, gan ganolbwyntio ar bartneriaeth, agoredrwydd ac atebolrwydd.

Yn Chwefror 2025, penodwyd yr Athro Sally Holland, cyn-Gomisiynydd Plant, yn Gadeirydd Annibynnol y Bwrdd. Mae'r Bwrdd yn annog cydweithio rhwng y Cabinet, swyddogion y Cyngor, Tîm Rheoli Ysgol Friars, a chyrrff cenedlaethol fel Estyn, Arolygaeth Gofal Cymru, Swyddfa Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru. Trwy gasglu tystiolaeth a rhannu dysg, mae'r Bwrdd yn sicrhau gweithredu camau clir i ddiogelu plant Gwynedd i'r dyfodol.

Cydweithio i wella gwasanaethau i blant anabl yn Gwynedd

Ar ddechrau'r flwyddyn, cododd yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Plant bryder am yr amseroedd aros am asesiadau nyrsio a seicoleg ar gyfer plant oedd yn derbyn gwasanaeth drwy dîm Derwen. Daeth yn amlwg bod heriau sylweddol yn wynebu plant oedd angen asesiad nyrsio a bod yn rhaid iddynt aros hyd at ddwy flynedd amdano. Heb os, caiff hyn effaith negyddol ar y plant a'i teuluoedd.

I fynd i'r afael â'r sefyllfa, cymerwyd nifer o gamau cadarnhaol. Bu trafod rhwng y Cyngor a'r Bwrdd lechyd, ac fe ail-sefydlwyd Bwrdd Rheoli Derwen. Comisiynwyd gwaith ymchwil allanol i edrych ar y prosesau a meini prawf cymhwysedd, adolygu dulliau gweithredu'r gwasanaeth, a chynghori ar weithio intra-broffesiynol effeithiol. fel rhan o'r adolygiad, casglir adborth gan deuluoedd, plant, a staff i sicrhau bod y gwasanaethau'n effeithiol, hyblyg ac yn canolbwyntio ar anghenion unigolion.

Mae'r Cyngor a'r Gwasanaethau lechyd wedi bod yn agored i rannu adnoddau, gwneud rolau staff yn fwy hyblyg, a sicrhau bod y gwasanaethau'n fwy addas i anghenion plant anabl. Megis dechrau mae'r gwaith a cydnabyddir fod angen gweithio ar fyrder er mwyn lleihau'r rhestrau ac amseroedd aros.

Ar 31 Mawrth 2025 roedd **509 o blant a pobl ifanc yn agored i wasanaethau Derwen**. Bwriedir gynnal gwaith ymchwil mewnol hefyd i edrych ar dueddiadau poblogaeth, gan ddilyn patrwm Llechen Lan y Gwasanaethau Oedolion Hŷn. Y gobaith yw gallu ateb a mynd i'r afael â'r cwestiwn sylfaenol: pam bod nifer y plant a phobl ifanc anabl (gan gynnwys rhai gyda chyflyrau niwroddatblygiadol) wedi cynyddu, hyd yn oed wrth i nifer yr enedigaethau yng Ngwynedd leihau ers 2012. Bydd y gwaith hwnnw'n mynd rhagddo yn ystod y flwyddyn nesaf gan ystyried y gallu o fewn y gwasanaethau cymdeithasol a'r Adran Addysg (Anghenion Dysgu Ychwanegol) i ddiwallu'r anghenion dros yr ugain mlynedd nesaf.




SUT GALLWN WNEUD PETHAU'N WELL?

Cynllunio'r dyfodol: llety anghenion gofal

Er bod cynnydd da wedi bod gyda chynlluniau Tai Gofal Ychwanegol mewn rhai ardaloedd, megis safle Penrhos (Ardan Llŷn) ac ardal Caernarfon, mae'r gwaith o adnabod safleoedd addas ar gyfer ardal Dolgellau wedi cymryd mwy o amser nag oedd disgwyl. Yn ystod 2025/26 bydd angen dod i benderfyniad ar y ffordd ymlaen ar gyfer darpariaeth Tai Gofal Ychwanegol yn ardal Dolgellau.

Ar hyn o bryd, mae llai o opsiynau llety ar gael i rai unigolion sydd angen gofal neu cefnogaeth. Cydnabyddir bod angen cryfhau cynllunio strategol er mwyn adnabod anghenion llety gofal (gan gynnwys cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl, Tai Gofal Ychwanegol, llety â chymorth, tai â chymorth, a thai wedi'u haddasu) dros y degawdau nesaf. Felly, yn ystod 2024/25, daethpwyd a grŵp mewnol o swyddogion o'r gwasanaethau cymdeithasol ac Adran Tai ac Eiddo y Cyngor at ei gilydd i fynd i'r afael â hyn.

Fel rhan o'r broses hon, bwriedir defnyddio cwmni allanol i ymchwilio i dueddiadau ac i fapio pa ardaloedd fydd angen darpariaeth ychwanegol. Gobeithir penodi'r tendr a dechrau'r gwaith modelu yn 2025/26, gan sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu cynllunio'n briodol i ddiwallu anghenion presennol a'r dyfodol.



Angen cryfhau trefniadau partneriaeth trydydd sector

Mae cydweithio gyda'r trydydd sector yn allweddol os ydy'r Cyngor am ddefnyddio adnoddau'n effeithiol a sicrhau canlyniadau gwell i drigolion. Cydnabyddir eu rôl werthfawr mewn darparu gwasanaethau sy'n rhoi pobl yn ganolog.

Cynhaliwyd pedwar gweithdy i gryfhau partneriaethau gyda'r trydydd sector yn ystod hydref 2024, ond bu oedi yn yr ail hanner o'r flwyddyn oherwydd blaenoriaethau eraill. Bwriedir ailafael yn y gwaith yn fuan, gan gynnwys mabwysiadu "Compact" newydd i osod sail glir i'r berthynas. Y bwriad yw sefydlu egwyddorion cydweithio sy'n pwysleisio agoredrwydd, hyblygrwydd, cynnwys sefydliadau yn gynnar mewn trafodaethau, a threfniadau cyllido clir.

Parha'r cyfarfodydd rheolaidd gyda Mantell Gwynedd. Yn ystod 2025/26 edrychir ymlaen at gydweithio pellach drwy lansio prosiect peilot *Cynllun Ffrindiau*, sy'n anelu at leihau unigrwydd, cryfhau cysylltiadau cymunedol, a chefnogi unigolion sy'n fregus – gan gynnwys drwy ddarparu cymorth ymarferol megis danfon meddyginiaeth lle bo'r angen yn codi.

PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

Addewidion llynedd	Cynnydd
Gweithio gydag awdurdodau lleol eraill, y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW), a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i gaffael system newydd ar gyfer casglu a chadw data Gwasanaethau Cymdeithasol (WCCIS).	
Penodi, ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd, rheolwr prosiect i ddatblygu'r Timau Adnoddau Cymunedol.	
Parhau i weithio â partneriaid yn y sector dai er mwyn ehangu'r ddarpariaeth o dai gofal ychwanegol.	
Cydweithio â Mantell Gwynedd er mwyn cysoni trefniadau ariannu ar gyfer y trydydd sector.	
Edrych i fuddsoddi yn y cynllun Catalydd Cymunedol i gefnogi creu rhagor o ficro-fentrau gofal.	

ADDEWIDION 2025/26

1. Trosglwyddo i'r system ddata newydd:

Yn ystod 2025/26, bydd angen cwblhau trosglwyddiad i'r system ddata newydd, gan sicrhau hyfforddiant cynhwysfawr i'r gweithlu.

2. Cryfhau'r cydweithio â'r Bwrdd Iechyd:

Bydd y ffocws y flwyddyn nesaf ar wella'r systemau data sy'n cefnogi rhyddhau o'r ysbyty a parhau i adeiladu ar y berthynas gadarn tra bo newidiadau personél yn digwydd ar lefel strategol. Anelir at gryfhau cyfathrebu gyda thimau iechyd – yn arbennig o ran Polisi Meddyginiaeth Gofal Cartref y Cyngor.

3. Adolygu trefniadau Gwasanaeth Derwen:

Bydd y cyd-weithio yn parhau er mwyn ceisio mynd i'r afael â amseroedd aros asesiadau nyrsio a seicoleg. Bwriedir cwblhau'r gwaith ymchwil i ddeall twf poblogaeth plant anabl er mwyn sicrhau bod gwasanaethau Derwen ac Anghenion Dysgu Ychwanegol yn addas i anghenion y dyfodol.

4. Cwblhau adolygiad o'r trefniadau cyd-weithio â'r Trydydd Sector:

Yn 2025/26, bydd y ffocws ar ailafael a chryfhau partneriaethau gyda'r trydydd sector, gan gynnwys mabwysiadu Compact newydd i sefydlu sail glir i gydweithio. Bwriedir hefyd gydweithio â Mantell Gwynedd ar y Peilot Cynllun Ffrindiau.

5. Datblygu Cynllun Strategol ar gyfer llety gofal i'r dyfodol:

Comisiynir ymchwilwyr allanol i ddadansoddi tueddiadau a mapio'r anghenion o ran llety gofal. Bydd hyn yn gosod sail i gynllunio'n strategol er mwyn cryfach a diwallu anghenion trigolion Gwynedd.

Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: [Gwynedd Ofalgar](#)

LLES


- “Mae pobl yn cael eu hamddiffyn a’u diogelu rhag camdriniaeth ac esgeulustod ac unrhyw fathau eraill o niwed.”
- “Mae pobl yn cael eu helpu i reoli eu llesiant a gwneud eu penderfyniadau eu hunain fel y gallant gyrraedd eu potensial llawn a byw’n annibynnol cyhyd â phosibl.”

CIPLUN MEWN RHIFAU:

280 O BLANT MEWN GOFAL 	82% O GYFEIRIADAU PLANT YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN Y CYFNOD STATUDOL 	92% O GYFEIRIADAU DIOGELU OEDOLION YR YMATEBWYD IDDYNT O FEWN 7 DIWRNOD 	694 O OEDOLION WEDI DERBYN CYNGOR A CHYMORTH GAN Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL STATUDOL 
185 O BLANT MEWN LLEOLIADAU MAETHU 	356 YN AROS AM ASESIAD DOLS 	7,785 O GYFEIRIADAU PLANT 	TÎM AWTISTIAETH: NIFER O YMHOLIADAU AM WYBODAETH, CYNGOR A CHYMORTH 267 

Y GWAHANIAETH A WNAED: STORI ENLLI

Mae Enlli yn fam awtistig. Roedd ei phlentyn ar y gofrestr amddiffyn yn dilyn sawl digwyddiad difrifol.



Mynegwyd pryder am ddealltwriaeth Enlli o'r newid oedd ei angen. Gwnaed cyfeiriad i'r Tîm Awtistiaeth.



Gweithiodd y tîm gydag Enlli i adnabod ei chryfderau a'i helpu i ddeall pryd i ofyn am gymorth.



Datblygwyd rhai strategaethau i gefnogi Enlli, fel cyflwyno calendr i helpu gadw trefn ar apwyntiadau.



Er fod sefyllfaoedd newydd yn her i Enlli, gyda chymorth, llwyddodd i fynychu Grŵp Mam a Babi lleol.



Mae sefyllfa Enlli a'i merch yn dal o wella gyda chefnogaeth sawl tîm.



Tud. 79

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cynydd yn y cymorth i bobl awtistig a'u teuluoedd

Sefydlwyd Tîm Awtistiaeth Gwynedd i gefnogi unigolion awtistig – o bob oed – a'u teuluoedd i fyw bywyd llawn a boddhaus. Yn ystod y flwyddyn, **derbyniodd y gwasanaeth 267 o ymholiadau am wybodaeth, cyngor a chymorth (IAA).**

Er mwyn sicrhau tegwch a mynediad ehangach i fwy o bobl o bob oed, newidiwyd ffocws y gwasanaeth o ddarparu arbenigedd unigol i gynnig hyfforddiant a chanllawiau i weithwyr proffesiynol, yn enwedig o fewn gwasanaethau cymdeithasol ac addysg. Bellach mae **dros 1,000 wedi cwblhau hyfforddiant lefel sylfaenol a bron i 300 wedi cwblhau'r modiwl lefel uwch.**

Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cynyddu cyfleoedd cymunedol drwy weithgareddau megis 'Paned a Sgwrs' i rieni a gofalwyr, a'r Clwb Niwro i bobl ifanc. Mae unigolion awtistig – plant, pobl ifanc, oedolion, rhieni a gofalwyr – yn rhan annatod o'r broses ddatblygu, a grŵp rhanddeiliaid bellach yn cyfarfod yn chwarterol. Dengys adborth gan unigolion a rhieni yr effaith gadarnhaol y gwasanaeth, gan gynnwys datblygiad personol, hyder, a gwell dealltwriaeth o hunaniaeth.

Ym mis Chwefror a Mawrth 2025, cynhaliwyd Sioe Deithiol Niwro mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau ar gyfer teuluoedd niwroamrywiol. Roedd y digwyddiadau'n cynnwys ffair wybodaeth, gweithdai, a phrofiadau synhwyrdd. **Mynychodd 566 o bobl, gyda 38 o wasanaethau lleol yn bresennol.** Roedd y sioe yn lwyddiant ac yn gam pwysig i wella mynediad at gymorth arbenigol yng Ngwynedd.

// Dwi wedi dysgu lot am fy hun ers gweithio hefo'r tîm, Dwi rŵan yn deall ac yn gallu rheoli fy emosiynau, dwi wedi datblygu hyder i ail gysylltu â hen ffrindiau ond mwy na dim dwi'n gwybod rŵan fy mod i yn iawn fel ac ydw i, dwi ddim angen cuddiad na trio newid i neb, dwi'n deall y ffodd dwi'n ymgysylltu ar byd o fy nghwmpas. DWIN WELL NA OK, DWIN OSYM!! //



Aelodau Cabinet, Cyng. Menna Trenholme a Cyng. Paul Rowlinson, gyda'r Tîm Awtistiaeth yn y Sioe Deithiol Niwro

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU OEDOLION

Sefydlu Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd

Lansiwyd y Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd ym mis Mai 2024 a bellach mae timau gwaith cymdeithasol wedi sefydlu, gyda swyddfeydd yng Nghaernarfon ac ym Mhenrhyn. Tra bod gwahanu'r gwasanaeth oddi-wrth yr elfen iechyd yn groes i fwriad integreiddio, roedd y penderfyniad yn angenrheidiol er mwyn cynnig cymorth holistig ag ataliol i unigolion sy'n byw â problemau iechyd meddwl. Gwelir gwelliant yn yr ymarfer gyda gweithwyr yn darparu cefnogaeth iechyd meddwl o fewn y gymuned, gan ganolbwyntio ar ymateb i anghenion unigolion ac adferiad.

Derbyniwyd bron i 400 o gyfeiriadau ers sefydlu'r gwasanaeth newydd. Mae cydweithio agos yn parhau â'r gwasanaethau iechyd meddwl clinigol. Cynhelir cyfarfodydd wythnosol gyda'r Bwrdd Iechyd, a datblygwyd grwpiau cymorth i unigolion ar y cyd yn Arfon. Mae cynlluniau ar y gweill i ddatblygu grwpiau pellach yn Nefyn a Dolgellau.

Gwerthfawrogiad o weithwyr ein cartrefi preswyl

Yn ystod y flwyddyn, ymwelodd y Cyfarwyddwr â phob un o gartrefi preswyl mewnol y Cyngor. Un neges a ddaeth yn amlwg dro ar ôl tro oedd bod lles preswylwyr wrth wraidd y gwaith a wneir. Er mai'r nod bob amser yw galluogi pobl i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau mor hir â phosib, mae lle i gartref preswyl barhau'n opsiwn pwysig i rai unigolion.



Mae lle i wella ar safonau adeladedd ein cartrefi mewnol ac mae'n fwriad gwneud gwaith yn y flwyddyn sydd i ddod gyda'r Adran Tai ag Eiddo (fel y nodir ar [dudalen 30](#)) i ystyried pa waith sydd ei angen ar bob cartref a beth fyddai goblygiadau ymarferol a chyllidol ar wneud y gwaith hwnnw a argymhellir. Mae sicrhau llety addas, diogel a chyfforddus yn hanfodol ar gyfer pob preswlydd.

Isod, mae llythyr diweddar gan un teulu sy'n tystio i'r gofal eithriadol a ddarperir yn un o'r cartrefi, Plas Pengwaith yn Llanberis:

“Ar ran y teulu oll, dymunwn ddiolch yn ddiffael i chi Deulu Plas Pengwaith am eich gofal arbennig am mam dros y bedair blynedd diwethaf.

Cafodd mam y gofal cynnes, caredig, Cymreig gorau posib. Roeddwn weithiau'n meddwl ei bod mewn 'Hotel' a dwi'n synnu dim! Hefyd, roedd wastad yn canmol y 'genod' a'r bwyd a doedd dim llawer ar ôl ar ei blat fel arfer dwi'n siwr.

Dwi'n cofio rhywun yn ffonio rhyw fis Tachwedd i ofyn am fwy o sgertiau iddi. Roedd rhaid prynu rhai newydd a gofynnais pa seis oedd ei angen?

“Un deg dau” medda rhywun cyn newid ei meddwl yn syth a dweud “Na sa'n well ei gwneud nhw'n un deg pedwar o gofio fod Dolig yn nesau!”

Brilliant - roedd mam yn hoffi hwyl ac roedd yr hiwmor a'r herian a fu'n rhan ohono yn ei siwtio i'r dim...gallwch ddal eich penna'n uchel a bod yn falch o'r gwasanaeth arbennig rydych yn ei ddarparu i'r henoed fel mam (98) a oedd, ar un adeg, flynyddoedd maith yn ôl, yn ifanc a heini fel chi!

Tud. 81

BETH YDYM YN EI WNEUD YN DDA?

GWASANAETHAU PLANT

Cefnogaeth maethu a mabwysiadu

Ar ddiwedd Mawrth 2025 roedd 280 o blant Gwynedd mewn gofal, gyda 185 ohonynt (66%) mewn lleoliadau maethu – y rhan fwyaf gyda gofawyr Maethu Cymru Gwynedd.

Darperir cefnogaeth amhrisiadwy gan deuluoedd maeth lleol. Gwelir enghreifftiau personol sydd yn tystio i'r effaith ac yn dangos gwir werth a dylanwad hirdymor maethu ar fywydau plant a phobl ifanc. [Rhannodd un ferch ifanc, Jenna, ei phrofiadau gyda Maethu Cymru yn ddiweddar.](#)

Fodd bynnag, mae'n her barhaus i ddenu digon o ofalwyr maeth newydd, yn enwedig i ofalu am bobl ifanc yn eu harddegau a'r rhai ag anghenion mwy cymhleth a dwys.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn, mae'r Cyngor yn gobeithio cyflwyno pecyn cynhwysfawr o gefnogaeth i ofalwyr maeth – yn cynnwys buddion megis gostyngiad Treth Cyngor a mynediad at wasanaethau hamdden. Bydd y cynnig yn mynd i'r Cabinet am benderfyniad ym mis Ebrill 2025.

//

Roedd fy nheulu maeth yn golygu popeth i mi, ac maent yn dal i fod...Roedd yna ymdeimlad o berthyn a'u bod wir fy eisiau, doeddwn i erioed wedi profi hynny o'r blaen. Dewisodd fy ngofalwyr maeth fy nghrosawu i'w cartref ac i mi fod yn rhan o'u teulu.

Am y tro cyntaf erioed, roeddwn yn teimlo yn rhan o ddeinameg y teulu, roedd hyn yn rhywbeth yr oeddwn wedi bod ei eisiau ar hyd fy mywyd. Cael rhieni oedd yn fy nhrin fel eu merch. Cael perthnasau gyda brodyr a chwiorydd am y tro cyntaf – er na fu hi fawr o dro nes i ni ddechrau ffraeo fel brodyr a chwiorydd!

Ond roedd yn teimlo'n normal ac yn naturiol. 'Roeddwn i wir yn hapus. Yn hapusach nag yr oeddwn erioed wedi bod o'r blaen.

//

Datblygu Cartrefi Grŵp Bychain i blant mewn gofal

Mae datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal yn ganolog i weledigaeth Llywodraeth Cymru o greu model dielw ar gyfer gwasanaethau plant, ac yn flaenoriaeth amlwg i Gynghorwyr Gwynedd, sy'n dymuno gweld pobl ifanc yn cael eu cefnogi a'u cartrefu yn lleol, yn hytrach na chael eu lleoli'n bell o'r sir.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed cynnydd sylweddol gyda'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain, sydd yn rhan o Gynllun y Cyngor 2023–28. Prynwyd tri eiddo newydd yn 2024/25, ac agorwyd y cartref cyntaf ym Morfa Bychan, gyda dau blentyn bellach yn byw yno. Penodwyd rheolwraig a thim staff cyflawn i'r tŷ hwn, a gobeithir gwblhau'r broses gofrestru swyddogol gyda Arolygaeth Gofal Cymru yn fuan yn 2025/26.

Yn ogystal, prynwyd ail dŷ yn Ninorwig ac mae'r gwaith angenrheidiol yn mynd rhagddo i'w baratoi ar gyfer cofrestru. Prynwyd hefyd drydydd tŷ yn Edern, a disgwylir i blant symud i mewn dros y misoedd nesaf. Mae camau pellach ar y gweill i archwilio cyfleoedd yn Arfon, gan gynnwys opsiwn i ddatblygu ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor.



SUT GALLWN WNEUD PETHAU'N WELL?

Rhestr aros asesiad Diogelu Rhag Colli Rhyddid (DoLS)

Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yw'r mecanwaith cyfreithiol i ddiogelu unigolion heb alluedd meddyliol, fel pobl â dementia neu anafiadau i'r ymennydd, sy'n derbyn gofal sy'n cyfyngu ar eu rhyddid — boed mewn cartrefi gofal neu yn y gymuned.


Wyneba Cyngor Gwynedd her sylweddol i gydymffurfio â'r ddyletswydd statudol i gynnal Asesiadau DoLS o fewn y terfyn amser o 21 diwrnod. Ar hyn o bryd, **dim ond 16 o'r 67 o geisiadau misol sy'n cael eu cwblhau'n brydlon**, ac oherwydd prinder adnoddau, rhaid blaenoriaethu achosion brys a dwys yn y gymuned. Nid yw'r trefniadau presennol yn gynaliadwy, gan fod pob asesiad yn cymryd o leiaf 10 awr.

Erbyn diwedd mis Mawrth 2025, **roedd 356 o unigolion yn aros am asesiad, gyda rhai wedi bod ar y rhestr am dros dair blynedd**. O ganlyniad, mae nifer o bobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid heb awdurdod cyfreithiol, sef sefyllfa sy'n peri pryder difrifol i'r Cyngor. Mynegodd aelodau Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd bryder gwirioneddol ynghylch y sefyllfa yn mis Mehefin 2024 ([gweler Eitem 7](#)), gan ddangos amharodrwydd i dderbyn y risg gorfforaethol sy'n gysylltiedig.

Er bod y sefyllfa'n adlewyrchu her genedlaethol, mae sicrhau diogelu hawliau'r unigolion mwyaf bregus yn flaenoriaeth allweddol. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem, gwnaed gais llwyddiannus am arian drwy broses bidiau corfforaethol y Cyngor ac mae'r Adran Oedolion bellach wrthi'n recriwtio dau Asesydd Budd Gorau ychwanegol gyda'r nod o leihau'r rhestr aros yn ystod 2025/26.

Blwyddyn anodd i'r Tîm Derbyn: galw uchel a chymhlethdod achosion

Bu hon yn flwyddyn fwyaf prysur i'r Tîm Derbyn Cyfeiriadau Plant ers ei sefydlu, **gyda bron i 8,000 o gyfeiriadau – cynnydd o 5% – a'r cymhlethdod cynyddol o achosion yn rhoi pwysau sylweddol ar weithlu eisoes dan straen.**



Fel nodwyd yn y rhagair ([tudalen 3](#)) ymhlith y materion mwyaf difrifol oedd achos cyhoeddus o gam-drin plant gan gyn-bennaeth ysgol - achos a amlygodd fethiannau difrifol dros gyfnod o nifer o flynyddoedd. O ganlyniad, aeth gwaith sylweddol rhagddo i adolygu polisiâu a threfniadau'r Cyngor, gan gynnwys sefydlu Cynllun Ymateb a Bwrdd Rhaglen ([tudalen 29](#)), cryfhau ein trefniadau diogelu corfforaethol (gweler rhagor o fanylion yn [Adroddiad Blynnyddol y Panel Strategol Diogelu 2024/25](#)), comisiynu sawl adolygiad, a chyd-weithio yn llawn â'r Adolygiad Ymarfer Plant (CPR) statudol sy'n ganolog i'r broses o ddysgu gwersi.

Bwriedir gweithredu ar pob un o'r argymhellion a ddaw yn sgil yr adolygiad hwn yn ystod 2025/26, gan sicrhau newid cadarnhaol er mwyn diogelu'r plant mwyaf bregus yn y sir. Yn y cyfamser, ar ddiwedd y flwyddyn sicrhawyd buddsoddiad i ehangu'r gweithlu, gan recriwtio staff ychwanegol i liniaru'r pwysau a chryfhau ymateb y gwasanaeth i'r galw cynyddol.

PA GYNNYDD A WNAED YN ERBYN ADDEWIDION LLYNEDD?

Addewidion llynedd	Cynnydd
Rhoi'r Cynllun Gwella Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid Gwynedd a Môn ar waith.	
Lansio'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl newydd yn mis Mai 2024.	
Penodi contractwr er mwyn cychwyn y gwaith adeiladu ar y Ganolfan Dolfleurig newydd yn Nolgellau.	
Agor Cartref Grŵp Bychan cyntaf y sir, ac yn edrych i ddatblygu rhagor o gartrefi cyffelyb.	

ADDEWIDION 2025/26

1. Gweithredu argymhellion yr Adolygiad Ymarfer Plant (CPR):

Bydd y Cyngor yn gweithredu pob un o'r argymhellion a ddaw yn sgil yr Adolygiad Ymarfer Plant statudol, gan sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd o'r achos cam-drin difrifol yn arwain at welliannau pendant i drefniadau diogelu Gwynedd. Bydd y gwelliannau hyn yn ganolog i waith 2025/26.

2. Parhau i ddatblygu Cartrefi Grŵp Bychain:

Bydd y Cyngor yn cwblhau'r gwaith o baratoi ac agor dau dŷ ychwanegol yn Ninorwig ac Edern, gan ymestyn y gallu i gynnig gofal preswyl lleol i blant gydag anghenion cymhleth. Bydd y cartrefi hyn yn cynnig amgylchedd sefydlog a chefnogol, gan osgoi'r angen i symud plant i leoliadau pell a chynnal eu cysylltiad â'u cymuned leol.

3. Taclo rhestr aros asesiadau DoLS er mwyn lleihau'r risg:

Bwriedir recriwtio dau Asesydd Budd Gorau newydd er mwyn lleihau'r ôl-groniad o asesiadau DoLS sydd angen eu cwblhau.

4. Datblygu Cynllun i addasu a gwella cartrefi preswyl y sir:

Bydd y Cyngor yn datblygu cynllun strategol i gynnal ac uwchraddio safonau ein cartrefi gofal preswyl, gan sicrhau amgylcheddau cynnes, diogel a pharchus i'r preswylwyr. Amlygir costau'r gwelliannau yn y Cynllun hwn ac bydd angen penderfynu ar beth sy'n ymarferol o ystyried yr hinsawdd ariannol.

Mae rhestr lawn o flaenoriaethau strategol ar gyfer y flwyddyn nesaf i'w gweld yn: [Gwynedd Ofalgar](#)

A large, faint, light blue graphic of a magnifying glass is centered on the page. The handle of the magnifying glass extends towards the bottom right corner. The lens is positioned over the text.

GWYBODAETH BELLACH

GWYBODAETH BELLACH

Archwiliadau gan Reoleiddwyr

Parhaodd y berthynas agos rhwng y Cyngor ac Arolygaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn ac Swyddfa Archwilio Cymru drwy gydol 2024/25. Cynhaliwyd gweithdy blynyddol fel yr arfer gyda chynrychiolwyr o'r prif sefydliadau archwilio, gan gryfhau'r dull o adolygu ac asesu gwasanaethau'n barhaus.

Dros y flwyddyn ddiwethaf mae'r gwasanaethau cymdeithasol wedi bod yn destun sawl archwiliad:

AROLYGAETH GOFAL CYMRU



- Archwiliad Gwella - Gwasanaethau Oedolion**

Cynhaliwyd ymweliad ym mis Hydref 2024 i asesu'r cynnydd ers yr Arolygiad Gwerthuso Perfformiad yn 2022. Nodwyd bod gan y gwasanaeth dîm arwain profiadol a gweledigaeth glir, a bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi. Rhoddwyd canmolïaeth i fentrau fel yr Academi Gofal.

Fodd bynnag, erys pryderon ynghylch amseroedd aros am ofal a chymorth yn ogystal â diffyg cefnogaeth i ofalwyr di-dâl (**gweler tudalen 23**). Mewn rhai achosion, methodd y cofnodion â dangos bod pobl wedi derbyn gwybodaeth berthnasol nac wedi cael cynnig dewisiadau fel taliadau uniongyrchol. Mae gwelliannau eisoes ar waith yn y meysydd hyn.

Gweler yr adroddiad lawn yma: [Gwiriad Gwella: Gwasanaethau Oedolion Gwynedd](#)

- Gwasanaethau Gofal Cartref – Pobl Hŷn, Byw â Chymorth a Derwen**

Cafwyd adborth cadarnhaol gan unigolion a'u teuluoedd ynghylch safon y gofal a'r gefnogaeth a dderbyniwyd. Nodwyd fod perthnasoedd cryf wedi datblygu rhwng staff a'r bobl sy'n derbyn gwasanaeth, gyda'r ddarpariaeth yn ymateb i'w dymuniadau. Fodd bynnag, mae angen gwella crynhoi gwybodaeth mewn cynlluniau gofal personol a sicrhau cofnodion hyfforddiant cyflawn ar gyfer staff. Mae'r Gwasanaethau perthnasol yn gweithio ar hyn.

SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



- Archwiliad Gofal Cartref**

Canolbwyntiodd yr archwiliad ar agweddau ariannol a pherfformiad gwasanaethau gofal cartref a gomisiynwyd, gan nodi bod rhai darparwyr heb gyflawni'r gwasanaeth oedd wedi contractio yn llawn ac nad oedd problemau wedi'u datrys yn amserol. Roedd hyn wedi arwain at golli cyfleoedd i gefnogi mwy o bobl a lleihau'r amseroedd aros am ofal cartref.

Gweler yr adroddiad llawn ac ymateb y Cyngor iddo: [Pwyllgor Llywodraethu ag Archwilio \(Eitem 18\)](#)

Cyn yr adolygiad, adnabuwyd problemau mewn monitro contractau a gweinyddiaeth ariannol gyda diffyg cyfrifoldeb. Dechreuodd Gwasanaeth Archwilio Mewnol y Cyngor edrych ar y trefniadau, a rhoddwyd camau brys ar waith. Bellach, mae'r Bwrdd Prosiect yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn cydweithrediad â'r Adran Cyllid, gan sicrhau cysondeb a monitro systematig ar gyfer "oriau bloc". O ganlyniad gweler fod y rhestrau aros eisoes yn dechrau gostwng a disgwylir i hyn barhau yn 2025/26.

Gweler yr Adroddiad Archwilio Mewnol: [Pwyllgor Llywodraethu ag Archwilio \(Eitem 10\)](#)

Tud. 86

Adolygiadau eraill

- Adolygiad Cyfoedion o Wasanaethau Cymdeithasol i Oedolion**

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau oedolion y Cyngor gan ddau arbenigwr **Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CILLC)**. Nod yr adolygiad oedd cynnig cymorth adeiladol, gan ganolbwyntio ar y lefel strategol yn hytrach na manylder gwasanaethau.

Canfu'r adolygiad fod Gwynedd yn ymrwymedig i gefnogi oedolion bregus ac yn dangos arweinyddiaeth gadarn i lywio'r newid, gyda'r gwaith ymchwil Llechen Lân yn derbyn canmoliaeth. Fodd bynnag, pwysleisiwyd yr angen i gyflymu gweithredu a datblygu cynlluniau gweithredu clir gyda thargedau ac amserlenni penodol. Awgrymwyd hefyd fod angen strategaeth gomisiynu cadarn, a chryfhau'r cydweithio rhwng y gwasanaethau cymdeithasol, yr Adran Gyllid, y Bwrdd Iechyd, y sector gwirfoddol a'r trydydd sector.

Yn ogystal, amlygwyd anawsterau hanesyddol o ran cynnal gwasanaethau o fewn y gyllideb, gan godi pryderon am gynaliadwyedd ariannol hirdymor. Ar lefel gorfforaethol, comisiynwyd **CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus)** hefyd i gynnal adolygiad annibynnol o sefyllfa ariannol y Cyngor fel rhan o'i ymateb strategol i sicrhau cynaliadwyedd tymor canolig a hir.

- Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig (CPR)**

Yn dilyn cwblhau'r broses droseddol mewn perthynas â chyn-brifathro Ysgol Friars, comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Plant Estynedig gan Fwrdd Diogelu Plant Gogledd Cymru. Dechreuodd y broses adolygu ym mis Awst 2024.

Arweinir yr adolygiad gan Jan Pickles OBE fel cadeirydd annibynnol, ochr yn ochr â dau adolygwr sydd â phrofiad sylweddol ym maes addysg ac amddiffyn plant. Mae'r tîm yn gwbl annibynnol, heb unrhyw gysylltiad proffesiynol nac ymarferol â'r sefydliadau lleol a fu'n gysylltiedig â'r achos. Rhagwelir y bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2025. Bydd y Cyngor yn ymateb i bob un o'r argymhellion a daw yn ei sgil. Gweler y Cylch Gorchwyl yma: **Cylch Gorchwyl**

Cwynion a sylwadau

Er bod y Gwasanaethau yn ymdrechu'n gyson i ddarparu gofal o'r safon uchaf bosib, mae'n anochel y bydd achlysuron lle mae pethau'n mynd o'i le. Mae'r drefn gwynion statudol yn cynnig ffordd ffurfiol i unigolion leisio pryderon, gan alluogi'r Adrannau i ddysgu gwersi ac osgoi ailadrodd camgymeriadau.

Yn ystod 2024/25, derbyniwyd cyfanswm o 28 o gwynion ffurfiol a aeth drwy Gam 1 o'r Drefn Gwyno. Yn galonogol, dim ond 3 cwyn symudodd ymlaen i Gam 2 (o'i gymharu â 6 cwyn yn 2023/24), ac ni chafodd unrhyw gwyn ei gyfeirio at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Adlewyrcha hyn y dull rhagweithiol o fynd i'r afael â phryderon yn gynnar ac yn effeithiol, gan gynnwys cydweithio agos rhwng y Swyddogion Gofal Cwsmer, timau gwasanaeth, rheolwyr a'r Gwasanaeth Cyfreithiol.

	Cwyn Ffurfiol Cam 1	Cwyn Cam 2	Cwyn Corfforaethol	Ombwdsman
Oedolion	16	0	7	0
Plant	22	3	-	0

Tud. 87

GWYBODAETH BELLACH

Thema neu batrymau cwynion

O ran themâu'r cwynion a dderbyniwyd eleni, nodwyd gostyngiad sylweddol yn nifer y cwynion mewn maes a oedd wedi bod yn destun pryder amlwg yn y gorffennol - sef pryderon ynghylch diffyg darpariaeth oriau gofal cartref. Derbyniwyd dau gŵyn yn ymwneud â'r maes hwn yn unig eleni, o'i gymharu â lefelau uwch mewn blynyddoedd blaenorol.

Oherwydd natur gwaith yr Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, yn anffodus mae tensiwn neu wrthdaro gyda theuluoedd yn anochel ar adegau. Mae rhaid i Weithwyr Cymdeithasol wneud penderfyniadau anodd iawn, ac nid yw teuluoedd yn hapus bob amser. Mae'r Adran yn deall ac yn derbyn y gall teuluoedd fod yn anfodlon sydd yn arwain atynt i wneud cwyn ffurfiol. Yn anffodus mae achosion lle mae'r Adran yn gorfod defnyddio'r gweithdrefn "Achwynydd Blinderus" gyda rhai unigolion yn ymddwyn mewn ffordd gynyddol ymosodol neu fygythiol, gydag ambell achos lle bu rhaid galw ar y Gwasanaeth Iechyd a Diogelwch er mwyn gwarchod aelodau staff. Nid yw hyn yn dderbyniol nac yn deg ar unigolion.

Nid yw'r Adrannau wedi adnabod unrhyw dueddiadau newydd penodol yn ystod 2024/25, ond mae'r gwaith o fonitro'r mathau o gwynion a dderbynnir yn parhau fel rhan o'r broses o wella'n barhaus.

Mae'r broses o ddysgu gwersi yn ganolog i'r drefn gwynion, gyda phob achos yn cael ei adolygu gan y Timau Rheoli Adrannol i sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd yn amserol. Un wers allweddol yw pwysigrwydd cyfathrebu eglur a thrylwyr gyda defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd, yn ogystal â sicrhau bod staff yn deall y Drefn Gwynion a'u cyfrifoldebau o'i mewn

Bydd yr Adroddiad Cwynion Blynyddol llawn yn cael ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Medi 2025 ac ar gael i'r cyhoedd drwy wefan y Cyngor, fel rhan o'n hymrwymiad i dryloywder ac atebolrwydd. Gweler yr adroddiad cwynion llawn yma: [Adroddiad Blynyddol Cwynion](#)

Dolenni gwybodaeth pellach

Mae'r adran olaf hon yn rhestru lleoedd i gael mwy o wybodaeth am rai o'r pethau y sonnir amdany'n nhw yn yr adroddiad hwn.

- [Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28](#)
- [Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd](#)
- [Trefn gwynion a chanmolïaeth](#)
- [Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn](#)
- [Pwyllgor Craffu Gofal](#)
- [Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru](#)
- [Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru](#)
- [Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn](#)
- [Arolygaeth Gofal Cymru](#)
- [Dewis Cymru](#)
- [Helpu'n Hun](#)

CYFARFOD	Cyngor Llawn
DYDDIAD	2 Hydref 2025
TEITL	Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2024/25
AELOD CABINET	Y Cynghorydd Menna Trenholme
SWYDDOG CYSWLLT	Dylan Owen, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

1. Cefndir / Cyflwyniad

1.1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Strategol Diogelu yn ystod 2024/25.

2. Rhesymau dros argymell y Penderfyniad

2.1. Mae'n hanfodol fod holl aelodau'r Cyngor yn ymwybodol o waith y Panel ar ddiogelu ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

2.2. Mae gofyn i'r Cyfarwyddwr Statudol adrodd yn gyson a rheolaidd i aelodau ar faterion diogelu.

3. Argymhelliad

3.1. Gofynnir i'r Cyngor dderbyn yr Adroddiad gerbron sy'n adrodd ar waith y Panel Strategol Diogelu ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

4. Barn y Swyddogion Statudol

4.1. Barn y Swyddog Monitro

Fel aelod o'r Panel rwy'n croesawu'r adroddiad sydd yn grynodedb priodol o'r gwaith. Mae'n gyfrwng i roi sicrwydd i'r Cyngor ynglŷn â'r cyfrifoldeb allweddol yma.

4.2. Barn y Pennaeth Cyllid

Nid yw'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant newydd, a nid oes gennyf sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

ADRODDIAD PANEL STRATEGOL DIOGELU

2024/25

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Cyflwyno'r adroddiad drosolwg o waith y Panel Strategol Diogelu dros y cyfnod Ebrill 2024 hyd at Fawrth 2025 gan amlinellu'r gwaith a gyflawnwyd gan y Cyngor ei hun, a gan y Cyngor mewn partneriaeth ag eraill.

2. CYFRIFOLDEBAU AC ATEBOLRWYDD

- 2.1. Nod y Panel Strategol Diogelu yw sicrhau bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol ar draws y Cyngor er mwyn sicrhau diogelwch plant, pobl ifanc ac oedolion. Ers 2017/18 mae'r Panel hefyd yn gyfrifol am drosolwg o faterion diogelu ehangach ar draws Gwynedd, megis Diogelwch Cymunedol.
- 2.2. Mae'r Panel yn ei dro yn atebol i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, sydd â'r atebolrwydd terfynol am faterion diogelu.
- 2.3. Cadeirydd y Panel yw Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teulu. Gwelir y Cylch Gorchwyl yn **Atodiad 1**.
- 2.4. Mae Grŵp Gweithredol Diogelu yn cefnogi'r Panel Strategol i weithredu ei flaenoriaethau ac i ymdrin â materion ymarferol y maes gwaith. Grŵp mewnol o swyddogion yw hwn, gyda phencampwr diogelu pob adran yn eistedd arno, a hynny er mwyn sicrhau perchnogaeth Cyngor cyfan o faterion diogelu. Gwelir Cylch Gorchwyl y Grŵp Gweithredol Diogelu yn **Atodiad 2**.
- 2.5. Mae rhannau o berfformiad y Cyngor yn y maes diogelu yn cael eu hasesu mewn cyfarfodydd herio perfformiad gyda'r Aelodau Cabinet perthnasol a chan archwilyr allanol annibynnol fel rhan o'u gwaith o asesu perfformiad ehangach.

3. POLISI DIOGELU

- 3.1. Yn ystod 2023 fe gynhaliwyd adolygiad o Bolisi Diogelu y Cyngor, sy'n datgan sut rydym yn bwriadu cyflawni ein cyfrifoldebau statudol ar gyfer diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (2014). Gwelir y polisi yn **Atodiad 3**.

4. CYNNYDD YN ERBYN Y MATERION DIOGELU

- 4.1. **Diogelu Plant**

- 4.1.1. Derbyniwyd **7774** o gyfeiriadau i wasanaethau plant yn 2024-25. Mae hyn yn gynydd o **8%** yn y nifer o gyfeiriadau o gymharu â 7230 y llynedd. Rhaid nodi y gall y ffigwr hwn godi, gan nad oes modd cael ffigwr terfynol nes ddiwedd mis Mai eleni. Mae'r ffigyrau yma eto yn sylweddol uwch na'r niferoedd cyn y pandemig COVID-19.
- 4.1.2. Unwaith eto, mae'r pwysau gwaith ar y gwasanaeth yn llethol a bu'r gweithlu yn hynod brysur yn cefnogi plant a theuluoedd ein sir. Nodir fod yr achosion a welwyd yn rhai llawer mwy dwys a chymhleth na'r hyn welwyd yn y gorffennol, bwriedir gwneud gwaith i ddeall y tueddiadau sy'n effeithio'r gwasanaethau plant yn ystod 2025/26. Ar ddiwedd y flwyddyn cytunwyd i fid ariannol ar gyfer cynyddu gweithlu yr adran i sicrhau gweithredu effeithiol gyda'r cyfeiriadau hyn.
- 4.1.3. Bu achosion hefyd yn ystod y flwyddyn o droseddau yn erbyn plant. Tra fo achosion cyfreithiol a'r llysoedd yn gwneud eu gwaith, mae'n bwysig ein bod fel gwasanaethau cymdeithasol yn dysgu'n gyson o'r digwyddiadau hyn drwy adolygiadau ac yn gwella'n gwasanaethau i sicrhau diogelwch y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- 4.1.4. Ar y 6 Medi 2023 arestiwyd pennaeth Ysgol Friars am droseddau yn erbyn disgyblion ysgol benywaidd. Fe'i cafwyd yn euog ym mis Mai 2024 o 19 cyhuddiad, gan gynnwys 12 cyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn a dau gyhuddiad o weithgaredd rhywiol gyda phlentyn tra roedd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth. Rhoddodd pum dioddefwraig dystiolaeth i'r llys. Fe'i ddedfrydwyd i 17 mlynedd o garchar. Mae hi yn bur debygol bod dioddefwyr eraill wedi eu cam-drin gan y cyn-bennaeth, Neil Foden, hefyd, ond ni fu achosion llys pellach hyd yma. Mae'n glir fod systemau diogelu yn yr achos hwn wedi methu dros gyfnod o sawl blwyddyn a bod unigolion wedi dioddef o'r herwydd.

Ers Medi 2023 aeth cryn waith rhagddo i ystyried ac i addasu'r trefniadau diogelu sydd gan y Cyngor. Adolygwyd polisi diogelu y Cyngor a gweithdrefnau'r Panel Diogelu Strategol ynghyd â'r Is-grŵp Diogelu gan eu cyhoeddi i gyfarfod y Cyngor. Comisiynwyd Cyn-gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud adolygiad pen-desg o ymwneud y Gwasanaethau Cymdeithasol â'r unigolyn dros y cyfnod er mwyn deall os oedd angen gwneud newidiadau i systemau diogelu. Rhannwyd yr adolygiad hwnnw gyda'r Adolygiad Ymarfer Plant (Child Practice Review - CPR) a sefydlwyd gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru o dan Gadeirydd Annibynnol, Jan Pickles, i ddeall amgylchiadau yr holl fater, ac i ganfod gwersi i'w dysgu er mwyn atal achosion

tebyg yn y dyfodol. Comisiynwyd bargyfreithiwr arbenigol ym maes diogelu plant i edrych ar ran benodol o'r hyn godwyd yn yr achos llys a rhannwyd hwnnw gyda'r CPR hefyd.

Er nad oedd cysylltiad penodol, mae'n werth nodi fod y Pwyllgor Craffu Addysg wedi penderfynu cynnal adolygiad o drefniadau diogelu mewn ysgolion ar draws Gwynedd. Dechreuwyd ar y gwaith ac aiff rhagddo yn ystod y flwyddyn 2025-26.

Disgwylir y bydd yr Adolygiad Ymarfer Plant yn tynnu yr holl waith at ei gilydd gan ddarparu gwersi i'w dysgu ac argymhellion i'r sefydliadau perthnasol yn ystod haf 2025.

4.1.5. Mae'r gwaith Rhan 5 ar gynnydd ac yn parhau i gynyddu. Mae Rhan 5 sy'n ymwneud â phryderon diogelu am ymarferwyr a'r rhai mewn swyddi o ymddiriedaeth, ac mae'r gweithdrefnau hyn yn nodi trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg.


4.1.6. Cafodd **82% (↑3%)** o adolygiadau amddiffyn plant eu cynnal o fewn amserlen statudol yn ystod y flwyddyn. Roedd cyfradd yr asesiadau risg a gafodd eu cyflwyno i Gynadleddau Achos a oedd yn cael eu hystyried yn rhai a oedd yn dangos ansawdd wrth wneud penderfyniadau yn parhau yn uchel ar **99%**.

4.1.7. Ar ddiwedd mis Mawrth roedd **280** o blant mewn gofal. Roedd **43%** o'r plant a ddaeth i ofal yn ystod y flwyddyn yn fabanod ifanc o dan 1 oed, gyda'r mwyafrif ohonynt wedi bod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant fel rhan o brosesau diogelu cyn dod i ofal. Mae ceiswyr lloches yn cynrychioli **2%** o'r plant a ddaeth i ofal eleni.

- 12 o blant wedi dod i ofal dan drefniadau brys (EPO / PPO) yn ystod y flwyddyn gyda 7 yn parhau i fod mewn gofal.

- 21 o blant wedi dod i ofal dan drefniadau gwirfoddol (Adran S76), gyda 15 yn parhau i fod mewn gofal ar y 31^{ain} o Fawrth.

4.1.8. O'r cyfanswm plant mewn gofal mae **66%** mewn lleoliadau maeth, **21 (8%)** mewn lleoliadau preswyl a **54 (19%)** wedi ei lleoli gyda'u rhieni. Roedd 1 plentyn mewn lleoliad mabwysiedig ar ddiwedd y cyfnod, gyda 15 person ifanc yn byw yn annibynnol gyda chefnogaeth (3 ohonynt yn Geiswyr Lloches).



4.1.9. Yn ystod 2024/25 defnyddiwyd trefniadau lleoliadau heb gofrestrriad (OWR) ar gyfer 5 o bobl ifanc mewn gofal.

4.1.10. Fel nodwyd y llynedd, yn hanesyddol mae ein defnydd o drefniadau lleoliadau heb gofrestrriad wedi bod yn brin iawn, ac am gyfnodau byr o ychydig ddiwrnodau neu wythnosau ar y mwyaf, hyd nes byddai lleoliad a adnabuwyd ar gyfer y person ifanc yn barod. Fodd bynnag, mae'r sefyllfa yn genedlaethol erbyn hyn yn un llawer mwy difrifol, gyda'r mwyafrif, os nad pob awdurdod yn cael eu gorfodi i sicrhau fod trefniant o'r fath ar gael oherwydd diffyg lleoliadau cofrestredig ar draws y Deyrnas Unedig. Mae hyn yn arbennig o wir am bobl ifanc yn eu harddegau sydd ag anghenion dwys a chymhleth neu wedi profi toriad mewn lleoliad oherwydd ymddygiad heriol.

4.1.11. Ymdrechwn i ymateb i'r her drwy ddatblygu darpariaeth breswyl ein hunain drwy'r Cynllun Cartrefi Grŵp Bychain, sy'n flaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Prynwyd y tri eiddo yn 2024/25, ac mae'r cartref cyntaf bellach yn weithredol. Yn ogystal mae ein Strategaeth Comisiynu Lleoliadau yn nodi bod digonolrwydd lleoliadau ar gyfer plant mewn gofal yn flaenoriaeth ac mae gennym strategaeth glir i recriwtio gofalwyr maeth drwy Wasanaeth Maethu Cymru Gwynedd.

4.2. Diogelu Oedolion

4.2.1. Derbyniwyd **750** o adroddiadau Oedolion yn ystod 2024/25, bu hyn yn gynydd o'r **719** adroddiad a dderbyniwyd yn ystod 2023/24. Ar gyfartaledd, mae **91.8%**

(↓**2.2%**) o'r ymholiadau cychwynnol a **126** o atgyfeiriadau diogelu wedi'u cwblhau o fewn y cyfnod statudol o 7 diwrnod.

4.2.2. Er nad oedd modd adnabod tueddiad yn yr adroddiadau a dderbyniwyd, mae'r mwyafrif o'r adroddiadau yn ymwneud â honiadau o gamdriniaeth corfforol ac esgeulustod

4.2.3. O'r adroddiadau oedolion mewn perygl a dderbyniwyd, rheolwyd y risg mewn **98.9% (↓1.1)** o'r achosion.

4.2.4. Mae'r math o adroddiadau diogelu Oedolion a dderbynnir yn cymhlethu'n flynyddol a gwelwyd bod cwblhau'r ymholiadau a **126** o fewn yr amserlen statudol o 7 diwrnod yn dod yn gynyddol anodd. Penderfynwyd rhoi adnodd dros dro i gyd-weithio gyda'r Swyddog Diogelu i sicrhau bod modd cwblhau'r holl ymholiadau o fewn yr amserlen. Bydd yr adnodd ychwanegol hefyd yn cynorthwyo i sicrhau bod diogelu'n cael ei gynnwys yn y gwaith i ail fodelu'r drysau ffrynt.

4.2.5. Cynhaliwyd ymweliadau cyson i fonitro cartrefi gofal preswyl a nyrsio y sir. Mae nifer fechan o ddarparwyr wedi bod o dan y drefn 'Pryderon Cynyddol' oherwydd rhesymau amrywiol, gan fwyaf yn cynnwys diffyg rheolaeth, problem dogfennaeth, a diffyg trosolwg. Maer' gwaith o fonitro darpariaeth gofal cartref ar draws y sir wedi cychwyn. Mae gwaith y Swyddogion Sicrwydd Ansawdd yn cael ei flaenoriaethu ar sail adroddiadau diogelu neu pryderon sy'n cael eu codi gan y gweithlu/ teuluoedd.

4.2.6. Mae pryder am y gwasanaeth DoLS (trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid – Deprivation of Liberty Safeguards) yn parhau. Mae nifer fechan o unigolion ar y rhestr aros am hyd at 3 mlynedd. Ar ddiwedd Mawrth 2024, roedd **356** yn aros am asesiad DoLS. Mae angen blaenoriaethu'r unigolion yn ôl risg. Mae 100 sydd ar y rhestr aros yn unigolion sy'n byw mewn llety a chefnogaeth ac mae angen gwneud cais i'r Llys Gwarchod i amddifadu'r unigolion hyn o'i rhyddid.

4.2.7. Gwnaed bid llwyddiannus i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau ar sail parhaol. Gobeithir y bydd y buddsoddiad sylweddol yma'n weledol yn nata 2025/26

4.2.8. Derbyniwyd grant pellach gan y Senedd i gefnogi'r gwaith a bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio i gomisiynu asiantaeth i ymgymryd â nifer o asesiadau.

4.3. **Addysg**

4.3.1. Yn 2024/25 mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig ar gyfer Diogelu mewn Addysg wedi ymweld â 62 ysgol i wirio trefniadau, polisiau a gweithdrefnau diogelu. Mae hyn yn cau y cylch o fod wedi ymweld â phob ysgol yn y 18 mis diwethaf. Mae cylch newydd o ymweliadau wedi cychwyn ers Ionawr 2025 ble mae bwriad i pob ysgol dderbyn ymweliad ansawdd diogelu o fewn cylch blwyddyn. Mae bron pob un ysgol ymwelwyd â hwy yn 24/25 cydymffurfio gyda threfniadau diogelu priodol. O'r ymweliadau hyn 2 ysgol sydd wedi derbyn ail ymweliad er mwyn gwirio agweddau fel trefniadau cofnodi presenoldeb / absenoldeb a cynnwys poster Diogelu.

4.3.2. Mae Arolwg Blynnyddol Diogelu yn cael ei gwblhau gan pob ysgol yn flynyddol. Mae'r canfyddiadau diweddaraf yn nodi:

- **94% (↑2%)** o'r "Prif Bersonau Diogelu" mewn ysgolion wedi derbyn hyfforddiant diogelu penodol yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;
- **85% (↑1%)** o Lywodraethwyr Dynodedig Ysgolion Gwynedd hefyd wedi derbyn yr hyfforddiant perthnasol i'w rôl yn y ddwy flynedd diwethaf;
- **97% (↑2%)** o ysgolion Gwynedd wedi cyflwyno Hyfforddiant sylfaenol Diogelu i'r holl staff cyn diwedd Tymor y Gaeaf;
- **100% (aros yr un peth)** o ysgolion Gwynedd yn nodi eu bod yn hyderus bod holl staff yr ysgol a gwirfoddolwyr yn gwybod beth i'w wneud pe byddai plentyn yn datgelu gwybodaeth am gamdriniaeth.

4.3.3. Ers Medi 2024 mae'r Swyddog Arweiniol Dynodedig Diogelu mewn Addysg (SADDA) wedi cynnal:

- 2 sesiwn hyfforddiant Diogelu i Gadeiryddion a Llywodraethwyr Diogelu dynodedig
- 11 sesiwn hyfforddiant diogelu sylfaenol (Athrawon llanw, staff achlysurol a.y.b.)
- 11 sesiwn hyfforddiant Person Diogelu Dynodedig .

Yn ogystal, mae'r swyddog Arweiniol Dynodedig wedi cynnal sesiynau hyfforddiant i athrawon llanw, staff blynnyddoedd cynnar, tîm moderneiddio addysg a staff Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

4.3.4. Yn dilyn ymdrech rhanbarthol i adolygu Polisi Grym rhesymol i ysgolion mae'r polisi enghreifftiol wedi ei rannu gydag ysgolion er mwyn i'r Llywodraethwyr ei fabwysiadu.

- 4.3.5. Erbyn hyn, mae'r Gwasanaeth Diogelu a Llesiant newydd wedi ei sefydlu o fewn yr adran addysg. Mae arweinydd a dau swyddog yn cefnogi ysgolion gyda materion diogelu yn ogystal â chefnogi ysgolion gyda grwpiau disgyblion bregus
- 4.3.6. Mae'r Tîm Diogelu a Llesiant wedi darparu siart llif syml am sut i ymateb os oes pryder diogelu yn ogystal â siart llif ar sut i ymateb i honiadau yn erbyn staff. Mae modd i'r ysgolion nodi manylion Person dynodedig yr ysgol yn ogystal â'r cadeirydd. Mae'r posteri yma ar gael i ysgolion eu harddangos at ddefnydd Llywodraethwyr, staff a rhieni. Yn ogystal mae templed poster diogelu newydd wedi ei rannu gydag ysgolion er mwyn iddyn ei arddangos o amgylch yr ysgol, yn y dderbynfa ac ar eu gwefannau. Mae'r poster yma yn cynnwys manylion y person dynodedig diogelu, y dirprwy berson dynodedig a'r Cadeirydd yn ogystal â sut i gysylltu gyda pob un. Mae hyfforddiant Staff, Person dynodedig a Llywodraethwyr wedi ei addasu fel bod y wybodaeth uchod i gyd yn cael eu cynnwys yn ogystal a dyletswydd y Llywodraethwr dynodedig i wirio fod yr ysgol yn eu defnyddio.
- 4.3.7. Ar ddiwedd Mawrth 2025 yr oedd cyfanswm o **269 (↑30%)** o blant yn derbyn eu haddysg gartref o ddewis rhieni. Mae'r ffigwr yma yn cynnwys 135 o blant sydd yn hanesyddol ar y gofrestr a 134 o'r newydd ers Medi. Nid yw pob plentyn sydd ar y gofrestr wedi cofrestru mewn ysgol yn flaenorol, gyda rhai yn symud mewn i'r Sir ond ddim am gofrestru mewn ysgol ac eraill yn gwneud y penderfyniad yn fuan iawn o addysgu gartref o oedran statudol addysg.
- 4.3.8. Y prif resymau am ddewis rhiant i addysgu gartref yw ei ffordd o fyw/ideolegol ond gôr-bryder a phroblemau iechyd meddwl ar gynydd. Llwyddwyd i gadw cyswllt cyson gyda mwyafrif y teuluoedd yma gyda nifer fychan yn gwrthod unrhyw gyswllt (yn unol a'u hawliau).

4.4. Trais yn y Cartref

- 4.4.1. Mae cydweithrediad da rhwng y Cyngor a'r mudiadau perthnasol ac mae ymdrechion i hyrwyddo pwysigrwydd adrodd ac adnabod arwyddion o drais yn y cartref yn parhau. Yn dilyn cais wedi'i baratoi gan swyddogion o'r Adran Gefnogaeth Gorfforaethol, derbyniwyd y Cyngor achrediad 'Rhuban Gwyn' ym mis Mai 2022. Mae'r achrediad yn sicrhau fod sefydliadau yn cymryd dull strategol i roi diwedd i drais yn erbyn menywod, drwy newid diwylliant a chodi ymwybyddiaeth. Mae cydweithrediad agos rhwng Diogelwch Cymunedol a Chefnogaeth Gorfforaethol i fonitro ac adrodd ar y cynllun gweithredu.

- 4.4.2. Enghraifft ddiweddar o'r gwaith yma oedd sesiynau hyfforddiant 'Ymyrryd gan Wylwyr' i staff y Cyngor. Darparwyd hwn gan Lywodraeth Cymru, gyda'r nod o helpu unigolion ddelio â sefyllfaoedd niweidiol posibl fel aflonyddu rhywiol, gan roi hyder i gael sgysiau gyda ffrindiau a chydweithwyr am y materion hyn. Cynhaliwyd y sesiynau ar Ddiwrnod Rhuban Gwyn y llynedd, ac mae rhagor o sesiynau wedi'i threfnu i staff yng Ngorffennaf 2025.
- 4.4.3. Partneriaeth Diogelwch Cymunedol (PDC) Gwynedd a Môn sydd yn gyfrifol am gomisiynu Adolygiadau Dynladdiad Domestig (DHR) yng Ngwynedd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf cyhoeddwyd un adolygiad a chyflwynwyd un i'r Swyddfa Gartref am gymeradwyaeth. Yn anffodus bu'n rhain comisiynu adolygiad newydd yn dilyn marwolaeth yn ystod Haf 2024. Mae'r adolygiad yma ar saib ar hyn o bryd tan y bydd achos troseddol wedi'i gwblhau. Rydym yn parhau i weithredu a monitro'r argymhellion o'r adolygiadau sydd eisoes wedi'i chwblhau.
- 4.4.4. Bydd y PDC yn cydweithio a'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol mewn unrhyw achosion DHR yn y dyfodol, yn dilyn cyflwyniad y broses Adolygu Diogelu Unedig Sengl (ADUS) newydd yng Nghymru. Mae'r broses hon yn symleiddio'r drefn flaenorol drwy gyfuno'r prosesau Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant, Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl, Adolygiad Dynladdiad Domestig ac Adolygiad Lladdiad ag Arf Ymosodol presennol.
- 4.4.5. Mae ffocws diweddar wedi bod ar ymateb i'r dysgu gan yr DHRs sydd eisoes wedi'i chwblhau, a'r ystadegau diweddar sydd yn dangos fod marwolaethau dioddefwyr drwy hunanladdiad yn uwch na dynladdiad. Paratowyd cais am gyllid gan Raglen Atal Hunanladdiad Gweithredaeth GIG Cymru. Gyda'r cyllid yma, cynhaliwyd gweithdy amlasiantaethol wedi'i hwyluso gan arbenigwr enwog yn y maes yma, i godi ymwybyddiaeth a rhoi hyder i weithwyr proffesiynol ofyn y cwestiynau anodd pan maent yn amau fod unigolyn yn ddioddefwyr camdriniaeth ddomestig.
- 4.4.6. Gwnaeth y grant yma hi'n bosib hefyd i ni archebu nifer fawr o adnoddau diogelwch a gwybodaeth am gymorth fel bod modd i ni mwy o waith ymgysylltu gyda'r cyhoedd. Byddwn yn cydweithio gyda'r Heddlu a'r gwasanaeth cymorth rhanbarthol DASU (*Domestic Abuse Safety Unit*) ar broiect peilot i gynnal sesiynau 'galw heibio'. Ein nod yw ceisio cynyddu'r tebygolrwydd o allu ymyrryd yn fwy buan.

- 4.4.7. Rydym yn parhau i rannu gwybodaeth reolaidd ynglŷn â'r Llinell Gymorth 'Byw Heb Ofn' a 'Cyfraith Clare', sy'n rhoi'r hawl i bobl wybod a oes gan eu partner presennol neu gynbartner unrhyw hanes blaenorol o drais neu gamdriniaeth.
- 4.4.8. Yn genedlaethol, mae llawer o drafodaeth a sylw wedi'i roi yn ddiweddar ar faterion yn ymwneud a dylanwadau ar-lein, gwrywdod gwenwynig a'r effaith ar fechgyn a dynion ifanc. Mae hyn yn sgil y ddrama *Netflix 'Adolescence'*. Mae 6 sesiwn hyfforddiant wedi'i drefnu yn ystod yr Haf i staff Addysg a'r Gwasanaeth Ieuencid gan Michael Conroy / Men at Work CIC. Pwrpas yr hyfforddiant yma yw cefnogi gweithwyr proffesiynol i hwyluso deialog adeiladol ynglŷn â pherthnasau iach, stereoteip rhyw, dylanwadau ar-lein, ac effaith ymddygiadau ar ferched.
- 4.4.9. Erbyn hyn mae'r e-fodiwl Trais yn y Cartref yn fandadol i holl aelodau staff. Mae'n hollbwysig fod y gweithlu yn derbyn yr hyfforddiant i sicrhau bod y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gefnogi unigolion ac i godi ymwybyddiaeth. Mae'r hyfforddiant 'Ask and Act' hefyd yn cael ei hyrwyddo er mwyn rhoi hyder i staff i helpu unigolion sy'n profi trais, cam-drin domestig neu drais rhywiol. Mae **59.9 %** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau'r hyfforddiant.
- 4.4.10. Rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor ac mae hyn yn creu rhwystr. Mae'r Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn edrych ar y rhaglen anwytho i geisio sicrhau fod pawb yn cwblhau'r e-fodiwlau ar ddiwrnodau cyntaf o gychwyn ei swydd.

4.5. Troseddu

- 4.5.1. Mae data'r flwyddyn hyd yma ar gyfer 2024/25 yn dangos cynnydd o **11.5%** mewn troseddau Stelcian ac Aflonyddu, o gymharu â'r un cyfnod yn 2023/24. Mae Heddlu Gogledd Cymru, ynghyd â heddluoedd eraill ar draws y DU, wedi cael y dasg o gynhyrchu problem proffil yn canolbwyntio ar droseddau Stelcian, er mwyn deall y mater yn well.
- 4.5.2. Mae lefel y Troseddau Rhyw a gofnodwyd hyd yma yn 2024/25 yng Ngwynedd wedi gweld cynnydd o gymharu â 2023/24. Gall fod amrywiadau sylweddol mewn troseddau a adroddir o wythnos i wythnos, yn rhannol oherwydd adrodd o droseddau hanesyddol. O'r 163 o bobl a ddrwgdybir mewn troseddau rhywiol rhwng Ebrill a Rhagfyr 2024, roedd dros 90% yn ddynion.

- 4.5.3. Mae troseddau meddiangar (acquisitive) yn cynnwys y categorïau Byrgleriaeth Breswyl, Byrgleriaeth Busnes a Chymuned, Lladrad, Troseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Mae Byrgleriaeth Breswyl a Byrgleriaeth Busnes a Chymuned yr union yr un faint eleni o gymharu â'r llynedd, gyda gostyngiadau i'w gweld yn y niferoedd o Droseddau Cerbyd a Dwyn a Thrin. Dim ond Lladrad sydd wedi gweld cynnydd hyd yma yn 2024/25, fodd bynnag mae hyn ond yn cyfateb i un digwyddiad ychwanegol yn unig mewn cymhariaeth â'r llynedd.
- 4.5.4. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yng Ngwynedd wedi gweld gostyngiad hyd yma o **-8.8%** yn 2024/25, o gymharu â'r un cyfnod yn 2023/24. Mae hyn yn cyfateb i dros 150 yn llai o ddigwyddiadau yn cael eu hadrodd i'r Heddlu.
- 4.5.5. Daeth y Dyletswydd Trais Difrifol i rym yn genedlaethol ym mis Ionawr 2023. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau penodedig gydweithio i baratoi a gweithredu strategaeth ar gyfer atal a lleihau trais difrifol yn yr ardal. Cyhoeddwyd Strategaeth derfynol Gogledd Cymru yn Ionawr 2024. Mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o'r gwaith yma ers y cychwyn ac yn parhau i fod yn rhan o'r Grŵp Llywio Rhanbarthol i weithredu'r Ddyletswydd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: [Dyletswydd Trais Difrifol | Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru <https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/dyletswydd-trais-difrifol>](https://www.northwales-pcc.gov.uk/cy/dyletswydd-trais-difrifol)
- 4.5.6. Fel rhan o'r ddyletswydd, derbyniodd y Bartneriaeth gyllid o £82k ar gyfer projectau ataliol ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau trais difrifol gan blant a phobl ifanc. Cwblhawyd pob elfen o'r gwaith yma yn llwyddiannus erbyn Ebrill 2025.

4.6. **Caethwasiaeth Fodern**

- 4.6.1. Mae caethwasiaeth fodern yn rhychwantu sawl math o gam-fanteisio sef, llafur, troseddol, cam-fanteisio rhywiol a chaethwasanaeth domestig. Yng Ngogledd Cymru, mae achosion Caethwasiaeth Fodern yn yr ardal yn ymwneud yn bennaf â cham-fanteisio cyffuriau, lle mae'r dioddefwyr yn aml yn wryw ifanc sydd yn cael ei orfodi i fasnachu cyffuriau, fel arfer drwy linellau sirol. Yn rhanbarthol, mae hyrwyddo diogelu cyd-destunol er mwyn gweithio hefo plant a phobl ifanc sy'n agored i gam-fanteisio a/neu gaethwasiaeth fodern yn flaenoriaeth o fewn Strategaeth Trais Difrifol Gogledd Cymru.
- 4.6.2. Mae'r Heddlu yn codi ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern ymysg awdurdodau a busnesau ar draws y rhanbarth, ac yn cynnal ymweliadau

rheolaidd â gwestai a safleoedd gwyliau ac yn darparu llenyddiaeth mewn clinigau a meddygfeydd iechyd rhywiol.

4.7. Gwrthderfysgaeth

4.7.1. Mae Cyngor Gwynedd yn cynnal Grŵp Mannau Cyhoeddus: Parodrwydd i Amddiffyn a Diogelu, yn ogystal â bod yn aelod o'r grwpiau cyffelyb rhanbarthol. Pwrpas y Grŵp yw:

- Ymateb i'r ddyletswydd statudol newydd Ddiogelu / Martyn's Law bydd yn cael eu gweithredu yn y 24 mis nesaf. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn sicrhau bod y cyhoedd yn cael eu hamddiffyn yn well rhag terfysgaeth, trwy ei gwneud yn ofynnol i rai lleoliadau cyhoeddus a digwyddiadau baratoi a bod yn barod i gadw pobl yn ddiogel os bydd ymosodiad.
- Cydweithio gyda sefydliadau er mwyn darparu trefniadau diogelwch amddiffynnol effeithiol ac effeithlon yng Ngwynedd;
- Darparu ymdriniaeth diogelwch integredig, sy'n cyd-fynd â'r safonau a'r canllawiau cenedlaethol, i adnabod a darparu camau gweithredu cymesur er mwyn cadw cymunedau Gwynedd yn ddiogel;
- Gwella a chefnogi'r parodrwydd i amddiffyn a diogelu mewn lleoliadau cyhoeddus hygyrch yng Ngwynedd.

4.8. Atal/Prevent

4.8.1. Mae **26.9%** o staff y Cyngor (gan gynnwys staff Parhaol, Achlysurol a Chyfnod Penodol) wedi cwblhau'r hyfforddiant e-ddysgu Atal. Mae'r Swyddfa Gartref wedi creu pecyn hyfforddiant newydd ar gyfer Atal, ac mae'r e-fodiwl yn fandadol i'r holl weithlu erbyn hyn. Mae'r ffigwr uchod yn dangos fod gwaith i'w wneud o ran cynyddu'r niferoedd sydd wedi'i gwblhau, ond rhaid cofio nad oes gan bob aelod staff y Cyngor fynediad rhwydd i systemau TG y Cyngor ac mae hyn yn creu rhwystr.

4.8.2. Er hynny, yn y flwyddyn ddiwethaf mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi cyhoeddi pecyn newydd o adnoddau sydd yn ein galluogi i baratoi sesiynau hyfforddiant wyneb-i-wyneb pwrpasol. Disgwylir adnoddau Cymraeg yn fuan ac unwaith mae'r rhain ar gael byddwn yn mynd ati i drefnu sesiynau peilot. Bydd y gallu i gynnal sesiynau ein hunain yn sicrhau fod modd darparu hyfforddiant i swyddogion sydd ddim a mynediad i'r porth e-ddysgu.

4.8.3. Mae'r Cyngor yn ymgymryd â phroses sicrwydd ansawdd yn flynyddol gyda'r Swyddfa Gartref, i sicrhau ein bod yn cwrdd â'n gofynion statudol o dan y ddyletswydd Atal. Yn 2024 adnabuwyd y cryfderau canlynol gan y Cyngor:

- Fod y Cyngor yn cymryd rhan weithredol yn y Grŵp Cyflawni Prevent rhanbarthol sy'n gweithio ar y cyd i gyflawni dyletswyddau Atal.
- Mae swyddogion Atal y Cyngor wedi cymryd brasgampau mawr wrth weithio i reoli bygythiad a risg mewn perthynas â radicaleiddio yn ystod y cyfnod adrodd diwethaf a thu hwnt.

4.8.4. O ganlyniad i'r broses yma, Derbyniwyd y Cyngor 2 argymhelliad, sef:

- Datblygu polisi llogi lleoliadau i leihau'r cyfleoedd i radicaleiddwyr ddylanwadu a dylai hyn gynnwys briffiau i staff perthnasol mewn perthynas â diwydrwydd dyladwy.
- Datblygu strategaeth hyfforddi Atal, i gynnwys darpariaeth wedi'i deilwra yn ôl rolau a charfannau o staff.

4.8.5. Mewn ymateb, mae polisi corfforaethol llogi lleoliadau wrthi yn cael ei ddrafftio, ac unwaith mae'r adnoddau hyfforddiant Cymraeg ar gael byddwn mewn sefyllfa i weithredu cynllun hyfforddiant newydd. Bydd y Panel Strategol Diogelu yn ffocysu ar rain dros y cyfnod nesaf.

4.9. Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

4.9.1. Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn gyfrifol am brosesu gwiriadau troseddol. Pwrpas gwiriadau DBS yw cynorthwyo cyflogwyr i wneud penderfyniadau recriwtio a thrwyddedu mwy diogel, ond dim ond un rhan o arfer recriwtio yw gwiriad. Pan fydd gwiriad wedi'i brosesu gan y DBS a'i gwblhau, bydd yr ymgeisydd yn derbyn tystysgrif DBS.

4.9.2. Bu'r Grŵp Gweithredol yn ymgymryd â gwaith sylweddol i wirio, herio ac ailymweld â'r drefn gorfforaethol o ran y DBS. O ganlyniad, mae Adrannau bellach yn perchnogi mwy ar y trefniadau DBS ac mae hyn wedi trawsnewid sut mae'r Grŵp Gweithredol yn adrodd ar ei gydymffurfiaeth ar ddadleniadau adrannol.

5. GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH

5.1. Er bod y Panel Strategol Diogelu yn canolbwyntio ar gyfrifoldebau corfforaethol yn ymwneud â materion diogelu o fewn Gwynedd, mae hefyd yn derbyn gwybodaeth ac arweiniad drwy Fyrddau Diogelu Rhanbarthol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Bregus, sy'n gweithio ar draws gogledd Cymru. Mae'r rhain yn Fyrddau Statudol gydag aelodaeth draws-asiantaethol, sydd â chyfrifoldebau penodol a chyfreithiol. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Byrddau hyn ac yn cyfrannu at weithredu eu cynlluniau. Mae

gwybodaeth bellach am waith y Byrddau i'w weld yma -
<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>

- 5.2. Mae Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn hefyd wedi dangos bod gweithio mewn partneriaeth ar draws ffiniau siroedd yn profi'n llwyddiant. Mae gwaith y Partneriaeth mewn meysydd megis Atal/Prevent yn hanfodol os yw'r Panel am sicrhau ansawdd trefniadau diogelu yng Ngwynedd.
- 5.3. Mae gan nifer o sefydliadau ddyletswydd statudol i fod yn rhan o'r bartneriaeth, gan gynnwys yr Awdurdodau Lleol, yr Heddlu, gwasanaethau Prawf, y gwasanaeth Tân ac Achub a'r Bwrdd Iechyd. Mae gwybodaeth am bob agwedd ar ddiogelwch cymunedol y mae'r Cyngor yn ymwneud ag o ar ein [gwefan](#).

6. Y DYFODOL

- 6.1. O ran blaenoriaethau'r Panel ar gyfer y flwyddyn i ddod, bwriedir canolbwyntio ar y blaenoriaethau a ganlyn:
- Deall a dysgu gwersi ddaw o Adolygiadau Ymarfer a edrydd yn ystod y flwyddyn.
 - Rhoi pob argymhelliad ddaw o Adolygiadau Ymarfer a gyhoeddir yn ystod y flwyddyn ar waith.
 - Cwblhau archwiliad mewnol ar ymwybyddiaeth a dealltwriaeth gweithlu'r Cyngor o systemau diogelu a sut mae cyfeirio.
 - Sicrhau bod gweithlu'r Cyngor wedi cwblhau'r cyrsiau hyfforddiant mandadol a statudol ym maes diogelu.
 - Hyrwyddo'r Polisi Diogelu diwygiedig ymysg holl staff y Cyngor.
 - Sicrhau bod y Personau Dynodedig yn deall eu rôl ac yn ei gymryd o ddifri.

ATODIAD 1: Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Gwynedd

ATODIAD 2: Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu Gwynedd

ATODIAD 3: Polisi Diogelu Cyngor Gwynedd

Cylch Gorchwyl Grŵp Gweithredol Diogelu Plant ac Oedolion

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.
- 1.2. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu, ac yn gweithio i arweiniad y Panel hwnnw.
- 1.3. I bwrpas y Grŵp hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

2. CYLCH GORCHWYL Y GRŴP GWEITHREDOL DIOGELU

- 2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel Strategol Diogelu.
- 2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Bydd y Grŵp yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir. Bydd y Panel yn cydweithio gyda Grŵp i ymateb i unrhyw bylchau adnabwyd.
- 2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:
 - Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisïau a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
 - Pob adran yn y Cyngor gyda'i gweithdrefnau diogelu ei hunain wedi'u dogfennu a'u defnyddio'n briodol, ac yn gydnaws â Pholisi Diogelu'r Cyngor.
 - Staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
 - Recriwtio mwy diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn effeithiol.
- 2.4. Bydd y Swyddogion Dynodedig Diogelu yn ymgymryd a rôl codi ymwybyddiaeth o fewn eu Hadrannau.

3. CADEIRYDDIAETH

- 3.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

4. AMLDER CYFARFODYDD

- 4.1. Bydd y Grŵp yn cwrdd pedair gwaith y flwyddyn.

5. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

- 5.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu.
- 5.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen]] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

6. AELODAETH

- 6.1. Aelodaeth y Panel Gweithredol yw Swyddogion Dynodedig ar gyfer y maes diogelu plant ac oedolion o fewn pob Adran o fewn y Cyngor.
- 6.2. Mae rhestr o Swyddogion Dynodedig ar gyfer pob Adran i'w weld ar hunanwasanaeth staff.

Cyngor Gwynedd

Polisi a Chanllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod

(Cyfeirir ato fel Polisi Diogelu ar gyfer Cyngor Gwynedd)



Adolygwyd Hydref 2023

Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor. Mae cyfrifoldeb ar bawb i adrodd am unrhyw bryder neu amheuaeth bod plentyn neu oedolyn mewn perygl o gael ei gam-drin a/neu ei esgeuluso.

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae gan bawb yr hawl i gael ei gadw'n ddiogel rhag niwed.
- 1.2. Prif flaenoriaeth Cyngor Gwynedd yw sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn cael eu diogelu rhag cam-drin, esgeulustod, radicaleiddio, caethwasiaeth, cam-drin domestig a chamfanteisio.
- 1.3. Mae gan bawb yng Nghyngor Gwynedd gyfrifoldeb am greu amgylchedd sy'n sicrhau hyn, gan arwain at blentyn neu oedolyn sy'n llai tebygol o gael ei gam-drin. Caiff y trefniadau diogelu hyn eu hamlinellu yn y polisi hwn, ac maent yn gyfrifoldeb ar bob gwasanaeth o fewn Cyngor Gwynedd.
- 1.4. Mewn cyferbyniad, mae gan y Gwasanaethau Cymdeithasol gyfrifoldebau arweiniol i amddiffyn plant ac oedolion a all fod yn dioddef o niwed ac esgeulustod.
- 1.5. Disgwylir i weithwyr Cyngor Gwynedd ac aelodau etholedig weithredu yn ôl yr egwyddorion a nodir yn y polisi hwn bob amser, boed yn ystod oriau gwaith neu fel arall.

2. DIFFINIADAU

- 2.1. Mae "**Diogelu**" yn gysyniad ehangach nag amddiffyn plant ac oedolion. Mae'n swyddogaeth gyffredinol sy'n golygu atal cam-drin neu niwed, ac yn ymdrin â hybu:
 - iechyd meddwl, corfforol ac emosiynol
 - diogelu rhag niwed ac esgeulustod
 - addysg, hyfforddiant a hamdden
 - eu cyfraniad i'r gymdeithas
 - lles cymdeithasol ac economaidd
- 2.2. Mae "**Amddiffyn**" yn ymateb i'r pryderon am y tebygolrwydd o niwed arwyddocaol ar unigolyn, sy'n golygu person mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod. Caiff y trefniadau ar gyfer amddiffyn plant ac oedolion rhag cam-drin eu hamlinellu yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru.

3. DEDDFWRIAETH

- 3.1. Adran 28 Deddf Plant 2004:

Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau ei fod yn ymgymryd â'i swyddogaethau o bersbectif yr angen i ddiogelu a hybu lles plant.

3.2. Adran 17 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998:

Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i sicrhau bod y camau rhesymol yn cael eu cymryd i amddiffyn oedolion ac atal trosedd ac anhwylder pan fo'n ymgymryd â'i swyddogaethau.

3.3. Adran 7 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014:

Mae dyletswydd ar Gyngor Gwynedd i hybu llesiant pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. Mae'r Ddeddf yn diffinio llesiant fel rhywbeth gydag wyth agwedd gyffredin, mae un o'r rheini yn cynnwys amddiffyn rhag cam-drin ac esgeulustod.

3.4. Adran 2 Gweithdrefnau Diogelu Cymru 2020:

Mae dyletswydd ar weithwyr a gwirfoddolwyr Cyngor Gwynedd i adrodd am unrhyw blentyn neu oedolyn a ystyriwyd mewn perygl o gam-drin, esgeulustod a/neu niwed.

4. EGWYDDORION

- 4.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb sy'n cynrychioli, neu sy'n gweithio ar ran y Cyngor.
- 4.2. Nid yw byth yn dderbyniol i blentyn neu oedolyn gael ei gam-drin neu ei niweidio mewn unrhyw ffordd.
- 4.3. Mae gan bob plentyn ac oedolyn (waeth beth fo eu cefndir, diwylliant, oedran, anableddau, rhyw, ethnigrwydd, crefydd) yr hawl i gymryd rhan mewn cymdeithas ddiogel heb unrhyw drais, ofn, camdriniaeth, ecsbloetiaeth, bwlio a gwahaniaethu.
- 4.4. Mae gan bob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael eu diogelu rhag niwed, ecsbloetiaeth a chamdriniaeth.
- 4.5. Bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi diogelu a llesiant plant ac oedolion yn ganolog yn ein polisiâu a gweithdrefnau.
- 4.6. Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio'n agos mewn partneriaeth â phlant, eu rhieni, gofawyr ac oedolion, yn ogystal ag asiantaethau eraill i ddiogelu a hybu llesiant plant ac oedolion.
- 4.7. Mae Cyngor Gwynedd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith ataliol ac ymyrraeth gynnar i leihau'r tebygolrwydd bod cam-drin neu niwed yn digwydd.

5. ROLAU A CHYFRIFOLDEBAU

- 5.1. Mae pob Cynghorydd, aelod o staff, gwirfoddolwr a darparwr gwasanaethau ar gontract yn gyfrifol am ddilyn yr arweiniad a chanllawiau a nodwyd yn y Polisi hwn.

5.2. SWYDDOGAETHAU SWYDDOGION AC AELODAU ALLWEDDOL

5.2.1. Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol

Enw:	Rhif Ffôn:	Cyfeiriad E-bost:
Huw Dylan Owen	01286 679387	DylanOwen@gwynedd.llyw.cymru

- 5.2.1.1. Y Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) sydd â'r cyfrifoldeb terfynol ac anwahanadwy ar faterion diogelu. Bydd y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn sicrhau bod mesurau a threfniadau diogelu priodol gan y Cyngor, ac yn gyfrifol am adrodd ar y trefniadau hyn yn gyson i Gynghorwyr.
- 5.2.1.2. Mae'n rhaid i'r Cyfarwyddwr Statudol (Gwasanaethau Cymdeithasol) fod yn ymwybodol o unrhyw wrthdrawiad buddiannau posib rhwng ei rôl o fewn ymchwiliadau'r gwasanaethau cymdeithasol a'i gyfrifoldeb am faterion diogelu corfforaethol. Pe byddai gwrthdrawiad o'r fath yn codi, dylai'r Cyfarwyddwr dynnu ei hun o un o'r rolau am gyfnod y sefyllfa sy'n achosi'r gwrthdrawiad buddiannau.

5.2.2. Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc

5.2.2.1. Mae gan y Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd y rôl fel Cyfarwyddwr Arweiniol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc. Mae'r rôl hwn, a grëwyd gan Ddeddf Plant (2004), yn gyfrifol am gynnig arweiniad a hybu'r bartneriaeth wrth gynllunio i weithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ar draws Gwynedd a gyda phartneriaid.

5.2.3. Aelodau Etholedig

5.2.3.1. Dylai pob Cynghorydd weithredu'n unol â gweithdrefnau'r Polisi hwn a dilyn y canllawiau a'r gweithdrefnau a atodwyd i'r Polisi er mwyn diogelu plant ac oedolion rhag niwed a chamdriniaeth.

5.2.3.2. Mae disgwyl i bob aelod etholedig (Cynghorydd) ymgymryd â hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion. Cedwir cofrestr o'r bobl sy'n mynychu gan adrodd ar hyn fel rhan o drefniadau monitro perfformiad a gydlynir gan y Panel Strategol Diogelu.

5.2.4. Aelodau Cabinet

5.2.4.1. Bydd Aelodau'r Cabinet i Oedolion, Iechyd a Llesiant; Addysg; a Phlant a Theuluoedd yn arwain ar ddiogelu ar draws y Cyngor.

Enw:	Cyfeiriad E-bost:
Cynghorydd Menna Trenholme <i>Aelod Cabinet - Plant a Phobl Ifanc</i>	Cynghorydd.MennaTrenholme@gwynedd.llyw.cymru
Cynghorydd Dilwyn Morgan <i>Aelod Cabinet - Oedolion, Iechyd a Llesiant</i>	Cynghorydd.DilwynMorgan@gwynedd.llyw.cymru
Cynghorydd Dewi Jones <i>Aelod Cabinet - Addysg</i>	Cynghorydd.DewiJones@gwynedd.llyw.cymru

5.2.4.2. Bydd yr Aelodau Cabinet hyn yn aelodau sefydlog o'r Panel Strategol Diogelu. Bydd yr Aelodau Cabinet yn adrodd ar waith y Panel Strategol i'r Pwyllgor Craffu Gofal, y Cabinet a'r Cyngor Llawn yn flynyddol.

5.2.5. Pwyllgor Craffu Gofal

5.2.5.1. Bydd aelodau'r Pwyllgor Craffu Gofal yn craffu a derbyn gwybodaeth ynglŷn â rhaglen waith y Panel Strategol.

5.2.6. Y Cyngor Llawn

5.2.6.1. Bydd pob Aelod o'r Cyngor yn derbyn Adroddiad Blynyddol ar waith y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion.

5.3. **SWYDDOGAETHAU ADRANNAU'R CYNGOR, RHEOLWYR A STAFF**

5.3.1. Dylai pob Adran o fewn y Cyngor gymryd perchnogaeth lawn o'u cyfrifoldebau diogelu a chael trefniadau a gweithdrefnau eglur yn eu lle i sicrhau bod ymholiadau i honiadau / pryderon y gall plant neu oedolion fod yn dioddef o niwed a/neu esgeulustod yn derbyn ystyriaeth lawn.

5.3.2. Mae'r Cyngor yn ymrwymo i hyfforddi pob aelod o staff yn y maes diogelu.

5.3.3. Pob Aelod o Staff a Gwirfoddolwyr

- 5.3.3.1. Mae gan bob aelod o staff a gwirfoddolwyr gyfrifoldeb i weithredu eu dyletswyddau mewn modd sy'n diogelu a hybu lles plant ac oedolion. Dylent hefyd weithredu mewn modd sy'n eu hamddiffyn rhag honiadau ffug o gam-drin gymaint â phosib yn unol â'r Polisi hwn. Dylent ddod â phryderon am ddiogelwch a lles plant ac oedolion i sylw'r Unigolyn Diogelu Dynodedig yn eu Hadran.

5.3.4. Rheolwyr Llinell

- 5.3.4.1. Mae pob Rheolwr Llinell yn gyfrifol am sicrhau bod y staff maent yn gyfrifol amdanynt yn derbyn yr hyfforddiant diogelu sydd ei angen arnynt a bod yr hyfforddiant yn berthnasol i'w cyfrifoldebau. Ceir canllawiau gan yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol ynglŷn â pha aelodau o staff sydd angen derbyn hyfforddiant ac ar ba lefel.

5.3.5. Person Diogelu Dynodedig

- 5.3.5.1. Mae pob Adran o fewn y Cyngor wedi enwebu "Unigolyn Diogelu Dynodedig" sy'n gyfrifol am:
- weithredu fel y brif ffynhonnell am gyngor a chefnogaeth ar bob mater diogelu i staff eraill yn yr Adran;
 - ymgyswddo'u hunain gyda'r Polisi a'r Canllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion Cyngor Gwynedd ynghyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru a Chanllawiau Amddiffyn Plant;
 - sicrhau bod gweithdrefnau mewnol effeithiol ar gyfer ymdrin â phryderon o fewn yr Adran, wrth gyd-weithio gyda Gwasanaethau Cymdeithasol i gyflawni hyn;
 - cynrychioli'r Adran ar Grŵp Gweithredol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion y Cyngor;
 - sicrhau bod y broses o lynu at y Polisi a'r Weithdrefn hon yn cael ei fonitro wrth adrodd i'r Tîm Rheoli Adrannol;
 - mynychu'r hyfforddiant perthnasol ar gyfer "Unigolion Diogelu Dynodedig";
 - sicrhau bod y staff o fewn eu Hadran yn cydymffurfio â'r holl hyfforddiant perthnasol.
- 5.3.5.2. Bydd yr Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gyfer pob adran yn aelod o'r Grŵp Gweithredol Diogelu, sydd wedi'i alinio â'r Panel Strategol Diogelu. Ceir rhestr o bob Unigolyn Diogelu Dynodedig ar fewnwyd Cyngor Gwynedd.

5.3.6. Penaethiaid Adran

- 5.3.6.1. Bydd pob Pennaeth Adran - drwy eu Timau Rheoli - yn gyfrifol ar y cyd am ddeall a chydymffurfio â'r holl ofynion statudol yn nhermau diogelu a hybu lles plant ac oedolion. Mae hyn yn cynnwys ansawdd, cynnwys ac amllder yr hyfforddiant a ddarparwyd a chadw cofnodion hyfforddi staff digonol.
- 5.3.6.2. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau bod pob aelod o staff mewn swyddi perthnasol yn cael eu gwirio drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a bod eu staff yn cydymffurfio â'r Polisi a'r Canllawiau ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Dylai pob Pennaeth Adran sefydlu trefniadau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion Polisi Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol y Cyngor. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau eu bod yn cadw cofnodion o bob gwiriad a wnaed gan y DBS. Bydd cydymffurfiaeth yn y maes hwn yn cael ei gofnodi a'i graffu gan y Panel Strategol Diogelu.

5.3.6.3. Dylai pob Pennaeth Adran sicrhau y caiff y Polisi hwn ei ddefnyddio, a bod pob gweithdrefn adrannol briodol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion yn cael eu mabwysiadu. Mae disgwyl i'r gweithdrefnau hyn gael eu paratoi i amlinellu trefniadau'r Adran i ymateb i broblemau a all godi o fewn y maes diogelu. Bydd angen i'r gweithdrefnau gydymffurfio'n llawn â'r Polisi a Chanllawiau Diogelu.

5.3.6.4. Bydd disgwyl i bob Adran o'r Cyngor adrodd am eu gweithdrefnau diogelu i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion. Bydd Grŵp Rheoli'r Cyngor yn galw ar bob Pennaeth Adran, Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr i gyfarfod yn fisol. Bydd cyfle yn y cyfarfodydd hyn i unrhyw un o'r Pennaethiaid gyfeirio at faterion diogelu.

5.3.7. Contractwyr, Isgontractwyr neu Sefydliadau Eraill a ariennir gan neu ar ran Cyngor Gwynedd

5.3.7.1. Mae Contractwyr, Isgontractwyr neu sefydliadau eraill a ariennir gan neu ar ran y Cyngor yn gyfrifol am drefnu gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) a sicrhau bod eu staff yn cydymffurfio â'r Polisi a'r Gweithdrefnau priodol ar gyfer Diogelu Plant ac Oedolion. Maent hefyd yn gyfrifol am hysbysu rheolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon sydd ganddynt gan gyfeirio at faterion amddiffyn. Cyfrifoldeb rheolwr y contract yw sicrhau bod cydymffurfiaeth â'r gofynion hyn.

5.3.7.2. Dylai'r cyfrifoldeb hwn, fel y nodir yn 5.3.7.1, gael ei gynnwys ym mhob dogfen, cytundeb a contract tendro.

6. Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

6.1. Panel Strategol Diogelu

6.1.1. Mae'r cyfrifoldeb am gynnal trosolwg o drefniadau diogelu plant ac oedolion wedi'i ddirprwyo gan y Cabinet i'r Panel Strategol Diogelu.

6.1.2. Prif gyfrifoldebau'r Panel yw sicrhau bod:

6.1.2.1. trefniadau corfforaethol ac adrannol cadarn yn eu lle i ddiogelu plant ac oedolion yng Ngwynedd.

6.1.2.2. trefniadau cyfathrebu eglur a diamwys yn eu lle ar draws y sefydliad, gan gynnwys gwybodaeth am y swyddogion allweddol ym mhob gwasanaeth sy'n gyfrifol am faterion diogelu plant ac oedolion.

6.1.3. Mae'r Panel yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Gweler rhagor o wybodaeth am y Panel Strategol Diogelu yn ei gylch gorchwyl.

6.2. Grŵp Gweithredol Diogelu

6.2.1. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn atebol i'r Panel Strategol Diogelu ac yn gweithredu'n unol â chanllaw a gofynion y Panel hwnnw.

6.2.2. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn monitro'r perfformiad ar draws y gwasanaethau o bersbectif diogelu plant ac oedolion. Mae'r Grŵp Gweithredol Diogelu yn adrodd i'r Panel Strategol Diogelu ym mhob cyfarfod y panel, gan amlinellu unrhyw bryderon neu rwystrau'n glir.

6.2.3. Bydd y Grŵp Gweithredol Diogelu yn sicrhau bod:

- Dealltwriaeth glir yng ngweithle'r Cyngor, aelodau etholedig a'r rheini sy'n gweithio ar ran y Cyngor, o'r polisiâu a'r canllawiau ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl o niwed a/neu gam-drin.
- Pob adran yn y Cyngor gyda'i gweithdrefnau diogelu ei hunain wedi'u dogfennu a'u defnyddio'n briodol, ac yn gydnaws â Pholisi Diogelu'r Cyngor.

- Aelodau, staff a gwirfoddolwyr yn derbyn gwybodaeth a hyfforddiant diogelu priodol ac amserol.
- Recriwtio mwy diogel yn digwydd a bod y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) yn cael ei ddefnyddio'n gyson ac yn effeithiol.

7. GWEITHDREFN I GYFEIRIO UNRHYW BRYDER

- 7.1. Dylid cysylltu â'r Heddlu ar unwaith os yw plentyn neu oedolyn mewn perygl ar hyn o bryd.
- 7.2. Mae'n hanfodol i beidio oedi.
- 7.3. Dylai unrhyw aelod o staff neu Aelod Etholedig sydd â phryderon am ddiogelwch plentyn neu oedolyn gysylltu ar unwaith gyda'r canlynol:

Y Tîm Dyletswydd Gwasanaeth Plant ar 01766 772577 (dewiswch opsiwn 1)

Neu

Dîm Cyngori ac Asesu Gwasanaeth Oedolion ar 01766 772577 (dewiswch opsiwn 2)

- 7.4. Am unrhyw bryderon ynglŷn â diogelwch plentyn neu oedolyn y tu allan i oriau swyddfa arferol, **ar ôl 5:00pm dydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a Gwyliau'r Banc**, dylid cysylltu â:

Thîm Tu Allan i Oriau'r Gwasanaethau Cymdeithasol ar 01248 353551

- 7.5. Dylai unrhyw aelod o staff sy'n pryderu am ymddygiad cyd-weithiwr neu angen cyngor am bryder/amheuaeth am ddiogelwch plentyn neu oedolyn gysylltu ag Unigolyn Diogelu Dynodedig yr Adran. Os nad yw'r Unigolyn Diogelu Dynodedig ar gael, yna dylid cyfeirio'r mater ar unwaith i'r Tîmau a nodir uchod.

8. ADRODD, MONITRO AC ADOLYGU

- 8.1. Bydd Adroddiad Blynnyddol y Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion yn adrodd ar berfformiad y Cyngor wrth gydymffurfio â Pholisi a Chanllawiau Diogelu. Bydd yr Adroddiad Blynnyddol yn cael ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, y Cabinet a'r Cyngor Llawn.
- 8.2. Bydd y Polisi Diogelu hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu os oes newidiadau'n cael eu gwneud i'r ddeddfwriaeth neu wrth ystyried newidiadau mewn arferion gweithio a all godi o ddigwyddiadau neu honiadau.

ATODIADAU (I'W ADOLYGU GAN Y GRŴP GWEITHREDOL DIOGELU)

- Arwyddion o Gam-drin
- Cod Ymddygiad ac Arferion Gweithio'n Ddiogel
- Hyfforddiant ar Ddiogelu
- Datgelu Troseddau a Gwirio Cofnodion Troseddol
- Rhestr o Reolwyr Adrannau Dynodedig
- Canllawiau Ymarfer Da ar gyfer Cynghorwyr: Cyswllt Diogel gyda Phlant ac Oedolion Bregus
- Y Broses Gyfeirio
- Ymdrin â Honiadau o Gam-drin Proffesiynol
- Mesur Effaith a Monitro
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan

Cylch Gorchwyl Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion

CYLCH GORCHWYL PANEL STRATEGOL DIOGELU PLANT AC OEDOLION

1. RHAGARWEINIAD

- 1.1. Mae diogelu plant ac oedolion yn flaenoriaeth i Gyngor Gwynedd. Er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau diogelu addas a phriodol mewn grym, mae'r Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol yn cynnull Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion, sydd yn cynrychioli Aelodau ac uwch reolwyr o holl adrannau'r Cyngor.
- 1.2. Disgwylir i'r Panel Strategol Diogelu Plant ac Oedolion arwain a chynghori ar y gofynion diogelu sydd ym mharagraffau 64-69 o Ran 8 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014.
- 1.3. Mae hefyd angen i bob asiantaeth sefydlu trefniadau mewnol ar gyfer sicrhau bod yr agenda gwrthderfysgaeth, atal radicaleiddio a materion diogelwch cymunedol yn cael y sylw priodol.
- 1.4. I bwrpas y Panel hwn, mae'r term 'diogelu' yn berthnasol i oedolion, plant a phobl ifanc ac mae'n golygu eu hatal rhag cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso ac addysgu'r rhai o'u hamgylch i adnabod yr arwyddion a'r peryglon. Mae diogelu, a hyrwyddo lles unigolion, yn derm ehangach nag 'amddiffyn' unigolion rhag cael eu cam-drin. Mae'n ymwneud ag unigolion a gwasanaethau yn adnabod y ffactorau risg ac yn cymryd camau i atal unigolion sy'n agored i niwed rhag cael eu cam-drin. Rhan o'r gwaith diogelu a hybu lles yw amddiffyn. Mae'n cyfeirio at weithgarwch o amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n dioddef neu mewn perygl o ddioddef niwed arwyddocaol o ganlyniad i gamdriniaeth neu esgeulustod.

2. CYLCH GORCHWYL Y PANEL STRATEGOL DIOGELU

- 2.1. Nod y Panel yw rhoi sicrwydd i Aelodau ac i Gyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fel yr uwch swyddog o fewn y Cyngor sydd â'r atebolrwydd terfynol llawn am ddiogelu plant, pobl ifanc ac oedolion, bod trefniadau a gweithdrefnau addas yn eu lle ar lefel gorfforaethol er mwyn sicrhau diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion. Bydd y Panel yn diwallu 3 dyletswydd statudol, sef:
 - 2.1.1. dyletswydd gorfforaethol cyffredinol i ddiogelu,
 - 2.1.2. dyletswydd statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
 - 2.1.3. a'r ddyletswydd diogelwch cymunedol.
- 2.2. Er mwyn diwallu'r dyletswyddau hyn, disgwylir i'r Panel:
 - 2.2.1. Adnabod unrhyw fylchau mewn perthynas â diogelu ar lefel gorfforaethol a chymeradwyo rhaglenni gwaith er mwyn ymateb i'r rhain. Cydweithio gyda Grŵp Gweithredol Diogelu i ymateb i unrhyw fylchau adnabwyd.
 - 2.2.2. Adnabod gwersi i'w dysgu, ar lefel gorfforaethol, o adolygiadau achosion difrifol ac o adolygiadau perthnasol eraill a sicrhau gweithredu ar y rhain. (Adolygiad Ymarfer Oedolion, Adolygiad Ymarfer Plant ac Adolygiad Lladdiad Domestig).

2.2.3. Adnabod gwersi i'w dysgu o archwiliadau allanol a mewnol a sicrhau gweithredu ar y rhain.

2.2.4. Hysbysu aelodau arweiniol perthnasol o faterion/datblygiadau allweddol ym maes diogelu plant, pobl ifanc ac oedolion bregus.

2.2.5. Bod yn gyfrwng i godi ymwybyddiaeth pob aelod o staff y Cyngor a phob aelod etholedig o'u cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu.

2.2.6. Bod yn gyfrwng i sicrhau bod aelodau staff ac aelodau etholedig yn derbyn hyfforddiant addas (er enghraifft y ddau fandadol VAWDASV a Atal) yn amserol a monitro presenoldeb yn yr hyfforddiant yma.

2.2.7. Sicrhau cydberthynas waith rhyngadrannol a chyfathrebu effeithiol o fewn y Cyngor yn y maes diogelu.

2.2.8. Sicrhau bod trefniadau'r Cyngor yn cyd-fynd â'r gofyn cyfreithiol i sicrhau bod staff yn gymwys i weithio yn y swyddi a rheoleiddir.

2.2.9. Sicrhau trosolwg ar faterion ehangach Diogelu gan gynnwys gweithdrefnau gwrthderfysgaeth, caethwasiaeth fodern, trais yn y cartref a diogelwch cymunedol.

3. MONITRO PERFFORMIAD

3.1. Bydd gan y Panel Strategol Diogelu gyfrifoldeb i fonitro ac i herio perfformiad sydd yn ymwneud â'r maes Diogelu.

4. CADEIRYDDIAETH

4.1. Bydd y Panel yn penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd pob dwy flynedd.

5. AMLDER CYFARFODYDD

5.1. Bydd y Panel yn cwrdd tair gwaith y flwyddyn.

6. LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

6.1. Mae'r Panel Strategol Diogelu yn atebol i'r Cabinet. Bydd Adroddiad Blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn flynyddol. Mi fydd yr Adroddiad hwnnw hefyd yn mynd gerbron y Cyngor Llawn yn flynyddol.

6.2. Mae rheolaeth busnes [h.y. llunio rhaglen waith, rhaglen cyfarfodydd, 'ysgrifenyddiaeth', pwynt cyfathrebu canolog, trefnu cyngor proffesiynol ychwanegol os bydd angen]] yn gyfrifoldeb i'r Adran Cefnogaeth Corfforaethol.

7. AELODAETH

Teitl
Aelod Cabinet Plant a Chefnogi Teuluoedd
Aelod Cabinet Oedolion Iechyd a Llesiant
Aelod Cabinet Addysg
Aelod Cabinet â chyfrifoldeb am Ddiogelwch Cymunedol
Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol
Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Corfforaethol
Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol
Pennaeth Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd
Pennaeth Addysg
Pennaeth Oedolion, Iechyd a Llesiant
Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol
Cadeirydd y Grŵp Gweithredol Diogelu
Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol
Rheolwr Partneriaeth Diogelwch Môn a Gwynedd
Uwch Reolwr Diogelu ac Ansawdd Plant a Chefnogi Teuluoedd
Uwch Reolwr Diogelu, Sicrwydd Ansawdd a Iechyd Meddwl

CYNGOR GWYNEDD



Adroddiad i gyfarfod o Gyngor Gwynedd

Dyddiad y cyfarfod:	2 Hydref 2025
Teitl yr Eitem:	Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25
Aelod:	Y Cynghorydd Beth Lawton, Cadeirydd y Fforwm Craffu ar gyfer 2024-25
Swyddog Cyswllt:	Ian Jones, Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth (Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol)

Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Derbyn yr adroddiad.

CEFNDIR A RHESYMEG

1. Yn unol â'r cyfansoddiad, fe gyflwynir adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor yn ymhelaethu ar y gwaith craffu a wnaed yn ystod y flwyddyn.
2. Mae'n arferiad i gyflwyno'r adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn yng nghyfarfod mis Gorffennaf. Eleni rhoddwyd blaenoriaeth i gynnal ymchwiliad craffu a grŵp tasg a gorffen. Felly, nid oedd adnoddau staffio yn caniatáu llunio'r adroddiad o fewn amserlen gynharach. Credir bod blaenoriaethu adnoddau i gyflawni'r gwaith yma yn angenrheidiol gan mai drwy'r gwaith craffu y gwneir gwahaniaeth.
3. Mae'r adroddiad sydd yn rhoi trosolwg o'r gwaith craffu a wnaed yn ystod 2024-25, wedi ei rannu o dan y penawdau yma:
 - Gweithdai Craffu
 - Fforwm Craffu
 - Pwyllgorau Craffu
 - Ymchwiliad Craffu
 - Datblygiadau 2024-25
 - Trefniadau Tracio
 - Herio Perfformiad
 - Hyfforddiant
 - Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25
4. Pwrpas craffu yng Ngwynedd yw 'Cyfrannu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd'. Amlygir yn yr adroddiad blynyddol effaith y gwaith craffu wrth gyflawni yn unol â'r pwrpas.
5. Crëwyd fersiwn cryno o'r adroddiad gyda'r bwriad iddo gyflwyno gwaith craffu 2024-25, mewn modd hawdd i'w ddarllen a chryno.

ATODIADAU:

Atodiad 1 – Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25

Atodiad 2 – Fersiwn Cryno

UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Trafodwyd cynnwys posib yr Adroddiad Blynyddol yng nghyfarfod y Fforwm Craffu ar 30 Ebrill 2025. Rhannwyd yr adroddiad drafft gydag aelodau Fforwm Craffu 2024/25 i dderbyn eu sylwadau.

SYLWADAU'R SWYDDOGION STATUDOL

Swyddog Monitro:

Mae'r pwyllgorau trosolwg a chraffu yn rhan greiddiol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu ystod y gwaith mae'r pwyllgorau yn ei gyflawni a hefyd yn cadw trosolwg o waith y Cabinet. Rwy'n fodlon fod yr hyn a gyflwynir yn dangos fod y rôl yma yn cael ei chyfarch yn briodol.

Swyddog Cyllid Statudol:

Rwyf yn fodlon nad yw'r adroddiad yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir.

Adroddiad Blynyddol Craffu 2024-25



CYFRANNU AT YRRU
GWELLIANT MEWN
GWASANAETHAU
I BOBL GWYNEDD

www.gwynedd.llyw.cymru/craffu



Tud. 121

Rhagair

Llynedd bu i ni adrodd ar y camau yr oedd yn cael eu cymryd mewn ymateb i adolygiad o'n trefniadau craffu gan Archwilio Cymru. Rydym yn parhau i fireinio ein trefniadau craffu ac yn adeiladu ar y camau sydd wedi eu cymryd mewn ymateb i argymhellion yr adolygiad. Mae'n daith barhaus, a mi ydwyf i a fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion, wedi cydweithio drwy'r Fforwm Craffu i sicrhau ein bod yn adnabod unrhyw gyfleoedd i wella ein trefniadau er mwyn uchafu gwerth cyfraniad craffu at yrru gwelliant mewn gwasanaethau i bobl Gwynedd.

Rhoddwyd cyfle i'r holl aelodau, Aelodau Cabinet, Penaethiaid Adran a thrigolion Gwynedd i gynnig eitemau posib i'w craffu yn ystod 2024/25. Derbyniwyd dau awgrym o faterion posib i'w craffu gan drigolion Gwynedd.

Bu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi adnabod yr angen i gynnal ymchwiliad craffu ar drefniadau diogelu mewn ysgolion. Blaengraffodd y Pwyllgor Craffu Cymunedau y bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i reoli newid defnydd ail-gartrefi a llety gwyliau cyn i'r Cabinet gymeradwyo ei weithrediad. Bu i'r Pwyllgor Craffu Gofal wahodd partneriaid allanol ar dri achlysur. Cynhaliwyd cyfarfod i graffu'r maes tai cymdeithasol yn unig gan wahodd cynrychiolwyr o'r cymdeithasau tai; daeth archwilwyr allanol i adrodd ar eu gwaith yn y maes oedolion; a gwahoddwyd cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd i drafod materion iechyd.

Mae'r adroddiad yma yn crynhoi'r gwaith craffu a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn gan amlygu effaith y gwaith craffu.

Mae cydweithio yn holl bwysig i gyflawni a gyrru gwelliant i wasanaethau. Gwerthfawrogaf gyfraniad fy nghyd-gadeiryddion ac is-gadeiryddion, yr aelodau craffu, aelodau cabinet, swyddogion a phawb sydd wedi cyfrannu i'r gwaith craffu yn ystod y flwyddyn. Ni allaf or-bwysleisio bod cydweithio adeiladol yn hanfodol er mwyn sicrhau llwyddiant y drefn craffu.



Cynghorydd Beth Lawton,
Cadeirydd y Fforwm Craffu

Gweithdai Craffu	3 – 4
Fforwm Craffu	5 – 6
Pwyllgorau Craffu	7 – 18
Ymchwiliad Craffu	19
Datblygiadau 2024-25	20 – 21
Trefniadau Tracio	22
Herio Perfformiad	23
Hyfforddiant	24
Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25	25
Rhestr o'r holl eitemau a graffwyd mewn cyfarfodydd ffurfiol yn ystod y flwyddyn	26 – 28

Gweithdai Craffu

Cynhaliwyd gweithdai i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2024/25 fesul Pwyllgor Craffu yn Ebrill 2024.

Cymerwyd y cyfle i atgoffa'r aelodau o bwrpas craffu yng Ngwynedd, sef:

CYFRANNU AT YRRU GWELLIANT MEWN GWASANAETHAU I BOBL GWYNEDD

Gwneir hyn yn adeiladol trwy:

- Ymchwilio i bryderon am ansawdd ein gwasanaethau
- Weithredu fel Ffrind Critigol yn sicrhau fod sylw priodol yn cael ei roi i lais y dinesydd
- Adnabod ymarfer da a gwendidau
- Dal y Cabinet a'i aelodau i gyfrif
- Adolygu neu graffu penderfyniadau neu weithredoedd nad ydynt yn gyfrifoldeb y Cabinet

Amlygwyd bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn rhoi gofyn ar gynghorau i ystyried effaith gwneud rhywbeth rŵan a'r effaith hirdymor ar gyfer y dyfodol. Ymhelaethwyd bod craffu yn gwneud hyn drwy weithio mewn partneriaeth, gwneud defnydd effeithiol o amser mewn pwyllgor, drwy gwestiynu a gwneud argymhellion y mae modd eu gwireddu.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd effaith craffu a'r angen i wneud argymhellion CAMPUS:

Cyraeddadwy
Amserol
Mesuradwy
Penodol
Uchelgeisiol
Synhwyrol

Manylwyd ar y gwahanol fathau o graffu - adweithiol a rhagweithiol:

ADWEITHIOL <i>Dal i Gyfrif</i>	RHAGWEITHIOL <i>Cefnogi Gwella</i>
Ymgynghori â gwneud argymhellion trwy: • Bwyllgorau; • Ymchwiliadau; • Grwpiau Tasg a Gorffen.	• Monitro • Herio • Ceisio sicrwydd am: ➢ berfformiad; ➢ penderfyniadau sydd i ddod; ➢ penderfyniadau a wnaethpwyd; ➢ polisïau.

Amlinellwyd y newidiadau ymarferol i drefniadau craffu yn dilyn adolygiad Archwilio Cymru o effeithlonrwydd craffu a’r hyfforddiant ‘Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu’ a gynhaliwyd gan hyfforddwyr allanol ym mis Mawrth 2024.

Ystyriwyd eitemau posib i’w craffu yn ystod y flwyddyn. Roedd aelodau’r pwyllgorau wedi derbyn rhestr o eitemau posib ar gyfer y meysydd gwaith mae’r pwyllgorau unigol yn gyfrifol amdanynt ymlaen llaw. Gofynnwyd i aelodau ymateb i gwestiwn ar-lein cyn y gweithdy - **Beth yw eich 5 prif flaenoriaeth?** - gan gadw mewn cof y ffactorau canlynol:

- ❖ A yw’r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o’r boblogaeth?
- ❖ A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- ❖ A yw’r mater yn amserol i’w graffu?
- ❖ Ydi’r mater yn flaenoriaeth i’r Cyngor?
- ❖ A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Nodwyd yr eitemau a ddaeth i’r brig o’r ymatebion i’r cwestiwn. Rhoddwyd cyfle i’r aelodau drafod:

A ydych yn cytuno gyda’r 5 prif flaenoriaeth?

Beth yn ychwanegol o’r rhestr y dylid ei graffu yn ystod 2024/25?

Cynhaliwyd trafodaethau agored gan lunio fersiwn cychwynnol o’r rhaglen waith ddrafft. Anelwyd at flaenoriaethu uchafswm o dair eitem fesul cyfarfod er mwyn sicrhau rhoi sylw haeddiannol i’r eitemau. Yn dilyn y trafodaethau, bu i’r Penaethiaid Adran a’r Aelodau Cabinet perthnasol ymuno. Rhoddwyd y cyfle iddynt nodi unrhyw fater oedd angen ystyriaeth yng nghyd-destun y materion a flaenoriaethwyd ac o ran amseru’r craffu.

Roedd gan bob pwyllgor rhaglen waith ddrafft ar ddiwedd y gweithdai.



Fforwm Craffu

Mae'r Fforwm Craffu yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn cymryd trosolwg o holl waith craffu'r Cyngor gyda'r aelodau (Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu), yn herio naill a'r llall i sicrhau fod y materion cywir yn cael eu blaenoriaethu.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm gyda chadeiryddion ac is-gadeiryddion 2023/24 ar 7 Mai 2024. Yr aelodaeth ar y pryd oedd:

PWYLLGOR CRAFFU	CADEIRYDD	IS-GADEIRYDD
Addysg ac Economi	Cyng. Elwyn Jones	Sedd wag
Cymunedau	Cyng. Elin Hywel	Cyng. Annwen Hughes
Gofal	Cyng. Beth Lawton	Cyng. Linda Ann Jones

Bu i'r aelodau ystyried y flaenraglen craffu drafft cyn i'r pwyllgorau craffu unigol fabwysiadu eu rhaglen waith. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r Fforwm fynegi barn ar y newidiadau y bwriadwyd eu cyflwyno i drefniadau gweithredu ymarferol y pwyllgorau yn 2024/25. Cyflwynwyd yr hyn y bwriadwyd ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2023/24 gan ofyn i'r aelodau am awgrymiadau o ran ei gynnwys.

Yng nghyfarfod cyntaf y Fforwm ar 25 Hydref 2024 gyda aelodaeth newydd, ymhelaethwyd ar rôl y Fforwm Craffu, sef i:

- Gynghori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyafrif yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol / ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi



Cynghorydd
Cai Larsen



Cynghorydd
Rhys Tudur

Pwyllgor Craffu Cymunedau



Cynghorydd
Annwen Hughes



Cynghorydd
Delyth Lloyd Griffiths

Pwyllgor Craffu Gofal



Cynghorydd
Beth
Lawton



Cynghorydd
Dewi Jones
(tan 9 Rhagfyr 2024)



Cynghorydd
Elwyn Jones
(o 20 Chwefror 2025)

Rhoddwyd trosolwg o'r flaenraglen craffu i sicrhau fod y materion cywir wedi eu blaenoriaethu. Hefyd, rhoddwyd ystyriaeth i'r blaenraglen Cabinet gan ystyried os oedd unrhyw faterion pellach y dylid eu blaengraffu cyn i'r Cabinet wneud penderfyniad.

Trafodwyd datblygiadau yn y maes craffu, trefn i gadeiryddion craffu dderbyn gwahoddiad i fynychu cyfarfod o'r Cabinet pan mae'r pwyllgorau craffu wedi blaengraffu eitem, trefniadau tracio penderfyniadau/argymhellion a'r trefniadau adrodd ar berfformiad i'r pwyllgorau craffu yn hytrach na chyflwyno adroddiadau i gyfarfodydd y Cabinet.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Fforwm ar 29 Ionawr 2025, rhoddwyd ystyriaeth i fersiynau diweddaraf y flaenraglen craffu a blaenraglen y Cabinet. Bu i'r Fforwm ystyried briff drafft Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion. Blaenoriaethwyd adnoddau i alluogi'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi i sefydlu grŵp o aelodau'r pwyllgor i gyflawni'r gwaith. Mae mwy o wybodaeth am yr ymchwiliad craffu ar dudalen 20 yr adroddiad blynyddol.

Hefyd, cyflwynwyd dogfen a oedd yn codi ymwybyddiaeth aelodau'r Fforwm Craffu am drefniadau craffu Cyd-bwyllgor Corfforedig y Gogledd (CBC), er ystyriaeth, cyn i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2025 gymeradwyo sefydlu Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu CBC y Gogledd a fydd gyda cynrychiolaeth o'r 6 cyngor ar draws y Gogledd.

Yng nghyfarfod olaf y Fforwm ar gyfer y flwyddyn, adlewyrchwyd ar y datblygiadau i'r trefniadau craffu yn ystod 2024/25. Cyflwynwyd yr hyn y bwriadwyd ei gynnwys yn adroddiad blynyddol 2024/25 gan ofyn i'r aelodau am awgrymiadau o ran ei gynnwys. Rhoddwyd sylw i drefniadau llunio rhaglen waith craffu 2025/26. Cymeradwywyd adnoddau i gynnal Grŵp Tasg a Gorffen – Polisi Iaith Addysg Drafft, ar sail fod adnoddau digonol i gynnal un cyfarfod o'r grŵp tasg.

Pwyllgorau Craffu

Mae tri phwyllgor craffu yng Ngwynedd gyda rôl i graffu meysydd gwaith penodol gan bob un. Yn y rhan yma, mae gwybodaeth am ba feysydd gwaith mae'r gwahanol bwyllgorau yn gyfrifol am ei graffu, yr eitemau a graffwyd yn ystod 2024-25 mewn cyfarfod Pwyllgor, y rheswm dros graffu ac effaith y craffu fesul eitem.

Rhoddir pwyslais ar graffu yn ychwanegu gwerth yng Ngwynedd gydag eitemau yn cael eu blaenoriaethu er mwyn eu craffu yn amserol i uchafu'r effaith.

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

1. Adroddiad Blynyddol GwE

Eitem Blynyddol / Sicrwydd

Craffwyd Adroddiad Blynyddol 2023/24 y Gwasanaeth Effeithlonrwydd Ysgolion (GwE) a oedd yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y pum maes allweddol yn ogystal â nodi'r camau nesaf ar y llwybr gwella. Dyma'r Adroddiad Blynyddol olaf y byddai GwE yn ei ddarparu ar gyfer y pwyllgor craffu oherwydd bod GwE yn dirwyn i ben gyda'r trefniadau rhanbarthol yn cael ei ddisodli gan drefniadau lleol.

Effaith Craffu – Craffu ar ddiwedd cyfnod gan wneud sylwadau am yr hyn sydd wedi ei gyflawni.

2. Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion

Mewnbyn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol

Gofyniad ar bob Awdurdod Addysg i sefydlu trefniadau ar gyfer cefnogi ysgolion sydd yn diwallu gofynion y Fframwaith Gwella Ysgolion wrth i GwE ddirwyn i ben. Ystyriwyd y sefyllfa ddiweddaraf a'r heriau wrth sefydlu'r trefniadau.

Effaith Craffu – Mewnbyn buan gan y Pwyllgor Craffu i'r modd y caiff y gwasanaeth gwella ysgolion ei ddarparu i'r dyfodol.

3. Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion

Sicrwydd o ran y trefniadau

Craffwyd trefniadau diogelu mewn ysgolion, ynghyd â'r arweiniad a'r gefnogaeth a roddir yn y maes hwn gan yr Adran Addysg.

Effaith Craffu – Argymhellwyd bod yr Adran Addysg yn darparu canllaw syml o ran cyfeirio pryderon er defnydd pawb sy'n ymwneud â'r gyfundrefn, megis llywodraethwyr a rhieni. Adnabuwyd yr angen i ystyried edrych ymhellach ar y maes hwn ac fe wnaeth hyn arwain at sefydlu'r Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion.

4. Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus

Blaengraffwyd y cynllun drafft cyn i'r Cabinet ei fabwysiadu ar 14 Chwefror 2023. Eleni, craffwyd cynnydd yng nghyflawni'r Cynllun, strwythur y bartneriaeth, y cynllun gweithredu a'r trefniadau monitro cynnydd ynghyd â mesuryddion.

Effaith Craffu – Gofynnwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wneud pob ymdrech i ymgynghori gyda'r cynghorwyr sir lle mae hynny'n briodol. Hefyd, bod yr Adran Economi a Chymuned, wrth wneud gwaith ymchwil, yn edrych ar y materion penodol a godwyd gan y pwyllgor ynglŷn â data ac ati.

5. Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn

Adroddiad Archwiliwr Allanol

Roedd yr adroddiad yn manylu ar gynnydd yr Adran Addysg mewn ymateb i argymhellion Adroddiad Estyn ar wasanaethau addysg yng Nghyngor Gwynedd (Mehefin 2023) mewn perthynas â phresenoldeb ac ymddygiad disgyblion yn ysgolion y sir.

Ystyriwyd y camau a gyflawnwyd gan graffu'r cynnydd o ran gwella presenoldeb ac ymddygiad o fewn ysgolion, gweithredu ar ganfyddiadau'r gwaith sydd wedi edrych ar ddefnydd o arian cynhwysiad o fewn yr ysgolion yn ogystal â'r heriau a chyfleoedd yn y maes cynhwysiad.

Effaith Craffu - Derbyn sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud mewn ymateb i'r heriau yn y maes a phenderfynu bod angen craffu'r maes yn y dyfodol er sicrhau cynnydd.

6. Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory

Craffwyd y camau y bwriadwyd eu cymryd er mwyn trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar gan ystyried yr amserlen, y cerrig milltir allweddol a'r sefyllfa gyllidol.

Effaith Craffu – Nodi pryder ynglŷn â diffyg adnoddau i symud y gwaith ymlaen. Y pwyllgor yn croesawu'r bwriad i gydweithredu'n ehangach gydag asiantaethau eraill perthnasol ac yn gofyn am ddiweddariad.

7. Strategaeth Llesiant Staff

Blaengraffu / Craffu cefnogaeth llesiant staff

Rhoddwyd ystyriaeth i'r Strategaeth ddrafft a oedd yn manylu ar brif amcanion y strategaeth er mwyn gwireddu gweledigaeth o gyd-weithio i wella llesiant ar draws holl weithlu'r Cyngor gan greu'r amgylchedd gwaith gorau posib er mwyn sicrhau gweithlu iach, gwydn a chynhyrchiol sy'n gallu gweithio hyd eithaf eu gallu i wasanaethu trigolion Gwynedd.

Effaith Craffu – Sicrhau bod y strategaeth yn cyfarch yr heriau o ran ôl-ffaith cyfnod y pandemig ymysg y gweithlu a chostau absenoldebau staff oherwydd salwch. Nodi pryder ynglŷn â'r lefelau uchel o absenoldebau staff gan ofyn bod diweddariadau ar y strategaeth yn y dyfodol yn manylu ar ddata penodol, megis cymhariaeth dros gyfnodau, ac ati.

8. Cyllidebau Refeniw Ysgolion

Effaith ar ysgolion Gwynedd

Ystyriwyd effaith toriadau a newidiadau demograffeg ar gyllidebau ysgolion, lefelau staffio, trefniadau gormodedd, cefnogaeth i ysgolion, yr effaith ar ddosbarthiadau a'r hyfforddiant ar gael i staff ysgol a llywodraethwyr i ddelio gyda'r maes.

Effaith Craffu – Derbyn cadarnhad o sefyllfa gyllidol ysgolion Gwynedd yn gyffredinol. Atgyfnerthu'r angen i'r pwyllgor graffu'r Strategaeth Addysg ddrafft pan yn amserol.

9. Cludiant Addysg

Gorwariant yn y maes

Craffwyd y rhesymau am y gorwariant, y camau gweithredu sydd wedi'u cymryd mewn ymateb i'r sefyllfa a'r opsiynau dan ystyriaeth o ran trefniadau cludiant addysg i'r dyfodol er mwyn ceisio rhesymoli a lleihau'r costau ble'n ymarferol bosib'.

Effaith Craffu – Amlygu'r angen i fod yn ymwybodol o anghenion penodol rhai grwpiau o blant wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Nodi pwysigrwydd darpariaeth teithio i'r coleg ar gyfer pobl ifanc yn Nwyfor a Meirionnydd.

Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gysylltu gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyflwyno tocyn teithio am ddim i bobl ifanc 16-21 oed er mwyn lleihau'r pwysau ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim, ac i hwyluso teithio i'r gwaith, i goleg neu chweched dosbarth.

10. Cynllun Economi Gwynedd

Blaengraffu / Cynllun Strategol

Derbyniwyd adroddiad yn manylu ar y gwaith i ddatblygu Cynllun Economi newydd i Wynedd.

Effaith Craffu - Mewnbwn craffu ar gyfeiriad y gwaith ac amlygu materion pellach y dylid eu hystyried wrth greu'r Cynllun. Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu'r cynllun drafft yn ystod 2025/26.

11. Polisi Iaith Addysg – Y Drefn Ymgysylltu a'r Polisi Drafft

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg

Bu i'r Pwyllgor ethol cynrychiolwyr i fynychu sesiwn ymgysylltu gyda chynrychiolwyr o'r Pwyllgor Iaith i drafod y polisi iaith addysg ym mis Rhagfyr 2024. Craffwyd y drefn ymgysylltu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 13 Chwefror 2025.

Yng nghyfarfod 10 Ebrill 2025, craffwyd y Polisi Iaith Addysg Drafft a ddatblygwyd gan yr Adran Addysg a Meirion Prys Jones (Ymgynghorydd allanol). Rhoddwyd ystyriaeth i gyfeiriad strategol y polisi drafft a'r bwriad i osod uchelgais i sicrhau fod plant a phobl ifanc y sir yn tyfu i fod yn ddefnyddwyr Cymraeg hyfedr ac yn datblygu medrau dwyieithog neu amlieithog o fewn Gyfundrefn Addysg Gwynedd.

Effaith Craffu – Adnabod yr angen i edrych yn fanylach ar y Polisi Iaith Addysg Drafft. Gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r brîff i edrych ar eiriad y polisi drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.

12. Cyfundrefn Addysg Drochi

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg

Craffwyd diweddariad am y broses werthuso yng nghyd-destun y gwerthusiad o'r Gyfundrefn Drochi. Adroddwyd bod tîm ymchwil o Brifysgol Bangor yn cynnal gwerthusiad o'r gyfundrefn ac y disgwyliid casgliadau'r gwerthusiad.

Effaith Craffu – Penderfynu craffu Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi.

13. Gwasanaeth Ieuenctid

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory

Cyfle i roi arweiniad ar gyfeiriad gwaith y Gwasanaeth Ieuenctid i'r dyfodol a thrafod os yw'n cyfarch anghenion pobl ifanc Gwynedd ac yn cyflawni ei hamcanion yn dilyn yr ailstrwythuro yn 2018.

Effaith Craffu – Argymell i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg bod angen sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y Sir; adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc; bod angen ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad i gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol; a bod angen parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r ddarpariaeth orau.

14. Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig

Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Craffwyd y ddarpariaeth gan ystyried y cynnydd a wnaed i sicrhau cydymffurfio â Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Cymru 2018.

Effaith Craffu - Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg edrych ar ffyrdd o wella'r ddarpariaeth a hwyluso pethau i blant yn y prif lif sydd gydag anghenion dwys ond sydd ddim yn cyrraedd y trothwy i dderbyn cefnogaeth; edrych ar ffyrdd i barhau i warchod y gyllideb i ysgolion arbennig a monitro bod arian yn cael ei wario yn briodol ac yn dilyn y canllawiau; ohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am ddiffyg arian ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer ADY a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

15. Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus

Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd

Rhoddwyd ystyriaeth i'r bwriad i gyflwyno Cyfarwyddyd Erthygl 4 i ddiddymu hawliau datblygu a ganiateir yn gysylltiedig â newid defnydd tŷ preswyl (defnydd C3) i ddefnydd gwyliau. Boed yn ddefnydd fel ail gartref (defnydd C5), llety gwyliau tymor byr (defnydd C6) neu'n ddefnydd cymysg ohonynt. Craffwyd sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu cyhoeddus ac ymateb y Cyngor i'r sylwadau.

Effaith Craffu - Blaengraffu yn drylwyr er sicrhau bod ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i wahanol ffactorau. Argymell i'r Cabinet y dylid cadarnhau'r cyfarwyddyd.

16. Clwyf Gwywiad yr Onnen

Mater ar y gofrestr risg

Craffwyd y rhaglen waith ar gyfer archwilio a thrin clwyf gwywiad yr onnen. Rhoddwyd ystyriaeth i faterion gan gynnwys coed ar dir preifat, y defnydd o dechnoleg, gwaredu coed a dorrwyd, y posibilrwydd o sefydlu siop un stop ac adolygiad o'r Polisi Rheoli Coed.

Effaith Craffu – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud i liniaru'r risg.

17. Ffioedd Parcio

Blaengraffu

Rhoddwyd ystyriaeth i'r cyd-destun ariannol ac ystyried opsiynau posib o ran codi ffioedd parcio yn gyffredinol a'r syniad o'u codi'n flynyddol ar sail chwyddiant.

Effaith Craffu – Argymhell i'r Cabinet y dylid ystyried cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd gan roi ystyriaeth i sefyllfa chwyddiant; ni ddylid addasu'r trefniadau gorfodaeth yn y meysydd parcio arhosiad byr oherwydd yr effaith ar yr economi leol; dylid ystyried cynyddu ffioedd ymhellach ym meysydd parcio mewn ardaloedd twristiaeth penodol; a dylid ystyried cynyddu ffioedd safleoedd Arosfan yn flynyddol.

18. Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd

Mae'r maes cludiant cyhoeddus wedi ei flaenoriaethu yng Nghynllun y Cyngor 2023-28. Nodir gweledigaeth glir o "adolygu ein darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus bresennol gyda'r nod o ddatblygu rhwydwaith cludiant cyhoeddus fydd yn gyfleus, yn ddibynadwy ac yn rhesymol ei gost er mwyn caniatáu i drigolion Gwynedd deithio yn hwylus bob diwrnod o'r wythnos."

Craffwyd yr adolygiad traws-sirol o'r rhwydwaith bysiau gan roi ystyriaeth i ddatblygiadau rhanbarthol a chenedlaethol ac effaith y datblygiadau ar Wynedd.

Effaith Craffu – Amlygu'r angen i gynnwys yr aelodau lleol mor fuan â phosib wrth ystyried newidiadau i wasanaethau bws a bod angen cryfhau'r trefniadau ymgynghori gyda chymunedau.

19. Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd

Craffwyd y cynnydd yn y rhaglen waith i sicrhau fod y maes gwastraff ac ailgylchu yn cynnig gwasanaethau effeithlon, safonol a diogel, ac yn parhau i gyfarch targedau ailgylchu uchelgeisiol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Rhoddwyd sylw i'r rhwystrau a'r cyfleoedd i gyflawni yn ogystal â'r sefyllfa ddiweddaraf o ran gorwariant.

Effaith Craffu – Sicrhau bod cynnydd ar wireddu'r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

20. Gorchmynion Rheoli Cŵn

Sicrwydd o ran gweithrediad

Ystyriwyd gweithrediad y gorchmynion, y nifer o gosbau penodedig a roddwyd i berchnogion a'r gwaith i amlygu cyfrifoldebau perchnogion cŵn.

Effaith Craffu – Argymell bod yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yn cysylltu gyda Chynghorwyr i gynnig cyflenwad o'r pecynnau bagiau baw cŵn i'w defnyddio yn eu cymunedau.

21. Cynllunio a Chymunedau Cymraeg

Sicrwydd o ran gweithrediad

Adnabuwyd yr angen i sicrhau bod y drefn gynllunio yn ystyried o ddifri effaith datblygiadau (mawr a man) ar gymunedau Cymraeg. Ystyriwyd y cyd-destun statudol a'r cyd-destun polisi cynllunio cenedlaethol a lleol.

Effaith Craffu – Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Gofyn i Lywodraeth Cymru i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg' er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.

Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio.

Ynghyd ag amlygu'r angen i gysylltu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor i'w hannog i ddatblygu hyfforddiant addas ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio; yr angen i atgoffa Cyngorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiad cynllunio lleol ei gael ar yr ardal; a rhoi ystyriaeth i gynnal hyfforddiant cynllunio ieithyddol i Gynghorwyr.

22. Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn

Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn

Ystyriwyd trosolwg o weithgareddau Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn am y cyfnod 2024/25.

Effaith Craffu – Derbyn sicrwydd o ran gwaith y Bartneriaeth dros y cyfnod ynghyd â blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. Argymell bod y Bartneriaeth yn ychwanegu gwaith ataliol mewn cyswllt â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth benodol ar gyfer y dyfodol.

23. Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd

Blaengraffwyd yr Adroddiad Blynyddol a oedd yn adrodd ar y cynnydd yn gweithredu'r Cynllun.

Effaith Craffu - Argymell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am yr hyn sy'n gyfrifol am y canrannau allyriadau carbon. Gofyn i Arweinydd y Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adolygu'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o brosesau caffael. Yn ogystal ag adnabod yr angen i'r pwyllgor graffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried.

24. Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Craffwyd trefniadau cyflawni'r Bwrdd ar gyfer 2024-25 yn seiliedig ar Gynllun Llesiant 2023-28 Gwynedd a Môn.

Effaith Craffu – Er mwyn sicrhau bod trefniadau cyflawni'r Bwrdd yn arwain at wireddu'r amcanion llesiant, amlygu'r angen i adroddiadau i'r dyfodol gynnwys gwybodaeth/data ar gynnydd o ran cyflawni.

25. Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd

Mae'r Cyngor yn datblygu rhwydwaith o dros gant o bwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan ar draws Gwynedd. Craffwyd y gwaith a gyflawnwyd hyd yma wrth ddatblygu rhwydwaith peiriannau gwefru, a'r hyn oedd ar y gweill dros y cyfnod nesaf.

Effaith Craffu - Argymhell y dylid bod isafswm o ddau bwynt gwefru ym mhob safle. Adnabod yr angen i dderbyn diweddariad gan gynnwys y Cynllun Busnes a gwybodaeth am y ddarpariaeth yn ardaloedd gwledig Gwynedd.

26. Toiledau Cyhoeddus

Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023

Craffwyd diweddariad ar weithrediad y Strategaeth Toiledau Cyhoeddus a oedd yn cynnwys y cynllun gweithredu, y ffynonellau ariannu i wella'r ddarpariaeth, yr amserlen ddiweddaraf o ran cyflwyno technoleg talu di-gyffwrdd a'r sefyllfa o ran incwm.

Effaith Craffu – Craffu cynnydd o ran gwireddu'r strategaeth.

27. Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol

Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024

Mae dyletswyddau statudol ar awdurdodau lleol i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Cyflwynwyd diweddariad ar y trefniadau rheoli ymylon ffyrdd gan gynnwys gwybodaeth am y contract torri gwair gwledig a'r treialon torri a chasglu i hyrwyddo anghenion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth.

Effaith Craffu – Cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC i ymestyn y treialon torri a chasglu i ardal Arfon.

Pwyllgor Craffu Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd,
Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

28. Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards – DoLS)

Mater ar y gofrestr risg

Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) yw'r weithdrefn gyfreithiol pan fo angen amddifadu unigolyn o'u rhyddid pan nad oes ganddynt y gallu (capasiti) i gytuno i'w gofal a'i driniaeth er mwyn eu cadw'n ddiogel rhag niwed. Mae'r her barhaus i gydymffurfio â dyletswyddau statudol yn ymwneud â DoLS yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa o risg o gael ei gosbi'n ariannol.

Effaith Craffu – Datgan gwir bryder am y sefyllfa ac amharoddrwydd i dderbyn y risg a amlygwyd yn yr adroddiad. Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion drafod ymhellach efo'r Adran a chreu cynllun gweithredu. Nodi dymuniad i dderbyn gwybodaeth bellach gan arbenigwr. (*gweler tudalen 22 am fwy o wybodaeth*)

29. Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24

Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol

Mae'r Panel Strategol Diogelu wedi ei sefydlu er mwyn edrych ar ddiogelu fel mater corfforaethol, trawsadrannol. Craffwyd gwaith y panel yn ystod 2023/24.

Effaith Craffu - Sicrhau bod trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn addas i bwrpas ac yn gadarn.

30. Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan

Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar

Bwriad y prosiect blaenoriaeth i'w gwella profiadau plant gydag anghenion dwys a chymhleth sydd yng ngofal y Cyngor ac ar hyn o bryd yn gorfod gadael y sir neu Gymru er mwyn cael darpariaeth addas. Nod y cynllun yw disodli'r angen i allanoli gyda darpariaeth a gyflenwir gan y Cyngor, gan lwyddo i ddarparu gofal preswyl i blant mewn gofal am gost sylweddol is na'r costau cyfartalog presennol.

Effaith Craffu – Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn digwydd i gyflawni'r prosiect blaenoriaeth. Amlygu'r angen i graffu ymhellach yn dilyn cyfnod o sefydlu'r ddarpariaeth.

31. Gwasanaeth Gofal Cartref

Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar

Craffwyd effeithiolrwydd y ddarpariaeth gofal cartref ar draws y sir gan roi sylw penodol i gynnal a gwella'r gwasanaeth i drigolion.

Effaith Craffu – Nodi pryder am y rhestrau aros am ofal cartref mewn rhai ardaloedd. Gofyn am ddata rhestrau aros ar draws y sir er mwyn galluogi cymharu ardaloedd. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion ddiweddarau'r Pwyllgor ar waith y Prosiect Gofal Cartref gan gynnwys gwybodaeth am leihau costau a gwella ansawdd data.

32. Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd

Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar

Pryder gan rai aelodau nad oes trafndiaeth ar gael i bobl sy'n byw gyda Dementia fynychu gofal dydd a bod hyn yn arwain at ynysu, diffyg cymdeithasu a diffyg egwyl i ofalwyr di-dâl/teulu. Craffwyd y ddarpariaeth gofal dydd presennol, y gefnogaeth ar gael i unigolion sy'n byw gyda dementia, y rhwystrau ac ystyriaethau, a'r camau nesaf.

Effaith Craffu - Datgan pryder nad yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws y Sir a phwysleisio pwysigrwydd rhoi egwyl i ofalwyr di-dâl. Gofyn am adroddiad pellach am yr adolygiad Polisi Trafnidiaeth ac adolygiad Gofal Dydd er mwyn i'r aelodau roi mewnbnw amserol.

33. Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Gweithdrefn Chwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant

Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal

Craffwyd Adroddiad Blynyddol ar weithrediad y Weithdrefn Sylwadau a Chwynion gan ystyried y trefniadau ar gyfer delio'n effeithiol â chwynion a dderbyniwyd gan ddefnyddwyr gwasanaeth a'u cynrychiolwyr.

Effaith Craffu – Derbyn sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal.

34. Polisi Codi Tâl am Ofal

Blaengraffu

Adroddwyd ar y bwriad i addasu'r polisi codi tâl am ofal er mwyn rhoi'r hawl i'r Cyngor godi ffioedd am rai gwasanaethau gofal a chymorth lle nad oes ffi wedi bod yn cael ei godi yn hanesyddol. Craffwyd yr argymhelliad i addasu'r polisi ac ymgynghori ar y mater, cyn i'r Cabinet i ddod i benderfyniad.

Effaith Craffu – Cytuno i'r egwyddor o ymchwil pellach i addasu'r polisi codi tâl am ofal. Gofyn am adroddiad manylach yn cynnwys union ffioedd i'w codi a'r fframwaith codi tâl.

35. Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol

Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd

Adnabuwyd yr angen i gael cyfarfod i ganolbwyntio ar y maes tai cymdeithasol. Derbyniwyd ymatebion i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw i'r Adran Tai ac Eiddo a'r cymdeithasau tai sydd yn gweithredu yng Ngwynedd. Bu i gynrychiolwyr o Adra, Clwyd Alyn, Grŵp Cynefin a Thai Gogledd Cymru fynychu.

Effaith Craffu – Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Trafodaeth adeiladol gyda phartneriaid allanol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl Gwynedd.

Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Tai ac Eiddo ac iddynt drafod gyda'r cymdeithasau tai o ran darparu ffurflen safonol i aelodau ei gwblhau ar ran tenantiaid pan fo angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys darparu pwyntiau cyswllt gwahanol.

Datgan pryder am ddiffyg mewnbwn gan y Cyngor pan fo cyfnewidiadau tai yn digwydd; goblygiadau posib 'Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru' i'r Polisi Gosod Tai; diffyg gostyngiad yn y niferoedd ar y Gofrestr Tai Cyffredin dros y deg mlynedd diwethaf; a'r nifer sy'n ddigartref yn y Sir.

36. Archwiliad ar y cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru a Archwilio Cymru – Hydref 2024

Sicrwydd bod gweithredu ar ganfyddiadau yr archwiliad

Rhoddwyd sylw i lythyr gan Arolygaeth Gofal Cymru 'Ymweliad Gwiriad Gwella â Chyngor Gwynedd – Gwasanaethau Oedolion' ac adroddiad Archwilio Cymru 'Gofal Cartref – Cyngor Gwynedd' ynghyd â'r rhaglenni gwaith i ymateb i'w hargymhellion.

Effaith Craffu - Trafodaeth gydag archwilwyr allanol am eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Craffu'r rhaglenni gwaith ac adnabod yr angen i dderbyn adroddiadau cynnydd er sicrhau gweithrediad.

37. Iechyd – cyfle i drafod pryderon amrywiol gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion

Derbyniwyd ymatebion gan gynrychiolwyr y Bwrdd Iechyd i gwestiynau a ddarparwyd ymlaen llaw. Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau pellach. Yn ystod y drafodaeth, trafodwyd materion megis gweledigaeth y Bwrdd Iechyd, doctoriaid a gwasanaethau dyddiol eraill, canoli gwasanaethau, gwasanaeth fasciwlar, iechyd meddwl a gwasanaethau ataliol canolraddol.

Effaith Craffu – Trafodaeth adeiladol gyda'r Bwrdd Iechyd gan amlygu materion sydd yn codi yn ein cymunedau.

38. Cynllun Gweithredu Tai

Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd

Nod y Cynllun Gweithredu Tai yw “Sicrhau bod gan bobl Gwynedd fynediad at gartref addas o safon, sy’n fforddiadwy ac sy’n gwella eu hansawdd bywyd”. Craffwyd cynnydd prif brosiectau’r Cynllun a’r camau nesaf.

Effaith Craffu – Sicrhau bod cynnydd ar wireddu’r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.

Gofyn i’r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ail edrych ar y cynllun Tŷ Gwynedd er mwyn ystyried os yw’n darparu gwerth am arian ac a ddylid buddsoddi’r arian mewn prosiect arall o fewn y Cynllun Gweithredu Tai.

39. Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd

Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar

Craffwyd cyfeiriad gwaith y Cyngor yn y maes yn dilyn cam cyntaf adolygiad o’r gwasanaeth a chynlluniau i sefydlu model gwaith newydd yn 2023/24. Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar y model gwaith newydd.

Effaith Craffu – Craffu gweithrediad yn dilyn ail-fodelu’r gwasanaeth.

40. Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth

Argymhelliaid yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar

Derbyniwyd adroddiad cynnydd ar raglen waith y Tîm Awtistiaeth. Manylwyd ar fynediad i wybodaeth a chynghor am y gwasanaethau sydd ar gael; cefnogaeth; materion gweithlu/hyfforddiant, gweithio mewn partneriaeth a’r sefyllfa gyllidol.

Effaith Craffu - Annog yr Aelodau Cabinet i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn holi am arian parhaol i’r Tîm Awtistiaeth.

Gellir gweld rhaglenni a chofnodion cyfarfodydd y Pwyllgorau Craffu o dan y linc yma –

www.gwynedd.llyw.cymru/craffu

Ymchwiliad Craffu

Yn dilyn cymeradwyaeth y Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau, mabwysiadodd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi briff ar gyfer **Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion** ar [13 Chwefror 2025](#).

Yr aelodau sydd wedi bod yn ymgymryd â gwaith yr ymchwiliad yw:

- Y Cyngorwyr Dawn Lynne Jones, Cai Larsen, Gwynfor Owen a Richard Glyn Roberts
- Aelod Cyfetholedig - Sharon Roberts (Cynrychiolydd Rhieni / Llywodraethwyr Arfon)

Y prif gwestiwn mae'r ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

'A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu'n gyson?'

Etholwyd y Cyngorydd Cai Larsen yn Gadeirydd yr ymchwiliad yn y cyfarfod cyntaf.

Cynhaliwyd cyfres o bedwar cyfarfod ar ddechrau'r ymchwiliad er mwyn deall gofynion cyfreithiol ac ystyried ymarfer da ym maes diogelu mewn ysgolion.

Dyma'r cwestiynau allweddol y rhoddwyd sylw iddynt:

- ❖ Beth yw'r gofynion gan gynnwys arweiniad mewn cylchlythyrau a chanllawiau ynghylch 'gofynion diogelu' mewn ysgolion?
- ❖ Beth yw trefniadau diogelu ar gyfer ysgolion yng Ngwynedd?
- ❖ Sut mae'r cydweithio rhwng ysgolion/yr Adran Addysg a'r Adran Plant yn gweithio?
- ❖ Beth yw canfyddiadau/barn Estyn (y rheoleiddwyr yn y maes) ar drefniadau yn ysgolion Gwynedd?
- ❖ A oes esiamplau o ymarfer da yn genedlaethol, a sut y byddai trefniadau diogelu o'r radd flaenaf yn edrych mewn ysgolion? (hy sut y gellir sicrhau trefniadau da)
- ❖ Beth mae'r ysgolion yn ddweud am eu trefniadau diogelu a'r gefnogaeth gan yr awdurdod – a oes themâu penodol?

Byddwn yn adrodd ymhellach ar waith yr ymchwiliad yn yr adroddiad blynyddol nesaf yn dilyn cyflwyno adroddiad drafft yr ymchwiliad craffu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Datblygiadau 2024-25

Yn adroddiad blynyddol 2023/24, nodwyd y bwriad i gyflwyno newidiadau i'n trefniadau ymarferol yn ystod 2024/25 yn dilyn adolygiad o'n trefniadau gan Archwilio Cymru a hyfforddiant 'Arfer Gorau Pwyllgorau Craffu' a ddarparwyd gan hyfforddwyr allanol.

Cydweithiodd y Fforwm Craffu a'r swyddogion craffu i ddatblygu newidiadau ymarferol i'n trefniadau craffu er mwyn gwneud defnydd mwy effeithiol o amser yng nghyfarfodydd y pwyllgorau craffu.

Dyma fanylu ar y gwahanol elfennau sydd gyda'i gilydd yn ymgais i gryfhau ein trefniadau ymhellach gyda'r nod o sicrhau craffu effeithiol.

CYFARFODYDD ANFFURFIOL

ER MWYN GWELLA FFOCWS AC EFFAITH Y CYFARFODYDD ANFFURFIOL – TREIALU
CYFARFODYDD AR LEIN, AWR O HYD, TUA 5 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD NESAF

Ffocws ar gwestiynau

- Cyfle i finio i'r cwestiynau a gyflwynwyd i'r gweithdai.
- Y cwestiynau yn sail i'r adroddiad i'r pwyllgor.
- Tempel adroddiad craffu newydd i gefnogi hyn.
- Cwestiynau lleol – Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ychwanegu fel cwestiwn i'w ateb yn yr adroddiad.

Asesu Perfformiad / Effaith Craffu

- Asesu effaith craffu gan sgorio fesul eitem ar y bwrdd dartiau.
- Hunan arfarnu gweithrediad y pwyllgor a dysgu wrth fynd ymlaen.

Adrodd yn ôl

- Cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd herio perfformiad/grwpiau craffu/fforymau/byrddau i adrodd yn ôl.

CYFARFODYDD BRIFFIO

CYFARFODYDD BRIFFIO CYN Y PWYLLGOR I GYCHWYN AM 10 O'R GLOCH A FFOCWS AR Y STRATEGAETH GWESTIYNU

Strategaeth Gwestiynu

- Amser digonol i fynd drwy'r strategaeth gwestiynu fesul eitem ac adnabod pwy sy'n gofyn beth.
- Gwirio os wedi adnabod yr holl wahanol elfennau sydd angen eu craffu.
- Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ofyn yn y pwyllgor.

PWYLLGOR

CWESTIYNU CRAFF CYN DOD I BENDERFYNIAD OS YW'R PWYLLGOR WEDI EI FODLONI NEU OES ANGEN GWNEUD ARGYMHELLION CAMPUS

Cyflwyniadau

- Sefydlu trefn mai 5 MUNUD YN UNIG sydd gan Aelod Cabinet neu Bennaeth i gyflwyno eitem yn y Pwyllgor (gan fod pawb wedi paratoi a darllen o flaen llaw).
- Dim pasio'r baton i swyddogion wedyn, swyddogion i ateb cwestiynau yn unig.
- Cadeirydd i agor y drafodaeth h.y. symud ymlaen i gwestiynau yn dilyn 5 munud.

Ffocws fesul eitem

- Bydd y cyfarfod briffio yn galluogi'r pwyllgor i roi ffocws ar gwestiynau.
- Dylid peidio cyflwyno barn, rhoi sylwadau neu ail adrodd – rôl i Aelodau unigol a'r Cadeirydd.
- Ceisio neilltuo amser penodol i eitem a chadw at hynny.

Argymhellion

- Penderfynu os yn gyfforddus gyda'r cyfeiriad neu a oes angen argymhelliad penodol.

Byddwn yn ystyried effaith y newidiadau i'n trefniadau ymarferol ac os oes angen eu haddasu yn ystod 2025/26.

Trefniadau Tracio

Un o'r argymhellion a oedd yn deillio o adolygiad Archwilio Cymru i effeithlonrwydd ein trefniadau craffu oedd:

"Dylid cryfhau'r broses o adrodd ar benderfyniadau pwyllgorau craffu a mabwysiadu trefn olrhain ffurfiol, er mwyn cael y gwerth am arian gorau ac amlygu'n gyhoeddus cyfraniad y gyfundrefn craffu i drefniadau llywodraethu'r Cyngor."

Roedd trefniadau anffurfiol i dracio argymhellion craffu yn bodoli eisoes. Rhoddodd y Fforwm Craffu ystyriaeth i sefydlu trefn dracio ffurfiol gan ddod i'r casgliad y dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau craffu bob 6 mis. Rhannwyd diweddariad ar benderfyniadau / argymhellion ers Mai 2022 gyda'r aelodau ym mis Rhagfyr 2024.

Gweler isod esiampl o effaith craffu yn deillio o'r gwaith tracio:

"Ym mis Mehefin 2024, bu i mi gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal i rannu' risg mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu o ran ein sefyllfa Amddifadu Rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Roedd penderfyniad unfrydol nad oedd yr Aelodau'n fodlon derbyn y risg i'r Cyngor a bu cais i ail edrych ar y sefyllfa a chanfod datrysiad.

'Rwy'n falch o adrodd bod bid llwyddiannus wedi ei gyflwyno i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau ar sail barhaol. Bydd y swyddi hyn, ynghyd â'r grant blynyddol gan Llywodraeth Cymru yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael a'r rhestr aros a sicrhau bod y risgiau i'r Cyngor yn lleihau'n sylweddol.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y gefnogaeth a byddwn yn falch o roi diweddariad pellach unwaith y bydd y swyddi ychwanegol wedi cael effaith."

**Pennaeth Cynorthwyol Oedolion: Diogelu, Sicrwydd
Ansawdd, Iechyd Meddwl
a Diogelwch Cymunedol**

Herio Perfformiad

Mae cyfarfodydd herio perfformiad yn cael eu cynnal bob yn ail fis (ac eithrio mis Ebrill a mis Awst), fesul maes gwaith adrannau'r Cyngor.

Yn 2024/25, bu i gynrychiolwyr y pwyllgorau craffu dderbyn gwahoddiad i ddau gyfarfod, er mwyn:

- ❖ Cael blas o faint o afael sydd ar faterion perfformiad o fewn yr adrannau unigol.
- ❖ Adnabod, os oes angen, unrhyw faterion perfformiad allai deilyngu sylw mewn pwyllgor craffu ffurfiol maes o law.

Dyma'r aelodau a fynychodd cyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2024/25:

Addysg	Economi	Gwasanaethau Corfforaethol a Cyfreithiol	Cyllid
Beth Lawton Gwynfor Owen <u>wrth gefn</u> Jina Gwyrfai	Iwan Huws Dewi Owen <u>wrth gefn</u> Jina Gwyrfai	Cai Larsen Huw Rowlands	Cai Larsen Beth Lawton

Amgylchedd	Prifffyrdd, Peirianeg a YGC
Llio Elenid Owen (tan 9 Rhagfyr 2024) Rhys Tudur (tan 5 Rhagfyr 2024)	Stephen Churchman a Rob Triggs <u>wrth gefn</u> - Arwyn Roberts

Oedolion, Iechyd a Llesiant	Plant a Chefnogi Teuluoedd	Tai ac Eiddo
Meryl Roberts Einir Wyn Williams	Gwynfor Owen Einir Wyn Williams	Menna Baines Dewi Jones (tan 9 Rhagfyr 2024)

Bydd y trefniadau yn newid yn 2025/26 gyda'r drefn o gynrychiolwyr craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yn dod i ben. Cyflwynir adroddiadau perfformiad i'w craffu yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu ddwywaith y flwyddyn o Fehefin 2025 ymlaen. Y bwriad yw gwella tryloywder gan ddisodli'r drefn o adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

Hyfforddiant

Fel yr adroddwyd eisoes, ar gychwyn y gweithdai craffu cynhaliwyd hyfforddiant i aelodau'r pwyllgorau craffu ar faterion i'w hystyried wrth flaenoriaethu a oedd yn cynnwys:

PWRPAS CRAFFU DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL

CWESTIYNAU STRATEGOL

CRAFFU ADWEITHIOL

DERBYN SICRWYDD A/NEU GWNEUD ARGYMHELLION

ARGYMHELLION CAMPUS

CRAFFU RHAGWEITHIOL

YSTYRIED Y DULL GORAU O GRAFFU

EFFAITH CRAFFU

Cynhaliwyd hyfforddiant ar gyfer darpar gadeiryddion ac is-gadeiryddion ym mis Mai 2024. Manylwyd yn yr hyfforddiant ar yr agweddau cyfreithiol, rôl cadeiryddion a materion ymarferol o ran cadeirio cyfarfodydd pwyllgor.

Cyfeiriwyd at yr eitemau safonol ar raglenni pwyllgor – ymddiheuriadau, datgan buddiant personol, materion brys, cofnodion (er cywirdeb yn unig). Ymhelaethwyd ar y drefn o wneud penderfyniadau gan gynnwys sut i ddelio gyda gwelliant i gynnig. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau bod cworwm (o leiaf chwarter aelodau'r pwyllgor sydd â phleidlais yn bresennol) trwy gydol y cyfarfod er mwyn i'r cyfarfod barhau.

Manylwyd ar beth sydd yn gwneud Cadeirydd da:


- ❖ Paratoi yn drylwyr
- ❖ Trafod cefnogaeth yr is-gadeirydd a'r swyddogion perthnasol o flaen llaw
- ❖ Mynychu'r ystafell bwyllgor pan fo cyfarfod yn gyfarfod aml-leoliad os yn bosib
- ❖ Gosod y sefyllfa – croesawu, cyflwyno, esboniadau i'r cyhoedd, cadw at y rhaglen, bod yn glir
- ❖ Gweithredu'n broffesiynol

Nodwyd bod angen i'r Is-gadeirydd fod yn barod i gamu i mewn i gadeirio cyfarfod ar unrhyw adeg. Ac felly, bod angen iddynt baratoi yn yr un modd â'r cadeirydd. Awgrymwyd iddynt ddefnyddio eu hamser fel is-gadeirydd i ystyried sut y byddent yn ymateb a rheoli'r cyfarfod ym mhob sefyllfa.

Wrth edrych ymlaen at 2025/26, mae'r angen i gynnal hyfforddiant i aelodau craffu ar graffu perfformiad wedi ei adnabod a threfnir i'w ddarparu cyn cyfarfodydd cyntaf y pwyllgorau.

Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25


41 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol. (43 llynedd, 33 blwyddyn cynt)



45 aelod (allan o 59 sy'n bosib) wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn




Canrannau - Rheswm dros Graffu



Nifer o gyfarfodydd Fforwm Craffu wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn



Nifer o eitemau a graffwyd mewn cyfarfod



Rhaglen Waith Craffu 2024-25

PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG AC ECONOMI

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
18/07/24	- Adroddiad Blynnyddol GwE - Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwella Ysgolion - Trefniadau Diogelu mewn ysgolion - Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035	Eitem Blynnyddol / Sicrwydd
		Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol
		Sicrwydd o ran y trefniadau
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus
17/10/24	- Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn - Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynnyddoedd cynnar - Strategaeth Llesiant Staff	Adroddiad Archwiliwr Allanol
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory
		Blaengraffu / Craffu cefnogaeth llesiant staff
12/12/24	- Cyllidebau Refeniw Ysgolion - Cludiant Addysg	Effaith ar ysgolion Gwynedd
		Gorwariant yn y maes
13/02/25	- Cynllun Economi Gwynedd - Polisi Iaith Addysg – Y Drefn Ymgysylltu - Cyfundrefn Addysg Drochi - Briff Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion	Blaengraffu / Cynllun Strategol
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg
		Ymchwiliad Craffu
10/04/25 Tud. 147	- Gwasanaeth Ieuenctid - Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig - Polisi Iaith Addysg	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory
		Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol
		Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg

PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
16/05/24	- Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus - Clwyf Gwywiad yr Onnen	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd
		Mater ar y gofrestr risg
12/09/24	- Ffioedd Parcio - Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus - Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu - Gorchmynion Rheoli Cŵn	Blaengraffu
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Sicrwydd o ran gweithrediad
07/11/24	Cynllunio a Chymunedau Cymraeg	Sicrwydd o ran gweithrediad
23/01/25	- Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn - Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24 - Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn	Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn
		Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
20/03/25	- Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan - Toiledau Cyhoeddus - Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd
		Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023
		Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024

PWYLLGOR CRAFFU GOFAL

Dyddiad	Eitemau	Rheswm dros graffu
13/06/24	- Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS) - Adroddiad Blynnyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24 - Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan	Mater ar y gofrestr risg
		Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol
		Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar
26/09/24	- Gwasanaeth Gofal Cartref - Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd - Adroddiad Blynnyddol 2023-24 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant - Polisi Codi Tâl am Ofal	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Ofalgar
		Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar
		Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal
		Blaengraffu
21/11/24	Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd
20/02/25	- Archwiliad ar y cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru a Archwilio Cymru – Hydref 2024 - Iechyd – cyfle i drafod pryderon amrywiol gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Sicrwydd bod gweithredu ar ganfyddiadau yr archwiliad
		Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion
03/04/25	- Cynllun Gweithredu Tai - Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd - Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd
		Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar
		Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar

FERSIWN CRYNO

Adroddiad Blynyddol Craffu 2024/25



Gweithdai Craffu

Yn mis Ebrill 2024, cynhaliwyd gweithdai i lunio rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2024/25 fesul Pwyllgor Craffu. Cyn i'r Fforwm Craffu roi trosolwg ar y rhaglen waith yn ei gyfanrwydd.

Dyma'r ffactorau a rhoddwyd sylw iddynt wrth flaenoriaethu eitemau ar gyfer y flwyddyn:

- A yw'r mater yn effeithio ar gyfran helaeth o'r boblogaeth?
- A yw craffu yn gallu gwneud gwahaniaeth / cael dylanwad? (pobl / gwasanaeth / perfformiad)
- A yw'r mater yn amserol i'w graffu?
- Ydi'r mater yn flaenoriaeth i'r Cyngor?
- A ydym yn glir beth ydym yn ceisio ei wella?

Fforwm Craffu

Cyfarfod Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu, ei rôl yw i :

- Gyngori ar FLAENORIAETHU eitemau i'w craffu (mwyaf yn craffu ffurfiol gyda nifer fechan o ymchwiliadau) gan herio sail adnabod eitemau i'w craffu.
- Adnabod y dull craffu mwyaf effeithiol o fewn yr adnoddau sydd ar gael (craffu ffurfiol / ymchwiliad)
- Adnabod eitemau sydd er gwybodaeth, gan geisio osgoi defnyddio trefniadau craffu i gyflawni'r rôl rhannu gwybodaeth.
- Asesu cyfraniadau'r pwyllgorau unigol ac asesu EFFAITH y gwaith craffu, gan adolygu ein trefniadau craffu yn barhaus.

Cynhaliwyd pedwar cyfarfod yn ystod 2024/25, lle rhoddwyd ystyriaeth i'r rhaglen waith craffu; datblygiadau yn y maes craffu; trefniadau craffu Cyd-Bwyllgor Corfforedig y Gogledd; cynnwys yr adroddiad blynyddol; a blaenoriaethwyd adnoddau i gynnal Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion a Grŵp Tasg a Gorffen - Polisi Iaith Addysg Drafft.

EITEMAU SYDD WEDI EU CRAFFU YN YSTOD 2024/25

Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi

Adran Addysg, Adran Economi a Chymuned, GwE, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Tîm Arweinyddiaeth a Chyfreithiol, Adran Gwasanaethau Corfforaethol, Adran Gyllid, Gweithrediad Mewnol y Cyngor a Partneriaethau

Eitem	Rheswm dros graffu	Effaith Craffu
Adroddiad Blynyddol GwE	Eitem Blynyddol / Sicrwydd	Craffu ar ddiwedd cyfnod gan wneud sylwadau am yr hyn sydd wedi ei gyflawni.
Adolygiad Haen Ganol – Gwasanaeth Gwellu Ysgolion	Mewnbwn i'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol	Mewnbwn buan gan y Pwyllgor Craffu i'r modd y caiff y gwasanaeth gwella ysgolion ei ddarparu i'r dyfodol.
Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion	Sicrwydd o ran y trefniadau	Argymhellwyd bod yr Adran Addysg yn darparu canllaw syml o ran cyfeirio pryderon er defnydd pawb sy'n ymwneud â'r gyfundrefn, megis llywodraethwyr a rhieni. Adnabuwyd yr angen i ystyried edrych ymhellach ar y maes hwn ac fe wnaeth hyn arwain at sefydlu'r Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion.

Cynllun Economi Ymweld Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Lewyrchus	Gofynnwyd i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri wneud pob ymdrech i ymgynghori gyda'r cynghorwyr sir lle mae hynny'n briodol. Hefyd, bod yr Adran Economi a Chymuned, wrth wneud gwaith ymchwil, yn edrych ar y materion penodol a godwyd gan y pwyllgor ynglŷn â data ac ati.
Adroddiad cynnydd ar ymateb i argymhellion Estyn	Adroddiad Archwiliwr Allanol	Derbyn sicrwydd bod gwaith yn cael ei wneud mewn ymateb i'r heriau yn y maes a phenderfynu bod angen craffu'r maes yn y dyfodol er sicrhau cynnydd.
Trawsnewid addysg ar gyfer plant yn eu blynyddoedd cynnar	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory	Nodi pryder ynglŷn â diffyg adnoddau i symud y gwaith ymlaen. Y pwyllgor yn croesawu'r bwriad i gydweithredu'n ehangach gydag asiantaethau eraill perthnasol ac yn gofyn am ddiweddariad.
Strategaeth Llesiant Staff	Blaengraffu / Craffu cefnogaeth Llesiant staff	Sicrhau bod y strategaeth yn cyfarch yr heriau o ran ôl-effaith cyfnod y pandemig ymysg y gweithlu a chostau absenoldebau staff oherwydd salwch. Nodi pryder ynglŷn â'r lefelau uchel o absenoldebau staff gan ofyn bod diweddariadau ar y strategaeth yn y dyfodol yn manylu ar ddata penodol, megis cymhariaeth dros gyfnodau, ac ati.
Cyllidebau Refeniw Ysgolion	Effaith ar ysgolion Gwynedd	Derbyn cadarnhad o sefyllfa gyllidol ysgolion Gwynedd yn gyffredinol. Atgyfnerthu'r angen i'r pwyllgor graffu'r Strategaeth Addysg ddrafft pan yn amserol.

Cludiant Addysg	Gorwariant yn y maes	Amlygu'r angen i fod yn ymwybodol o anghenion penodol rhai grwpiau o blant wrth gynllunio'r ddarpariaeth. Nodi pwysigrwydd darpariaeth teithio i'r coleg ar gyfer pobl ifanc yn Nwyfor a Meirionnydd. Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg gysylltu gyda Llywodraeth Cymru yng nghyswllt cyflwyno tocyn teithio am ddim i bobl ifanc 16-21 oed er mwyn lleihau'r pwysau ar y Cyngor i ddarparu trafnidiaeth am ddim, ac i hwyluso teithio i'r gwaith, i goleg neu chweched dosbarth.
Cynllun Economi Gwynedd	Blaengraffu / Cynllun Strategol	Mewnbwn craffu ar gyfeiriad y gwaith ac amlygu materion pellach y dylid eu hystyried wrth greu'r Cynllun. Penderfynwyd y byddai'r Pwyllgor yn craffu'r cynllun drafft yn ystod 2025/26.
Polisi Iaith Addysg – Y Drefn Ymgysylltu a'r Polisi Drafft	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg	Adnabod yr angen i edrych yn fanylach ar y Polisi Iaith Addysg Drafft. Gwneud cais i'r Fforwm Craffu i flaenoriaethu adnoddau ar gyfer ffurfio grŵp tasg a gorffen, gyda'r briff i edrych ar eiriad y polisi drafft gan ystyried os oes angen gwneud awgrymiadau i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg, ac adrodd yn ôl i'r pwyllgor yng nghyfarfod 19 Mehefin 2025.
Cyfundrefn Addysg Drochi	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Gymraeg	Penderfynu craffu Cynllun Gweithredu Argymhellion Gwella'r Gyfundrefn Addysg Drochi.
Gwasanaeth Ieuenctid	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Yfory	Argymhell i'r Aelod Cabinet / Adran Addysg bod angen sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws y Sir; adnabod ffyrdd o ymgysylltu'n ehangach gyda phobl ifanc ac yn arbennig grwpiau penodol o bobl ifanc; bod angen ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gyda'r bwriad i

		gynyddu'r nifer o glybiau cymunedol; a bod angen parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau'r ddarpariaeth orau.
Anghenion Dysgu Ychwanegol yn y prif lif ac Ysgolion Arbennig	Craffu'r ddarpariaeth addysg anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	Gofyn i'r Aelod Cabinet Addysg edrych ar ffyrdd o wella'r ddarpariaeth a hwyluso pethau i blant yn y prif lif sydd gydag anghenion dwys ond sydd ddim yn cyrraedd y trothwy i dderbyn cefnogaeth; edrych ar ffyrdd i barhau i warchod y gyllideb i ysgolion arbennig a monitro bod arian yn cael ei wario yn briodol ac yn dilyn y canllawiau; ohebu gyda Llywodraeth Cymru i ddatgan pryder am ddiffyg arian ac adnoddau sydd ar gael ar gyfer ADY a'r heriau sy'n wynebu ysgolion.

Pwyllgor Craffu Cymunedau

Adran Amgylchedd, Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC (Ymgynghoriaeth Gwynedd), Cynllun Datblygu Lleol, Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, Trosedd ac Anrhefn a'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur

Eitem	Rheswm dros graffu	Effaith Craffu
Cyfarwyddyd Erthygl 4 – Ymgynghoriad Cyhoeddus	Blaengraffu / Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd	Blaengraffu yn drylwyr er sicrhau bod ystyriaeth ddigonol wedi ei roi i wahanol ffactorau. Argymhell i'r Cabinet y dylid cadarnhau'r cyfarwyddyd.
Clwyf Gwywiad yr Onnen	Mater ar y gofrestr risg	Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn cael ei wneud i liniaru'r risg.

Ffioedd Parcio	Blaengraffu	Argymell i'r Cabinet y dylid ystyried cynyddu ffioedd parcio yn flynyddol neu bob dwy flynedd gan roi ystyriaeth i sefyllfa chwyddiant; ni ddylid addasu'r trefniadau gorfodaeth yn y meysydd parcio arhosiad byr oherwydd yr effaith ar yr economi leol; dylid ystyried cynyddu ffioedd ymhellach ym meysydd parcio mewn ardaloedd twristiaeth penodol; a dylid ystyried cynyddu ffioedd safleoedd Arosfan yn flynyddol.
Datblygiadau yn y maes Cludiant Cyhoeddus	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd	Amlygu'r angen i gynnwys yr aelodau lleol mor fuan â phosib wrth ystyried newidiadau i wasanaethau bws a bod angen cryfhau'r trefniadau ymgynghori gyda chymunedau.
Gwasanaethau Casglu Gwastraff ac Ailgylchu	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd	Sicrhau bod cynnydd ar wireddu'r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor.
Gorchmynion Rheoli Cŵn	Sicrwydd o ran gweithrediad	Argymell bod yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC yn cysylltu gyda Chynghorwyr i gynnig cyflenwad o'r pecynnau bagiau baw cŵn i'w defnyddio yn eu cymunedau.
Cynllunio a Chymunedau Cymraeg	Sicrwydd o ran gweithrediad	Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Gofyn i Lywodraeth Cymru i adolygu 'Polisi Cynllunio Cymru' a 'Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20: Cynllunio a'r Gymraeg' er mwyn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn cael ystyriaeth briodol.

		Gofyn i'r Cymdeithasau Tai ddarparu data i'r Cyngor er mwyn asesu gwybodaeth am yr iaith Gymraeg ym maes cynllunio. Ynghyd ag amlygu'r angen i gysylltu gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgol Bangor i'w hannog i ddatblygu hyfforddiant addas ar gyfer asesu effaith ieithyddol datblygiadau cynllunio; yr angen i atgoffa Cyngorau Cymuned a Thref o'u rhyddid i gyflwyno sylwadau am effaith ieithyddol posib gall datblygiad cynllunio lleol ei gael ar yr ardal; a rhoi ystyriaeth i gynnal hyfforddiant cynllunio ieithyddol i Gynghorwyr.
Diweddariad Blynyddol gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd a Môn	Rôl y Pwyllgor fel Pwyllgor Trosedd ac Anrhefn	Derbyn sicrwydd o ran gwaith y Bartneriaeth dros y cyfnod ynghyd â blaenoriaethau a chyfeiriad y gwaith i'r dyfodol. Argymhell bod y Bartneriaeth yn ychwanegu gwaith ataliol mewn cyswllt â throseddau rhywiol yn flaenoriaeth benodol ar gyfer y dyfodol.
Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur: Adroddiad Blynyddol 2023/24	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd	Argymhell y dylid cynnwys mwy o wybodaeth yn yr Adroddiad Blynyddol am yr hyn sy'n gyfrifol am y canrannau allyriadau carbon. Gofyn i Arweinydd y Cyngor lobïo Llywodraeth Cymru yng nghyswllt adolygu'r fethodoleg o fesur allyriadau carbon sy'n deillio o brosesau caffael. Yn ogystal ag adnabod yr angen i'r pwyllgor graffu casgliadau adolygiad o'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur cyn i'r Cabinet ei ystyried.
Adroddiad Cynnydd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwynedd ac Ynys Môn	Rôl y Pwyllgor i graffu gwaith y BGC	Er mwyn sicrhau bod trefniadau cyflawni'r Bwrdd yn arwain at wireddu'r amcanion llesiant, amlygu'r angen i adroddiadau i'r dyfodol gynnwys gwybodaeth/data ar gynnydd o ran cyflawni.

Cyflwyno pwyntiau gwefru cyhoeddus ar gyfer cerbydau trydan	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Werdd	Argymell y dylid bod isafswm o ddau bwynt gwefru ym mhob safle. Adnabod yr angen i dderbyn diweddariad gan gynnwys y Cynllun Busnes a gwybodaeth am y ddarpariaeth yn ardaloedd gwledig Gwynedd.
Toiledau Cyhoeddus	Blaengraffu / Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 5 Hydref 2023	Craffu cynnydd o ran gwireddu'r strategaeth.
Torri Gwair a Chynnal Ymylon Ffyrdd Sirol	Dilyniant yn dilyn craffu yng nghyfarfod 22 Chwefror 2024	Cefnogi bwriad yr Adran Priffyrdd, Peirianeg a YGC i ymestyn y treialon torri a chasglu i ardal Arfon.

Pwyllgor Craffu Gofal

Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd, Iechyd a'r Adran Tai ac Eiddo

Eitem	Rheswm dros graffu	Effaith Craffu
Gallu'r Cyngor i weithredu Cynllun Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (Deprivation of Liberty Safeguards - DoLS)	Mater ar y gofrestr risg	Datgan gwir bryder am y sefyllfa ac amharodrwydd i dderbyn y risg a amlygwyd yn yr adroddiad. Gofyn i'r Aelod Cabinet Oedolion drafod ymhellach efo'r Adran a chreu cynllun gweithredu. Nodi dymuniad i dderbyn gwybodaeth bellach gan arbenigwr.

Adroddiad Blynyddol y Panel Strategol Diogelu 2023/24	Sicrwydd o ran y trefniadau diogelu corfforaethol	Sicrhau bod trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor yn addas i bwrpas ac yn gadarn.
Datblygu darpariaeth breswyl i blant mewn gofal mewn grŵp bychan	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar	Derbyn sicrwydd bod cynnydd yn digwydd i gyflawni'r prosiect blaenoriaeth. Amlygu'r angen i graffu ymhellach yn dilyn cyfnod o sefydlu'r ddarpariaeth.
Gwasanaeth Gofal Cartref	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar	Nodi pryder am y rhestrau aros am ofal cartref mewn rhai ardaloedd. Gofyn am ddata rhestrau aros ar draws y sir er mwyn galluogi cymharu ardaloedd. Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet Oedolion ddiweddarau'r Pwyllgor ar waith y Prosiect Gofal Cartref gan gynnwys gwybodaeth am leihau costau a gwella ansawdd data.
Darpariaeth dementia a thrafnidiaeth i rai sydd gyda dementia i fynychu gofal dydd	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar	Datgan pryder nad yw'r ddarpariaeth yn gyson ar draws y Sir a phwysleisio pwysigrwydd rhoi egwyl i ofalwyr di-dâl. Gofyn am adroddiad pellach am yr adolygiad Polisi Trafnidiaeth ac adolygiad Gofal Dydd er mwyn i'r aelodau roi mewnbwn amserol.
Adroddiad Blynyddol 2023-24 - Gweithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau - Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Oedolion, Iechyd a Llesiant	Sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal	Derbyn sicrwydd o ran y trefniadau ar gyfer delio gyda chwynion ym maes gwaith gofal.

Polisi Codi Tâl am Ofal	Blaengraffu	Cytuno i'r egwyddor o ymchwil pellach i addasu'r polisi codi tâl am ofal. Gofyn am adroddiad manylach yn cynnwys union ffioedd i'w codi a'r fframwaith codi tâl.
Cyfarfod penodol i graffu y maes tai cymdeithasol	Cynllun y Cyngor 2023-28 - Gwynedd Glyd	Enghraifft o arfer da wrth ganolbwyntio ar un maes. Trafodaeth adeiladol gyda phartneriaid allanol er mwyn sicrhau cydweithio effeithiol er mwyn diwallu anghenion pobl Gwynedd. Gofyn am wybodaeth ychwanegol gan yr Adran Tai ac Eiddo ac iddynt drafod gyda'r cymdeithasau tai o ran darparu ffurflen safonol i aelodau ei gwblhau ar ran tenantiaid pan fo angen gwaith cynnal a chadw gan gynnwys darparu pwyntiau cyswllt gwahanol. Datgan pryder am ddiffyg mewnbwn gan y Cyngor pan fo cyfnewidiadau tai yn digwydd; goblygiadau posib 'Papur Gwyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd yng Nghymru' i'r Polisi Gosod Tai; diffyg gostyngiad yn y niferoedd ar y Gofrestr Tai Cyffredin dros y deg mlynedd diwethaf; a'r nifer sy'n ddigartref yn y Sir.
Archwiliad ar y cyd gan Arolygaeth Gofal Cymru a Archwilio Cymru – Hydref 2024	Sicrwydd bod gweithredu ar ganfyddiadau yr archwiliad	Trafodaeth gydag archwilwyr allanol am eu canfyddiadau a'u hargymhellion. Craffu'r rhaglenni gwaith ac adnabod yr angen i dderbyn adroddiadau cynnydd er sicrhau gweithrediad.
Iechyd – cyfle i drafod pryderon amrywiol gyda chynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr	Pryder yn y gymuned a'r effaith ar drigolion	Trafodaeth adeiladol gyda'r Bwrdd Iechyd gan amlygu materion sydd yn codi yn ein cymunedau.

Cynllun Gweithredu Tai	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Glyd	Sicrhau bod cynnydd ar wireddu'r prosiect blaenoriaeth yng Nghynllun y Cyngor. Gofyn i'r Aelod Cabinet Tai ac Eiddo ail edrych ar y cynllun Tŷ Gwynedd er mwyn ystyried os yw'n darparu gwerth am arian ac a ddylid buddsoddi'r arian mewn prosiect arall o fewn y Cynllun Gweithredu Tai.
Gwasanaeth Iechyd Meddwl Gwynedd	Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar	Craffu gweithrediad yn dilyn ail-fodelu'r gwasanaeth.
Adroddiad Cynnydd ar Raglen Waith Tîm Awtistiaeth	Argymhelliad yn deillio o waith Grŵp Tasg a Gorffen / Cynllun y Cyngor 2023-28 – Gwynedd Ofalgar	Annog yr Aelodau Cabinet i ysgrifennu i Lywodraeth Cymru yn holi am arian parhaol i'r Tîm Awtistiaeth.

Ymchwiliad Craffu

Yn dilyn craffu trefniadau diogelu mewn ysgolion yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 18 Gorffennaf 2024, adnabuwyd yr angen i edrych ar y maes mewn mwy o fanylder.

Mabwysiadwyd briff ar gyfer Ymchwiliad Craffu Trefniadau Diogelu mewn Ysgolion ar [13 Chwefror 2025](#).

Y prif gwestiwn mae'r ymchwiliad yn ei gyfarch yw:

‘A yw trefniadau diogelu yn ysgolion y sir yn briodol ac yn cael eu gweithredu’n gyson?’

Cynhaliwyd cyfres o bedwar cyfarfod ar ddechrau'r ymchwiliad er mwyn deall gofynion cyfreithiol ac ystyried ymarfer da ym maes diogelu mewn ysgolion. Mae gwaith yr ymchwiliad yn parhau. Byddwn yn adrodd ymhellach ar waith yr ymchwiliad yn yr adroddiad blynyddol nesaf yn dilyn cyflwyno adroddiad drafft yr ymchwiliad craffu i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Datblygiadau 2024–25

CYFARFODYDD ANFFURFIOL

ER MWYN GWELLA FFOCWS AC EFFAITH Y CYFARFODYDD ANFFURFIOL – TREIALU CYFARFODYDD AR LEIN, AWR O HYD, TUA 5 WYTHNOS CYN Y CYFARFOD NESAF

Ffocws ar gwestiynau

- Cyfle i finio'r cwestiynau a gyflwynwyd i'r gweithdai.
- Y cwestiynau yn sail i'r adroddiad i'r pwyllgor.
- Tempel adroddiad craffu newydd i gefnogi hyn.
- Cwestiynau lleol – Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ychwanegu fel cwestiwn i'w ateb yn yr adroddiad.

Asesu Perfformiad / Effaith Craffu

- Asesu effaith craffu gan sgorio fesul eitem ar y bwrdd dartiau.
- Hunan arfarnu gweithrediad y pwyllgor a dysgu wrth fynd ymlaen.

Adrodd yn ôl

- Cynrychiolwyr yng nghyfarfodydd herio perfformiad/grwpiau craffu/fforymau/byrddau i adrodd yn ôl.

CYFARFODYDD BRIFFIO

CYFARFODYDD BRIFFIO CYN Y PWYLLGOR I GYCHWYN AM 10 O'R GLOCH A FFOCWS AR
Y STRATEGAETH GWESTIYNU

Strategaeth Gwestiynu

- Amser digonol i fynd drwy'r strategaeth gwestiynu fesul eitem ac adnabod pwy sy'n gofyn beth
- Gwirio os wedi adnabod yr holl wahanol elfennau sydd angen eu craffu
- Cyfle i holi os oes materion lleol, sydd, o'u cyfuno, yn codi thema a chwestiwn strategol i'w ofyn yn y pwyllgor.

PWYLLGOR

CWESTIYNU CRAFF CYN DOD I BENDERFYNIAD OS YW'R PWYLLGOR WEDI EI FODLONI
NEU OES ANGEN GWNEUD ARGYMHELLION CAMPUS

Cyflwyniadau

- Sefydlu trefn mai 5 MUNUD YN UNIG sydd gan Aelod Cabinet neu Bennaeth i gyflwyno eitem yn y Pwyllgor (gan fod pawb wedi paratoi a darllen o flaen llaw).
- Dim pasio'r baton i swyddogion wedyn, swyddogion i ateb cwestiynau yn unig.
- Cadeirydd i agor y drafodaeth h.y. symud ymlaen i gwestiynau yn dilyn 5 munud.

Ffocws fesul eitem

- Bydd y cyfarfod briffio yn galluogi'r pwyllgor i roi ffocws ar gwestiynau.
- Dylid peidio cyflwyno barn, rhoi sylwadau neu ail adrodd – rôl i Aelodau unigol a'r Cadeirydd.
- Ceisio neilltuo amser penodol i eitem a chadw at hynny.

Argymhellion

- Penderfynu os yn gyfforddus gyda'r cyfeiriad neu a oes angen argymhelliad penodol.

Herio Perfformiad

Mynychodd cynrychiolwyr y pwyllgorau craffu gyfarfodydd herio perfformiad yn ystod 2024/25. Bydd y trefniadau yn newid yn 2025/26 gyda'r drefn o gynrychiolwyr craffu yn mynychu cyfarfodydd herio perfformiad yn dod i ben. Cyflwynir adroddiadau perfformiad i'w craffu yn gyhoeddus mewn cyfarfodydd pwyllgorau craffu ddwywaith y flwyddyn o Fehefin 2025 ymlaen. Y bwriad yw gwella tryloywder gan ddisodli'r drefn o adroddiadau perfformiad yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet.

Trefniadau Tracio

Rhoddodd y Fforwm Craffu ystyriaeth i sefydlu trefn dracio ffurfiol gan ddod i'r casgliad y dylid rhannu'r wybodaeth gyda'r aelodau craffu bob 6 mis. Rhannwyd diweddariad ar benderfyniadau / argymhellion ers Mai 2022 gyda'r aelodau ym mis Rhagfyr 2024.

Gweler isod esiampl o effaith craffu yn deillio o'r gwaith tracio:

"Ym mis Mehefin 2024, bu i mi gyflwyno adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Gofal i rannu' risg mae Cyngor Gwynedd yn ei wynebu o ran ein sefyllfa Amddifadu Rhag Colli Rhyddid (DoLS).

Roedd penderfyniad unfrydol nad oedd yr Aelodau'n fodlon derbyn y risg i'r Cyngor a bu cais i ail edrych ar y sefyllfa a chanfod datrysiad.

'Rwy'n falch o adrodd bod bid llwyddiannus wedi ei gyflwyno i gyflogi 2 Asesydd Budd Gorau ar sail barhaol. Bydd y swyddi hyn, ynghyd â'r grant blynyddol gan Llywodraeth Cymru yn ein cynorthwyo i fynd i'r afael a'r rhestr aros a sicrhau bod y risgiau i'r Cyngor yn lleihau'n sylweddol.

Hoffwn ddiolch i'r Aelodau am y gefnogaeth a byddwn yn falch o roi diweddariad pellach unwaith y bydd y swyddi ychwanegol wedi cael effaith."

**Pennaeth Cynorthwyol Oedolion: Diogelu, Sicrwydd
Ansawdd, Iechyd Meddwl
a Diogelwch Cymunedol**


Mae'r holl wybodaeth am y gwaith craffu yn 2024-25 ar gael yn fersiwn llawn

yr Adroddiad Blynyddol ar wefan y Cyngor –

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/craffu>

Ffeithiau am Graffu yng Ngwynedd yn 2024/25


41 eitem wedi eu craffu mewn cyfarfodydd ffurfiol. (43 llynedd, 33 blwyddyn cynt)



45 aelod (allan o 59 sy'n bosib) wedi bod yn rhan o wneud y gwaith craffu pwysig yn ystod y flwyddyn




Canrannau Rheswm dros Graffu



Nifer o gyfarfodydd Fforwm Craffu wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn



Nifer o eitemau a graffwyd mewn cyfarfod



CYFARFOD	Cyngor Llawn
DYDDIAD	2 Hydref 2025
TEITL	Adolygiad o'r Cynllun Dirprwyo
DIBEN YR ADRODDIAD	I Mabwysiadu Diwygiadau i'r Cynllun Dirprwyo Adran 13 Rhan 3 Materion Eiddo
ARGYMHELLIAD	Bod y Cyngor yn mabwysiadu y diwygiadau o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn a chaffael a gwaredu eiddo
AWDUR	Iwan Evans – Swyddog Monitro

Rheswm am ofyn am benderfyniad

1. Mae angen adolygu y rhan yma o'r Cyfansoddiad oherwydd yn newidiadau sylweddol mewn gwerth eiddo a natur trafodaethau tir y Cyngor Gwynedd.

Cefndir

2. Fe welir y trefniadau cyfredol ar gyfer dirprwyo materion Eiddo yn y Cyfansoddiad yn Atodiad 1. Mae bellach yn ddarpariaeth sydd wedi dyddio yn sylweddol. Mae natur y trafodaethau tir sydd yn digwydd erbyn hyn a niferoedd yn golygu fod angen adolygu yr hawliau dirprwyedig. Mae elfennau hefyd sydd yn aneglur o ran ystyr e.e 3.12 "lleiniau bach yn unig".
3. O ystyried cynlluniau dirprwy awdurdodau eraill mae hefyd yn amlwg fod y rhain yn fwy hyblyg ac yn perthnasu eu hunain i drafodaethau tir ehangach a mwy sylweddol.
4. Gyda chymorth yr Adran Tai ac Eiddo mae gwybodaeth ystadegol wedi ei gasglu yn dangos y newid sydd wedi bod yn y farchnad eiddo.

	1996	2025
Gwerth Cyfartaledd Tŷ yng Nghymru	£41,000	£207,000
Gwerth Cyfartaledd acer o dir amaethyddol yng Nghymru	£1,500	£7,200

O wybodaeth yn y rhestr asedau a thiroedd mae'r Cyngor wedi gwerthu ers 2007 (280) mae 115 wedi bod am swm o £25,000 neu uwch, gyda 40 am werthoedd dros £100,000. Wrth gwrs mae yna eraill am swm enwol.

5. Gellir gweld felly fod lle i ystyried gwneud newidiadau i'r Cynllun dirprwyo er cyfarch y newidiadau yma
6. Yn Atodiad 2 fe welir y geiriad amgen sydd yn cael ei gynnig . Mae'r rhain wedi eu datblygu mewn cydweithrediad agos gyda'r Adran Tai ac Eiddo a'r Tim Cyfreithiol.
7. Os nad yw trawsgludiad yn cyrraedd y meini prawf yna yn arferol drwy benderfyniad aelod Cabinet y gweithredir y penderfyniad. Ar faterion sydd o bwys strategol neu yn sylweddol na gall hyn fod yn benderfyniad Cabinet.

8. Yn ogystal mae amodau cyffredinol sydd ar ddefnydd pwerau dirprwyedig gan Swyddogion yn perthnasu i'r mater yma hefyd. Amlygir y rhain yn Atodiad 3.

Ystyrir fod yr addasiadau yma yn taro balans cywir rhwng gallu gweithio yn effeithiol i gefnogi gwireddu amcanion y Cyngor ond yn sicrhau priodoldeb ac atebolrwydd.

Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w gyfarfod ar Fedi 11.

Penderfynodd y Pwyllgor:

Derbyn yr adroddiad yn cefnogi diwygiadau arfaethedig i'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn a chaffael gwaredu eiddo ac argymell i'r Cyngor Llawn i gymeradwyo'r newidiadau.

Argymhelliad

Bod y Cyngor yn mabwysiadu y diwygiadau o'r Cynllun Dirprwyo i Swyddogion ynglŷn a chaffael a gwaredu eiddo .

Swyddog Monitro

Awdur yr adroddiad

Prif Swyddog Cyllid

“Mae cynnwys yr adroddiad wedi bod yn destun trafodaeth rhyngof â'r Swyddog Monitro wrth ddatblygu'r addasiad. Credaf fod y addasiadau i'r Cyfansoddiad a argymhellir yn rhesymol ac yn ystyried newidiadau economaidd, ariannol a gweithdrefnol ers cymeradwyo'r fersiwn flaenorol. Nid oes gennyf wrthwynebiad i'r penderfyniad a geisir o safbwynt priodoldeb ariannol.

ATODIAD 1

- 3.12 Awdurdodir pob prif swyddog i brynu eiddo sydd ei angen ar gyfer gwelliannau o fewn cyllideb yr adran (e.e. priffyrdd, lleiniau bychain yn unig).
- 3.13 Awdurdodi pob prif swyddog i ar werthu neu waredu lleiniau o dir a/neu adeiladau sy'n berchen i'r gwasanaeth yn dilyn ymgynghoriad gyda'r aelod(au) lleol ac ar delerau i'w cytuno gan y Rheolwr Eiddo Corfforaethol ac yn amodol ar y canlynol.
- (a) Lle gwerthir rhyddfraint, fod gwerth y tir yn llai na £25,000.
 - (b) Lle gosodir y tir drwy brydles neu denantiaeth, bod y rhent blynyddol yn llai na £10,000.
 - (c) ym mhob achos os bydd yr aelod(au) lleol yn gwrthwynebu, cyfeirir y mater at y Cabinet am benderfyniad.
 - (ch) nad yw'r gwerthiant neu warediad yn groes i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.

ATODIAD 2

3.13-Awdurdodi pob prif swyddog i weithredu mewn cysylltiad a chaffael neu waredu tiroedd neu adeiladau ar delerau i'w cytuno gan Bennaeth Tai ac Eiddo ac yn amodol ar y canlynol :

- a. Pe gaffaelir tir neu adeiladau nad yw'r gydnabyddiaeth yn uwch na gwerth y farchnad am yr eiddo.
- b. Pe gwaredir tir neu eiddo nad yw'r cydnabyddiaeth islaw y gorau y gellir yn rhesymol ei dderbyn.
- c. Ble gwaredir tir neu adeilad fod ymgynghori ymlaen llaw gyda'r aelodau lleol ar gyfer y ward ble saif yr eiddo ac os byddent yn gwrthwynebu, cyfeirir y mater at y Cabinet am benderfyniad.
- ch. Nad yw'r gweithrediad yn groes i Gynllun Rheoli Asedau'r Cyngor.
- d. Lle gwaredir tir neu adeilad drwy rhyddfraint neu les am bremiwm mae'r amcan gydnabyddiaeth yn llai na £100,000;
- dd. Lle prynir rhyddfraint neu les drwy bremiwm mae'r amcan gydnabyddiaeth am y tir yn llai na £250,000
- e. Lle gosodir y tir drwy brydles neu denantiaeth nad yw'r amcan rent blynyddol yn llai na rhent y farchnad ac eithrio gweithredu cynlluniau hybu defnydd eiddo sydd yn caniatáu cynnig amodau islaw rhent masnachol am gyfnod.
- f. Lle caffaelir tir neu eiddo drwy brydles mae'r amcan rhent blynyddol yn £25,000 neu lai ac mae'r Pennaeth Adran wedi cadarnhau y gyllideb am gyfnod y les;

- 3.14 Yn ddarostyngedig i (a) (b) a (ch) uchod awdurdodir pob prif swyddog i adnewyddu neu gytuno i adnewyddu unrhyw brydles sydd yn bodoli eisoes (ble mae'r Cyngor y Denant neu yn Landlord).
- 3.15 Caniateir l'r Pennaeth Tai ac Eiddo mewn ymgynghoriad a'r Prif Swyddog Cyllid a Swyddog Monitro weithredu unrhyw benderfyniad gan Gyd Bwyllgor neu gorff arall i gaffael neu waredu tir neu adeilad ble mae'r Cyngor yn gweithredu ar eu rhan fel awdurdod lletyo neu gyffelyb. Mae hyn yn amodol fod hyn yn unol a chyfansoddiad y Cyd Bwyllgor neu gorff arall ac o fewn amodau cytundeb cyd-weithio perthnasol.

Mae'r pwerau a'r amodau hyn heb ragfarn l unrhyw ddirprwyaethau penodol a ddarperir ar eu cyfer yn y Cyfansoddiad neu gan benderfyniadau penodol,

Yn unol a'r y cyd destun golygai "caffael" neu "waredu" drwy ryddfaint neu les neu denantiaeth.

Ble cyfeirir at werth ariannol golygai hyn yr amcan werth a sefydlir a chofnodir wrth benderfynu symud ymlaen i gaffael neu waredu.

Ystyr "premiwm" yn cymal yma yw cyfandaliad am les.

ATODIAD 3

2. Amodau a chyfyngiadau ar weithredu pwerau dirprwyedig

- 2.1 Awdurdodir pob prif swyddog i weithredu ar ran y Cyngor yn unol â'r cynllun hwn mewn perthynas ag unrhyw fater o fewn y gwasanaethau y bo ef/hi yn gyfrifol amdanynt OND YN DDAROSTYNGEDI i'r canlynol:-
- 2.1.1 y polisiau a gymeradwywyd gan y Cyngor neu'r Cabinet;
- 2.1.2 unrhyw fater sydd wedi ei gadw i'r Cyngor, Cabinet, Pwyllgor neu is-bwyllgor neu sydd wedi ei ddirprwyo i Arweinydd;
- 2.1.3 Cyfansoddiad y Cyngor (gan gynnwys Rheolau Gweithdrefn y Cyngor, y Rheolau Gweithdrefn Ariannol a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau).
- 2.2 Lle byddai gweithredu pwerau dirprwyedig yn debygol o effeithio ar ragor nag un gwasanaeth rhaid i brif swyddog ymgynghori ag unrhyw brif swyddog arall y gellid effeithio ar y gwasanaeth y mae'n gyfrifol amdano.
- 2.3 Heb ragfarn i'w bwerau/phwerau dirprwyedig neu rai'r Pwyllgor perthnasol, ac mewn achosion priodol yn unig, dylai bob prif swyddog wrth weithredu ei bwerau/phwerau:-
- 2.3.1 gadw cysylltiad agos gyda'r Cabinet ac, yn benodol, â'r aelodau hynny o'r Cabinet sydd yn dal portffolio mewn meysydd perthnasol i'r pwnc dan sylw a hefyd roi sylw digonol i unrhyw sylwadau o eiddo'r pwyllgorau craffu perthnasol i'r mater dan sylw;
- 2.3.2 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu gwybyddu'r aelodau lleol;

2.3.3 sicrhau ei b/fod yn ymgynghori â/neu'n gwybyddu'r Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid y Cyngor a Swyddog Monitro'r Cyngor.

2.4 Cyn gweithredu unrhyw bŵer dirprwyedig dylai bob prif swyddog ystyried a yw'r Penderfyniad sydd i'w wneud yn gyfryw fel y dylid ei gyfeirio i'r Cabinet, bwyllgor neu is-bwyllgor priodol i'w benderfynu.

2.5 Wrth benderfynu a ddylid cyfeirio mater i'r Cabinet, pwyllgor neu is-bwyllgor bydd prif Swyddog yn rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol:-

2.5.1 fel arfer bydd penderfyniadau ar faterion technegol neu broffesiynol dydd i ddydd yn digwydd heb gyfeirio at aelodau;

2.5.2 rhaid ystyried barn yr aelod lleol, arweinydd portffolio a'r Prif Weithredwr; os bydd penderfyniad yn debyg o gael effaith sylweddol ar ddelwedd y Cyngor neu'n debyg o dderbyn sylw anffafriol yn y wasg bydd rhagdybiaeth o blaid ei gyfeirio at aelodau.

2.6 Bydd unrhyw swyddogaethau newydd a ddaw'n gyfrifoldeb i'r Cyngor yn cael eu cynnwys oddi fewn y cynllun hwn heb yr angen i'w ddiwygio gan y Cyngor llawn ac os cyfyd unrhyw amheuaeth ynglŷn â pha brif swyddog sy'n derbyn y swyddogaeth newydd bydd y Prif Weithredwr yn penderfynu.

CYFARFOD	Y Cyngor Llawn
DYDDIAD	2 Hydref 2025
TEITL YR ADRODDIAD	Arolygon Cymunedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013
ARGYMHELLIAD	Fod y Cyngor yn cymeradwyo : (1) y Cynigion Terfynol dan adrannau 25 a 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 a chyhoeddi'r Adroddiadau Terfynol (2) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasnaethau Cyfreithiol wneud a selio'r Gorchymyn ar gyfer Adolygiad Adran 31 (3) Cyflwyno argymhellion ar gyfer newid dan Arolwg Adran 25 i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol Cymru
AELOD CABINET	Cyng Llio Elenid Owen
AWDUR	Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau

1. Ar 6 Mawrth 2025 cymeradwyodd y Cyngor gynigion drafft o dan adrannau 25 a 31 Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013 ('y Ddeddf') er mwyn ymgynhgori arnynt. Adroddir yn ôl ar ganlyniad y cyfnod ymgynhori gan gyflwyno argymhellion terfynol i'w cymeradwyo.

Cefndir

Beth yw Cymuned?

2. At ddibenion yr adroddiad hwn, uned llywodraeth leol islaw lefel cyngor sir neu fwrdeistref sirol (y 'prif gyngor') yw 'cymuned'. Mae ardaloedd cymunedol yn gorchuddio Cymru gyfan. Mae ardal Gwynedd wedi ei rhannu'n 64 cymuned, gyda chynghor cymuned, tref neu ddinas etholedig yn gwasanaethu pob un. Yn y cyd-destun hwn yr un yw statws cyfreithiol y cynghorau beth bynnag y'i gelwir, h.y. maent i gyd yn cael eu hystyried yn 'cynghorau cymuned'. Gall cymunedau yn eu tro gael eu rhannu'n wardiau at ddibenion etholiadol ond nid yw hyn yn anorfod, ac nid yw pob cymuned yng Ngwynedd wedi eu rhannu'n wardiau.

Beth yw Rôl y Cyngor?

3. Fel prif gyngor mae dyletswydd statudol ar Gyngor Gwynedd, o dan Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 i fonitro'r cymunedau o fewn y sir, a threfniadau etholiadol y cymunedau hynny. Rhaid iddo hefyd gynnal 'arolygon cymunedol' pan fo'r Ddeddf yn mynnu, neu pan fydd yn ystyried bod hynny'n briodol. Wrth gyflawni'r dyletswyddau hyn rhaid i'r Cyngor o hyd geisio sicrhau llywodraeth leol effeithiol a chyfleus.

Beth yw Arolwg Cymunedol?

4. Mae hyn yn golygu fod y prif gyngor yn edrych ar ffiniau cymunedau a/neu'r trefniadau etholiadol fewn y cymunedau. Mae dau fath o arolwg cymunedol y dylai'r Cyngor ystyried eu cynnal felly:

a. Arolwg o ffiniau cymunedau (o dan adran 25 o'r Ddeddf)

Arolwg o ffiniau un neu fwy o gymunedau i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu hunaniaeth yr ardal dan sylw ac yn hwyluso llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. Gellir argymhell newidiadau i ffiniau cymunedau, sy'n cynnwys newidiadau i ffin cymuned bresennol, neu ddiddymu cymuned bresennol a chreu cymuned newydd. Cyflwynir yr argymhellion i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru, sydd â'r hawl i wneud y gorchymyn fyddai'n dod a'r newidiadau i rym.

b. Arolwg o'r trefniadau etholiadol (o dan adran 31 o'r Ddeddf)

Mae hyn yn golygu edrych ar y trefniadau etholiadol o fewn cymuned benodol sef, yn gwyno, y sefyllfa o safbwynt wardiau a nifer y cynghorwyr. Y Cyngor fyddai'n gwneud y gorchymyn i ddod â'r newidiadau yma i rym.

Y Broses ac Amserlen

5. Mae'r broses statudol y mae'n rhaid ei dilyn wrth gynnal arolwg cymunedol yr un fath, i raddau helaeth, ar gyfer y ddau fath o arolwg cymunedol. Dim ond o ran y canlyniad yr arolwg, a'i weithredu, y mae'n wahanol. Gan y Cyngor mae'r grym i wneud gorchymyn i weithredu newidiadau i drefniadau etholiadol cymunedau ond bydd rhaid cyflwyno argymhellion i'r Comisiwn, fel yr awdurdod gweithredu, i wneud unrhyw newidiadau i ffiniau cymuned.

6. Mae'r Ddeddf yn gosod pedwar cam hanfodol i'r broses:

- Cyhoeddusrwydd cychwynnol
- Ymchwiliad ac ymgynghoriad cychwynnol - diben y cam hwn yw galluogi prif gyngor i gasglu'r wybodaeth y bydd arno ei hangen wrth ystyried a pharatoi unrhyw gynigion ar gyfer newid)
- Cynigion drafft (ac ymgynghoriad ar y cynigion hynny); ac
- Argymhellion Terfynol

7. Ar 7 Mawrth 2024 cymeradwyodd y Cyngor gynnal arolygon cymunedol o dan adrannau 25 a 31 y Ddeddf ynghyd â chylch gorchwyl ac amserlen. Oherwydd i Etholiad Cyffredinol y DU gael ei alw ar fyr rybudd ym mis Mehefin 2024 nid oedd modd bwrw mlaen gyda'r ymchwiliad a'r ymgynghoriad cychwynnol fel y bwriadwyd a bu raid addasu'r amserlen fel canlyniad . Mae'r amserlen ddiwygiedig isod.

Amserlen

Cam	Cam Gweithredu	Dyddiad
-----	----------------	---------

Cymeradwyo cynnal Arolwg	Y Cyngor yn cymeradwyo egwyddor yr Arolwg Cymunedol a'i Gylch Gorchwyl.	
Cyhoeddusrwydd Cychwynnol ac Ymgynghoriad 1	Cynnal cyhoeddusrwydd cychwynnol a chyhoeddi cylch gwaith. Dechrau Cyfnod ymgynghori o chwe wythnos ar y Cylch Gwaith yn dechrau gyda chyhoeddi Cylch Gorchwyl yr Adolygiad.	11/11/24
Ymgynghoriad Cyhoeddus yn dod i ben		20/12/24
Ystyried y sylwadau a pharatoi Cynigion Drafft		Ionawr/Chwefror 2025
Cymeradwyo Cynigion Drafft	Cynigion Drafft i'w hystyried gan y Cyngor a'u cymeradwyo ar gyfer ymgynghori pellach	Cyngor Llawn 6 Mawrth 2025
Ymgynghoriad 2	Cyhoeddi'r adroddiad yn unol â gofynion y Ddeddf a gwahodd sylwadau gan yr ymgynghorai gorfodol a budd-ddeiliad perthnasol eraill (8 wythnos)	Mawrth /Ebrill 2025
Ystyried y sylwadau a pharatoi adroddiad terfynol i'r Cyngor Llawn	Cyngor i benderfynu ar yr argymhellion terfynol	Cyngor Llawn Hydref 2025
Cyhoeddi argymhellion terfynol fel y cytunwyd	Cyhoeddi'r Adroddiad terfynol (1) Gwneud y Gorchymyn ar gyfer yr Arolwg adran 31 (6 wythnos ar ôl cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol) (2) Cyflwyno argymhellion Arolwg adran 25 i'r Comisiwn	Hydref/Tachwedd 2025
Gorchmynion yn dod i rym	Etholiadau Llywodraeth Leol nesaf	Mai 2027

Ymatebion i Ymgynghoriad 1

8. Gwelir yr ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad cychwynnol yn **Atodiad 1**

Yr Ymgynghoriad ar y Cynigion Drafft (Ymgynghoriad 2)

9. Cymeradwydd y Cyngor Gynigion Drafft ar 06/03/25, a chyhoeddwyd Adroddiad Cynigion Drafft yn unol â gofynion y Ddeddf a rhoddwyd cyhoedduswydd i'r ffaith y gellir cyflwyno cynrychioliadau i'r awdurdod yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus. Fe'i anfonwyd at yr ymgynghoreion a ragnodir yn y Ddeddf, sy'n cynnwys pawb a ymatebodd ar y cam rhagarweiniol. Yn ogystal â'r ymgynghoreion gorfodol anfonwyd at y canlynol

- Y Cyngorau Cymuned
- Y Cyngorwyr Sir
- Aelodau o'r Senedd
- Aelodau Seneddol
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg

10. Cynhaliwyd cyfnod ymgynghori o wyth wythnos rhwng 28/05/25 a 23/05/25 (gall fod am gyfnod o rhwng 6-12 wythnos o dan y Ddeddf).

11. Ysgrifennwyd at y cyngorau cymuned ac aelodau Cyngor Gwynedd yn ystod y cyfnod ymgynghori i'w hatgoffa o'r dyddiad cau, gan egluro wrth y cyngorau cymuned y gallent gysylltu pe bai amseriad eu cyfarfodydd yn ei gwneud yn anodd i ymateb erbyn y dyddiad cau.

Yr Arolwg o Drefniadau Etholiadol (adran 31)

12. Cymeradwydd y bwriad i edrych yn benodol ar y cwestiwn a ddylid rhannu cymunedau i wardiau cymunedol at ddibenion etholiadau i'r cyngor cymuned. Gwnaed hyn gan ystyried, yn unol ag adran 33 o'r Ddeddf, a yw nifer neu ddosbarthiad etholwyr y gymuned yn golygu y byddai un etholiad o gynghorwyr cymuned yn anymarferol neu'n anghyfleus, ac a yw'n ddymunol i unrhyw ran o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned.

13. O safbwynt gweinyddiaeth etholiad mae goblygiadau i fodolaeth wardiau o fewn cymuned lle, mewn etholiad, ceir mwy o ymgeiswyr nag o seddi mewn un ward, tra nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi pob sedd mewn ward arall. Golyga hyn fod rhaid cynnal etholiad ar gyfer un ward er y ffaith, wrth edrych ar y cyngor cymuned yn ei gyfanrwydd, nad oes digon o ymgeiswyr i lenwi pob sedd. Yn ogystal â'r gost i'r cyngor cymuned o gynnal etholiad, gall gymhlethu'r broses o enwebu i'r cyngorau a'r swyddogion etholiadol.

14. Ffactor arall sydd wedi ei hystyried yw sefyllfa wardiau mewn perthynas â'r wardiau sirol. Mewn sefyllfa lle bydd wardiau cymunedol o fewn yr un ward sirol bydd rhagdybiaeth y dylid eu diddymu i geisio sicrhau cysondeb yn y broses etholiadol, oni bai bod rheswm arall dros eu cadw.

15. Wedi dweud hyn, mae'r broses yn gofyn am bwysu'r ystyriaethau yma yn erbyn unrhyw resymau penodol pam y byddai'n addas i ran o'r gymuned gael ei chynrychioli ar wahân ar y cyngor cymuned a bod felly gyfiawnhad dros gadw wardiau. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i gyflwyno resymau o'r fath fel y gellir eu hystyried.

Y Cynigion Terfynol – Arolwg o Drefniadau Etholiadol

16. Paratowyd y Cynigion Drafft ar sail yr ystyriaethau uchod ynghyd ag unrhyw ymatebion a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad cyntaf.

Mae'r Cynigion Drafft, yr ymatebion a dderbynwyd iddynt yn Ymgynghoriad 2 ynghyd ag unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Cynigion Drafft yn sgil yr ymaethbion hyn i'w gweld yn

Atodiad 2. Argymhellir cymeradwyo'r Cynigion Drafft fel Cynnigion Terfynol yn ddarostyngedig i'r newidiadau a wnaed fel canlyniad i'r sylwadau a dderbyniwyd, ac sydd wedi eu nodi yn y golofn olaf.

Yr Adolygiad Ffiniau (adran 25)

17. Cymeradwywyd cynnal arolwg o ffiniau cymunedau penodol lle amlygwyd rheswm posib dros newid. Yn aml bydd hyn yn briodol yn sgil newidiadau fel datblygiadau tai newydd neu anghysondebau fel strydoedd neu eiddo sydd wedi eu gwahanu oddi wrth weddill eu cymuned naturiol.

Y Cynigion Terfynol – Adolygiad Ffiniau

18. Yn **Atodiad 3** gwelir y Cynigion Drafft, manylion yr ymatebion a dderbyniwyd a'r Cynigion Terfynol yr argymhellir eu mabwysiadu fel yr argymhellion terfynol ar gyfer newid, i'w cyflwyno i'r Comisiwn.

Y Camau Nesaf

Arolwg Adran 31 – Trefniadau Etholiadol

19. Y Cyngor sydd a'r hawl i weithredu'r newidiadau arfaethedig a ddisgrifir yn ei adroddiad terfynol drwy wneud gorchymyn. Fodd bynnag mae'r Ddeddf yn mynnu bod rhaid aros 6 wythnos o gyhoeddi'r adroddiad terfynol cyn gwneud gellir gwneud y gorchymyn. Bydd rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol yn electroneg a sicrhau ei fod ar gael i'w archwilio yn swyddfa'r Cyngor am gyfnod o o leiaf 6 wythnos. Rhaid hefyd anfon copi at yr ymgynghoreion statudol, yr Arolwg Ordnans a Gwenidogion Cymru, yn ogystal â hysbysu unrhyw un sydd wedi cyflwyno tystiolaeth neu sylwadau sut i gael gafael ar gopi o'r adroddiad.

20. Wrth wneud gorchymyn bydd rhaid rhoi rhoi ystyriaeth i unrhyw gynrychioliadau a wneir gan unrhyw berson a dderbynnir gan y Cyngor yn ystod y cyfnod o 6 wythnos yn dechrau gyda dyddiad cyhoeddi'r adroddiad.

Arolwg Adran 25 – Ffiniau Cymunedau

21. Bydd rhaid cyhoeddi'r Adroddiad Terfynol yn yr un modd. Fodd bynnag, y Comisiwn yw'r 'awdurdod gweithredu' ar gyfer arolygon ffiniau adran 25 ac felly ar ôl cwblhau eiarolwg, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno ei 'argymhellion ar gyfer newid' i'r Comisiwn. Ar ôl derbyn yr adroddiad fe all y Comisiwn:

- Weithredu'r argymhellion heb addasiadau

- Weithredu'r argymhellion gydag addasiadau y cytunir arnynt gyda'r Cyngor.
- Dewis cynnal ei arolgw ei hun
- Dewis peidio a chymryd unrhyw gamau

Asesiad Effaith Cydraddoldeb

22. Nid welir fod unrhyw oblygiadau uniongyrchol yn deillio o'r argymhellion yn yr adroddiad hwn. Mae'r awdurdod yn cynnal adolygiad statudol penodol ar wahân o ardaloedd a gorsafoedd pleidleisio, sy'n cynnwys ystyriaethau hygyrchedd a mynediad. Fel rhan o'r broses honno mae'n rhaid i'r awdurdod, cyn belled ag y bo hynny'n rhesymol ac yn ymarferol, ddynodi mannau sy'n hawdd i etholwyr sydd ag anableddau eu cyrraedd.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

23. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ynglŷn â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff cyhoeddus sydd wedi ei anelu at gyflawni 7 o nodau lesiant sef Cymru sydd yn llewyrchus, gydnherth, iachach, mwy cyfartal gyda chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu ac sy'n gyfrifol ar lefel byd eang. Bydd y Gwaith yn cael ei gynnal gan ddal sylw at y gofynion yma ac unol a'r 5 ffordd o weithio

Argymhellion

24. Cymeradwyo'r Cynigion Terfynol dan adran 31 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a nodir yn yr adroddiad hwn, a chyhoeddi'r Adroddiad Terfynol.

25. Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol i wneud a selio'r Gorchymyn dan adran 31.

26. Cymeradwyo'r argymhellion terfynol ar gyfer newid dan adran 25 o Ddeddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 a nodir yn yr adroddiad hwn i'w cyflwyno i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Lleol Cymru, a chyhoeddi'r Adroddiadau Terfynol

Barn y Swyddogion Statudol

Swyddog Monitro

Mae'r adroddiad wedi ei pharatoi gan y Gwasanaethau Cyfreithiol. Rwy'n fodlon gyda priodoldeb yr adroddiad.

Prif Swyddog Cyllid

Dim sylwadau o safbwynt priodoldeb ariannol.

Arolwg Cymuned 2024

Crynodeb o Ymatebion i Ymgynghoriad 1

(11/11/24 - 20/12/24)

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

Trigolion Fferm Pant y Buarth, Brynrefail, LL55 3PA eisiau pleidleisio yn ward Brynrefail yn hytrach na Deiniolen. Trigolion Caer Bythod, Clwt y bont, LL55 3DE eisiau pleidleisio yn Ward Deiniolen yn hytrach na Brynrefail.

Cyngor Tref Abermaw

Dim angen newidiadau.

Cyngor Tref Caernarfon

Nad yw'n gwneud synnwyr i uno cynghorau gan fod Caernarfon yn ardal drefol ac yn uned naturiol.

Byddai'n gall i gadw'r wardiau fel y maen nhw gan eu bod yn cyd-fynd a wardiau'r Cyngor Sir. Os byddai trefn wardiau'r Cyngor Sir yn newid dyna fyddai'r adeg i ystyried wardiau'r Cyngor Tref.

Pwysleisio'r costau etholiadol ychwanegol all godi i'r Cyngor Tref petai ei wardiau ddim yng nghyd-fynd gyda wardiau'r Cyngor Sir Ei bod hi'n bwysicach denu pobl i ymwneud a'r drefn democratiaeth yn lle ffidlan gyda ffiniau.

Cyngor Cymuned Dolbenmaen:

Byddai wedi bod yn fanteisiol i Gwynedd ofyn yn benodol set o gwestiynau i gynghorau cymuned ateb. Hefyd maent yn diffinio be olygir wrth gymuned ond ddim yn gwneud yr un peth ar gyfer wardiau.

Mae'n debygol os nad oes mater yn codi o ran ffiniau lleol yna ni fydd cynnig i wneud addasiad? Byddai cael safbwynt y cyngor wedi bod yn fuddiol i ysgogi trafodaeth? Hyd yn oed os mai'r bwriad yw cadw pob dim yr un peth. O ran nifer cynghorwyr yna eto oes ganddynt gynnig penodol i ni ystyried - byddai hynny wedi bod yn fuddiol."

Gyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Talybont

Yn dilyn cyfarfod diweddar o Gyngor Cymuned Dyffryn Ardudwy a Thalybont trafodwyd yr arolwg uchod gan yr Aelodau a cytunwyd gofyn a fyddai modd gwaredu y ddwy ward sef ward Llanenddwyn a Llanddwywe a gwneud un ward a fyddai yn cael ei adnabod fel ward Dyffryn Ardudwy a Thalybont.

Y rheswm am hyn oedd bod yr Aelodau yn gweld bod rhai o Aelodau y Cyngor sydd yn cynrychioli ward Llanenddwyn yn byw yn ward Llanddwywe a ffordd arall rownd ag felly ddim yn gweld llawer o reswm i gael dwy ward erbyn hyn.

Cyngor Tref Criccieth

Mae Cyngor Tref Criccieth yn cadarnhau bod y Cyngor Tref yn hapus gyda'r ffin a'r drefn etholiadol yn y dref, i gynnwys nifer Cyngorwyr.

Cyngor Cymuned Y Felinheli

Cadarnhau bod y Cyngor yn awyddus i gynnwys y cyfeiriadau sydd ar hyn o bryd yng Nghymuned Pentir ond gyda Cod Post Y Felinheli I fod yng Nghymuned y Felinheli hefyd.

Aelod Lleol Morfa Nefyn a Thudweiliog

Addasu ffiniau y wardiau cymunedol mewn perthynas â Stad Maes Terfyn.


ARFON							
CYMNEDAU COMMUNITIES	WARDIAU CYNIGION DRAFFT WARDS DRAFT PROPOSALS	NIFER CYNGHORWYR NO.OF COUNCILLORS	ETHOLWYR ELECTORS	DOSBARTHAD AU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS	Disgrifiad o'r newid / Description of Change	Ymatebion /Responses	Newidiadau i'r cynigion drafft/ Changes to draft proposals
ABER	ABERGWYNGREGYN	7	182	P1A	Dim Newid/ No Change	Dim / None	
BANGOR	DEWI	3	1397	T1G	Dim Newid/ No Change	Dim /None	
	GARTH	1	521	T1B			
	GLYDER	3	1294	T1H			
	HENDRE	3	1567	T1D, T1CA			
	HIRAEL	3	1360	T1F, T1CB			
	MARCHOG	4	1576	T1E			
	MENAI	3	1244	T1A			
BETHESDA	GERLAN	5	1171	R1C, R1AC	Dim Newid/ No Change	Dim /None	
	OGWEN	4	1240	R1AB			
	RACHUB	4	1097	R1B, R1AA			
BETWS GARMON	BETWS GARMON	8	177	H6A H6B	Cyfuno wardiau Betws Garmon a Rhyd Ddu, both wards part of Cyngor Gwynedd Waunfawr ward/ Combine Betws Garmon and Rhyd ddu wards, both wards in Waunfawr Cyngor Gwynedd ward		
BONTNEWYDD	BONTNEWYDD	11	871	G6A G6B	Cyfuno wardiau Castellmai a Llanfaglan, y ddau ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Bontnewydd/ Combine Castellmai a Llanfaglan wards, both wards part of Cyngor Gwynedd Bontnewydd ward	Dim / None	
CAERNARFON	DEHEUOL (PEBLIG)	4	1787	E1E, E1EC	Dim Newid/ No Change	Dim/ None	
	DWYRAIN (CADNANT)	3	1335	E1EA, E1ED			
				E1A, E1BA,			
	GOGLEDD (MENAI)	4	1774	E1BB, E1EB			
	HENDRE	3	1420	E1DB			
GORLLEWIN (CANOL TREF)		3	879	E1C, E1DA			
LLANBERIS	LLANBERIS	13	1555	B1B B1A	Cyfuno wardiau Llanberis a Nant Peris, dim angen wardiau yn y Gymuned/ Combine Llanberis and Nant Peris Wards, no need for wards in Communitiy	Cyngor Cymuned Llanberis wei gofyn am gael enw Nantperis yn rhan o'r enw swyddogol. / Llanberis Community Council has asked for Nantpris to be an official part of the name	Bydd angen dilyn proses statudol whanol ar gyfer gwneud hyn / This would be subject to a different statutory process
LLANDEINIOLEN	BETHEL	4	1035	A1E	Dim Newid/ No Change	Dim / None	
	BRYNREFAIL	1	244	A1D	Dim Newid/ No Change		
	DEINIOLEN	6	1425	A1A D0A	Cyfuno wardiai Deiniolen, Clwt y Bont a Dinorwic oherwydd y tri yn ward Deiniolen/ Combine Deiniolen, Clwt y Bont and Dinorwic because the three are in Deiniolen ward.		
				A1B			
				A1C			
PENISARWAUN A RHIWLAS		4	1140	A1F	Cyfuno wardiau Penisarwaun a Rhiwlas oherwydd y ddau yn ward Cyngor Gwynedd Penisarwaun/ Combine Penisarwaun a Rhiwlas because both in Penisarwaun Cyngor Gwyneddward		
				A1G			
LLANDWROG	CARMEL A CESAREA	5	663	J6C J6B	Cyfuno wardiau Carmel a Cesarea oherwydd y ddau yn ward Cyngor Gwynedd Tryfan / Combine Carmel and Cesarea because both are in the Tryfan Cyngor Gwynedd ward.	Angen newid enw Cesarea i Fron.Creu ward newydd 'Fron a Carmel'/ Change 'Cesarea' to 'Fron'.Create new ward 'Fron a Carmel'	Ddefnyddio'r enwau a argymhellir gan y cyngor cymuned / use names recommended by community council
	DINAS DINLLE A GROESLON	9	1417	J6E J6D	Cyfuno wardian Dinas Dinlle a Groeslon ohwrwydd y ddau yn ward Cyngor Gwynedd Llanwnda/ Combine Dinas and Groeslon because both in Cyngor Gwynedd Llanwnda ward	Ychwanegu enw Llandwrog. Creu ward newydd 'Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle' / Add name of Llandwrog. Create new ward - 'Groeslon, Llandwrog a Dinas Dinlle'	Ddefnyddio'r enwau a argymhellir gan y cyngor cymuned / use names recommended by community council
LLANDYGAI	LLANDYGAI	14	1974	S1A	Cyfuno wardiau Llandygai, St Anns a Tregarth, dim angen wardiau, y tri yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Tregarth/ Combine Llandygai, St Anns and Tregarth wards, no wards needed in the Community, all part of Tregarth Cyngor Gwynedd ward.	Cyngor Cymuned Llandygai - Dim pryderon o ran cyfuno'r wardiau yma - wardiau, y dair yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Tregarth / Llandygai Community Council - no concerns regarding combining theses wrads, all part of Tregarth Cyngor Gwynedd ward	
				S1C			
				S1B			
LLANLLECHID	LLANLLECHID	10	677	Q1B Q1A	Cyfuno wardiau Isaf a Uchaf, dim angen wardiau yn y Gymuned/ Combine Isaf and Uchaf wards, no need for wards in the Community	Dim / None	
LLANLLYFNI	LLANLLYFNI, NANTLLE A TALYSARN	8	1463	K1C	Cyfuno wardiau Llanllyfni, Nantlle a Talysarn oherwydd y tri yn ward Cyngor Gwynedd Llanllyfni/ Combine Llanllyfni, Nantlle and Talysarn, th three wards parts of Llanllyfni Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
				J7A			
				K1A			
	NEBO	1	254	K1E	Dim Newid/ No Change		
LLANRUG	PENYGROES	6	1365	K1B	Dim Newid/ No Change		
	CEUNANT A CWM Y GLO	6	768	C6D	Cyfuno wardiau Ceunant a Cwm y Glo oherwydd y ddau yn ward Cyngor GwyneddCwm y Glo/ Combine Ceuant and Cwm y glo because both in Cwm y Glo Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
	LLANRUG	8	1435	C6B C1A			
LLANWENDA	DIANS A RHOSTRYFAN	8	1106	I6D	Uno wardiau Dinas A Rhostryfan oherwydd y ddau yn ward Llanwnda/ Combine Dinas and Rhostryfan because both in Llanwnda Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
				I6B			
	RHOSGADFAN	4	496	I6A	Dim Newid/ No Change		
PENTIR	FAENOL/VAYNOL	8	1759	U1A	Dim Newid/ No Change	Dim / None	
	GLASINFRYN	4	517	U1B U1C			
WAUNFAWR	CAEATHRO	2	229	F6B	Dim Newid/ No Change	Dim / None	
	WAUNFAWR	9	894	F6A			
Y FELINHELI	Y FELINHELI	13	1787	D1A D2A	Dim Newid/ No Change	Dim / None	
		219	43095				

DWYFOR							
CYMNEDAU COMMUNITIES	WARDIAU CYNIGION DRAFFT WARDS DRAFT PROPOSALS	NIFER CYNGHORWYR NO OF COUNCILLORS	ETHOLWYR ELECTORS	DOSBARTHIAU AU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS	DISGRIFIAD O'R NEWID/ DESCRIPTION OF CHANGE	Ymatebion i'r Cynigion Drafft / Responses to Draft Proposals	Newidiadau i'r Cynigion drafft / Changes to Draft Proposals
ABERDARON	ABERDARON	12	739	PD6 PC6 PA6 PB6	Cyfuno wardiau Dwyrain, Gogledd a De, y tri ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Pen Draw Llyn/ Combine East,North and South ward, the three wards are part of Pen Draw Llyn Cyngor Gwynedd ward.	Dim / None	
BEDDGELERT	BEDDGELERT	9	385	BA6	Dim newid/ No change	Dim / None	
BOTWNNOG	BOTWNNOG	11	783	OA6 OB6 OC6 OD6	Cyfuno wardiau Bryn croes, Sarn a Botwnnog, y tri ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Pen Draw Llyn/ Combine Bryn croes, Sarn and Botwnnog, the three ward are part of Pen Draw Llyn Cyngor Gwynedd ward.	Dim / None	
BUAN	BUAN	11	386	LA6 LB6 LC6	Cyfuno wardiau Bachellaeth, Ceidio a Buan, y tri ward yn war Cyngor Gwynedd Buan/ Efailnewydd/ Combine Bachellaeth, Ceidio and Buan, the three wards part of Efailnewydd/ Buan Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
CLYNNOG	CLYNNOG	13	794	AB6 AC6 AA6	Cyfuno wardiau Beuno, Derwin a Lleuar, y tri ward yn ward Cygnor Gwynedd Clynnog/ Combine Beuno, Derwin and Lleuar ward, the three ward part of Clynnog Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
CRICCIETH	CRICCIETH	12	1334	EA1	Dim newid/ No change	Cyngor Tref yn cymerdwyo'r fraith nad oes newid sy'n effeithio Criccieth. / Town Council approve fact that no changes proposed	
DOLBENMAEN	DOLBENMAEN	14	920	CB6 CA6 CC6 CE6 CF6	Uno Golan, Penmorfa, Treflys, Bryncir a Dolbenmaen oherwydd mae y pedwar yn ward Dolbenmaen/ Combine Golan, Penmorfa, Treflys, Bryncir and Dolbenmaen	Aelod Cyngor Gwynedd Ward Dolbenman - dim gwrthwynebiad ar y ddealltwriaeth bod y trefniadau presennol ar gyfer gorsafoedd pleidleisio yn parhau / No objections on the understanding that the current arrangements for polling stations continue.	
	PRENTEG	2	92	CD6	Dim newid, Prentet yn ward Cyngor Gwynedd Glaslyn/ No change, Prenteg in Glaslyn Cyngor Gwynedd ward		
TREFOR A LLANAELHAEARN	TREFOR A LLANAELHAEARN	12	802	GB6 GA6	Cyfuno wardiau Trefor a Llanaelhaearn, y ddau ward yn ward Cyngor sir Yr Eifl/ Combine Trefor and Llanaelhearn ward, both wards in the Cyngor Gwynedd Yr Eifl ward	Dim / None	
LLANBEDROG	LLANBEDROG	11	690	KA6	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANENGAN	LLANENGAN	13	1430	RA1 QB6 QC6	Cyfuno wardiau Llanengan, Llangian ac Abersoch, y dair ward yn ward Cyngor Gwynedd / Combine Llanengan, Llangian and Abersoch, all three within Llanengan Cyngor Gwynedd ward.	Cyngor Cymuned - dim gwrthwynebiad i uno'r wardiau / Community Council - no objection to combining the wards	
LLANNOR	ABERERCH A Y FFOR	14	1672	ID6 IA6	Cyfuno wardiau Abererch a Y Ffor oherwydd y ddau yn ward Cyngor Gwynedd Abererch/ Combine Abererch and Y Ffor ward because both in Cyngor Gwynedd Abererch ward	Dim / None	
	EFAILNEWYDD A PENTREUCHAF			IB6 IC6	Cyfuno wardiau Efailnewydd a Pentreuchaf oherwydd mae y mae yn ward Cyngor Gwynedd Efailnewydd/ Buan/ Combine Efailnewydd and Pentreuchaf ward because both in Efailnewydd/Buan Cyngor Gwynedd Ward		
LLANYSTUMDWY	LLANYSTUMDWY	15	1587	FC6 FD6 FA6 FB6	Cyfuno wardiau Llanarmon, Llangybi, Llanystumdwy a Rhoslan, y pedwar ward yn ward Cyngor Gwynedd Llanystumdwy/ Combine Llanarmon, Llangybi, Llanystumdwy and Rhoslan wards, four wards part of Llanystumdwy Cyngor Gwynedd ward	Cyngor Cymuned Llanystumdwy am gadw'r wardiau reit ag y maent, er mwyn parhau i gael trawsdoriad ar gyfer y gymuned i gyd. / Llanystumdwy Community Council wishes to keep the current wards in order to secure a reprentative cross-section	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
NEFYN	MORFA NEFYN AC EDERN	8	972	MC6	Uno wardiau Morfa Nefyn a Edern oherwydd y ddau yn ward Cyngor Gwynedd Morfa Nefyn a Thudweiliog/ Combine Morfa Nefyn and Edern ward, both in Morfa Nefyn a Thydweiliog Cyngor Gwynedd Ward	Cyngor tref yn dymuno cadw'r trefniadau presennol / Town Council wishto keep current arrangements	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
	NEFYN	7	981	MB6 MA6	Dim newid/ No change		
PISTYLL	PISTYLL	10	420	HC6 HA6 HB6	Cyfuno wardiau Llithfaen, Pistyll a Carnguwch, y tri yn rhan o ward Cyngor Gwynedd yr Eifl/ Combine Llithfaen, Pistyll and Carnguwch/ Combine Llithfaen, Pistyll and Carnguwch wards, the three wards part of Yr Eifl Cyngor Gwynedd ward.	Dim / None	
PORTHMADOG	DWYRAIN/EAST	4	758	DD6	Dim newid / No change	Dim / None	
	GEST	2	278	DA6			
	MORFA BYCHAN	1	473	DC6			
	TREMADOG	3	455	DE6			
	GORLLEWIN/WEST	3	576	DB1			
	YNYS GALCH	3	450	DF6			
PWLLHELI	GOGLEDD/NORTH	7	1573	JA1	Dim newid/ No change	Dim / None	
	DE/SOUTH	8	1339	JB1			
TUDWEILIOG	DINAS	5	328	NB6	Cyfuno wardiau Dinas, Llangwnnadi a Tudweiliog, y tri ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Morfa Nefyn a Thudweiliog/ Combine Dinas, Llangwnnadi and Tudweiliog, three ward part of Morfa Nefyn and Thudweiliog ward	Dim / None	
	LLANGWNNADL	2	122	NC6			
	TUDWEILIOG	5	264	NA6			
		217	20603				

MEIRIONNYDD							
CYMUNEDAU COMMUNITIES	WARDIAU - CYNIGION DRAFT WARDS - DRAFT PROPOSALS	NIFER CYNGHORWYR NO.OF COUNCILLORS	ETHOLWYR ELECTORS	DOSBARTHIADAU PLEIDLEISIO POLLING DISTRICTS	DISGRIFIAD O'R NEWIDIADAU / DESCRIPTION OF CHANGES	Ymatebion i'r Cynigion Drafft / Responses to Draft Proposals	Newidiadau i'r Cynigion drafft / Changes to Draft Proposals
ABERDYFI	ABERDYFI	11	710	B2 B1	Cyfuno wardiau Dyfi a Abertafol, y ddau yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Aberdyfi/ Combine Dyfi a Abertafol wards, both part of Cyngor Gwynedd Aberdyfi ward	Dim / None	
ABERMAW	ABERMAW	13	1650	AG2 E1 E3 E4	Dim newid/ No change	Dim / None	
ARTHOG	ARTHOG	10	824	AB2 AR1 AB1 I5	Cyfuno wardiau Friog a Islaw'r Dre, y ddau ward yn rhan o ward Arthog a Llangelynnin/ Combine Friog and Islaw'r Dre ward, both part of the Arthog and Llangelynnin Cyngor Gwynedd ward.	Cyngor Cymuned o blaid cadw'r trefniadau presennol gan eu bod yn gweithio'n dda ar gyfer y tri pentref/ Community Council wish to keep the current arrangements as they seem to work well for all three villages	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
BALA	BALA	12	1423	D1	Dim newid/ No change	Dim / None	
BRITHDIR A LLANFACHRETH	BRITHDIR A LLANFACHRETH	12	627	AM2 AQ1 AM1 R1	Cyfuno wardiau Machreth a Brithdir, y ddau ward yn rhan o ward Cyngor Gwynedd BRITHDIR A LLANFACHRETH/ GANLLWYD/ LLANELLYD/ Combine Machreth and Brithdir wards, both part of BRITHDIR A LLANFACHRETH/ GANLLWYD/ LLANELLYD Cyngor Gwynedd ward	Dim / None	
BRYNCRUG	BRYNCRUG	9	500	AP1	Dim newid/ No change	Dim / None	
CORRIS	CORRIS	9	532	A2	Dim newid/ No change	Dim / None	
DOLGELLAU	GOGLEDDOL/NORTHERN DEHEUOL/SOUTHERN	7 7	1079 979	I3A, I3B I4	Dim newid/ No change	Dim / None	
DYFFRYN ARDUDWY	DYFFRYN ARDUDWY	12	1227	E5 J1 J2	Cyfuno wardiau Llanddwywe a Llaneddwyn, y ddau yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy / Combine Llanddwywe and Llaneddwyn, both part of the Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy ward	Aelod Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy o blaid cynnig y cyngor i uno'r ddwy ward / Cyngor Gwynedd Dyffryn Arudwy member in favour of community council's proposal to combine both wards	
FFESTINIOG	BOWYDD A TANYGRISIAU	6	1300	M1 Y1	Cyfuno wardiau Bowydd a Tangrisiau, y ddau ward yn Ward Cyngor Gwynedd Bowydd/ Combine Bowydd and Tanygrisiau wards, both in Cyngor Gwynedd Bowydd ward.	Aelod Cyngor Gwynedd Dyffryn Ardudwy o blaid cynnig y cyngor i uno'r ddwy ward / Cyngor Gwynedd Dyffryn Arudwy member in favour of community council's proposal to combine both wards	
	TEIGL A CONGLYWAL	5	1373	F1A, F1B K1	Cyfuno wardiau Teigl a Conglywal, y ddau ward yn Ward Cyngor Gwynedd Teigl/ Combine Teigl and Conglywal wards, both in Cyngor Gwynedd Teigl ward.		
	DIFFWYS/MAENOFFEREN	5	763	L1	Dim newid/ No change		
GANLLWYD A LLANELLYD	GANLLWYD A LLANELLYD	16	526	AA2 AJ1 R2 AG1 AJ2	Cyfuno Cyngorau Cymuned Ganllwyd a Llanelltyd/ Combine Ganllwyd and Llanelltyd Community Council	Cyngor Cymuned o blaid cadw'r trefniadau presennol gan eu bod yn gweithio'n dda ar gyfer y tri pentref/ Community Council wish to keep the current arrangements as they seem to work well for all three villages	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
HARLECH	HARLECH	12	1139	N1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANBEDR	LLANBEDR	9	449	AE1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANDDERFEL	LLANDDERFEL	13	841	AK1 O1 AN1 D2	Cyfuno wardiau Llan y Betws a Llanfor, y ddau yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Llandderfel/ Combine Llan y Betws and Llanfor wards, both part of Cyngor Gwynedd Llandderfel wards	Dim / None	
LLANEGRYN	LLANEGRYN	7	253	Q1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANFAIR	LLANFAIR	8	347	AU1 N2	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANFIHANGEL Y PENNANT	LLANFIHANGEL Y PENNANT	8	280	A1 AP2 C1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANFROTHEN	LLANFROTHEN	8	342	S1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANGELYNIN	LLANGELYNIN	10	562	AV1 V1	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANGYWER	LLANGYWER	7	210	D4 U1 D3	Cyfuno wardiau Cwm y Glyn a Gwalia, y ddau yn rhan o ward Llandderddel Cyngor Gwynedd/ Combine Cwm y Glyn and Gwalia wards, both part of Llandderddel Cyngor Gwynedd ward	Aleodau Cyngor Gwynedd Llanuwchllyn a Llangywer a Llandderfel a Chyngor Cymuned Llangywer o blaid cadw'r wardiau presennol - / Cyngor Gwynedd members for Llanuwchllyn a Llangywer and Llandderfel Community Council in favour of keeping arrangements as they are.	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
LLANUWCHLLYN	LLANUWCHLLYN	11	468	U2	Dim newid/ No change	Dim / None	
LLANYCIL	LLANYCIL	9	333	D5	Dim newid/ No change	Dim / None	
MAENTWROG	MAENTWROG	9	461	AD1 AO1 Y2	Dim newid/ No change	Dim / None	
MAWDDWY	MAWDDWY	11	511	AT1 H2 AS1 H1	Cyfuno wardiau Aberangell, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy, y tri yn rhan o ward Cyngor Gwynedd Corris/Mawddwy/ Combine Aberangell, Dinas Mawddwy a Llanymawddwy, the three part of the Cyngor Gwynedd Corris/Mawddwy ward	Dim sylwadau penodol i'w cynnig gan y Cyngor Cymuned, ymddangos na fyddai'r newidiadau yn newid urnhyw agwedd o sut yn ymarferol mae'r cyngor yn gweithredu / Community Council had no specific comments to offer, it appeared that the changes would not change how the council would work in practice	
PENNAL	PENNAL	7	287	W1	Dim newid/ No change	Dim / None	
PENRHYNDEUDRAETH	PENRHYNDEUDRAETH	12	1545	X1	Dim newid/ No change	Dim/None	
TALSARNAU	TALSARNAU	10	452	AF1	Dim newid/ No change	Dim / None	
TRAWSFYNYDD	TRAWSFYNYDD	12	669	AA1	Dim newid/ No change	Dim / None	
TYWYN	DWYRAIN GORLLEWIN/ EAST WES	7	1161	Z3 Z2	Cyfuno wardia Gorllewin a Dwyrain, y ddau yn Ward Gorllewin Cyngor Gwynedd/ Combine Gorllewin and Dwyrain ward, both in Cyngor Gwynedd Gorllewin ward	Aelod Cyngor Gwynedd Gorllewin Tywyn/ aelod o'r cyngor tref yn gwrthwyenbu'r newid - gofynion dwyrain Tywyn yn whanol i rai'r dref a dylai aros fel un endyd.Mae'r ward yn wedig ag yn haeddu llais o'r ardal. Dylid cadw'r wardiau presennol / Cyngor Gwynedd member for Gorllewin Tywyn and twon council member objects to proposed change - Dwyrain Tywyn should remain as a single entity as their needs are different to the ones in the town. The area is rural and deserves a voice from the area. The three wards should remain the same.	cadw'r trefniadau presennol / keep present arrangements
	MORFA	6	1395	Z1	Dim newid/ No change		
		304	23823				

Mapiau Newid Ffiniau Cymunedol/ Community Boundary Changes Maps**Ffordd Heulyn Y Felinheli – Map Cyfredol o'r Ffin / Current Map of Boundary – Section 25****Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed Change to Boundary**

Cynnig i newid y ffin rhwng Cyngor Cymuned Y Felinheli a Pentir. Y newid yn sicrhau fod trigolion Ffordd Heulyn i gyd yn pleidleisio yn Y Felinheli. Ar hyn o bryd, rhan o'r stryd yn pleidleisio yn Penrhosgarnedd / Proposal to change the boundary between Y Felinheli Community Council and Pentir Community Council. The amendment enables electors from Ffordd Heulyn to all vote in Y Felinheli. Currently, part of the street votes in Penrhosgarnedd.




Ymateb i'r Cynnig Drafft / Responses to the Draft Proposal

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion / No responses received

Argymhellaid Terfynol / Final Recommendation


Newid y ffin fel y nodir uchod / Change the boundary as described above

Fferm Rhyd Y Garnedd, Llanegryn, LL36 9LG – Map Ffin cyfredol /Current Boudary Map – Section 25



Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed Change to Boundary

Cynnig newid ffin rhwng Cymuned Llanegryn a Cymuned Tywyn fel bod tir sydd yn berchen i Fferm Rhyd y Garnedd i gyd yn rhan o Gymuned Llanegryn. / Proposal to change the boundary between the Community of Llanegryn and the Community of Tywyn so that the land belonging to Rhyd y Garnedd Farm is all part of the Community of Llanegryn.



Ymateb i'r Cynnig Drafft / Responses to the Draft Proposal

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion / No responses received

Argymhellaid Terfynol / Final Recommendation


Newid y ffin fel y nodir uchod / Change the boundary as described above

Fferm Pant y Buarth Brynrefail – Map o'r ffin cyfredol/ Map of current boundary - Section 31



Cynnig newid i'r ffin/ Proposed changes to Boundary

Cynnig i addasu y ffin rhwng Brynrefail a Clwt-y-bont fel bod etholwyr Fferm Pant y Buarth yn medru pleidleisio yn Brynrefail. / A proposal to adjust the boundary between Brynrefail and Clwt-y-bont allowing the electors of Pant y Buarth Farm to vote in Brynrefail.



Ymateb i'r Cynnig Drafft / Responses to the Draft Proposal

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion / No responses received

Argymhellaid Terfynol / Final Recommendation

Newid y ffin fel y nodir uchod / Change the boundary as described above

Llwyn Bedw Rachub/Llanllechid – Map y Ffin cyfredol/ Current boundary map – Section 25



Cynnig Newid i'r Ffin/ Proposed change to Boundary

Cynnig i addasu y ffin rhwng Cyngor Cymuned Llanllechid a Bethesda fel bod trigolion Llwyn Bedw i gyd yn rhan o Gymuned Bethesda. Ar hyn o bryd rhaid i drigolion rhan or stad bleidleisio yn Llanllechid/ Proposal to adjust the boundary between Llanllechid Community and Bethesda so that the residents of Llwyn Bedw are all part of the Bethesda Community. Currently, residents of part of the estate are required to vote in Llanllechid.



Ymatebion i'r Cynnig Drafft	Responses to the Draft Proposal
<u>Cyngor Cymuned Bethesda</u> Dim pryderon gwirioneddol i'r newidiadau yma. Mae'r Cyngor Cymunedol yn eisiau annog Cyngor Gwynedd i gweithio gyda thrigolion cyn penderfynu ar y ffin terfynol i sicrhau fod y tai / gerddi / tir cywir yn cael ei roi yn yr ward Rachub hefyd. Dyma oedd yr 2 sylwad o'r thrigolion lleol:· Fod cost treth cyngor yn debygol o godi tua £20 y flwyddyn wrth symud o ward Llanllechid i ward Rachub.· Bydd posib pleidleisio yn agosach wedyn (yn lle mynd i Talybont).	<u>Bethesda Community Council</u> No real concerns as to these changes. The Community Council wants to encourage Gwynedd Council to work with residents before deciding on the final boundary to ensure that the right houses/gardens/land are also placed in the Rachub ward. Here were the 2 comments from the local residents:· That the cost of council tax is likely to rise by around £20 a year when moving from the Llanllechid ward to the Rachub ward.· It will be nearer to go to go to vote afterwards (instead of going to Talybont).
<u>Cynghorydd Cymuned Bethesda – Ward Rachub</u> Mae angen addasu llinell y ffin newydd. Llinell ddrafft oedd yr un flaenorol a gyflwynwyd Mi fuasai addasu'r ffin i ddilyn y linell goch uchod yn sicrau bod Cae Rhosydd, Llwyn Bedw (i gyd) a tir ger Bron Arfon yn ddarn o ward Rachub. Buasai'r llinell yma yn creu ffin daclus rhwng y ddwy ward a sicrhau nad yw gerddi ayyb yn cael ei rhannu rhwng dwy ward.	<u>Bethesda Community Councillor – Rachub Ward</u> The new boundary line needs to be adjusted. The previous one put forward was a draft line. Adjusting the boundary to follow the red line above would ensure that Cae Rhosydd, Llwyn Bedw (all) and land near Bron Arfon are part of the Rachub ward. This line would create a neat boundary between the two wards and ensure that gardens etc are not split between two wards.
<u>Cynghorydd Cyngor Gwynedd Ward Rachub</u> Mae stad Llwyn Bedw yn ddaearyddol yn rhan o bentref Rachub, rhan o gymuned Bethesda, gyda dau dŷ o fewn ffiniau'r gymuned a'r gweddill tu allan i'r ffin, yng nghymuned Llanllechid. Mae trigolion y ddau dŷ yn pleidleisio yn Rachub, ryw 100 metr i ffwrdd a thrigolion gweddill y stad yn Nhalybont, ryw ddwy filltir i ffwrdd. Mae'r cynnig yn cysoni hyn, gan ddod â phawb ar y stad o fewn ffin Bethesda ac rwy'n croesawu hynny. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y ffin arfaethedig yn mynd trwy gae tu ôl i'r stad. Mae'r cae dan ystyriaeth ar hyn o bryd ar gyfer dynodiad fel safle ymgeisiol ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol nesaf. Petai'r cae yn cael ei ddatblygu, gallai stad newydd o dai gael ei rhannu rhwng y ddwy gymuned. Dylid	<u>Gwynedd Member for Rachub Ward</u> The Llwyn Bedw estate is geographically part of the village of Rachub, part of the community of Bethesda, with two houses within the community boundaries and the remainder outside the boundary, in the community of Llanllechid. Residents of both houses vote in Rachub, about 100 metres away, and residents of the rest of the estate in Talybont, about two miles away. The proposal reconciles this, bringing everyone on the estate within the Bethesda boundary and I welcome that. Nevertheless, the proposed boundary appears to pass through a field behind the estate. The field is currently under consideration for designation as a candidate site for housing in the next Local Development Plan. Should the field be developed, a new housing estate could be shared between the two communities.

ystyried cynnwys y cyfan o'r cae hwn o fewn cymuned Bethesda. Mae stad newydd o dai, Cae Rhosydd, wedi cael ei datblygu wrth ymyl Llwyn Bedw. Fel y rhan fwyaf o Llwyn Bedw, mae'r stad hon hefyd yn ddaearyddol yn rhan o bentref Rachub, ond fe'i lleolir tu hwnt i ffiniau cymuned Bethesda. Mae'r trigolion yn gorfod teithio i Dalybont i bleidleisio, yn lle Rachub. Rwy'n argymhell y dylai'r stad hon hefyd gael ei chynnwys o fewn cymuned Bethesda. Yn ogystal â'r tai presennol yn Llwyn Bedw a Chae Rhosydd, dwi'n awgrymu tynnu llinell y ffin i gynnwys y safle posib [cyfeirnod 127 Cofrestr Safleoedd Posib, Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039] rhag ofn iddo gael ei ddynodi ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol newydd.	Consideration should be given to the inclusion of all of this field within the community of Bethesda. A new housing estate, Cae Rhosydd, has been developed next to Llwyn Bedw. Like most of Llwyn Bedw, this estate is also geographically part of the village of Rachub, but is located beyond the boundaries of the community of Bethesda. Residents have to travel to Talybont to vote, instead of Rachub. I recommend that this estate should also be included within the community of Bethesda. In addition to the existing houses at Llwyn Bedw and Cae Rhosydd, I suggest drawing the boundary line to include the potential site [ref. 127 Register of Potential Sites, Gwynedd Local Development Plan 2024-2039] in case it is designated for housing in the new Local Development Plan.
Cynnig Terfynol Addasu'r ffin i gynnwys, o fewn cymuned Bethesda (ward Rachub), y tai presennol yn ystadau Llwyn Bedw, Cae Rhosydd ynghyd a safle 127 yng Nghofrestr Safleoedd Posib, Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd 2024-2039. (Gweler map atodol)	Final Proposal To modify the boundary to include, within the community of Bethesda (Rachub ward), the existing houses of the Llwyn Bedw, Cae Rhosydd estates together with site 127 in the Gwynedd Local Development Plan Register of Potential Sites 2024-2039 (see appended map)

Cyfuno cymunedau Llanelltyd a Ganllwyd i sefydlu cymuned newydd.

Cynnig Drafft

Byddai'r cymunedau presennol yn cael eu diddymu gan sefydlu ardal gymuned a chyngor cymuned newydd.

Ymateb i'r Cynnig Drafft

Yn dilyn gohebiaeth bellach gyda'r cynghorau cymuned dellir nad oes bellach ddymuniad i uno'r cymunedau. Nododd Cyngor Cymuned Ganllwyd yn benodol ei fod yn yn gwrthwynebu'n gryf unrhyw fath o gyfuniad o'r fath gyda'i cyngor cyfagos sef Llanelltyd/Bontddu.

Cynnig Terfynol

Gwnaed y cynnig ar sail dealltwriaeth ar y pryd mai dyma oedd y dymuniad o fewn y ddau gyngor cymuned. Yn sgil y wybodaeth bellach, mae'r cynnig yma yn cael ei dynnu yn ôl

Combining the communities of Llanelltyd and Ganllwyd to form a new community.

Draft Proposal

The existing communities would be dissolved and a new community and council would be established.

Response to Draft Proposal


Following further correspondence with the community councils it is clear that there is no longer a desire to merge the communities. Ganllwyd Community Council specifically stated that it strongly objected to any such amalgamation with its neighbouring Llanelltyd/Bontddu council.

Final Proposal

The proposal was made on the basis of an understanding at the time that this was the wish within both community councils. In light of further information, this proposal is being withdrawn


Newid Ffiniau Wardiau Cymunedol (adran 31) / Changes to Community Ward Boundaries

Maes Terfyn Edern – Map y Ffin Cyfredol / Current map of Boundary



Cynnig Newid i'r ffin y ward gymunedol (adran 31) / Proposed Change to Community Ward Boundary (section 31)

Cynnig i symud y ffin rhwng wardiau Edern a Morfa Nefyn ar Gyngor Tref Nefyn. Y newid yn galluogi i drigolion Maes Terfyn i gyd bleidleisio yn Forfa Nefyn. Ar hyn o bryd hanner y stad yn gorfod mynd i Edern i bleidleisio. Proposal to move the border between Edern and Morfa Nefyn wards on Nefyn Town Council. The change enables all residents of Maes Terfyn to vote in Morfa Nefyn. Currently half of the estate has to go to Edern to vote.




Ymateb i'r Cynnig Drafft / Responses to the Draft Proposal

Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion / No responses received

Argymhellaid Terfynol / Final Recommendation

Newid y ffin fel y nodir uchod / Change the boundary as described above


Map Gwynedd



2025-09-24

Gwynedd

1:3,237





Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref FM -/10439/24

Mair Eirian Roberts
Cyngor Gwynedd

eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru

24 Mehefin 2025

Annwyl Eirian,

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 30 Hydref ynglŷn â sefydlu Dydd Gŵyl Dewi yn ŵyl y banc yng Nghymru. Hoffwn ymddiheuro'n ddiffuant am yr oedi cyn ymateb.

Byddwch eisoes yn gwybod am ein huchelgais hirsefydlog i Ddydd Gŵyl Dewi fod yn ŵyl gyhoeddus yng Nghymru. Rydym yn rhannu eich dyhead i Gymru ddathlu ein diwrnod cenedlaethol fel y mae'r Alban a Gogledd Iwerddon yn ei wneud, ac rydym wedi ymrwymo o hyd i geisio sicrhau bod y pŵer perthnasol yn cael ei ddatganoli er mwyn ein galluogi ni i gyflawni hyn. Rydym yn parhau i drafod gyda Llywodraeth y DU.

Yn gywir,

Eluned Morgan

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru
Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.